Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>9 CHWEFROR, 2021 am 9.30 o'r gloch yb** | **TUESDAY,<br>9 FEBRUARY, 2021 at 9.30 a.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD)** | **VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor    Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 22 Hydref, 2020.
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 10 Tachwedd, 2020.

4 **ADRODDIAD CYNNYDD GWE - RHAGLEN WAITH A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID 19** (Tudalennau 19 - 230)

- Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: cefnogaeth i ysgolion yn ystod pandemig Covid 19;
- Adroddiad cylch gorchwyl Estyn parthed gwaith yr Awdurdod i gefnogi cymunedau dysgu mewn ysgolion ers Mawrth 2020.

5 **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID (ADRODDIAD YMGYNGHORI)** (Tudalennau 231 - 314)

Cyflwyno adroddiad gan Arweinydd Tîm Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn mewn perthynas ar uchod.

6 **RHAGLEN WAITH AR GYFER 2020/21** (Tudalennau 315 - 322)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Trefor Ll Hughes, Kenneth P Hughes, Vaughan Hughes, Robert Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts<br><br>Mrs Anest Frazer – Yr Eglwys yng Nghymru<br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws – Arweinydd y Cyngor - Aelod Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones – Aelod Portffolio (Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry, OBE, FRAgS – Aelod Portffolio (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (MPE)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Sgriwtini<br>Swyddog Sgriwtini<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts<br>Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd)<br>Y Cynghorydd Alun Mummery – Aelod Portffolio (Tai a Chefnogi Cymunedau) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar Zoom. Diolchodd i'r Rheolwr Sgriwtini a'r Swyddog Sgriwtini am eu cymorth ac am drefnu'r hyfforddiant ar Zoom yn ddiweddar.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3. COFNODION

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 21 Medi 2020.

## 4. PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai – adroddiad gan yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd ar weithgareddau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ystod 2019/20.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor fod y Bartneriaeth yn bartneriaeth statudol rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Atgoffodd y Pwyllgor am y toriadau ariannol y mae'r Bartneriaeth wedi eu hwynebu. Dywedodd fod y strwythurau diogelwch cymunedol yn cael eu gosod yn rhanbarthol erbyn hyn, ac yr ymdrechir i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu. Cynhaliwyd gweithdai gyda swyddogion tai i roi sylw i'r mater hwn ac i symud ymlaen o fewn y Bartneriaeth.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod partneriaeth statudol wedi bodoli rhwng Ynys Môn a Gwynedd am 22 mlynedd. Mae ymrwymiad ac ymgysylltiad y Bartneriaeth yn amlwg o'r presenoldeb llawn mewn cyfarfodydd. Dywedodd fod y gwaith yn parhau i ddatblygu er bod y Bartneriaeth wedi colli nifer o grantiau a swyddi cydlynwyr lleol.

Mae'r Bartneriaeth yn gweithio tuag at y blaenoriaethau a ganlyn:-

- Lleihau troseddau a chanddynt ddioddefwyr;
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag dod yn ddioddefwyr trosedd;
- Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig;
- Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol;
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal;
- Lleihau aildroseddu.

Nodwyd fod y Swyddfa Gartref yn cymharu troseddau ac yn eu mesur yn ôl ardaloedd demograffig, a chyflwynir y canlyniadau i'r Bartneriaeth bob chwarter. Yn ystod y cyfnod clo, cyflwynwyd ffigyrau i'r Bartneriaeth bob 2-3 wythnos i sicrhau fod gwybodaeth gyfredol ar gael.

Nodwyd hefyd fod gostyngiad o 29% yn nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod i'r Heddlu amdanynt yng Ngogledd Cymru, a gostyngiad o 24.6% yn Ynys Môn a Gwynedd rhwng mis Mawrth a mis Mai eleni. Gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt ym mis Mehefin a Gorffennaf

ac erbyn mis Medi roedd nifer y troseddau a gyflawnwyd yn debyg i'r niferoedd a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Cofnodwyd cynnydd mewn troseddau stelcian ac aflonyddu a throseddau casineb, gyda'r olaf yn arwain at gam-drin geiriol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Bartneriaeth yn edrych ar baratoi ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd mai'r brif her a wynebwn heddiw yw newidiadau yn y math o droseddau a welir yn ein cymunedau. Erbyn hyn mae troseddu yn llawer mwy pellgyrhaeddol a chymhleth ac mae technoleg yn caniatáu troseddau ymelwa. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig a chafwyd dwy lofruddiaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Tynnwyd sylw at y ffaith y rhoddwyd blaenoriaeth i ddinasyddion digartref yn ystod y cyfnod clo ac o'r herwydd bu cynnydd yn nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng yr Adran Dai a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:-

- Gofynnwyd sut mae'r Bartneriaeth Statudol yn cefnogi ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y Bartneriaeth? Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod ymrwymiad y Bartneriaeth yn gadarn a bod cydweithio ardderchog yn digwydd o fewn y Bartneriaeth. Mae hyn yn amlwg o'r ceisiadau ariannol a gyflwynwyd gan y Cyngor yn ddiweddar, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd i faterion gwrthgymdeithasol.
- Codwyd pryderon ynghylch a wnaed unrhyw gynnydd wrth frwydro yn erbyn Llinellau Sirol (County Lines). Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Bartneriaeth yn defnyddio strwythurau sydd mewn lle ac yn rhannu gwybodaeth i atal troseddau. Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd wythnosol rhwng y Bartneriaeth a'r Heddlu'n cael eu cynnal.
- Cyfeiriwyd at broblem gynyddol troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cyngor yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu ac i ddefnyddio pwerau Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Nodwyd nad oes ystadegau ar droseddau cyllyll ar gael ar hyn o bryd, ond mae nifer cyffredinol y troseddau yn sefydlog.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y cynnydd mewn troseddau a gyflawnwyd dros y ffôn a thwyll ar-lein. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Bartneriaeth yn defnyddio technoleg i dynnu sylw at droseddau o'r fath, a pha mor hawdd yw cyflawni'r troseddau hyn o bell. Nodwyd fod adran Safonau Masnach y Cyngor wedi nodi achosion o droseddau seibr ac wedi codi ymwybyddiaeth yn eu cylch, ac fe'i rhannwyd â'r Bartneriaeth.
- Gofynnwyd a fu'n rhaid newid blaenoriaethau'r Bartneriaeth yn ystod y misoedd diwethaf? Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai nad oedd neb yn gwybod am yr effaith y byddai Covid-19 yn ei gael pan osodwyd y blaenoriaethau, ac y bu'n rhaid i'r Bartneriaeth addasu ei ddulliau gweithio. Mae'r Bartneriaeth wedi blaenoriaethu a delio gyda sefyllfaoedd wrth iddynt godi yn ystod y cyfnod clo ac wedi cynnal gweithdai i drafod materion pwysig. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Bartneriaeth

wedi defnyddio data gan yr Heddlu a gwybodaeth o 'du ôl i ddrysau caeedig', e.e. trais yn y cartref. Dywedodd fod adnoddau o'r ddau awdurdod a'r Heddlu wedi cael eu dwyn ynghyd drwy'r Bartneriaeth er mwyn ymateb i'r heriau sy'n bodoli, gan fod yr angen wedi cynyddu. Mae'r ffocws wedi newid oherwydd natur y troseddau a chafodd ei addasu oherwydd Covid-19.

- Codwyd pryderon ynghylch cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant iau, oedran ysgol gynradd ers y cyfnod clo. Nodwydd fod pobl ofn rhoi gwybod i'r Heddlu am droseddau o'r fath oherwydd eu bod ofn dial. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei bod yn bwysig symud ymlaen a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion. Nodwyd fod swyddogion yn gweithio â phlant penodol, ac yn eu targedau, a bod athrawon yn hyrwyddo ymddygiad da.
- Gofynnwyd a gafodd tensiynau mewn perthynas ag ymwelwyr â'r ardal yn ystod y cyfnod clo eu monitro ac a gymerwyd camau i ddelio â nhw? Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod cyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng y Cyngor a'r Heddlu ar ddechrau'r cyfnod clo i ddelio gyda thensiynau pan godwyd nifer o faterion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod Cynghorau lleol wedi ymateb. Dywedodd mai'r ffordd ymlaen yw nodi'r tensiynau yn gynnar, a chymryd camau mewn perthynas â phob sefyllfa cyn iddi ddatblygu'n broblem. Wedi profi cyfnod clo, mae gweithdrefnau mewn lle yn awr i ddelio â'r problemau hyn wrth iddynt godi, ac mae trefniadau mewn lle i gynnal cyfarfodydd rheolaidd.
- Gofynnwyd am eglurder ynghylch sefyllfa bresennol y banciau bwyd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod pedwar banc bwyd yn gweithredu ar draws yr ynys yn ystod y cyfnod clo - yng Nghaergybi, Llangefni, Amlwch a Phorthaethwy. Dywedodd fod y banc bwyd ym Mhorthaethwy wedi cau yn awr a bod y tri banc bwyd arall yn gwasanaethu'r ynys gyfan. Nododd fod y sefyllfa'n sefydlog iawn ar hyn o bryd, ac mae digon o gyflenwadau bwyd ac arian wrth gefn pe byddem yn wynebu ail don o Covid-19.
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch oblygiadau ariannol Covid-19 ar y Bartneriaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai nad oedd y manylion ariannol wrth law ond y byddai'n edrych ar y sefyllfa.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.**
- **Cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.**
- **Y Pennaeth Gwasanaethau Tai i edrych ar sefyllfa ariannol bresennol y Bartneriaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.**

**5. PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar y cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Adroddodd y Cadeirydd fod eleni wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r ysgolion, gan y bu'n rhaid iddynt newid eu ffordd o weithio ac addasu i fod yn

Ganolfannau Gofal ar gyfer plant bregus. Pwysleisiwyd nad oedd yr un ysgol wedi cau yn ystod y cyfnod clo, a bod y Gwasanaeth Dysgu, Prifathrawon ysgolion Ynys Môn a'r Fforymau Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd wedi cyflawni canlyniadau llwyddiannus rhyngddynt.

Dywedodd y Cadeirydd fod gwaith y Panel o fonitro safonau mewn ysgolion unigol a chynnal cyfarfodydd wedi cael ei ohirio yn ystod y cyfnod clo. Nodwyd fod cyfarfodydd y Panel wedi ailddechrau ar 24 Medi 2020.

Adroddodd y Cadeirydd ei bod yn amlwg y bu cydweithio rhwng y Gwasanaeth Dysgu, GwE ac ysgolion yn llwyddiannus. Cyfeiriodd at gyflwyniad ardderchog gan Ysgol Gynradd y Fali ar Teams a gafodd dderbyniad da. Defnyddiodd Ysgol Gynradd y Fali dechnoleg Teams i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod clo, mewn ymgais i ganfod unrhyw bryderon posib neu faterion diogelu, ac fel dull o gadw mewn cysylltiad â disgyblion yn rheolaidd ac i gefnogi eu llesiant yn ystod y cyfnod heriol hwn. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan rieni ac athrawon, ac roedd y sesiynau'n cynnig cyfle i gymdeithasu. Ychwanegwyd y gwelwyd dirywiad cyffredinol mewn sgiliau iaith a rhifedd ers y cyfnod clo, a allai gael effaith ar y plant yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc at y cydweithio llwyddiannus hwn fel 'Tîm Môn', lle mae'r holl grwpiau perthnasol yn tynnu gyda'i gilydd ac yn rhannu arfer da er mwyn darparu addysg o'r safonau orau bosib i'r disgyblion.

Mewn ymateb i un o gwestiynau allweddol y panel ar feysydd i graffu arnynt, gofynnodd aelod o'r Pwyllgor sut mae'r fformiwla ariannu ysgolion uwchradd yn cael ei bennu? Dywedodd y Prif Weithredwr fod agweddau allweddol yn penderfynu ar y fformiwla i bob ysgol e.e. mae ysgol yn derbyn oddeutu £3,500 y disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 ac mae'r swm yn cynyddu yng Nghyfnod Allweddol 4. Daw arian ar gyfer y chweched dosbarth gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd fod arian ychwanegol ar gael ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod pob ysgol yn derbyn copi o'r fformiwla bob blwyddyn. Dywedodd fod rhaid i'r fformiwla fod yn deg i bob ysgol, er bod rhai Penaethiaid yn dadlau efallai nad yw elfennau o'r fformiwla'n deg i'w hysgolion unigol, os nad yw'r arian yn cwrdd â'u disgwyliadau. Nodwyd nad y fformiwla yw'r broblem ond cyfanswm yr arian sydd ar gael. Yn Ynys Môn, mae'r fformiwla'n rhannu'r arian sydd ar gael rhwng y bum ysgol uwchradd.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau yn ystod y drafodaeth:-

- Mae Penaethiaid wedi canmol y gefnogaeth a roddwyd i ysgolion gan y Panel yn ystod y pandemig Covid-19.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud gwaith ardderchog. Mynegwyd pryder fod rhai athrawon medrus yn llai hyderus wrth ddysgu o bell ac efallai fod angen cymorth arnynt.

- Amlygwyd fod problemau technegol a TGCh yn bodoli mewn ysgolion ar hyn o bryd y mae angen eu datrys.
- Cyfeiriodd aelod o'r Panel at rôl hanfodol rhieni a disgyblion fel 'Tîm Môn', oherwydd eu cefnogaeth a'u cymorth i ysgolion yn ystod y cyfnod ansicr hwn drwy gydymffurfio â'r rheoliadau newydd.
- Gofynnwyd a fyddai modd i'r Cyngor fanteisio ar adnoddau dysgu o du allan i'r sefydliad. Nodwyd fod y Gwasanaeth Dysgu'n gweithio'n agos â GwE, Estyn ayb, sy'n darparu hyfforddiant ac arweiniad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod gan bob ysgol eu cryfderau ond bod lle i wella ym mhob ysgol hefyd. Dywedodd fod y Gwasanaeth Dysgu wedi gweithio ag ysgolion arweiniol ym maes TGCh i ddatblygu Model Môn ar draws yr Ynys. Ychwanegodd eu bod wedi paratoi canllawiau ac enghreifftiau o arfer da i helpu ysgolion eraill i godi safonau wrth ddefnyddio technoleg. Mewn perthynas â dysgu o bell, ceir pencampwyr digidol ym mhob dalgylch. Nodwyd fod ysgolion wedi newid eu ffordd o weithio ar gychwyn y cyfnod clo, a'u bod wedi canolbwyntio ar les a datblygu sgiliau staff a disgyblion o ran defnyddio llwyfannau digidol a thechnoleg yn gyffredinol. Mewn perthynas â phlant difreintiedig, mae'r Gwasanaeth wedi darparu cyfrifiaduron Chromebook a dyfeisiau i ganiatáu iddynt gymryd rhan mewn dysgu o bell, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Plant a'r Adran Gyllid i gyflawni ei amcanion.

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â gwaith craffu'r Panel hyd yma. Mae'r Panel wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar feysydd allweddol o ymateb y Gwasanaeth Dysgu i Covid-19 ac wedi nodi gwersi i'w dysgu mewn perthynas â'r canlynol:-

- Mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi darparu hyfforddiant cynhwysfawr i ysgolion;
- Rhoddwyd trefniadau dysgu o bell ar waith;
- Gwnaed cynnydd mewn perthynas â thechnoleg a gwersi rhithwir, a dosbarthwyd gliniaduron i ddisgyblion;
- Bydd y Panel yn craffu ar Adroddiad Blynyddol GwE, yn unol â blynyddoedd blaenorol;
- Mae wedi dod i'r amlwg fod sgiliau llythrennedd a rhifedd rhai disgyblion wedi dirywio;
- Amlygwyd cryfderau rhai athrawon mewn perthynas â dysgu o bell a thechnoleg;
- Nodwyd y bydd y Panel yn parhau i gyfarfod yn fisol.

Mae'r Panel yn sicr fod mesurau cadarn mewn lle i ymateb i unrhyw gyfnod clo yn y dyfodol, a fyddai'n golygu cau ysgolion. Er y gwnaed gwaith effeithiol, dysgwyd gwersi o ganlyniad i'r profiad y bydd modd eu defnyddio yn ôl y gofyn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o safbwynt cyflawni ei raglen waith sy'n cynnwys herio cadarn o berfformiad ysgolion unigol.**
- **Nodi'r meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r trefniadau newydd yn sgil y pandemig Covid-19.**
- **Bod y Pwyllgor yn fodlon â chadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.**

**6. CASGLU GWASTRAFF GARDD GWYRDD – METHODOLEG CODI TÂL A CHYNLLUN GWEITHREDU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar gyflwyno gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd y codir tâl amdano o 1 Ebrill 2021.

Gofynnodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i'r Pwyllgor ystyried yr opsiynau a gyflwynwyd a'r sylwadau ar y bwriad i godi tâl o £35 y flwyddyn am gasglu gwastraff gardd o'r bin olwynion cyntaf, a £30 y flwyddyn am gasglu o finiau olwynion ychwanegol. Dywedodd fod y cynnig yn cyd-fynd â Glasbrint Casglu Gwastraff Llywodraeth Cymru sy'n argymell y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru godi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd. Nodwyd fod pob Sir arall yng Ngogledd Cymru yn codi am y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd. Mae'r Cyngor wedi penderfynu na chodir tâl ar fynwentydd, mannau addoli na neuaddau pentref/cymunedol. Bydd modd talu am y gwasanaeth dros y ffôn neu ar-lein. Bydd y ffi yn cyfrannu at gost darparu'r gwasanaeth a darperir sticer/label cyfeiriad i roi ar bob bin sy'n dangos y flwyddyn gyfredol arno.

Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y Pwyllgor gwaith wedi cytuno ar yr egwyddor o godi tâl am y gwasanaeth bin gwyrdd ar 27 Ionawr 2020. Nodwyd na fydd pob cartref yn dymuno cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, a bod y cynllun yn rhoi ystyriaeth i hynny. Mewn perthynas â threfniadau staffio, cyflogir dau aelod ychwanegol o staff i weinyddu'r taliadau.

Codwyd y materion a ganlyn gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- A yw unrhyw awdurdod arall yng Ngogledd Cymru wedi dod ar draws unrhyw effeithiau negyddol yn sgil codi tâl am gasglu gwastraff gardd ac a fu cynnydd mewn tipio anghyfreithlon ac achosion o bobl yn rhoi gwastraff gwyrdd mewn bagiau bin du oherwydd y taliadau? Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff nad oes tystiolaeth fod tipio anghyfreithlon wedi cynyddu a bod pobl yn rhoi biniau du mewn biniau gwyrdd ar hyn o bryd. Dywedodd fod y sefyllfa'n anodd ei monitro heb wirio cynnwys pob bin unigol.
- Gofynnwyd am linell ar wahân i wneud taliadau dros y ffôn ar gyfer y gwasanaeth fel bod modd gwneud y taliadau'n uniongyrchol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yr anogir y cyhoedd i dalu ar-lein, gan fod y dechnoleg i wneud hynny mewn lle a bod y system ar waith yn barod.

- A fyddai modd seilio'r system dalu am gasglu biniau gwyrdd ar fandiau Treth Gyngor? Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mai'r un fyddai'r gost i'r Cyngor ni waeth a yw'r bin yn llawn neu'n hanner llawn. Pe seiliwyd y taliadau ar fandiau Treth Gyngor, byddai angen system ar-lein i wirio band pob eiddo ac nid yw'r dechnoleg hon ar gael yn y Cyngor.
- A fyddai'n bosib talu'n fisol am y gwasanaeth drwy ddebyd uniongyrchol er mwyn rhoi llai o faich ariannol ar deuluoedd? Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai hynny'n creu cymhlethdodau gan y gallai'r cyhoedd ddechrau talu am y gwasanaeth ac yna benderfynu peidio parhau i dalu, er y byddent wedi derbyn sticer i'w roi ar y bin yn barod. Byddai'n rhaid i staff y Cyngor gasglu'r sticer ond ni fyddai hynny'n gost effeithiol a byddai'n cynyddu'r gwaith gweinyddol.
- Awgrymwyd y gallai'r Cyngor greu incwm ychwanegol drwy wneud compost â'r gwastraff gardd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y grant Ewropeaidd yn cynnwys amodau penodol sy'n gwahardd y Cyngor rhag gwerthu compost a gynhyrchir o wastraff gwyrdd i gynhyrchu incwm. Nododd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod cost ynghlwm â chael gwared â gwastraff gwyrdd.
- Gofynnwyd beth sy'n digwydd i'r sticer ar y bin os ydych yn symud tŷ? Nodwydd y byddai sticer a bin gwyrdd newydd yn cael eu rhoi ac y byddai'r gwasanaeth yn parhau yn y cyfeiriad newydd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn codi £35 y flwyddyn am gasglu gwastraff gwyrdd o'r bin olwynion cyntaf a £30 y flwyddyn am gasglu o finiau olwynion ychwanegol.**
- **Bod y gyllideb gwariant ychwanegol sydd ei hangen yn cael ei hariannu o'r incwm a gynhyrchir trwy godi am y gwasanaeth.**

**7. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2020/21**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD nodi Blaen Raglen Waith y Pwyllgor (Medi 2020 – Ebrill 2021).**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.05pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM JONES**
**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

**Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret Murley Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 4),<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 4),<br>Cyfarwyddwr Dros Dro - Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Oedolion<br>Cyfarwyddwr Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Gwasanaeth - Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl (BW) (ar gyfer Eitem 3),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Prif Swyddog Datblygu (TJ) (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Cyllid (CE),<br>Rheolwr Sgriwtini,<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorydd Nicola Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos M Huws - Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitemau 3, 4, 5 a 6);<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones - Aelod Portffolio (Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd)<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas - Aelod Portffolio (Gwasanaethau Corfforaethol).<br><br>Ms Alwen Williams a Mr Hedd Vaughan Evans - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 4),<br>Ms Bethan Jones Edwards - Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (Cyngor Sir Ddinbych) (ar gyfer eitem 5),<br>Ms Nonn Hughes - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 6),<br>Mr Emyr Williams - Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 6). |

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

## 2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 CYNLLUN PEILOT CYNGOR SIR YNYS MÔN A BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR AR GYFER RHANNU DARPARU GWASANAETHAU (CYLLIDEB GYFUN) – ANABLEDDAU DYSGU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cynllun peilot ar gyfer anableddau dysgu yn amlinellu'r flaenoriaeth i'r Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y cyfnod cychwynnol o 12 mis i sefydlu prosiect mewn model arbrofol o gyllidebau cyfun. Nod y cynllun peilot yw sicrhau y gwneir y defnydd gorau o arian ar draws yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd er mwyn gwneud penderfyniadau amserol ar ofal a chymorth o ddydd i ddydd ar gyfer cleientiaid Anableddau Dysgu. Bydd y cynllun peilot o fudd ychwanegol hefyd gan y bydd yn cynorthwyo i gyflawni Cytundeb Integreiddio Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion ei bod yn her barhaus i gydbwyso anghenion dinasyddion o fewn y dyraniad ariannol sydd ar gael, ond mae'r cynllun peilot, gyda chefnogaeth Cytundeb Adran 33, yn amlygu cynllunio integredig clir. Nododd fod 36 o becynnau gofal a ariennir ar y cyd ar gyfer unogolion sy'n byw mewn llety â chymorth sydd wedi'u cynnwys yng Ngham 1 y cynllun peilot. Nododd fod hyn yn cysylltu â'r broses dendro ynghylch byw â chymorth. Cytunwyd y bydd y swm llawn ar gyfer y gyllideb gyfun yn cael ei drosglwyddo erbyn Ebrill 2021 ac mai'r Awdurdod fydd yn rheoli a gweinyddu'r gyllideb fel y sefydliad cynnal. Cynhelir gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot gan yr IPC er mwyn pwyso a mesur a fu'n llwyddiant ai peidio. Cyfanswm gwariant cyfredol y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol yw: -

- Bwrdd Iechyd - £1,346,723.81
- Yr Awdurdod Lleol - £1,819,478.06

Adroddodd ymhellach mai cynllun peilot Cam 1 yw hwn am 12 mis ac y cynhelir gwerthusiad allanol ohono er mwyn penderfynu sut i symud ymlaen wedyn ar ôl y 12 mis. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gwerthuso cynnydd y cynllun ac yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn: -

- Gofynnwyd sut y bydd llofnodi'r Cytundeb Adran 33 yn rheoli unrhyw risgiau posib i'r Cyngor yn sgil cyflwyno cyllideb gyfun. Ymatebodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion na fydd y cyllid a roddir gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn cynyddu ac mae'r Cytundeb Adran 33 yn nodi na all y naill sefydliad na'r llall dynnu ymrwymiad ariannol yn ôl yn ystod cyfnod Cam 1 y cytundeb;
- Gofynnwyd a oes cynllun tebyg wedi ei gynnal yn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru neu Loegr ac a ellir dysgu gwersi o gynlluniau o'r fath. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth - Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl bod ymweliad wedi'i drefnu i Fanceinion i wrando ar eu bwrdd partneriaeth pan ystyriwyd dechrau trafodaeth am gyllidebau cyfun. Nododd fod y bartneriaeth menter cyllideb gyfun yn ardaloedd Manceinion yn un sylweddol, gyda 10 awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a'r CCG sy'n comisiynu'r awdurdod iechyd yn Lloegr oll yn rhan o'r cynllun cyllideb gyfun ac roedd yn amlwg bod angen gwerthuso cynnydd y cynllun fesul cam;
- Holwyd beth oedd gwerth ychwanegol cymryd rhan yn y cynllun peilot ar gyfer cyllideb gyfun. Ymatebodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion y bydd y cynllun cyllideb gyfun yn rhoi sicrwydd bod yr adnoddau mewn lle ac y gellir rheoli sut y bydd y cyllid yn cael ei wario. Nododd y bydd yn caniatáu i Swyddogion fesur a chael trosolwg o agwedd gwerth am arian y cynllun a phwyso a mesur a yw'r gwasanaethau a roddir yn ddigonol ar gyfer y cleientiaid;
- Holwyd a fydd yn cael effaith ar y gwasanaethau i'r 36 unigolyn sy'n derbyn y gefnogaeth trwy'r cynllun byw â chymorth ac a yw eu teuluoedd yn ymwybodol o'r cynllun peilot. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth - Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl na fydd y 36 unigolyn yn gweld unrhyw newid i'r gwasanaethau a ddarperir iddynt ond y gobaith yw y gellir gwneud penderfyniadau ar fyrder ynglŷn â'r gwasanaethau y byddir eu hangen a hysbysu'r defnyddwyr gwasanaeth yn brydlon. Nododd ymhellach fod teuluoedd yr unigolion yn ymwybodol o'r cynllun.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo gweithredu cynllun peilot ar gyfer cronfa gyfun rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan weithredu fesul cam, mewn perthynas â'r gyllideb byw â chymorth ar gyfer trigolion ag anableddau dysgu yn Ynys Môn sy'n cael eu hariannu ar y cyd ar hyn o bryd.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 4 TREFNIANT LLYWODRAETHU 2 - BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

*Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ms Alwen Williams a Mr Hedd Vaughan Evans - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd) i'r cyfarfod.*

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Bwrdd wedi ymrwymo i gyflawni'r Cytundeb Bargen Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru cyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

Nododd yr ystyrir bod y Bwrdd bellach wedi cyrraedd carreg filltir a bod cynllun clir i'r prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Fargen Twf.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Bwrdd wedi mabwysiadu Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru yn 2016. Yn seiliedig ar y Strategaeth Gweledigaeth Twf, paratowyd a chytunwyd ar Fargen Twf ym mis Hydref 2018 gan yr holl bartneriaid, gan weithio gyda Llywodraeth y DU a Chymru a'r sector preifat. Ym mis Tachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd a Llywodraethau'r DU a Chymru ar y Penawdau Telerau, gyda Chytundeb Bargen Derfynol i'w gwblhau yn 2020. Mynegodd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn rhan o'r Bwrdd a bod strwythur llywodraethu cryf a gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn hanfodol ar gyfer cyrraedd y garreg filltir o fod yn barod i arwyddo'r Cytundeb Terfynol.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Cais Twf yn cynnwys nifer o ymyriadau datblygu economaidd strategol ac y gall gweithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth ddenu'r buddsoddiad hwn; heb y Bwrdd Uchelgais a'r Cais Twf ni fyddai'r adnoddau yn cyrraedd Gogledd Cymru. Mae'r Cais Twf yn cynnig lefel o weithgaredd a buddsoddiadau gan y sector cyhoeddus i gefnogi'r economi na welwyd ers y cyfnod llymder. Mae'r adroddiad ar y Cynllun Busnes yn cydymffurfio'n llawn â disgwyliadau a gofynion Llywodraethau'r DU a Chymru ac mae'n cynnwys mewnbwn gan y sectorau preifat a chyhoeddus. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ymhellach y bydd y Cais Twf yn cynorthwyo'r sectorau gwerth uchel i ffynnu ac yn mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hirdymor i dwf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol y bydd angen cymryd ystod o gamau yn y tymor byr i hwyluso adferiad a bod aliniad rhwng y mesurau tymor byr hynny a'r Fargen Twf yn allweddol. Rhagwelir y bydd y Cais Twf yn denu 4,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd ac yn cynhyrchu rhwng £2 biliwn a £2.4 biliwn GVA y flwyddyn ac yn denu buddsoddiadau posib o dros £1biliwn.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ymhellach fod y budd uniongyrchol a ragwelir ar gyfer Ynys Môn fel a ganlyn: -

- Buddsoddiad uniongyrchol mewn prosiectau cyfalaf ar Ynys Môn gan gynnwys Porth Caergybi, Morlais a datblygiad MSParc
- Cyfleon cadwyn gyflenwi a chyfleon gwaith i gwmnïau lleol o brosiectau cyfalaf mawr fel Morlais, Porth Caergybi a buddsoddiadau rhanbarthol eraill;
- Gwell cysylltedd digidol ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr a phrofion 5G yn MSParc;
- Mynediad at gyfleusterau, offer, cefnogaeth ac ymchwil arbenigol newydd ar gyfer busnesau bwyd a diod;
- Mynediad at ymchwil a chymorth arloesol ynghylch technegau ffermio cynaliadwy ar gyfer busnesau ffermio Ynys Môn trwy safle Grŵp Llandrillo Menai yng Nglynllifon;
- Cyfleoen ar gyfer mentrau ynni adnewyddadwy yn sgil prosiectau Mynediad Clyfar i Ynni, buddsoddiad mewn Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel yn MSParc;
- Prosiectau arddangos sy'n cynnwys cynhyrchu hydrogen o ffynonellau ynni carbon isel;
- Cyfleon posib i safleoedd strategol gael eu datblygu fel rhan o'r rhaglen Tir ac Eiddo tymor hir;

- Gwell sgiliau trwy fiotechnoleg, canolfan ragoriaeth carbon isel, twristiaeth a'r economi wledig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y bydd y Cais Twf yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor. Bydd costau staffio i gefnogi'r prosiectau yn y Fargen Twf am gyfnod o 15 mlynedd. Mae 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru a'r sefydliadau partner h.y. 2 Brifysgol a 2 Goleg wedi cytuno ar y cyllid gyda phob awdurdod lleol yn cyfrannu £50k i ddechrau yn ychwanegol at y £40k a gyfrannwyd at y Bwrdd - felly bydd pob awdurdod lleol yn cyfrannu £90k. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol i gymryd i ystyriaeth unrhyw gynnydd mewn costau tâl a phensiynau. Nododd y disgwylir y bydd y prosiectau'n cael eu hariannu yn ystod 6 i 7 mlynedd gyntaf y prosiect ond ni fydd y cyllid yn cael ei roi i Ogledd Cymru gan Lywodraethau'r DU a Chymru o dan batrwm gwariant gan y Bwrdd ond yn hytrach trwy daliadau dros y cyfnod o 15 mlynedd. Felly, bydd angen i'r Bwrdd fenthyca arian i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Fargen Twf a bydd angen defnyddio'r cyllid gan y llywodraethau i ad-dalu'r strategaeth fenthyca. Derbynnir y bydd angen talu llog ar unrhyw fenthyciad a bydd y costau llog cyffredinol sy'n disgyn ar y 6 awdurdod yn cael eu rhannu ar sail poblogaeth, gydag Ynys Môn yn cyfrannu tua 10% at y gost flynyddol. Bydd hyn yn cyfateb i £47k - £ 67k y flwyddyn i'r Awdurdod hwn ond nodwyd mai amcangyfrif o'r costau yw'r rhain a bod risgiau posib gan y bydd yn dibynnu ar ragolygon gwariant y Fargen Twf a faint o fenthyca fydd ei angen pan fydd prosiectau'n datblygu. Y gyfradd llog a fodelwyd oedd 2.2% ond gall y gyfradd llog wirioneddol newid yn dibynnu ar y math o fenthyca a wneir, amseriad y benthyca a'r hinsawdd economaidd ar y pryd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ymhellach y bydd angen talu trethi busnes ar eiddo ardrethol a fydd yn deillio o rai o'r prosiectau ac mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno mewn egwyddor y bydd 50% o'r trethi busnes ychwanegol a gynhyrchir yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Bwrdd fel cyfraniad tuag at y costau benthyca ychwanegol. Dywedodd ymhellach y bydd y Fargen Twf yn nodi'r adnoddau y bydd pob prosiect yn eu derbyn a bydd angen monitro'r prosiectau hyn i sicrhau nad ydyn nhw'n gorwario gan nad oes adnoddau ychwanegol ar gael.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod angen Cytundeb Llywodraethu 2 (CLl2) a bod copi o'r CLl2 drafft ynghlwm wrth Atodiad 4 ynghyd â chrynodeb yn Atodiad 3 yr adroddiad. Dyluniwyd y CLl2 i reoleiddio'r bartneriaeth rhwng 6 Chyngor Lleol Gogledd Cymru a'r 4 Coleg trwy gydol cyfnod y Fargen Twf. Nododd y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn a gynhelir ar 8 Rhagfyr, 2020 a bydd yr argymhellion fel maent wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd at y cwestiynau Sgriwtini yn rhannau 4 a 5 yr adroddiad ynghylch sut y bydd y bartneriaeth yn cael ei rheoleiddio ar ôl i'r Fargen Twf gael ei llofnodi. Bydd y Bwrdd yn ymgymryd â phrosesau craffu a monitro a bydd yr aelodaeth yn cynnwys Arweinyddion 6 Chyngor Gogledd Cymru ac mae gan bob un ohonynt bleidlais. Bydd y 4 Coleg hefyd yn aelodau o'r Bwrdd ond ni fydd ganddynt bleidlais gan fod y Bwrdd yn gyd-bwyllgor statudol. Bydd Arweinydd o bob un o'r 6 Chyngor yn cael ei phenodi / benodi'n Gadeirydd yn flynyddol ond ni fydd ganddynt bleidlais fwrw. Os bydd anghytundeb am unrhyw eitem ar raglen y Bwrdd, bydd cyfnod cnoi cil i ailystyried, ac fe ailgyflwynir yr eitem i'r Bwrdd i'w hystyried ymhellach. Os na all

y Bwrdd ddod i gytundeb bydd y cynnig yn disgyn. Oherwydd y model cyd-bwyllgor statudol y cytunwyd arno gan y partïon, bydd y rhaglenni, yr adroddiadau a'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ac ar gael ar wefan y Cyngor. Cyfeiriodd ymhellach at y model Awdurdod cynnal sydd wedi'i ddewis gan y patrïon ac mai Cyngor Gwynedd sydd wedi'i benodi i'r perwyl.  Bydd Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd yn cynghori'r Bwrdd a'i staff. Bydd gwasanaethau AD, Archwilio a TGCh hefyd yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd. Bydd y Bwrdd yn gweithredu o dan Reolau Sefydlog a Rheolau Caffael Cyngor Gwynedd. Mae unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Busnes Cyffredinol, ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r CLl2, materion cyllidebol ac unrhyw bartneriaid sy'n ceisio gadael y Bwrdd oll yn faterion a gedwir yn ôl ac y bydd angen i'r Cyngor llawn eu hystyried a'u cymeradwyo. Bydd yr  aelodau etholedig sydd ar y Bwrdd yn dilyn eu Côd Ymddygiad eu hunain, fel sy’n wir hefyd am y  Swyddogion sy’n gweithio i’r Bwrdd. Bydd cynrychiolwyr y Colegau yn destun darpariaethau Polisi Gwrthdaro gan nad oes ganddynt  Gôd Ymddygiad. Bydd cofnodion o benderfyniadau’n cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi a chyflwynir adroddiad chwarterol i bob partner a fydd yn adrodd ar gynnydd prosiectau unigol gan gynnwys eu perfformiad ariannol. Cyfeiriodd at sut y byddai Sgriwtini'n gweithio ar y Bwrdd fel y nodir yn nhrydydd atodiad yr adroddiad.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i’r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at y risgiau posib o orwario mewn prosiectau. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd y prosiectau economaidd yn y Fargen Twf yn cael eu rheoli os oes gorwariant mewn prosiect penodol. Ymatebodd yr Arweinydd fod hyn wedi'i godi fel risg yn y Bwrdd a bod mesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith. Dywedodd nad oedd rhai o'r prosiectau yn y Fargen Twf wedi aeddfedu’n llawn eto a’u bod yn dal i ddatblygu syniadau, ond os yw prosiectau eraill yn fwy aeddfed byddent yn cael eu blaenoriaethu. Mae yna hefyd ffynonellau cyllido eraill ar gyfer prosiectau ynni yn ogystal â'r Fargen Twf. Nododd y bydd yr awdurdod cynnal yn monitro'r cyllidebau. Dywedodd Ms Alwen Williams (y Bwrdd) mai rôl y Swyddogion yn y Bwrdd fydd rheoli'r prosiectau yn y Fargen Twf i'r safonau uchaf posib. Nododd fod posibilrwydd o fewn rhai o'r prosiectau i greu buddsoddiadau refeniw y gellir eu hailfuddsoddi yn y rhanbarth.
- Holwyd sut y bydd y Bwrdd yn addasu i'r pandemig covid-19 ac yn ystod y cyfnod adfer a Brexit. Dywedodd yr Arweinydd mai'r Bid Twf yw prif ffocws y Bwrdd ond maent wedi gallu casglu tystiolaeth ar effaith y pandemig yn y rhanbarth yn ogystal â chymryd ffactorau sy'n gysylltiedig â Brexit i ystyriaeth. Mynegodd ei bod wedi bod yn bwysig bod Swyddogion y Bwrdd wedi gallu parhau â'u gwaith dydd i ddydd ar y Cais Twf;
- Cyfeiriodd aelod at natur strategol y Bwrdd a mynegodd y farn y byddai wedi disgwyl bod angen cynrychiolydd Undeb Llafur i fod yn rhan o'r Bwrdd. Ymatebodd yr Arweinydd bod angen i'r mater gael ei ystyried gan y Bwrdd.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor gymeradwyo'r penderfyniadau drafft fel y'u geiriwyd yn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL: BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL (RHAN 9: IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL)

*Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Ms Bethan Jones Edwards - Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (Cyngor Sir Ddinbych).*

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod raid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynhyrchu a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a bod raid ei gyflwyno hefyd i Lywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd angen gofal a chymorth, ynghyd â gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithio â'r awdurdodau lleol, a darparu gwybodaeth iddynt, at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn: -

- Gofynnwyd i ba raddau y mae'r trefniant cyllideb gyfun yn ddigon cadarn ar gyfer darparu Cartrefi Gofal ledled y rhanbarth, ac a yw'n cael ei reoli'n effeithiol. Ymatebodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol fod Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod cyllideb gyfun yn ofynnol o ran Cartrefi Gofal. Nodwyd bod trefniant trafodaethol wedi ei roi ar waith ledled y rhanbarth ar gyfer cyllidebau cyfun ac wedi'i lofnodi gan y sefydliadau partneriaeth. Amlygodd yr Arweinydd fod risg sylweddol fel rhan o'r gyllideb gyfun ranbarthol mewn perthynas â'r mater hwn ond mae mesurau wedi'u rhoi ar waith, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cyllidebau cyfun ac maent yn diogelu'r Awdurdod a'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd;
- Gofynnwyd i ba raddau y mae gwaith y bartneriaeth yn cyfrannu'n llwyddiannus at gyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar yr Ynys. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol at 4 prosiect ar Ynys Môn sydd wedi gweld cynnydd sylweddol h.y. Teuluoedd Gwydn (oherwydd y pandemig rhoddwyd arian i gymunedau lleol i ddarparu gweithgareddau i blant a theuluoedd); Prosiectau Timau Adnoddau Cymunedol (Gwasanaethau Oedolion') - sefydlwyd cynllun fesul cam o fewn y cymunedau lleol i gydlynu'r gwasanaethau sy'n cynorthjwyo unigolion, ac yn enwedig pan fydd pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty; Anableddau Dysgu (mae gwaith mapio wedi'i wneud ar yr Ynys mewn perthynas â chyfleusterau gofal dydd ar gyfer anableddau dysgu); Iechyd Meddwl (cynhelir trafodaethau ar hyn o bryd gyda sefydliadau partner ynghylch y cyllid 'I Can' a sut y gellir ei roi ar waith yn ehangach i gefnogi materion iechyd meddwl yn yr Ynys);
- Holwyd sut y mae aelodaeth y Bwrdd wedi newid ers cyflwyno'r Canllawiau Statudol Rhan 9 diwygiedig ym mis Ionawr 2019, a beth fu'r gwerth ychwanegol yn sgil hynny'n rhanbarthol ac yn lleol. Ymatebodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol y daeth y canllawiau i rym ym mis Ionawr 2019 yn dilyn

ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau drafft a bod aelodaeth ychwanegol ar y Bwrdd wedi cynnwys cynrychiolwyr o blith  Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chynrychiolwyr Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Addysg  awdurdodau lleol. Nododd fod trafodaethau yn digwydd i gynnwys dau gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Gofalwyr ar y Bwrdd yn lleol. Mynegodd yr Arweinydd ei bod yn heriol bod aelodaeth Byrddau o'r fath mor fawr a bod angen adolygu'r aelodaeth.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud;**
- **Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd yn 2019/20 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu symud ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**6 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS – CRAFFU AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU.**

*Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Emyr Williams, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a Ms Nonn Hughes, Rheolwr Rhaglen.*

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen,  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr Awdurdod wedi ymrwymo i'r egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau a fydd yn cyflawni ei amcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at gefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Adroddodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd bod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bedwar aelod statudol fel y nodwyd yn y Cylch Gorchwyl sef - Yr Awdurdodau Lleol, Adnoddau Iechyd Cymru a'r Gwasanaeth Tân ynghyd â chyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Is-grwpiau i'w helpu i gyflawni ei waith. Cafodd diweddariad ar waith yr Is-grwpiau ei gynnwys yn yr adroddiad. Mae'r pedwar Is-grŵp yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw waith a gomisiynir. Mae'r Is-grwpiau'n diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd bob chwarter, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd mae'r adroddiadau diweddaru yn cael eu herio a'u trafod yn fanwl. Dywedodd ymhellach, oherwydd y pandemig Covid-19, fod y Grŵp Cydlynu rhanbarthol wedi cytuno ar feysydd y mae angen canolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau adferiad ein cymunedau o'r pandemig. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi i drafod rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth adfer o'r pandemig, gan ganolbwyntio'n benodol ar wytnwch cymunedol. Yn dilyn y gweithdy cytunwyd mai blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth symud ymlaen fydd parhau â gwaith craidd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oherwydd bod amcanion a

blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant yn parhau i fod yn gyfredol. Bydd cyfle i adolygu ffrydiau gwaith yr is-grwpiau presennol trwy gymryd canfyddiadau'r gweithdy i ystyriaeth. Dros y misoedd nesaf bydd yr holl is-grwpiau'n rhoi ystyriaeth ddyledus i addasu eu rhaglenni gwaith a'u cerrig milltir. Cytunwyd hefyd i gynnal ymchwil bellach mewn rhai meysydd, i ddarganfod y sefyllfa ddiweddaraf o ran materion fel tlodi ariannol a diweithdra.

Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei sefydlu yn unol â'r Ddeddf Llesiant ond na roddwyd unrhyw adnoddau ariannol ar ei gyfer ac mae wedi bod yn anodd cyflawni. Pwysleisiwyd hefyd fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gadarn ei farn ei fod eisiau osgoi dyblygu, gan mai pwrpas y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw ychwanegu gwerth at gynlluniau cyfredol.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn: -

- Gofynnwyd i ba raddau y mae'r prosesau adrodd a monitro ynghylch gwaith yr is-grwpiau yn ddigon strwythuredig a chadarn, ac yn sicrhau atebolrwydd yr is-grwpiau ac yn eu dal yn atebol o ran gweithredu'r rhaglenni gwaith. Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen fod yr is-grwpiau'n diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd bob chwarter, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd mae'r adroddiadau diweddaru yn cael eu herio a'u trafod yn fanwl. Mae arweinwyr is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'u cyfrifoldeb nhw yw cyflwyno cynllun gweithredu a manylion ynghylch cyflawni;
- Gofynnwyd i ba raddau y mae’r trefniadau i ddiwygio rhaglenni gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ganlyniad i Covid-19 yn ddigon cadarn er mwyn ymateb i'r heriau cyfredol a'r rhai all godi yn y dyfodol. Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi pennu gweithdrefnau ac yn benodol o ran gwytnwch cymunedol. Penderfyniad y Bwrdd oedd galw gweithdy a derbyniwyd nifer o awgrymiadau gan sefydliadau partner. Nododd y gellir dysgu gwersi o'r pandemig ynghylch gwytnwch cymunedau lleol a sut i fynd i'r afael â materion heb ddyblygu gwasanaethau a ddarperir gan gyrff statudol.

**PENDERFYNWYD nodi trefniadau llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**7 BLAENRAGLEN WAITH 2020/21**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD nodi’r Flaenraglen Waith am y cyfnod Medi 2020 hyd at ebrill Ebrill 2021.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 y pnawn

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 09 Chwefror, 2021 |
| **Pwnc:** | Perfformiad GwE dros cyfnod yr argyfwng ac Adroddiad cylch gorchwyl Estyn parthed gwaith yr Awdurdod i gefnogi cymunedau dysgu mewn ysgolion ers Mawrth 2020 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Crynhoi datblygiadau ers Mawrth 2020 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng. R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys Howard Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Rhys Howard Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>01248 752916<br>Rhyshughes2@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad parthed:<br><br>1) Perfformiad GwE dros gyfnod yr argyfwng<br>2) Adroddiad cylch gorchwyl Estyn parthed gwaith yr Awdurdod i gefnogi cymunedau dysgu mewn ysgolion ers Mawrth 2020 |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid.<br><br>Nod: gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle bydd teuluoedd yn ffynnu.<br><br>Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir Byddwn yn parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-** |

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi addasu eu ffordd o weithio yn sgil y pandemig er mwyn ateb i ofynion plant a phobl ifanc Ynys Môn, a darparu'r addysg gorau posibl iddynt?
2. Pa gefnogaeth y mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi'i darparu i'r ysgolion unigol yn ystod y pandemig o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol?
3. A oes anghysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgolion? Ac os oes, beth ydych yn ei wneud am hyn?
4. Sut ydych yn parhau i fonitro a gwerthuso ansawdd darpariaeth dysgu ar yr Ynys?
5. I ba raddau y mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi llwyddo i gefnogi llesiant athrawon a staff a'u datblygiad proffesiynol er mwyn datblygu sgiliau newydd angenrheidiol i ymateb i'r pandemig?
6. Beth yw'r gefnogaeth sydd wedi ei rhoi i gefnogi'r Gymraeg yn y cyfnod hwn, yn enwedig lle nad Cymraeg yw iaith yr aelwyd?
7. Pa wersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod a fydd yn llywio'r rhaglen waith yn ystod y blynyddoedd nesaf, a pha arferion da fydd yn parhau wedi'r pandemig?

Adroddiad Estyn:

1. Pa arferion da gan y Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion unigol sydd wedi'u hadnabod gan Estyn?
2. Pa gefnogaeth sydd wedi ei rhoi i gefnogi lles y disgyblion (yn enwedig y disgyblion mwyaf bregus) yn ystod y cyfnod hwn?
3. Pa feysydd i'w datblygu sydd angen sylw yn ystod y misoedd nesaf?

| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
|---|
| O ganlyniad i argyfwng Covid 19 mae'r drefn genedlaethol o adrodd ar ddeilliannau wedi newid. Mae cytundeb rhanbarthol yng Ngogledd Cymru parthed y drefn adrodd yn y 6 Awdurdod Lleol. Mae pwynt 1 isod yn adlewyrchu'r drefn honno.<br><br>1. Adroddiad i bwyllgorau craffu'r Awdurdodau Lleol ar sut y mae'r consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol, wedi datblygu ac addasu er mwyn cefnogi ysgolion yn ystod y pandemig COVID - gydag adroddiad penodol parthed datblygiadau yn Ynys Môn.<br><br>2. Adroddiad Estyn:<br>Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod argyfwng.<br>Mae'r llythyr hwn yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn Awdurdod Lleol Ynys Môn. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| D/B |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| D/B |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad i Bwyllgorau Craffu'r Awdurdodau Lleol Hydref 2020 gan gynnwys Atodiad penodol i Bwyllgor Craffu Ynys Môn.<br><br>Atodiad 1 - Crynodeb o'r gwaith a wnaed<br>Atodiad 2 – Dysgu Proffesiynol<br>Atodiad 3 – Covid-19 – Risk Assessment Dashboard<br>Atodiad 4 – Dysgu Carlam<br>Atodiad 5 – Cynnig Proffesiynol - 2020-2021<br><br>Adroddiad Estyn - Gwaith yr awdurdod lleol wrth gefnogi ei ysgolion |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

**ADRODDIAD I BWYLLGORAU CRAFFU YR AWDURDODAU LLEOL**
**Hydref 2020**

---

**Adroddiad gan**: Arweinwyr Craidd GwE

**Testun** : Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod Pandemig COVID

---

**Pwrpas yr Adroddiad**

Cyflwyno adroddiad i bwyllgorau craffu yr Awdurdodau Lleol ar sut y mae'r consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth efo'r Awdurdodau Lleol, wedi datblygu ac addasu er mwyn cefnogi ysgolion yn ystod pandemig COVID.

**Cefndir, cyd-destun a braslun**

Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth ac i gydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Croesawyd cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ysgolion, a chyfrannodd hyn at Benaethiaid yn teimlo y gallent droi at gyd-weithiwr proffesiynol i rannu materion heriol, ac i ddod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â materion dydd i ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau gweithredol ar agor yr ysgol yn ddiogel yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol am ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar fodelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyswllt rheolaidd iawn â Phenaethiaid er sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i weithredu'n effeithiol, a hefyd fel cyfrwng i gefnogi eu llesiant. Darparwyd

cefnogaeth bellach ar gyfer lles uwch arweinwyr trwy gyfres o weithdai a gweminarau a fydd yn cefnogi eu gwytnwch yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae staff GwE hefyd yn cynnal ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb ag ysgolion yn ystod tymor yr hydref ar ran yr Awdurdodau Lleol.

Mae GwE yn ystyried ei hun fel sefydliad partneriaeth, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen. Mae GwE wedi gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Mae hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.

Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff. Un enghraifft o'r fath yw'r grŵp gweithredol o staff awdurdod lleol a rhanbarthol sy'n gweithio ar ac yn datblygu polisi asesiadau risg, cyngor a chanllawiau, a chreu dangosfwrdd rhanbarthol sy'n sylfaen gadarn i bob ysgol allu ailagor gyda risgiau wedi'u hadnabod, a'u rheoli a'u cefnogi yn lleol.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig COVID. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol mewn lle, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu disgyblion yn ôl i ysgolion.

Roedd y fframwaith yn cynnwys adnoddau i gefnogi cynllunio ar gyfer:

1) Gofynion iechyd a diogelwch
2) Trefniadau safle a chyfleusterau
3) Cludiant
4) Trefniadau staffio
5) Dysgu ac addysgu cyfunol
6) Cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion
7) Tasgau rheolaethol allweddol.

Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu wrth wraidd ein gwaith gydag ysgolion. Mae bob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn i waith y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Un agwedd nodedig ar y gwaith hefyd yw natur benodol a phwrpasol y cymorth i athrawon ac ysgolion. Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu yng nghamau nesaf esblygu'r gwasanaeth.

Mae cymorth clir wedi'i dargedu i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu

o bell a dysgu cyfunol. Cefnogwyd mewn amrywiol ffyrdd yr ysgolion hynny sydd wedi cael y cyfnod clo a'r cyfnod dilynol yn anodd oherwydd bod staff yn gorfod hunan ynysu. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminarau, rhannu deunyddiau ac adnoddau. Yn ogystal, staff GwE yn arwain yn uniongyrchol neu'n addysgu yn uniongyrchol mewn ysgolion, neu'n darparu dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.

Neilltuwyd llawer o amser ac egni i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymchwilio i arferion rhyngwladol er mwyn dysgu egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol a'u sefydlu. Mae trafodaethau efo cyd-weithwyr rhyngwladol, gan gynnwys Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi dyfnhau'r meddwl o fewn y sefydliad. Mae GwE wedi rhoi cymorth ymarferol i arweinwyr iddynt allu ystyried eu cynlluniau strategol ysgol gyfan o ran darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac iddynt allu mireinio a gwerthuso eu darpariaeth sy'n newid, ac ystyried cynllunio ar gyfer amrywiol senarios ble gall disgyblion fod yn yr ysgol ac / neu gartref yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae hyn wedi cefnogi ysgolion i gael trosolwg strategol gwell o'u darpariaeth.

Mae GwE hefyd yn cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell, gan rannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpariaeth effeithiol i leihau amrywiad ble mae hynny'n bod. Mae ffrydio byw yn datblygu'n dda ac yn cyfoethogi'r profiad dysgu cyfunol. Mae ysgolion bellach yn sylweddoli y bydd COVID yma am gyfnod estynedig, ac maen nhw'n cynllunio'n fwy strategol ac effeithiol.

Mae prosesau hunan arfarnu a gwelliant bellach yn rhan ganolog o waith ysgolion. Wrth i ysgolion a lleoliadau fagu hyder i gyflwyno dysgu o bell, byddant mewn sefyllfa well i addasu eu prosesau a'u hadnoddau hunan arfarnu i fonitro, gwerthuso, adolygu ac addasu'r ddarpariaeth, os yw'n briodol.

Mae arweinwyr ysgolion yn cydnabod mai un o'r heriau mwyaf gyda dysgu o bell a dysgu cyfunol yw sicrhau bod gan staff a disgyblion y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol wrth law. Bu'n rhaid uwchsgilio rhai aelodau staff yn gyflym er mwyn symud at lwyfannau digidol. Mae ysgolion wedi manteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r dysgu. Bu hyn yn gyfle hefyd, gan bod nifer uwch o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio gwahanol fathau o dechnoleg yn hyderus i gefnogi'r dysgu.

Mae llawer o ysgolion yn cydnabod y bu ymgysylltiad rhieni yn ffactor allweddol wrth sicrhau dysgu o bell / dysgu cyfunol effeithiol. Bu GwE a'r Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydnabod bod heriau gweithredol parhaus, a'r rheiny'n newid o ddydd i ddydd. Rhaid cynllunio ar gyfer llu o senarios, gan gynnwys carfanau o ddysgwyr yn hunan ynysu neu grwpiau bach o ddysgwyr / unigolion ac aelodau staff yn hunan ynysu. Ceir llawer o enghreifftiau o sut y mae ysgolion yn rheoli'r sefyllfaoedd dyrys hyn yn dda iawn, gyda strategaethau ysgol gyfan pendant. Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn parhau i gefnogi i ysgolion, gan ddefnyddio clystyrau a rhwydweithiau ysgolion i gefnogi ei gilydd a rhannu adnoddau a strategaethau.

Mae GwE hefyd wedi gweithredu dull cyflymu dysgu rhanbarthol, gan weithio ar dair haen sy'n cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gymorth acíwt. Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol. Bydd dangosfwrdd rhanbarthol yn dangos effaith y gwaith hwn, a fydd yn cynnwys yr holl grantiau sydd ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ystod tymor yr hydref, mae GwE wedi darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw senarios clo yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn:

- Adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol o fewn y clwstwr/cynghrair ac â chlystyrau/cynghreiriau rhanbarthol eraill;
- Sicrhau bod yr holl adnoddau a adnabuwyd ac a ddatblygwyd yn cael eu cyflwyno drwy'r YCG i'w cynnwys ar Ganolfan Cefnogaeth GwE;
- Cefnogi ysgolion yn y clwstwr gyda'u darpariaeth i ymateb i unrhyw 'senarios cyfnod clo' yn y dyfodol;
- Blaenoriaethu cymorth ychwanegol ar gyfer y sector uwchradd wrth baratoi ar gyfer dyfarnu graddau arholiad yn 2021.

Bydd gan ysgolion rhanbarth GwE gasgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer pob grŵp oedran.

Mae Cynnig Proffesiynol GwE am y flwyddyn academaidd hon wedi'i symleiddio, ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol. Yn ogystal, bydd GwE yn parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid ADY a'r iaith Gymraeg.

Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r *Education Development Trust* a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.

**Prif ddeilliannau ac effaith y gwaith**

- Cyd-ymdrech a gweithredu effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
- Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Mae cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr/fforwm wedi sicrhau cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Dull rhanbarthol a lleol clir mewn lle ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu clir a rheolaidd.
- Canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.

**Deilliannau eraill ac effaith**

- Cyfathrebu effeithiol trwy un pwynt cyswllt (YCG) i arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.
- Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes diffyg staff.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen. Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.
- Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.
- Canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Mae gan ysgolion fynediad i doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol a'u gweithredu
- Modelau dysgu o bell/dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y rhanbarth.
- Rhannu arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.
- Defnydd fwy cadarn o DGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.
- Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan digidol ar gyfer datblygiad proffesiynol.
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag AauLl a rhoi cymorth amserol i unrhyw ysgol.
- Ar y cyd â'r ALl, sicrhau bod y broses o benodi ymgeiswyr arweinyddiaeth ysgol yn briodol a theg.
- Swyddogion GwE/ALl yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.
- Cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.
- Cydweithredu fwy cadarn rhwng swyddogion awdurdod lleol a GwE.
- Dull rhanbarthol a lleol clir mewn lle ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddibenion.
- Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.
- Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod ar gyfer anghenion y dyfodol.
- Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru er sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr HCA
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda CaBan er sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion.

**Y camau nesaf**

1. Cefnogi ysgolion i weithredu argymhellion y Bwrdd Dylunio a Chyflawni ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn haf 2021.
2. Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi llesiant Penaethiaid a staff ysgolion.
3. Cyflwyno cynnig dysgu proffesiynol effeithiol i gefnogi ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion ar y pryd ac i weithredu taith ddiwygio Llywodraeth Cymru.

4. Parhau i gefnogi clystyrau/cynghreiriau i gynllunio ar gyfer parhad dysgu fel y gallant fodloni yn effeithiol unrhyw senarios clo yn y dyfodol.
5. Cryfhau y diwylliant, yr ymddygiadau, y systemau a'r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol.
6. Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol mewn dull cyfannol.

**Dogfennau ategol**

- Atodiad 1 - Crynodeb o'r gwaith a wnaed
- Atodiad 2 - Adroddiad Dysgu Proffesiynol
- Atodiad 3 - Dangosfwrdd Asesiad Risg
- Atodiad 4 - Adnoddau Rhaglen Cyflymu Dysgu (RhCD)
- Atodiad 5 - Cynnig Proffesiynol GwE 2020-21

## Atodiad i Bwyllgor Craffu Ynys Môn

Mae'r cyfnod yma wedi bod yn heriol iawn i holl ysgolion Ynys Môn ac i ni fel gwasanaeth. Er hyn, mae llawer o ddatblygiadau cyffrous a diddorol wedi digwydd mewn ysgolion ar draws yr Ynys wrth i bawb addasu eu dulliau i geisio sicrhau bod disgyblion y Sir yn derbyn y ddarpariaeth gorau posib mewn amser cythryblus.

Mae partneriaeth gref yn bodoli rhwng y Gwasanaeth Dysgu a GwE ac ers cychwyn y cyfnod heriol hwn mae wedi bod yn gwbl eglur beth yw rôl pawb yn y rhaglen waith. Mae'r cyfnod wedi'n galluogi ni i gryfhau ein perthynas wrth gefnogi ein gilydd yn ein gwaith e.e. drwy gyflwyno a chefnogi prosesau Asesu Risg a llunio canllawiau ar gyfer defnyddio Ffrydio Byw mewn dosbarthiadau. Yn yr un modd, mae'r cyswllt a'r cyfathrebu yr un mor gryf rhwng yr ysgolion â GwE. Mae'r cydweithio rhwng y Gwasanaeth Dysgu, GwE, a'r ysgolion gydol cyfnod y pandemig wedi bod yn effeithiol, yn agored, yn dryloyw ac yn adeiladol. Yn yr ysbryd o weithio gyda'n gilydd i wynebu heriau'r pandemig, bu Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE hefyd yn cefnogi mewn hybiau gofal ysgolion ac mewn gofal dwy ysgol am dymor byr yn absenoldeb y pennaeth. Mae'r egwyddor o weithio fel Tîm Môn yn greiddiol i'r gweithredu a llinellau cyfathrebu clir yn bodoli rhwng pawb. Fel canlyniad, mae cefnogaeth benodol wedi ei theilwra i anghenion pob ysgol ac mae'r gweithredu dilynol yn gadarn iawn.

Mae cefnogi lles a llesiant  wedi bod yn brif flaenoriaeth yn ein gwaith ni dros y cyfnod dan sylw. Mae Ymgynghorwyr GwE wedi bod yn cynnal cysylltiadau unigol cyson â phenaethiaid ( drwy gyfarfodydd rhithiol neu drwy sgyrsiau ffôn) gan gynnig cefnogaeth fel bo angen. Mae amlder y cyswllt wedi amrywio yn ôl adnabyddiaeth o anghenion y penaethiaid, eu hamgylchiadau penodol a'u dymuniad. Pan laciwyd y cyfyngiadau ac yn unol ag asesiadau risg perthnasol, cynhaliwyd ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb gyda phenaethiaid oedd yn dymuno i ni wneud hynny, gyda bron bob un ohonynt yn werthfawrogol o'r gefnogaeth ac yn gweld gwerth i'r ymweliadau.

Mae ceisio sicrhau nad yw'r Gymraeg yn colli ei thir wedi bod ar flaen meddwl pob un ohonom yn ystod y cyfnod yma ac mae GwE a'r Gwasanaeth Dysgu wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi ysgolion i geisio sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Mae adnoddau penodol wedi eu rhannu drwy gydweithrediad gyda'r Unedau Iaith sydd ar gael i'r holl ysgolion ac mae nifer o adnoddau eraill wedi eu rhannu hefyd drwy 'Ganolfan Cefnogaeth GwE - e.e. Blaenoriaeth Cynllun Datblygu Ysgol parod er mwyn datblygu'r Gymraeg, adnoddau i hybu llafaredd Cymraeg, adnoddau modelu iaith, arweiniad i gefnogi rhieni a.y.b.

Mae enghreifftiau niferus o ysgolion yn cefnogi rhieni ble nad ydynt yn siarad Cymraeg adref er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn parhau i glywed yr iaith dros y cyfnod. Mae'r enghreifftiau yma yn cynnwys rhannu arferion da trwy fideos pwrpasol, e.e. Staff ysgolion yn darllen straeon pob nos i blant a rhannu fideos i gefnogi datblygiad iaith lafar Cymraeg drwy Google Classroom.

**Cynradd:**

Mae strwythurau cydweithio ymysg bron bob un o ysgolion yr Ynys wedi datblygu'n llwyddiannus yn ystod y cyfnod. Mewn cydweithrediad â GwE, mae grwpiau o benaethiaid a thimau rheoli ysgolion Cynradd mewn sawl Dalgylch yn Ynys Môn yn cydweithio ar ysgrifennu a gyrru blaenoriaeth 'brys' a blaenoriaethau hir dymor mewn meysydd megis Lles, Llafaredd Cymraeg a pharatoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Nid yn unig bod hyn yn sicrhau rhannu arferion da ymysg yr ysgolion, ond mae hefyd yn sicrhau bod y gyfundrefn addysg yn parhau i ddatblygu cynhwysedd i hunan wella.

Mae'r modd y mae ysgolion yr Ynys wedi ymateb i'r her o gynnig darpariaeth 'Dysgu o Bell' neu 'Ddysgu Cyfunol' er mwyn sicrhau parhad yn y dysgu pa bynnag sefyllfa oedd o'u blaenau oherwydd y pandemig wedi bod yn glodwiw. Mae llawer iawn o'r ysgolion wedi gwneud defnydd effeithiol o'r modelau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt gan GwE i gefnogi dulliau addysgu/dysgu, ac mae criw ohonynt hefyd wedi gweithio i lunio a threialu nifer o'r tasgau yma.

Gydag arweiniad gan GwE, mae athrawon o fwy nag un Dalgylch wedi ffurfio grwpiau addysgeg gan gyfarfod yn gyson yn ystod y cyfnod clo er mwyn rhannu arferion llwyddiannus a pharhau gyda hyrwyddo meddylfryd cadarnhaol ymysg dysgwyr, staff a theuluoedd. Mae hyn wedi cefnogi darpariaeth cyfunol/o bell yr ysgolion o ran sicrhau parhad a chysondeb yn y dysgu.

Bu ysgolion Cynradd o un Dalgylch yng Ngogledd y Sir yn arbrofi a threialu technegau 'Ffrydio Byw' yn fuan iawn yn ystod y cyfnod - a gyda chefnogaeth gan y Gwasanaeth Dysgu a GwE aethant ati i gyd-lunio protocol arweiniad i'r holl ysgolion. Adnabyddwyd hyn fel arfer llwyddiannus i'w rannu yn Rhanbarthol a bellach maent wedi creu Gweminar i gynnig arweiniad i holl ysgolion Gogledd Cymru.

Nid dyma'r unig enghraifft o Ynys Môn ble mae arferion da iawn wedi eu hadnabod er mwyn eu rhannu ar draws y Rhanbarth. Mae dwy ysgol fechan o ganol yr Ynys hefyd wedi eu dewis i rannu eu harferion, gan greu gweminar i ddangos sut mae'r dulliau cydweithio y maent wedi eu sefydlu yn lleihau baich/cefnogi ei gilydd fel staff ac yn rhannu arferion da er budd y disgyblion. Mae'r strwythurau cydweithio a rhannu arferion da yma yn parhau i gael eu meithrin a'u datblygu wrth i ysgolion y Sir symud ymlaen drwy'r cyfnod nesaf o'r 'normal newydd'. Yn y sector Gynradd drwy gydweithio gyda GwE a'r Gwasanaeth Dysgu, mae'r ysgolion wedi cychwyn ar y broses o gasglu a rhannu arferion da. O ran y gwaith sy'n cael ei hyrwyddo gan GwE, anogir iddynt rannu arferion ar draws eu clystyrau yn y lle cyntaf ac yna ar blatfform ehangach- drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE - i'w dosbarthu'n rhanbarthol. Bydd hyn eto yn gyfle i rannu arferion llwyddiannus a bachu ar arferion gorau yn lleol, sirol ac yn rhanbarthol.

Mae'r ysgolion cynradd wedi bod yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau 'Dysgu Carlam' er mwyn cynnig darpariaeth i ddisgyblion allu datblygu eu sgiliau sylfaenol yn llwyddiannus yn dilyn cyfnod o fethu derbyn addysg ffurfiol gyson. Mae enghreifftiau niferus o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau Dysgu Carlam sydd wedi eu creu gan GwE ac mae effaith y gwaith yma yn dechrau dod i'r amlwg - e.e. Mae canlyniadau un ysgol yng nghanol y Sir yn dangos cynnydd syfrdanol yn gyffredinol mewn sgiliau darllen dros gyfnod byr.

Rydym wedi bod yn weithredol iawn wrth sicrhau bod unrhyw ysgol 'sy'n peri pryder' yn derbyn cefnogaeth effeithiol mewn cyfnod ble nad yw'n ymarferol bosibl i ymweld er mwyn monitro a chloriannu cynnydd. Mae enghreifftiau niferus o'r gynhaliaeth yma yn cynnwys cynnal ymweliadau rhithiol bugeiliol rheolaidd, cynnal sesiynau i gyd-arfarnu cyflwyniadau gwersi sydd wedi eu recordio gan gynnig adborth a chyd-greu protocol ar beth sy'n ddisgwyliedig o ran cynnwys llyfrau.

Mae GwE wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion ar draws y Rhanbarth o dan themâu megis addysgeg, llesiant, TGCh ymysg eraill - ac mae bron bob un o ysgolion Ynys Môn wedi gwneud defnydd effeithiol ohonynt. Enghraifft benodol o hyn yw pan ddaeth bron i ddau gant o athrawon Cynradd ac Arbennig i sesiwn syrjeri gan Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Ynys Môn i gynnig arweiniad ar yr adnoddau Dysgu Cyfunol, Dysgu Carlam a'r dechnoleg ddiweddaraf. Yn ogystal â'r sesiynau hyfforddi, mae'r Ymgynghorwyr wedi mynychu cyfarfodydd penaethiaid rhithiol yn gyson i gynnig arweiniad ar amryw o faterion megis y defnydd o grantiau, asesu risg, cynlluniau parhad y dysgu rheoli perfformiad ymysg eraill.

Yn ychwanegol i hyn, mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi cynnal sesiwn ar Ysgolion fel Sefydliadau sy'n dysgu i Benaethiaid. Bydd ymgorffori meddylfryd YSD hefyd yn gymorth i ysgolion wynebu heriau'r cyfnod a chynllunio i ymateb yn llwyddiannus i ofynion y daith ddiwygio i'r dyfodol.

Mae pob un o ysgolion Ynys Môn wedi bod yn datblygu eu staff yn llwyddiannus i ddefnyddio technoleg i barhau'r dysgu. Gydag arweiniad a chefnogaeth gan y Gwasanaeth Dysgu a GwE, rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddiant rhithiol penodol er mwyn uwchsgilio a datblygu sgiliau TGCh, hyrwyddo Pencampwyr Digidol ym mhob Dalgylch i gasglu a rhannu arferion da a chefnogi unigolion yn ôl y gofyn/angen. Bellach mae'r ysgolion yn llawer mwy parod i wynebu newidiadau technolegol i'r dyfodol ac maent wedi symud yn eu blaenau gyda chamau breision o ran eu Dysgu Proffesiynol dros y cyfnod.

**Uwchradd:**

Ers y cyhoeddiad yn yr Haf y byddai ysgolion yn ail-agor, a'r angen brys i sicrhau y gellid cynnal a darparu'r dysgu ar batrwm 'dysgu cyfunol' - bu pwyslais dwys ar draws pob ysgol uwchradd ar uwch sgilio staff iddynt gael y sgiliau priodol i gael disgyblion i ddysgu'n ddigidol yn effeithiol. Gwnaed hyn yn ffurfiol drwy ddyddiau hyfforddiant, hyfforddiant anffurfiol a gwirfoddol yn aml gan athrawon tu allan i'r diwrnod ysgol, a gan athrawon wrth eu gwaith bob dydd. Bu dyddiau hyfforddiant ysgol yn gymorth i ysgolion ac athrawon baratoi am yr heriau hefyd. Rydym wedi cefnogi'r hyfforddiant hwn yn GwE drwy rannu syniadau am ddysgu cyfunol mewn fforymau penaethiaid a dysgu ac addysgu a chefnogi hyfforddiant digidol drwy arddangos adnoddau Hwb fel Screencastify a Flipgrid, a hynny ar ben y trafodaethau unigol ag arweinwyr ac athrawon. Ceir modelau dysgu ac amrywiol adnoddau ar ganolfan adnoddau GwE hefyd, ac mae ysgolion yn eu defnyddio. Cafwyd cefnogaeth dda gan ysgolion i'r sesiynau hyn, a bu'r niferoedd yn uchel.

Ochr yn ochr â hyn, bu pwyslais ar natur dysgu ac addysgu. Drwy drafod dulliau dysgu cyfunol a'u gweithredu, mae athrawon yn aml wedi gorfod ailedrych ar eu dulliau dysgu ac addysgu a'u hailwampio (sut i gwestiynu'n effeithiol, sut i adrodd yn ôl ac ati). Teg nodi bod dysgu digidol wedi bod yn newydd i ni gyd, ac mae'r naid dysgu broffesiynol o ganlyniad wedi bod yn anferthol. Mae sgiliau digidol y staff ar draws y pum ysgol wedi datblygu yn syfrdanol ac mae'r gwaith sydd wedi'i wneud mewn cyfnod cymharol fyr yn drawiadol iawn. Yn ôl un pennaeth: "*mae dysgu ac addysgu wedi newid yn aruthrol yn ystod y cyfnod Covid ac mae'r hyn gaiff ei ystyried yn 'dda' gennym bellach yn dra gwahanol i'r hyn oedd arfer a bod*".

Mae ysgolion yn defnyddio hyblygrwydd wrth ddarparu dysgu cyfunol. Mae rhai ysgolion yn dewis ffrydio rhai gwersi yn fyw i grwpiau o ddisgyblion; mae eraill wedi defnyddio dull mwy 'cyfunol' - rhai gwersi byw, rhywfaint o ddysgu anghydamserol drwy gyfrwng fideos wedi'u recordio o flaen llaw neu PowerPoint a thasgau drwy'r rhith ddosbarth. Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o wersi 'byw' wedi digwydd i flynyddoedd 12 ac 13. Mae gan bob ysgol bethau da iawn i'w ddweud am yr ymdrech gan staff addysgu, eu hymrwymiad i ddysgwyr a'u parodrwydd i addasu i ddulliau addysgu newydd.

Mae ysgolion wedi addasu i anghenion dysgwyr ac athrawon dros y tymor o ran sut maent yn mynd i'r afael â'r dysgu i ddisgyblion sydd yn ynysu, neu yn ystod wythnos y cyfnod clo byr. Mae'r uwch dimau rheoli yn y pum ysgol yn sicrhau bod adborth gan y disgyblion yn bwydo'r cynllunio ar gyfer Dysgu Cyfunol. Mewn un ysgol roedd canfyddiadau holiaduron disgyblion yn dangos eu bod yn mwynhau cael dewis o amrywiaeth o dasgau gan gynnwys troslais gan yr athro a mynediad i 'sgwrs fyw' er mwyn gallu gwirio dealltwriaeth. Bu'r sylwadau gan ddysgwyr a rhieni yn galonogol ar y cyfan yn y pum ysgol.

Mae strategaeth ymgysylltu â dysgwyr cadarn iawn wedi bod yn sylfaen i'r addysgu. Bu presenoldeb mewn gwersi yn cael ei fonitro'n drylwyr drwy SIMS neu Class Charts a chodwyd y ffôn ar rieni os nad oedd dysgwyr yn mynychu. Mewn rhai achosion, yr UDA sydd wedi gwneud y galwadau hyn, i bwysleisio pwysigrwydd yr ymgysylltu. Bu gwelliant mewn ymgysylltiad yn ystod y cyfnod clo byr o gymharu gyda'r Clo Mawr. Nododd un ysgol bod niferoedd da o ddisgyblion yn y setiau uwch yn ymgysylltu ond ei bod yn fwy heriol sicrhau ymgysylltiad gyda rhai disgyblion yn y setiau is.

Mae rhai ysgolion wedi nodi problemau gyda'u 'band eang' sydd yn cyfyngu ar y nifer o wersi byw gaiff eu cynnal ar yr un pryd. Mae'r Gwasanaeth Dysgu a'r ysgolion wedi cydweithio i geisio sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at ddyfais a chyswllt i'r we o gartref.

**Arbennig**

O ddechrau'r "clo" cyntaf ym mis Mawrth 2020, mae'r Sector Addysg Arbennig yn Ynys Môn wedi ymgymryd ag ymateb yn llwyddiannus i anghenion byd-eang y plant a'r pobl ifanc y maen nhw'n gyfrifol amdanynt.

Yn seiliedig ar asesiadau risg gofalus a chynhwysfawr, maent wedi gosod "Lles" y dysgwyr, eu teuluoedd, y staff a chymuned yr ysgol estynedig yn brif flaenoriaeth ac wedi gweithredu'n llwyddiannus i'w cefnogi a'u cynnal. Mae'r ymroddiad ychwanegol yn ystod penwythnosau a gwyliau ysgol wedi bod yn nodwedd o'r gefnogaeth gadarn hon ac maent yn arddangos "Arfer Gorau" o fewn y sector ADY. Mae'r berthynas gref a'r gefnogaeth gan y Gwasanaeth Dysgu yn unol a'r gefnogaeth gan y Corff Llywodraethol wedi bod yn ffactor wrth sefydlu'r arfer effeithiol yma.

Mae diwygio'r cwricwlwm a diwygiadau eraill wedi parhau ar gyflymder synhwyrol yn ystod y cyfnod, ac mae'r cynlluniau gwella cyfredol yn adlewyrchu set o ddyheadau gonest a chyraeddadwy yng nghyd-destun effaith y Pandemig cyfredol.

Drwy'r cyfnod anodd yma. mae'r ysgol a'r dysgwyr wedi parhau i gyflawni a llwyddo. Mae Dysgu Proffesiynol wedi bod yn flaenoriaeth parhaus, e.e. cyflawnwyd achrediad "ELKLAN" ar gyfer amgylchedd cyfathrebu ysgol gyfan yn ystod y cyfnod. Mae'r dysgwyr yn parhau i gyflawni hefyd drwy dysgu parhaus effeithiol, gyda chefnogaeth briodol yn y cartref a sylw manwl i ddatblygiad pob plentyn.

**Y camau nesaf**

Bwriada'r rhan fwyaf o ysgolion ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau digidol, yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Mae paratoi at y cwricwlwm newydd a'r diwygiadau ADY sydd ar y gweill yn flaenoriaeth i bob ysgol. Mae ysgolion hefyd yn cynllunio ar gyfer sut orau i ddefnyddio Cynnig Proffesiynol GwE i gefnogi'r meysydd hyn. Bydd GwE yn darparu cyfuniad o gymorth generig ac unigryw i gefnogi ysgolion ddatblygu dull dysgu cyfunol ymhellach.

Caiff ysgolion cynradd ac uwchradd gyfle i rannu adnoddau maent wedi'u cyd-lunio i helpu sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni. Yn y sector gynradd, mae'r ysgolion yn parhau i gydweithio o fewn eu clystyrau Dalgylchol i greu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu. Bwriad hyn yw er mwyn cefnogi ei gilydd yn lleol yn y lle cyntaf ac er mwyn cyfrannu at fanc adnoddau rhanbarthol a fydd yn gefn i ysgolion ar draws Gogledd Cymru wrth iddynt baratoi eu darpariaeth addysgol i ddisgyblion. Yn y sector uwchradd, mae'r ysgolion wedi ffurfio Cynghrair Dysgu Proffesiynol dan arweiniad y grŵp CAMU gyda'r bwriad o rannu adnoddau yn y lle cyntaf ac yna - drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE - i'w dosbarthu'n rhanbarthol ac yna cydweithio ar feysydd fel y Cwricwlwm i Gymru ac unrhyw ofynion (nad ydynt wedi'u diffinio eto) ar gyfer

prosesau asesu ffurfiol allai fod yn ofynnol yn CA4 a CA5.  Ariennir y clystyrau / cynghreiriau hyn drwy'r consortiwm.

Bydd angen i'r ysgolion adolygu ac addasu eu trefniadau monitro a sicrhau ansawdd fel mae'r flwyddyn yn mynd rhagddi gan ystyried addasiadau i asesiadau risg er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithiol.

Rydym wedi bod yn cydweithio yn agos gydag ymgynghorwyr o Gonsortia eraill drwy Gymru er mwyn sicrhau bod Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth effeithiol ar gael ar ffurf rithiol i'r gweithlu. Maent ar gael i ymarferwyr ar bob cam o'u gyrfa - o'r athro newydd gymhwyso i'r pennaeth profiadol a byddant yn dechrau tymor nesaf i gefnogi arweinwyr ar bob lefel. Mae'n fwriad gennym i barhau i edrych ar beth sydd wir angen ar arweinwyr yn ystod cyfnod dyrys y Pandemig yma er mwyn iddynt allu arwain eu hysgolion yn llwyddiannus.

**Crynodeb o'r gwaith a wnaed**

*Cam 1: Cyn y cyfnod clo*

- Cytuno ar strategaeth gyfathrebu gyda Chyfarwyddwyr y chwe awdurdod lleol.
- Galwadau ffon rheolaidd i bob ysgol gan yr YCG i gefnogi Penaethiaid i gadw ysgolion ar agor a lleddfu pryderon.
- Lleoli staff GwE mewn ysgolion ac UauCD lle bo angen, i'w cefnogi i aros ar agor.
- Lleoli staff GwE yn yr awdurdodau i'w cefnogi gyda gwasanaethau hanfodol.
- Timau GwE yn uwchlwytho adnoddau cychwynnol i Google Classroom dynodedig i gefnogi ysgolion gyda'r cynllunio cychwynnol ar gyfer dysgu o bell.

*Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo*

- Cadw cysylltiad rheolaidd ag ysgolion er mwyn sicrhau iechyd a lles staff a disgyblion.
- Parhau i gefnogi ysgolion unigol neu Hybiau pan fu prinder staff.
- Uwchsgilio staff GwE ar gyfer dysgu digidol.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion er mwyn dechrau cefnogi dysgu o bell mewn ysgolion.
- Cefnogi ysgolion gyda Dysgu Digidol a chynhyrchu fideos cymorth defnyddiol fel y gall athrawon ddatblygu ac amrywio eu methodoleg dysgu o bell.

*Cam 3: Dysgu o Bell (DoB)*

- Datblygu canllawiau dysgu o bell i ysgolion ar y cyd â rhanbarthau eraill.
- Ar y dechrau, gosod deunyddiau priodol ar Google Classroom ynghyd â syniadau i bob Cyfnod Allweddol gyfeirio atyn nhw.
- Cymorth i alluogi arweinwyr ac athrawon i weithredu yn unol ag arfer orau wrth greu a defnyddio adnoddau dysgu ar-lein.
- Datblygwyd modelau DoB effeithiol yn GwE. Fe'u rhannwyd yn genedlaethol a'u defnyddio ym mhob rhanbarth.
- Anogwyd ysgolion, arweinwyr ac athrawon i rannu adnoddau ar draws y system. Anogwyd ysgolion i ddefnyddio Hwb i rannu eu dulliau, eu cynlluniau a'u hadnoddau dysgu.
- Sicrhau y caiff pob dysgwr fynediad teg i ddysgu ac adnoddau dysgu.
- Pob YCG i ymgymryd â Dysgu Proffesiynol priodol o ran DoB effeithiol.

*Cam 4: Cefnogi ysgolion i ailagor*

- Gweithio ar y cyd â'r chwe Awdurdod Lleol.
- Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Cyfarfodydd wythnosol gyda Chyfarwyddwyr a deilyddion portffolio Addysg.
- Creu Fframwaith Polisi a Dangosfwrdd.
- Modelu asesiad risg ar gyfer pob sector.
- Adnabod rolau rhanbarthol a lleol i gefnogi dysgwyr bregus.
- Uwchsgilio staff GwE i gefnogi arweinyddiaeth ysgol yn y meysydd hyn.

*Cam 5: Dysgu Cyfunol*

- Uwchsgilio tîm GwE gyda gwaith ymchwil rhyngwladol ar ddysgu cyfunol.
- Cyfuno CiG yn naturiol ag arferion presennol.
- Unedau amlddisgyblaethol i atgyfnerthu sgiliau a'u datblygu.
- Graddau Asesu Canolfannau / Cymwysterau / Arholiadau

*Cam 6: Cyflymu Dysgu / Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS)*

- Dull Cyflymu Dysgu rhanbarthol / Recriwtio, Adfer, a Chodi Safonau - cynnwys lles Corfforol; Lles emosiynol a llythrennedd a rhifedd.
- Dull yn seiliedig ar dystiolaeth ar sail gwaith ymchwil.
- Y triongl angen - GwE yn arwain y cyffredinol, GwE ac AauLl y cynnig wedi'i dargedu ac AauLl yn arwain yr acíwt.

*Cam 7: Dyfnhau'r cydweithredu a datblygu rhwydweithiau cadarn*

- Gweithio o fewn cynlluniau cydweithio neu gyfleoedd er mwyn ffurfio cynghreiriau i fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth, a ffyrdd eraill o ddarparu er mwyn bodloni unrhyw senarios clo yn y dyfodol.
- Clystyrau a chynghreiriau i adnabod lefel y cymorth a fyddai'n briodol, ac a fyddai'n ofynnol, ar gyfer y gwahanol senarios.
- Hwyluso ysgolion i gefnogi ei gilydd yn ystod yr argyfwng hwn. Pob clwstwr neu gynghrair yn cefnogi ei gilydd drwy rannu cynlluniau ac adnoddau fel y gall ysgolion ymateb i wahanol senarios gweithredol y gallent ganfod eu hunain ynddyn nhw.
- Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu coladu yn rhanbarthol, gan sicrhau banc sylweddol o adnoddau o safon uchel i bob ystod oedran yn system ysgolion gogledd Cymru.
- Nod y gwaith yw lleihau llwyth gwaith a'r pwysau ar ysgolion.
- Darparu Cynnig Proffesiynol wedi'i symleiddio, i gefnogi clystyrau ac ysgolion unigol.



# Dysgu Proffesiynol

# ADRODDIAD AR Y CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL MEWN YMATEB I COVID-19

## Cefndir a chyd-destun

Mae’r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn syfrdanol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y gyfundrefn addysg ac ysgolion ond mae’n parhau i fod o bwysigrwydd canolog.

Ar 23 Mawrth, newidiwyd swyddogaeth ysgolion er mwyn cefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus tra hefyd yn parhau i gefnogi pob dysgwr  i gadw’n ddiogel a pharhau i ddysgu gartref.

Yn ystod y cyfnod hwn cynghorwyd ysgolion a lleoliadau i wneud pob ymdrech i wneud y canlynol:

- cadw pob plentyn yn iach a diogel;
- cynnig mynediad at ofal plant i weithwyr allweddol;
- sicrhau bod y disgyblion mewn mwyaf o berygl yn cael eu cefnogi;
- cefnogi lles y gweithlu addysg;
- rhoi mynediad i ddysgwyr at ddysgu trwy ddulliau digidol neu ddulliau hygyrch eraill mewn modd ymarferol a syml;
- cefnogi cyd-ddealltwriaeth yr holl bartneriaid o sut gall dysgu o bell effeithiol a threfnus ddarparu ystod o brofiadau dysgu;
- cefnogi  rhieni/gofalwyr i gael mynediad at arweiniad er mwyn deall eu rôl wrth gefnogi eu plant gyda dysgu o bell;
- cefnogi lles a sgiliau sylfaenol dysgwyr trwy gyswllt a chyfathrebu effeithiol.

# Cefndir a chyd-destun (parhad)

Ar 3 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl “ailgydio, dal i fyny a pharatoi.” Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Canllawiau Dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19] er mwyn darparu cyngor ar addysgu a dysgu fyddai’n disgwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

Ar 9 Gorffennaf, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn gallu dychwelyd i’r ysgol fis Medi, ac y byddai ysgolion yn dychwelyd at gapasiti llawn erbyn 14 Medi, yn amodol ar ostyngiad parhaus a chyson mewn achosion o COVID-19 yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau dysgu pellach ar gyfer tymor yr hydref [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19**]** sy’n cynnig casgliad cyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu, waeth beth yw’r lefel gweithredu mewn ymateb i COVID-19.


# Cyflwyniad

Mae cynnig dysgu proffesiynol blynyddol GwE yn gynhwysfawr ac eang. Rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer yr ystod lawn o staff ysgol sy’n cynnwys cymhwyster Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch, Rhaglen Datblygu Darpar Arweinwyr, Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol, a rhaglenni ar gyfer darpar benaethiaid hyd at CPCP. Mae ein cynnig proffesiynol hefyd wedi cynnwys cyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn nifer o agweddau eraill ar fywyd ysgol, er enghraifft: datblygu llythrennedd a rhifedd yn y sector cynradd, darpariaeth effeithiol mewn pynciau craidd mewn ysgolion uwchradd, cynllunio’r cwricwlwm a lles.



Mae’r gwasanaeth wedi esblygu i fod mewn sefyllfa i gynnig hyfforddiant yn seiliedig ar yr egwyddor o ‘ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu’. Mae ffocws ar ddarparu dysgu a chefnogaeth broffesiynol sydd â mentora, cydweithio ysgol i ysgol ac ymgysylltiad cymheiriaid yn gonglfeini ac sy’n defnyddio dulliau a llwyfannau amrywiol i ganiatáu ar gyfer cyflwyno o bell ac ar y safle pan fo gofyn am hynny.

Mae pob un yn hyrwyddo hunanwelliant ac addysgeg gyda’r nod o ledaenu arfer da.



# Cyflwyniad (parhad)


Cynlluniwyd cynnig proffesiynol GwE er mwyn sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer darpar arweinwyr ac arweinwyr profiadol ar bob lefel, ar gyfer datblygu ymarferwyr dosbarth ac ar gyfer meysydd/agweddau ysgol gyfan megis addysgeg, asesu a lles.

Rydym yn annog ysgolion i gydweithio ac i gymryd rhan mewn clystyrau ac rydym yn gallu ymateb i ofynion ac anghenion penodol ein ALl partner.

Caiff y cynnig proffesiynol ei lunio yn dilyn ymgynghori gofalus gyda'r holl randdeiliaid a'r grwpiau defnyddwyr a chaiff ei seilio ymhellach ar wybodaeth gadarn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. Rydym yn hyderus bod y pecyn cynhwysfawr sydd ar gael ar gyfer ysgolion yn diwallu gofynion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi eu hymgorffori yn ein holl gynigion hyfforddi ac mae pedwar diben y cwricwlwm yn ystyriaeth sylfaenol wrth gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfredol a gafaelgar. Ymhellach, mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i ddysgu proffesiynol ac yn cefnogi athrawon ac arweinwyr gydag addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol.

Fel rhan o gynnig Dysgu Proffesiynol GwE, rydym wedi cynnal agwedd integredig tuag at y Daith Ddiwygio ac wedi cefnogi cydweithio ar draws clystyrau gan edrych ar y continwwm 3-16. Gan weithio'n agos gydag arweinwyr, rydym wedi adnabod adnoddau a meysydd dysgu proffesiynol ar gyfer cynnwys y 12 Egwyddor Addysgegol yng nghyd-destun ehangach addysgu a dysgu, asesu, rhwydweithiau MDaPh lleol a chynllunio cwricwlwm a chynllunio ar lefel ysgol.



# Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP) er mwyn mynd i’r afael ag anghenion addysgol dysgwyr mewn ymateb i COVID-19



Mae staff yn yr awdurdodau lleol a GwE wedi addasu ac ailgyfeirio eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i gymunedau eu hysgolion. Mae’r cynnig proffesiynol ‘arferol’ wedi ei addasu er mwyn bod ysgolion a lleoliadau yn derbyn cefnogaeth berthnasol a phwrpasol. Mae hyn wedi eu galluogi i addasu i’r amgylchiadau heriol. Mae’r dull rhanbarthol o gefnogi cydweithio trwy waith clwstwr wedi parhau gydol y cyfnod hwn.

Yn ystod pandemig COVID-19 mae GwE a’r awdurdodau lleol wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles yr holl ddysgwyr a’r staff addysgu. Gan weithio o fewn yr Ymagwedd Genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol, mae egwyddorion ymgysylltu wedi'u sefydlu. Mae’r cynnig Dysgu Proffesiynol wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi ysgolion i wella sgiliau digidol eu staff a’u galluogi i ddatblygu dulliau Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol effeithiol ac ymgysylltu â dysgwyr yn fwy effeithiol. Rhoddodd ysgolion groeso cynnes i ddatblygu a rhannu modelau enghreifftiol o ddysgu o bell a dysgu cyfunol ac fe sicrhaodd fod gennym lefelau uwch o gysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth a’r cyflwyniad ledled y rhanbarth.

Mae'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i'r DP ac yn cefnogi staff addysgu ac arweinwyr gydag addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesedd a'u dysgu proffesiynol.

# Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP) er mwyn mynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr mewn ymateb i COVID-19 (parhad)



Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol hefyd wedi defnyddio dull colegaidd a chyfunol wrth ddatblygu fframwaith cefnogol. Roedd hyn yn sicrhau fod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer creu amgylchedd diogel er mwyn croesawu plant yn ôl i'r ysgolion.

Roedd y fframwaith yn cynnwys adnoddau ar gyfer cefnogi cynllunio ar gyfer y canlynol:

1. Gofynion iechyd a diogelwch
2. Trefniadau safle a chyfleusterau
3. Trafnidiaeth
4. Trefniadau staffio
5. Addysgu a dysgu cyfunol
6. Cynhwysiad a chefnogaeth i ddisgyblion
7. Tasgau rheolaeth allweddol.

# Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP) er mwyn mynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr mewn ymateb i COVID-19 (parhad)



Mae'r awdurdodau lleol a GwE wedi cydweithio er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol helaeth i gefnogi'r newid i drefniadau mewn ysgolion.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Rhannu arfer llwyddiannus ar draws y rhanbarth o ran dysgu o bell ac ymgysylltu â dysgwyr.
- Hwyluso gweithio clwstwr a chefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid ledled y rhanbarth.
- Cefnogi'r ysgolion hynny a oedd yn ei chael hi'n heriol ymgysylltu â dysgwyr penodol..
- Cefnogi athrawon wrth iddynt newid o gadarnhau dysgu blaenorol i addysgu agweddau newydd.
- Dysgu o fodelau cenedlaethol a rhyngwladol ar sut i ddatblygu dysgu cyfunol.
- Cyhoeddi canllawiau dysgu cyfunol a luniwyd ar y cyd ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.
- Datblygu modelau dysgu cyfunol enghreifftiol mewn cydweithrediad ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.
- Darparu dysgu proffesiynol i ysgolion ar fodelau dysgu cyfunol effeithiol ac addysgeg.
- Parhau i gefnogi iechyd a lles athrawon (a allai fod yn dysgu sawl grŵp oedran) wrth iddynt gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi dychwelyd i'r ysgol ac ar gyfer y rhai sy'n parhau i gael mynediad at ddysgu gartref.
- Parhau i gefnogi ysgolion wrth sicrhau iechyd a lles dysgwyr sy'n dychwelyd i ystafell ddosbarth wahanol iawn yn ystod y dychweliad graddol.
- Darparu Dysgu Proffesiynol pellach i athrawon a chymorthyddion ar y ffordd orau i fodelu'r ddarpariaeth 'economi gymysg' hon.
- Cefnogi ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau digidol i wella profiadau addysgu a dysgu

# Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'n darparu crynodebau a dolenni i'r adnoddau a ddatblygwyd ac a rannwyd ag ysgolion yn ogystal ag amlinelliad byr o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigiwyd.

Cliciwch ar y dewisiadau isod:

Adnoddau Dysgu Proffesiynol

Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol



# Adnoddau Dysgu Proffesiynol


Cynnwys

Dysgu Digidol

Dysgu ac Addysgu

Llês

Arweinyddiaeth

Cymorthyddion

Y Gymraeg

Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan

# Cynnwys


**Dysgu Digidol**

- Webinarau
- Fideos ‘Sut i’
- Adnoddau Dysgu o Bell

**Dysgu ac Addysgu**

- Cwricwlwm i Gymru
- Adborth
- Dysgu o Bell
- Dysgu Cyfunol
- Rhwydweithiau
- Dysgu ar Garlam

**Llês**

- Llês Cyffredinol
- Dulliau Llês wedi’u Targedu/Gwahaniaethol
- Llês Staff
- Ymgysylltu â Dysgwyr

# Cynnwys (parhad)

**Arweinyddiaeth**

- Paratoi i ail-agor ysgolion
- Cynllun Datblygu Ysgol

**Cymorddyddion**

- Cyflwyniad
- Cynnwys ‘Classroom’
- Ymuno a’r ‘Classroom’

**Y Gymraeg**

- Cynradd
- Uwchradd
- Newyddlenni
- Cynllun Gwefeillio

**Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar**

- Addysg gychwynnol athrawon
- Athrawon Newydd Gymwyso

# Dysgu Digidol

Hafan




Tudalen 47

https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1deFE6OxSWRVMkhVPksYoihedLEhnIlee/edit

# Dysgu Digidol

Hafan




https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1IoF41dH_mAfa6bSL4-Bn-sFOXrlnBqtw/edit

# Dysgu Digidol

Hafan






https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1IoF41dH_mAfa6bSL4-Bn-sFOXrlnBqtw/edit

# Dysgu Digidol


Hafan




https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1IoF41dH_mAfa6bSL4-Bn-sFOXrlnBqtw/edit

# Addysgu a Dysgu

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

Hafan


# Addysgu a Dysgu (Cwricwlwm i Gymru)




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Adborth)


Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan

**ADDYSGU A DYSGU**

- ADDYSGU A DYSGU
- Cwricwlwm i Gymru
- Adborth
- Dysgu ar Garlam
- Dysgu o Bell
  - Dysgu o Bell Cynradd
  - Dysgu o bell Uwchradd
- Dysgu Cyfunol
- Rhwydweithiau Pynciol
- PISA
- Ymchwil
- Ôl 16

## CYFNOD SYLFAEN

### Meithrin a Derbyn:

Model 1 Meithrin a Derbyn

Model 2 Meithrin a Derbyn - troslais

Model 3 Meithrin a Derbyn

Model 4 Meithrin a Derbyn

### Blwyddyn 1 a 2

Model 1 Blwyddyn 1 a 2

Model 2 Blwyddyn 1 a 2

Model 3 Blwyddyn 1 a 2

https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan

- ADDYSGU A DYSGU
- Cwricwlwm i Gymru
- Adborth
- Dysgu ar Garlam
- Dysgu o Bell
  - Dysgu o Bell Cynradd
  - Dysgu o bell Uwchradd
- Dysgu Cyfunol
- Rhwydweithiau Pynciol
- PISA
- Ymchwil
- Ôl 16

## CYFNOD ALLWEDDOL 2

### Blwyddyn 3 a 4

Model 1 Dysgu Adref

Model 1 Ynys Baradwys

Model 2 Themau

Model 2 Dewis

Model 3 Generig

Model 4 Wythnosol

Model 4 Ysgol GwE


### Blwyddyn 5 a 6

Modelau Blwyddyn 5 a 6

https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)


Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)


Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan





https://sites.google.com/hwbcymru.net/dysgucyfunol-blendedlearning/cartref-home

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan

Tudalen 62




https://sites.google.com/hwbcymru.net/dysgu-cyfunol-cs/model-dysgu-cyfunol-csl

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan

***Mae'r safle hwn ar ganol cael ei ddatblygu. Byddwn yn parhau i uwchlwytho'r cynnwys rhwng nawr a mis Medi.***




Yn yr Ysgol | Yn y Cartref

Dylid dilyn y canllawiau gweithredol ac asesiad risg yr ysgol wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau.


Cyfeiriwch at y ddogfen ystyriaethau cyfnod sylfaen am ganllawiau pellach.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o weithgareddau ffocws a rhai o fewn y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi. Dylid cadw'r tasgau ffocws yn fyr gyda chyfleoedd i ail-adrodd. (10 - 15 munud Meithrin a Derbyn / 15 - 20 munud Bl1 a Bl2). Sicrhewch bod darpariaeth barhaus ar gael.

Ystyriaethau'r Cyfnod Sylfaen

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan



# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan





ON YOUR MARKS



SPECIAL DAY




BLM / WILDLIFE

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)





Teaching and Learning

- Teaching and Learning
- Curriculum for Wales
- Feedback
- Accelerated Skills
- Distance Learning
- Blended Learning
  - Secondary
    - Blended Learning Guidance
- Subject Networks
- PISA
- Research
- Post 16




Blended Learning Guidance

This guidance is a concise, coherent and practical guide to blended learning for teachers and leaders. It provides clear definitions, helps to identify the opportunities and challenges through strategic questions for consideration and supports teachers in developing provision and practice. It includes • Key tasks and considerations for senior and middle leaders in planning for blended learning

• Models of blended learning highlighting the strengths of each


• Detailed guidance for subject leaders and teachers on planning blended learning based on best practice and including direct links to the latest research

• Subject exemplars for English Language, English Literature, Welsh, Mathematics, Science and History

• Review of the digital tools available to support blended learning

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan






https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Ieithoedd Ryngwladol)

Hafan

Tudalen 68




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Ieithoedd Ryngwladol)

Hafan




Tudalen 69

https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Ieithoedd Ryngwladol)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)


Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)


Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan






https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)


Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Llês

Hafan




Tudalen 77

https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês



LLES


Lles

**Llesiant cyffredinol**

Ymgysylltu â Dysgwyr

Cefnogaeth gwahaniaethol / wedi ei dargedu ar gyfer grwpiau o ddysgwyr

Llesiant staff




## DOSBARTH GOOGLE

**Dosbarth Google Classroom CA2, CA3 and CA4**

Creuwyd dobarth Google ar gyfer cefnogi ysgolion gyda'r eflen Dysgu o Bell. Mae pob dosbarth gyda adran Llesiant sydd ac amrediad o adnoddau o fewn y maes lles corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac emosiynol. Mae angen côd ar gyfer cael mynediad i'r dosbarth sydd wedi ei rhannu gyda eich ysgol.

## CA2

https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês

Hafan





Tudalen 79

https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês

Hafan

Tudalen 80




https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês

Hafan




Tudalen 81

https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Arweinyddiaeth

Hafan




Tudalen 82

https://sites.google.com/d/13lxOcGlqFOfcfohi7pQJTIBmpkY2ylTw/p/1j5VwapWJU9o_0YeDHPXEKbB-TYj0zzni/edit

# Arweinyddiaeth

Hafan

**PARATOADAU I AIL-AGOR YSGOLION**

Trosolwg Dashfwrdd | Egwyddorion Trosfwaol

Diogelwch | Safle a Chyfleusterau | Trafnidiaeth

Staffio | Dysgu ac Addysgu | Cefnogi Dysgwyr

Cyfathrebu | Tasgau Rheolaethol Allweddol Eraill | Dogfennaeth a Chanllawiau LlC

Asesiadau Risg

Trosolwg | Sgorio | Canllawiau

Ysgol Gynradd | Ysgol Uwchradd | Ysgol Arbennig | UCD

**PREPARATION TO RE-OPEN SCHOOLS**

Dashboard Overview | Overarching Principles

Safety | Site & Facilities | Transport

Staffing | Teaching & Learning | Learner Support

Communication | Other Key Management Tasks | WG Guidance Documents

Risk Assessments

Overview | Scoring | Guidance

Primary Schools | Secondary Schools | Special Schools | PRU

**Fel ar y 15-06-2020**

**As at 15-06-2020**

Preparation to re-open schools

Hafan

# COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Logisteg | Adeiladau | • Cyfrifo cynhwysedd ysgol | | | 12 | • Yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd, gallai 56 m2 safonol gymryd 8 disgybl i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o 2m.<br>• Ar gyfer ysgol arferol efo amrywiaeth o ddosbarthiadau byddai hyn yn awgrymu cynhwysedd posibl o 35% o ddefnydd arferol.<br>• Mae'r dosbarth cyfartalog, efo dodrefn a staff ychwanegol yn 6 disgybl.<br>• Gallai ysgolion fod eisiau gweithredu ffactorau cyfyngu eraill neu edrych ar raddoli cynhwysedd o 20% i 33% yn dibynnu ar eu cyfyngiadau unigol.<br>• Gallai ysgolion fod eisiau dechrau ar ben isaf yr ystod ac, ar sail profiad, addasu cynhwysedd dros yr wythnosau dilynol. | | | | • Mae gan ALl ddata ar gynhwysedd a gellid cynnal amrywiaeth o fodelau wrth i'r cyngor ar gadw pellter cymdeithasol aeddfedu<br>gwyddonol cyfredol. Dylid gweithredu'r un egwyddorion diogelu i'r ystafell athrawon. |
| Logisteg | Yr ystafelloedd | • Gofynion iechyd a diogelwch o safbwynt yr ystafell ddosbarth a defnyddio lle o fewn yr ysgol. | | | 16 | • Bydd angen i ysgolion edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod cymdeithasol. | | | | • Mae angen i ysgolion ofalu bod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau ar ôl cyfnod o gau fel clefyd Legionnaire,<br>a systemau chwistrellu dŵr, tynnu llwch ac ati.<br>• Sylwch nad yw hon yn rhestr lawn ac y bydd angen i ysgolion gysylltu â'u hymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch am asesiad cyfa |
| Logisteg | Cludiant | • Penodol iawn i'r ysgol, yn amrywio o ychydig iawn o ofynion gyda'r mwyafrif yn byw o fewn 3 milltir ac yn teithio'n ddiogel i'r ysgol, hyd at ysgolion ble mae mwyafrif y dysgwyr yn cael eu cludo i'r ysgol.<br>• Hefyd, mae angen ystyried dysgwyr bregus y mae arnynt angen trefniadau unigryw. | | | 12 | • Cysylltu â'r ALl am gludiant mewn perthynas â'r diwrnod ysgol a faint fydd angen.<br>• Parhau i leihau niferoedd sydd yn cael cludiant. | | | | • Bydd pob giât heblaw am y giât ffrynt ar gau.<br>• UDA ar y giât i adael bysus a thacsis i mewn ac allan unwaith y bydd yn ddiogel.<br>• Rhaid i hyn fod yn berthnasol i bob safle - dylai fod yn hyblyg i bob ysgol.<br>• Bydd angen i blant ar fysus fod ar rota hefyd.<br>• Creu mannau gollwng disgyblion - meysydd parcio gerllaw ac ati.<br>• Efallai bydd rhaid i ddysgwyr beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau prysur ac felly, o ganlyniad, gall ysgolion<br>cynnal diwrnod ysgol tu allan i oriau teithio prysur. |
| | | | | | | | | | | • Angen cymorth gan bob gwasanaeth ALl i reoli disgwyliadau rhieni/gofalwyr. |




## PROGRESS TOWARDS SDP PRIORITIES 2019-20


Reviewing the progress of the 2019-20 school development plan remains statutory. Most schools have reviewed their priorities up to March 2020. This document offers sentences and possible content to report on progress since then. It can usually be reviewed at the school's G6 site or an annex to the SDP 2019-20 document.

Click here to open the document in a new window - there will be an option here for you to download.

# Cymorthyddion

Hafan


Tudalen 86




https://sites.google.com/d/1rIeofBz-sfln_0S332fQ7R1elYfxgUQ_/p/1a0VwAxXux3muAkkqJkrxVC5QbMER0Zh1/edit

# Cymorthyddion

Hafan




Tudalen 87

https://sites.google.com/d/1rIeofBz-sfln_0S332fQ7R1elYfxgUQ_/p/1a0VwAxXux3muAkkqJkrxVC5QbMER0Zh1/edit

Hafan

# Cymorthyddion

Tudalen 88

## Cymorthyddion

Cyflwyniad

Cynnwys y Dosbarth Google

**Ymuno gyda'r dosbarth**




**Sut i dderbyn côd ar gyfer ymuno gyda'r Dosbarth:**

Mae'r côd ar gyfer ymuno gyda'r Dosbarth Google i gymorthyddion wedi ei rannu gyda phenaethiaid y rhanbarth. Gofynnwch i'ch Pennaeth am y côd, neu cysylltwch gyda *WendyWilliams@gwegogledd.cymru* neu *CarysEiriJones@gwegogledd.cymru* er mwyn derbyn y côd drwy e-bost, gan nodi eich enw llawn, enw'r Ysgol a'ch Awdurdod Lleol.

Wedi i chi dderbyn y côd, mae angen mewngofnodi i'ch cyfrif Hwb er mwyn cael mynediad at y Dosbarth.

**Arweiniad ar sut i ymuno gyda'r Dosbarth:**

https://sites.google.com/d/1rIeofBz-sfln_0S332fQ7R1elYfxgUQ_/p/1-CyrXC7fOcElMPnoJPb4ikJC5u9v7zod/edit

# Y Gymraeg

Hafan

Tudalen 89




https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/

# Y Gymraeg

Hafan




https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/cynradd/cyfnod-sylfaen

# Y Gymraeg


Hafan




https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/cynradd/cyfnod-allweddol-2

# Y Gymraeg

Hafan





Tudalen 92

https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/uwchradd/ca3

# Y Gymraeg

Hafan




https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/uwchradd/ca4

# Y Gymraeg

Hafan

Tudalen 94




https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/newyddlenni

# Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar






https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/cynllun-gwefeillio

# Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan






https://sites.google.com/hwbcymru.net/itenqt/early-professional-development-pathways

# Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan




https://sites.google.com/hwbcymru.net/itenqt/ite/learning-to-teach



# Cyfleoedd  Dysgu Proffesiynol

Dysgu Digidol

Addysgu a Dysgu

Lles

Arweinyddiaeth

Cymorthyddion Dysgu

Y Gymraeg

Llwybrau DP Cynnar

# Dysgu Digidol

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| Gweminarau byw ac wedi'u recordio ar gyfer arweinwyr ac athrawon a oedd yn cynnwys:<br>• Cyflwyniad i Hwb<br>• Cyflwyniadau ar sut i ddefnyddio *Flipgrid, Office 365, Google for Education, Screencastify, Adobe Spark*<br>• Rhannu adnoddau dysgu proffesiynol pellach pe bai'r gynulleidfa angen gwybodaeth ychwanegol | • Gwell ymwybyddiaeth o'r offer a'r gwasanaethau a gynigir drwy Hwb<br>• Cynnydd ymysg ysgolion yn y ddealltwriaeth o'r manteision o ddefnyddio Hwb<br>• Cynnydd yn y defnydd o Hwb ar gyfer cefnogi dysgu o bell | 5 sesiwn<br>14 awr<br>470 wedi mynychu sesiwn fyw<br>720 wedi mynychu sesiwn a recordiwyd |

# Dysgu Digidol

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| Gweithdai dysgu digidol a gyflwynwyd i staff GwE i'w galluogi i gefnogi pob ysgol a chlwstwr ledled y rhanbarth â'u strategaethau dysgu o bell a dysgu cyfunol. | • Cefnogaeth ar gael ac wedi ei chyflwyno i bob un o'r 413 o ysgolion a'r 53 clwstwr yn y rhanbarth<br>• Cynnydd mewn hyder ac yn y defnydd o ddysgu digidol ar draws yr holl ysgolion<br>• Cynnydd yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ar gyfer cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol | 60 sesiwn<br>132 awr<br>65 o staff GwE |

# Dysgu Digidol

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi eu darparu ar gyfer holl arweinwyr ac athrawon ysgolion y rhanbarth drwy'r canlynol:<br>• Creu gwefan dysgu o bell er mwyn rhannu gwybodaeth ac offer i gefnogi ysgolion<br>• Creu *Google Classrooms* er mwyn rhannu adnoddau ac arfer da gyda staff addysgu<br>• Creu *Google Classroom* er mwyn cynnig dysgu proffesiynol i gymorthyddion dysgu<br>• Creu gwefan dysgu cyfunol er mwyn cyflwyno modiwlau a dulliau dysgu cyfunol i ysgolion | • Adnoddau a gwybodaeth ar gael ac wedi eu cyflwyno i'r 413 o ysgolion a'r 53 clwstwr yn y rhanbarth<br>• Gwybodaeth wedi ei choladu mewn un lle er mwyn hwyluso mynediad<br>• Gwell ymwybyddiaeth o'r gwahanol fethodoleg a dulliau o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Cynnydd yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ar gyfer cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Rhannu arfer da ar draws y rhanbarth | 25 awr<br>Adnoddau a gwybodaeth ar gael ar gyfer y 413 o ysgolion a'r 53 clwstwr yn y rhanbarth |

# Addysgu a Dysgu

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Uwchsgilio **Ymarferwyr Cyfnod Sylfaen ac UDA,** gan ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol ar ddarpariaeth CS i ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion.<br>• Arweiniad a chefnogaeth ar ailagor ysgolion, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth y cyfnod sylfaen, ar gyfer ysgolion unigol, clystyrau ac YCG.<br>• Sesiynau hyfforddi clwstwr ar Ddysgu y Tu Allan ac ar sut i ddefnyddio'r tu allan yn effeithiol pan fydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.<br>• Arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer ysgolion yng nghategori Estyn ac ysgolion sy'n risg o ran eu cynllunio a darparu dysgu o bell.<br>• Hyfforddiant mathemateg a rhifedd i gefnogi staff y CS i gynllunio profiadau dysgu pwrpasol trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol.<br>• Rhannu model a gweithgareddau enghreifftiol Dysgu Cyfunol CS gyda'r YCG a chlystyrau o ysgolion ar draws y rhanbarth er mwyn cefnogi trosglwyddo a sefyllfaoedd lle mae ysgolion wedi cau yn lleol. | • Uwchsgilio ymarferwyr CS ac UDA ar addysgeg CS da.<br>• Cynnydd yn yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r angen i ddarparu amgylchedd buddiol o ansawdd uchel i ddisgyblion ar gyfer dychwelyd i'r ysgol.<br>• Cynnydd yn y ddealltwriaeth o'r angen i gynllunio gweithgareddau pwrpasol a darparu cyfarwyddiadau/deunyddiau cam wrth gam, i gefnogi rhieni gyda dysgu o bell. | 33 sesiwn<br>50 awr<br>172 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Arweiniad i staff GwE ar ganllawiau a modelau enghreifftiol dysgu cyfunol CA2 - o ran cynnwys a chefnogaeth i ysgolion**<br><br>• Cydweithiodd 6 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i ysgrifennu cynlluniau dysgu cyfunol enghreifftiol, wedi eu cefnogi gan 5 YCG arall gydag arbenigedd Llythrennedd, Rhifedd a Digidol. Ysgrifennwyd tri chynllun enghreifftiol gwahanol gydag arweiniad i rieni ar gyfer pob un. Roedd pob un o'r 3 enghraifft yn cydymffurfio ag egwyddorion addysgegol a 4 diben y Cwricwlwm i Gymru a'r arweiniad ar gynllunio cwricwlwm.<br>• Mae cyflwyniad *PowerPoint,* sy'n cyd-fynd â'r enghreifftiau, yn cynnig arweiniad ar y modelau dysgu cyfunol gwahanol, ystyriaethau ar gyfer gweithredu effeithiol ac arweiniad digidol ar gyfer athrawon.<br>• Rhannwyd gwybodaeth am yr enghreifftiau gyda phob YCG cynradd trwy gyflwyniadau mewn cyfarfodydd craidd a lleol ar draws y rhanbarth. Cafodd arweiniad ei rannu hefyd er mwyn paratoi YCG ar gyfer rhannu gwybodaeth â phob ysgol gynradd yn y rhanbarth fel rhan o'r Gweithdai Dysgu Cyfunol a gynhaliwyd yn wythnosau olaf tymor yr haf. | Roedd gan yr YCG ganllaw eglur i'w cynorthwyo i rannu gwybodaeth ag ysgolion ar draws y rhanbarth ac ar gyfer rhoi negeseuon eglur a chyson i ysgolion.<br>O ganlyniad:<br>• Mae gan ysgolion cynradd y rhanbarth wybodaeth dda ynghylch y deunyddiau enghreifftiol a'u cynnwys.<br>• Mae gan ysgolion arweiniad eglur ar fodelau dysgu cyfunol gwahanol. Mae ganddynt hefyd arweiniad a syniadau ymarferol er mwyn helpu athrawon gynllunio ar gyfer Medi a thu hwnt.<br>• Mae arweinwyr ac athrawon wedi croesawu'r deunyddiau gan nodi y byddant yn ddefnyddiol iawn.<br>• Mae gweld a thrafod y deunyddiau wedi lleihau'r ansicrwydd ymhlith athrawon, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o sut allai dysgu cyfunol edrych yn ymarferol ac mae wedi lleihau llwyth gwaith athrawon o ran cynllunio. | • Paratoi deunyddiau - 400 awr<br>• Cyfarfodydd - 5 awr<br>• 32 YCG cynradd |

# Addysgu a Dysgu



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **DP ar gyfer modelau a darpariaeth Dysgu o Bell cynradd**<br>• Uwchsgilio staff GwE ymhellach a chynhyrchu modelau DoB enghreifftiol – rhannu modelau dysgu o bell a ddatblygwyd gan dîm cynradd GwE ar gyfer CS M/D, B1/2, B3/4, B5/6<br>• Cyfarfodydd DP gydag ALl (trwy gyfarfodydd BAS) i sicrhau eglurder ac adborth ar ddulliau DD.<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer penaethiaid – cynhaliodd pob YCG sesiwn DP unigol ar y ffôn gyda phob pennaeth, ac anfonwyd negeseuon e-bost dilynol oedd yn cynnwys yr holl ddogfennaeth a'r modelau, fel nad oedd y modelau'n cael eu hanfon yn 'oer' nac yn cael eu camddehongli – wythnos 20/04/20<br>• Roedd sesiynau dysgu proffesiynol yr YCG yn datblygu penaethiaid ar sail unigol o ran sut i ddefnyddio 'Teams' a sut i weithredu modelau'r YCG. Dysgu proffesiynol dilynol a rhannu arfer gorau mewn cyfarfodydd clwstwr; dysgu | • Aelodau'r tîm wedi'u harfogi'n fwy effeithiol i gefnogi ysgolion.<br>• Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion.<br>• Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u cyflwyno i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen].<br>• Mwy o gysondeb o ran y dulliau a fabwysiadwyd ar draws ysgolion ac o fewn ALl.<br>• Uwchsgilio penaethiaid ac athrawon o ran sgiliau a'r adnoddau a'r offer sydd ar gael i ysgolion ar gyfer dysgu o bell<br>• Gwell cydweithio ar draws clystyrau<br>• Gwell darpariaeth dysgu o bell ar gyfer plant<br>• Gwell safonau o ran ymgysylltiad, lles a sgiliau plant | • 330+ sgwrs dysgu proffesiynol unigol gyda phenaethiaid<br>• 54 cyfarfod clwstwr<br>• x2 (ail ymweld)<br>1 cyfarfod tîm cynradd<br>1 cyfarfod tîm llawn – 30 munud<br>3 chyfarfod ardal leol x3 (ail ymweld)<br>6 x cyfarfod penaethiaid-rhanddeiliaid<br>6 x cyfarfod BAS<br>• 240 awr |

# Addysgu a Dysgu



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Gweithdai Dysgu Cyfunol ar gyfer CA2**<br>Cynlluniwyd y sesiwn er mwyn datblygu dealltwriaeth gychwynnol o hanfodion Dysgu Cyfunol er mwyn paratoi ysgolion i gynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion.<br><br>Roedd disgwyl i unigolion / ysgolion wneud y canlynol:<br>• Cyfrannu i sgyrsiau a thrafodaethau yn dilyn darllen cefndirol am Ddysgu Cyfunol cyn y gweithdy<br>• Gwylio fideo am hanfodion Dysgu Cyfunol a thrafod diffiniadau a modelau posib<br>• Nodi pa gyfleoedd sydd i ysgolion wrth addasu eu darpariaeth ar gyfer Medi 2020 (yn benodol o dan y penawdau Lles, Addysgeg, CiG , Dysgu Cyfunol ac Adborth).<br>• Ystyried sut allent ymateb i unrhyw heriau o ran addasu ar gyfer Medi 2020.<br>• Ystyried pa gefnogaeth bellach fydd ei hangen arnynt er mwyn darparu Dysgu Cyfunol yn llwyddiannus ac ystyried sut all cydweithio clwstwr gynorthwyo hyn wrth symud ymlaen. | • Gwell dealltwriaeth o hanfodion Dysgu Cyfunol.<br>• Ysgogi penaethiaid ac Arweinwyr Addysgu a Dysgu i ddatblygu modelau Dysgu Cyfunol yn eu hysgolion.<br>• Arweinwyr Addysgu a Dysgu wedi eu hwuchsgilio a'u harfogi i ddatblygu Dysgu Cyfunol yn eu hysgolion ac i gefnogi eu staff addysgu'n well.<br>• Pob ysgol glwstwr yn gallu cydweithio gyda'r YCG i nodi pa gefnogaeth bellach sydd ei hangen ar gyfer cyflwyno Dysgu Cyfunol yn llwyddiannus fel bod modd targedu'r rhain mewn cyfarfodydd dilynol.<br>• Sgiliau digidol penaethiaid ac Arweinwyr DacA wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithdy ar-lein. Penaethiaid ac Arweinwyr yn gallu trafod ac ymwneud â thasgau ymarferol digidol yn llwyddiannus.<br>• Datblygu sgiliau ar gyfer cydweithio digidol ymhlith ysgolion clwstwr - e.e., creu dogfen ar y cyd ar gyfer ymateb i gyfleoedd a heriau cyfredol. | 54 sesiwn<br>54 awr<br>330 ysgol (hyd at 2 gynrychiolydd o bob ysgol yn mynychu) |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus i'r tîm uwchradd er mwyn cefnogi ysgolion yn llwyddiannus gyda Dysgu o Bell**<br><br>• Yn y cyfnod clo cychwynnol, buddsoddwyd amser sylweddol yn cyfathrebu ag ysgolion mewn perthynas â'u dealltwriaeth o ddysgu o bell, gan arwain at ymchwil i arferion cyfredol yn genedlaethol a rhyngwladol, er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol. Roedd yr amser hwn yn cynnwys ymchwilio i DdoB o safbwynt arweinwyr ysgolion, athrawon, disgyblion a rhieni.<br>• Yn dilyn hyn, treuliwyd llawer o amser yn creu rhesymwaith ar gyfer DoB a oedd yn cydnabod yr arfer gorau, a oedd yn realistig, ond eto yn uchelgeisiol ar gyfer pob dysgwr.<br>• Arweiniodd y rhesymwaith at drafodaeth a chreu nifer o ddulliau strwythurol a sefydliadol ar gyfer DoB mewn ysgolion, yn amrywio o gynlluniau eithaf anhyblyg a oedd yn cydnabod angen cwricwlaidd i atgyfnerthu dysgu ac archwilio syniadau newydd, i gynlluniau mwy hyblyg oedd yn annog dysgu thematig a dewis ar gyfer dysgwyr a rhieni. | • Uwchsgilio aelodau'r tîm uwchradd, naill ai drwy ymwneud uniongyrchol neu rannu diweddarach, mewn perthynas ag egwyddorion sylfaenol DoB a'i gymhwyso mewn amrywiaeth o ysgolion.<br>• Aelodau'r tîm wedi'u harfogi'n well i gefnogi ysgolion, gyda dealltwriaeth eang o DdoB a gwybodaeth am ddulliau amrywiol a allai weithio yng nghyd-destun ysgolion unigol.<br>• O ganlyniad, roedd penaethiaid ac aelodau UDRh wedi'u harfogi'n fwy effeithiol i gefnogi athrawon yn eu hysgolion eu hunain, o ran darparu dysgu addas i ddisgyblion a chefnogi rhieni.<br>• Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion<br>• Modelau o ansawdd uchel wedi'u rhannu â phob ysgol yn y rhanbarth, trwy gyflwyniadau hyderus gan staff GwE, o ganlyniad i fuddsoddi amser yn ymchwilio a chreu rhesymwaith.<br>• Ysgolion yn datblygu eu strategaeth Dysgu o Bell eu hunain yn seiliedig ar arweiniad GwE.<br>• Gwell dealltwriaeth gan yr holl ysgolion o gynllunio naill ai ddull pwnc-ganolog neu un amlddisgyblaethol yn CA3 gan drefnu bod staff ar yn cydweithio ar gynllunio a chyflwyno.<br>• Penaethiaid ac UDRh wedi'u grymuso i arwain, datblygu a chefnogi staff yn eu hysgolion.<br>• Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u cyflwyno i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen]. | • Yr holl staff yng nghyfarfod llawn GwE pan rannwyd syniadau a phan eglurwyd y rhesymwaith.<br>• 6+ aelod o staff yn y tîm craidd, ac 13+ aelod o staff yng nghyfarfodydd y tîm uwchradd i rannu syniadau a diweddaru staff er mwyn iddynt weithio'n gynhyrchiol mewn ysgolion, gyda'r holl fanylder angenrheidiol.<br>• Gweithiodd 6 aelod o staff uwchradd GwE ar ymchwil, rhesymwaith a modelu DoB.<br>• 350 awr |

# Addysgu a Dysgu



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Dysgu proffesiynol wedi ei ddarparu trwy **fforymau a rhwydweithiau uwchradd** a'i ategu gyda gweminarau i godi ymwybyddiaeth o egwyddorion **Dysgu o Bell** effeithiol a'r ystyriaethau a allai effeithio ar unrhyw gynllunio. | • Holl ysgolion uwchradd y rhanbarth yn cydymffurfio ar arweiniad Llywodraeth Cymru, a'r rhan fwyaf o ysgolion wedi mabwysiadu modelau GwE ac wedi addasu arferion fel eu bod yn cyd-fynd â'r arweiniad a'r modelau.<br>• Mwy o ddealltwriaeth gan bob ysgol o hanfodion Dysgu o Bell effeithiol.<br>• Gwell dealltwriaeth gan bob ysgol o sut i gynllunio dull amlddisgyblaethol yn CA3 a threfnu bod staff yn cydweithio i gynllunio a chyflwyno.<br>• Mwy o gysondeb yn y dulliau a fabwysiadwyd ar draws ysgolion ac o fewn ALl.<br>• Arferion da wedi eu rhannu trwy'r ddogfen '10 Ffordd' a thrwy'r arweiniad dysgu ac addysgu lletach a gynigiwyd fis Mehefin. | • 12 sesiwn + cyfarfodydd a chyswllt rheolaidd yr YGC gyda phenaethiaid ac UDRh - 325 awr<br>• 200 (penaethiaid, UDRh, fforymau Pynciau Craidd ac athrawon) wedi mynychu'r gweminarau<br>• Cefnogaeth bwrpasol ychwanegol hefyd wedi'i darparu ar gyfer ysgolion unigol yn ôl y gofyn. |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Dysgu proffesiynol ar Ddysgu Cyfunol ar gyfer penaethiaid ac Arweinwyr Dysgu UDA**<br>• Datblygu dealltwriaeth o ddysgu cyfunol er mwyn paratoi ysgolion ar gyfer cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion. Rhoi trosolwg o’r arweiniad ar ddysgu cyfunol a ddatblygwyd gan dîm GwE<br>• Canolbwyntio ar y tasgau allweddol yr oedd angen i arweinwyr ysgolion ymgymryd â nhw cyn diwedd tymor yr haf<br>• Codi ymwybyddiaeth o’r ystyriaethau a allai effeithio ar unrhyw gynllunio ar gyfer tymor yr hydref<br>• Canolbwyntio ar fodelau dysgu cyfunol penodol yn cynnwys enghreifftiau pynciol a modelau amlddisgyblaethol CA3 ( Dysgu Gyda’n Gilydd)<br>• Cefnogi penaethiaid ac arweinwyr dysgu i ddefnyddio technoleg wrth ddarparu dysgu cyfunol ac i uchafu ymgysylltiad disgyblion<br>• Galluogi ysgolion i rannu syniadau ac arfer da<br>• Defnyddio cysylltiadau YCG er mwyn darparu | • Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi’u darparu i ysgolion yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen<br>• Penaethiaid ac arweinwyr UDA wedi’u harfogi’n fwy effeithiol i gefnogi eu timau staff wrth gynllunio a chyflwyno dysgu cyfunol<br>• Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddysgu cyfunol, y modelau amrywiol a sut i gynllunio ar eu cyfer<br>• Cysondeb o ran y gefnogaeth, y negeseuon a’r arweiniad i ysgolion y rhanbarth<br>• Ymatebodd ysgolion y rhanbarth yn dda i ansawdd a defnyddioldeb arweiniad GwE gan ddatblygu eu strategaethau eu hunain ar ei sail<br>• Roedd yr arweiniad yn sail i benderfyniadau ysgolion o ran gofynion dysgu proffesiynol ar gyfer tymor yr hydref. Arweinwyr dysgu ac addysgu wedi’u grymuso i ddarparu HMS ar ddysgu cyfunol yn eu hysgolion eu hunain.<br>• Rhoddwyd cyfleoedd i grwpiau dysgu ac addysgu i gydweithio a rhannu arfer da<br>• Dysgu cyfunol yn rhan o gynllunio paratoadol ysgolion ar gyfer tymor yr hydref | • 12 cyfarfod penaethiaid a 18 cyfarfod o’r grwpiau dysgu<br>• 54 pennaeth a 62 arweinydd addysgu a dysgu<br>• 65 awr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Dysgu proffesiynol ar Ddysgu Cyfunol wedi'i gyflwyno trwy fforymau uwchradd, grwpiau dysgu ac addysgu a rhwydweithiau arweinwyr canol pynciau craidd.**<br><br>• Rhannu arweiniad GwE ar ddysgu cyfunol, yn cynnwys crynodeb o ymchwil rhyngwladol ynghylch modelau effeithiol a'r arweiniad diweddaraf ar addysgu a dysgu effeithiol<br>• Arweiniad ar gynllunio effeithiol ar gyfer dysgu cyfunol<br>• Defnyddio offer digidol i gefnogi dysgu cyfunol<br>• Rhannu deunyddiau enghreifftiol pwnc-benodol ar gyfer Saesneg, Cymraeg, llenyddiaeth, gwyddoniaeth, mathemateg a hanes er mwyn darparu enghreifftiau ymarferol o'r uchod | • Uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn meddu ar allu gwell i i gynllunio ar gyfer cyfleoedd a heriau dysgu cyfunol. Yr arweiniad wedi cael derbyniad cadarnhaol iawn.<br>• Cefnogaeth ar lefel ymarferol i athrawon i gynllunio a chyflwyno dysgu cyfunol. Roedd ysgolion yn defnyddio ac addasu hwn ar gyfer eu cyd-destun.<br>• Ysgolion yn gallu adeiladu ar y profiad o ddysgu o bell mewn meysydd megis y defnydd o offer digidol<br>• Ysgolion yn defnyddio'r arweiniad ar ddysgu cyfunol i fodelu addysgu a dysgu effeithiol<br>• Cysondeb o ran y gefnogaeth, y negeseuon a'r arweiniad i ysgolion y rhanbarth | • 46 sesiwn<br>• 350 awr<br>• 236 ( 54 pennaeth, 62 arweinydd addysgu a dysgu, 120 arweinydd canol pynciau craidd ) |

# Addysgu a Dysgu

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Gweithgor Dysgu Cyfunol uwchradd**<br>• Thema ganolog y sesiynau oedd ymchwilio ac ysgrifennu'r arweiniad i ysgolion ar gyfer y cyfnod 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' a ddechreuodd ar 29 Mehefin. Cafodd hwn ei rannu ag ysgolion ar 16 Mehefin fel adran dysgu ac addysgu uwchradd y dangosfwrdd<br>• Roedd arweiniad 29 Mehefin yn cynnwys yr egwyddorion allweddol ar gyfer dysgu yn y cyfnod hwn, gan gefnogi iechyd a lles, cyfuno dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell, y goblygiadau i'r cwricwlwm, yr amserlen ac arferion dosbarth yn ogystal ag arweiniad ar ffitrwydd dysgu.<br>• Roedd arweiniad 29 Mehefin hefyd yn cyfeirio at ddeunyddiau eraill a ddatblygwyd ac a gynhwyswyd ar y dangosfwrdd. Roedd y rhain yn ddeunyddiau ar adborth ac asesu, modelau dysgu cyfunol, 10 ffordd o ddatblygu dysgu o bell, iechyd a lles, trosglwyddo a chwricwlwm adferiad<br>• Ail thema ganolog y sesiynau oedd ymchwilio ac ysgrifennu arweiniad GwE ar ddysgu cyfunol i gefnogi ysgolion gyda'u cynllunio a'u paratoadau ar gyfer Medi. Rhannwyd hwn ag ysgolion ar 30 Mehefin. Rhannwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru ar 6 Gorffennaf.<br>• Roedd yr arweiniad ar ddysgu cyfunol yn cynnwys diffiniadau o'r termau allweddol, egwyddorion cyffredin, tasgau allweddol ar gyfer tymor yr haf, cynllunio ysgol gyfan ar gyfer dysgu cyfunol, modelau o ddysgu cyfunol, cynllunio pynciol, deunyddiau enghreifftiol ar gyfer chwe phwnc ac adolygiad o'r offer digidol sydd ar gael i gefnogi dysgu cyfunol.<br>• Rhannwyd ac eglurwyd yr arweiniad mewn manylder i benaethiaid, arweinwyr addysgu a dysgu ac arweinwyr pynciau craidd ledled y rhanbarth gan arweinwyr craidd ac arweinwyr pynciau craidd GwE.<br>• Roedd y deunyddiau cefnogol a rannwyd ag ysgolion hefyd yn cynnwys gweminarau yn y Gymraeg a'r Saesneg a oedd yn egluro'r arweiniad ymhellach | • Roedd y dull dangosfwrdd yn cynnig un lle hwylus i ysgolion gael mynediad at yr ystod cyfan o arweiniad ar ailagor.<br>• Cafodd ysgolion fynediad at yr ymchwil ddiweddaraf ac at ddeunyddiau cefnogol ym meysydd allweddol iechyd a lles a ffitrwydd dysgu, ac roeddent yn gallu cefnogi disgyblion yn well wrth iddynt ddychwelyd.<br>• Roedd yr arweiniad yn cefnogi ysgolion wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm ac wrth sicrhau arfe dosbarth effeithiol yng nghyd-destun ymbellhau cymdeithasol.<br>• Trwy ddarparu fframwaith a diffiniadau cyffredin fel sail ar gyfer cynllunio cafwyd gwelliant yn y cydweithio rhwng ysgolion ac oddi mewn i ysgolion.<br>• Datblygwyd a rhannwyd arfer da yn yr amrywiol fforymau.<br>• Roedd y dull 'ystyriaethau allweddol' yn cefnogi cynllunio ysgol gyfan a chynllunio adrannol ar gyfer dysgu cyfunol ac roedd yn cynnig mynediad i'r ymchwil diweddaraf<br>• Defnyddiwyd y deunyddiau enghreifftiol pynciol ar gyfer Saesneg, Cymraeg, llenyddiaeth, gwyddoniaeth, mathemateg a hanes i gynllunio darpariaeth tymor yr hydref. Roedd y fformat yn hygyrch ac roedd pob tîm pwnc yn gallu ei ddefnyddio.<br>• Mae'r arweiniad yn cynnwys yr arferion addysgu a | • 18 sesiwn<br>• 36 awr ac amser paratoi<br>• 6 YCG |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Uwchsgilio YCG GwE i gefnogi CA3**<br>***Deunyddiau Dysgu Gyda'n Gilydd***<br>• DP trwy greu adnoddau – ymchwilio i fodelau effeithiol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Cyflwyniad i YGC uwchradd ar y daith a'r egwyddorion y tu ôl i greu'r uned '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' gyntaf<br>• 2 x diweddariad ar gyfer Arweinwyr Craidd ar ddatblygiad y deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' | • Darparu gwybodaeth i YCG am ddeunyddiau 'Dysgu Gyda'n Gilydd' er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol a chyson<br>• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Arweinwyr Craidd ar y deunyddiau er mwyn trosglwyddo hynny i holl benaethiaid y rhanbarth. | • 3 sesiwn<br>• 25 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **CA3 *Deunyddiau Dysgu Gyda'n Gilydd***<br>• DP trwy greu adnoddau - ymchwilio i fodelau effeithiol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Cyflwyniad *Power Point* cychwynnol wedi ei baratoi fel bod Arweinwyr Craidd yn gallu cyflwyno deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' i benaethiaid ym mhob sir<br>• Trafodaethau pellach a chyflwyniadau mwy manwl i benaethiaid ar sut mae deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' yn cefnogi dysgu o bell / dysgu cyfunol yn CA3<br>• Cyflwyniad manwl ar ddeunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd' i* Arweinwyr Addysgu a Dysgu<br>• Cyfarfodydd ag arweinwyr pwnc i drafod defnydd posib ar gyfer y deunyddiau<br>• Cyfarfodydd a thrafodaethau dilynol ag ysgolion unigol i drafod rhoi deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' ar waith. | • Arweiniad a chefnogaeth gyson i ysgolion ym mhob sir.<br>• Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ysgolion o'r unedau dysgu integredig enghreifftiol i gefnogi dysgu cyfunol yn CA3<br>• Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u cyflwyno i ysgolion unigol<br>• Rhoddodd cyfarfodydd Arweinwyr Addysgu a Dysgu gyfle i gydweithio a rhannu arfer da<br>• Arweinwyr Addysgu a Dysgu wedi'u grymuso i arwain a chefnogi staff yn eu hysgolion<br>• Roedd ychydig o ysgolion wedi gwneud defnydd o uned enghreifftiol fel sail ar gyfer darparu profiadau dysgu yn ystod y cyfnod cyn 29 Mehefin<br>• Roedd ychydig o ysgolion wedi gwneud defnydd o uned enghreifftiol fel sail ar gyfer darparu profiadau dysgu yn ystod y cyfnod ar ôl 29 Mehefin. | • 22 sesiwn yn ogystal â chefnogaeth i ysgolion unigol<br>• 500 awr – creu adnoddau<br>• 105 awr – cyflwyno<br>• 108 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Rhwydwaith pynciol Saesneg ar gyfer Penaethiaid Adran Saesneg ac Athrawon Saesneg**<br>• Rhannwyd a thrafodwyd egwyddorion dulliau dysgu o bell effeithiol<br>• Hyfforddiant ymarferol ar y denfnydd o offer amrywiol er mwyn gwella ymgysylltiad ac ansawdd dysgu<br>• Rhannwyd egwyddorion model dysgu cyfunol effeithiol ac archwiliwyd pob agwedd yn fanwl<br>• Rhannwyd ymchwil ynghylch arfer adalw a chysylltu dysgu<br>• Cynllunio cwricwlwm a phwysigrwydd mapio gwybodaeth yn ogystal â sgiliau Saesneg<br>• Rhannwyd dogfennaeth enghreifftiol ar gynllunio cwricwlwm a thrafodwyd cryfderau. | • Gwelliant yn sgiliau ac arbenigedd athrawon wrth ddefnyddio'r offer digidol sydd ar gael ar Hwb<br>• Gwell darpariaeth ar gyfer dysgwyr<br>• Cynnydd yn y ddealltwriaeth o nodweddion dysgu cyfunol effeithiol a strategaethau ymarferol<br>• Gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd cynllunio cwricwlwm a'r effaith gaiff hyn ar athrawon dosbarth<br>• Gwell dealltwriaeth o'r angen i gynllunio dysgu gwybodaeth, yn ogystal â sgiliau, er mwyn gwella perfformiad mewn Saesneg. | • 18 sesiwn (3 i bob ALl)<br>• 28 awr<br>• 110 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Rhwydwaith Dyfodol Byd-eang a chefnogaeth trwy *Google Classroom***<br><br>• Ymchwilio i offer digidol a gwefannau effeithiol a defnyddiol ar gyfer hwyluso dysgu ieithoedd o bell.<br>• Casglu a rhannu adnoddau sy'n hawdd eu defnyddio ar gyfer dysgu o bell (digidol neu beidio).<br>• Gwylio a rhannu'r gweminarau mwyaf defnyddiol ar offer digidol a chyngor addysgegol ar gyfer dysgu o bell.<br>• Cysylltwyd â phob ysgol uwchradd a phob ysgol gynradd beilot trwy e-bost i'w hysbysu ynghylch unrhyw ddatblygiadau ac i gynnig cefnogaeth pe bai angen | • Roedd athrawon cynradd yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac o ganlyniad roeddent yn gallu gosod gwaith priodol o ansawdd.<br>• Roedd athrawon uwchradd a oedd angen cefnogaeth un gallu dibynnu ar y rhwydwaith ac yn gallu cael mynediad at hyfforddiant uwchsgilio fel bo'r angen.<br>• Arfer da wedi'i fodelu a'i rannu. | • 70 awr<br>• Ar gael i holl benaethiaid adran ac athrawon Ieithoedd Tramor Modern |

# Addysgu a Dysgu

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Rhwydweithiau ôl-16**<br>Mae'r fforymau rhwydwaith wedi canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Cefnogi ysgolion i roi strategaethau effeithiol ar waith ar gyfer trosglwyddo i Flwyddyn 12 mewn amgylchedd dysgu o bell<br>• Cefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi Blwyddyn 13 ar gyfer trosglwyddo i brifysgol<br>• Rhannu deunyddiau a llyfrynnau i gefnogi trosglwyddiad Blwyddyn 11<br>• Rhannu syniadau ynghylch gwaith dysgu o bell effeithiol gyda Blwyddyn 12<br>• Rhannu ac edrych ar oblygiadau'r cyfnod clo cenedlaethol<br>• 'Sut i fynd ati ar ddiwrnod canlyniadau'. Rhannu syniadau a dulliau.<br>Sesiwn ar gyfer ysgolion ym mhrosiect VESPA – dan arweiniad tîm VESPA.  Adolygu'r cynnydd hyd yma a chynllunio ymyriadau ar gyfer y flwyddyn nesaf – 10 ysgol wedi mynychu<br><br>Sesiwn arwahanol ar gyfer cynrychiolwyr arweinyddiaeth ôl-16 cenedlaethol – sesiwn 'dal i fyny' – a gynhaliwyd ar | • Mae'r adborth ar y deunyddiau trosglwyddo wedi bod yn dda iawn. Mae ysgolion wedi eu defnyddio gyda disgyblion Blwyddyn 11 a hefyd wedi eu defnyddio i ehangu'r ddarpariaeth bresennol mewn rhai achosion (mae'r ymateb ledled Cymru wedi bod yn dda)<br>• Mae cydweithwyr wedi nodi pa mor gymwynasgar yw penaethiaid yn y 6 chyfarfod rhwydwaith – yn arbennig ar yr adeg hon<br>• Adolygiad VESPA – mae pob ysgol wedi cael y rhaglen yn ddefnyddiol ac maent yn bwriadu ei gweithredu ymhellach y flwyddyn nesaf. | • 8 sesiwn<br>• 10 awr<br>• 40+ o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Cwricwlwm i Gymru**<br>• Ar gais ysgolion, darparwyd mynediad at adnoddau cenedlaethol CiG.<br>• Wedi rhannu trosolwg o weithdai rhanbarthol a ddarparwyd yn flaenorol cyn y cyfnod clo trwy G6 ac a oedd yn cynnwys egwyddorion CiG, gwybodaeth am strwythur y cwricwlwm newydd, Dysgu Proffesiynol a'r gefnogaeth sydd ar gael gan GwE. | • Roedd unigolion a oedd yn dymuno cael mynediad at adnoddau yn gallu gwneud hynny er mwyn darllen ymhellach, datblygu dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion CiG ac yn benodol ymgyfarwyddo â MDaPh Iechyd a Lles.<br>• GwE yn gallu darparu cydraddoldeb mynediad at adnoddau a chysondeb negeseuon | • Yn unol â'r cytundeb rhanbarthol a chenedlaethol, ni chynigiwyd sesiynau ffurfiol. Fodd bynnag, roedd YCG yn gallu ymateb i geisiadau gan ysgolion/clystyrau am rannu gwybodaeth yn ystod y sesiynau cyswllt arferol. |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Arweiniad ar asesu ac adborth**<br>• Datblygu a rhannu arweiniad ac egwyddorion yn seiliedig ar ymchwil cyfredol.<br>• Uwchsgilio staff ar y defnydd ohono fel eu bod yn gallu cefnogi ysgolion yn effeithiol. | • Mae gan bob YCG yr adnoddau a'r wybodaeth berthnasol ar gyfer cefnogi ysgolion yn effeithiol<br>• Arweiniad eglur a chysondeb o ran y negeseuon a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Yr arweiniad wedi'i rannu gyda holl gonsortia Cymru. | Pob YCG wedi mynychu cyfarfod tîm llawn GwE<br>YCG mewn cyswllt rheolaidd er mwyn cynnig cyngor i'r 413 ysgol a'r clystyrau |

# Addysgu a Dysgu



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Gweithdai sgiliau carlam er mwyn datblygu arweiniad ar gyfer ysgolion**<br>Mae adnabod strategaethau addysgu effeithiol yn nodwedd bwysig o gynlluniau dysgu cyfunol ysgolion. Fodd bynnag, yn ystod y cyfod pan fo ysgolion ar gau, mae'n debyg y bydd llawer o ddysgwyr angen cefnogaeth ychwanegol—ar ffurf ymyriadau strwythuredig, wedi'u targedu o ansawdd uchel—er mwyn cyflymu eu dysgu. Trwy adolygu'r llenyddiaeth ymchwil, ynghyd â'r ymchwil a wnaethpwyd gydag ysgolion GwE, bwriad y canllaw hwn yw cynorthwyo ysgolion i nodi'r strategaethau addysgu a'r rhaglenni ar-lein mwyaf effeithiol a allai helpu ysgolion i wella'r sgiliau craidd canlynol:<br>• Darllen sylfaenol a rhuglder wrth ddarllen<br>• Darllen a deall a sgiliau geirfa<br>• Rhifedd sylfaenol a rhuglder gyda sgiliau rhifedd<br>Mae rhai o'r strategaethau a'r deunyddiau cefnogol yn yr arweiniad hwn wedi eu llunio'n benodol ar gyfer eu defnyddio yn yr ysgol a gan rieni gartref er mwyn cefnogi dysgu eu plant. | • Cafodd swyddogion GwE ddealltwriaeth o arfer gorau o ran cynllunio ar gyfer sgiliau penodol mewn cyd-destun dysgu cyfunol, ac roeddent yn gallu ehangu a gwella modelau dysgu cyfunol a oedd yn bodoli eisoes.<br>• Elwodd swyddogion GwE ar sawl cyfarfod gyda myfyrwyr ymchwil gan ddysgu sut i gynnal adolygiad cyflym o'r sail dystiolaeth ar gyfer rhaglenni llythrennedd, rhifedd a lles.<br>• Dysgodd staff GwE am agweddau allweddol ar gyfarwyddo effeithiol, a gweithio gydag awduron allanol ar lunio deunydd cyfrwng Cymraeg pwrpasol.<br>• Dysgodd staff GwE am agweddau allweddol ar gyfarwyddo effeithiol yn ogystal â strategaethau addysgu manwl a chyfarwyddo uniongyrchol<br>• Dysgodd staff GwE am agweddau allweddol ar gyfarwyddo effeithiol ar gyfer darpariaeth gydamserol ac anghydamserol. | • 5 swyddog GwE<br>4 o staff ymchwil o Brifysgol Bangor<br>2 fyfyriwr ymchwil o Brifysgol Bangor<br>1 athro o Sir Ddinbych<br>• 15 sesiwn<br>• 30 awr<br>• Mae llawer o'r adnoddau a'r strategaethau yn y cynnig hwn yn deillio o ymchwil cydweithredol diweddar gan CIEREI, Prifysgol Bangor, gydag ysgolion GwE. |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Gweithdai sgiliau carlam ar gyfer pob ysgol gynradd, arbennig ac uwchradd**<br>Prif nodweddion yr adnoddau *Dysgu Carlam* newydd, i'w rhannu trwy weithdai yw:<br>• Enghreifftiau o strategaethau addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd effeithiol gan ddefnyddio fframwaith cynllunio EEF (o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2)<br>• Dull chwilio systematig o'r dystiolaeth ar gyfer y dulliau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin er mwyn gwella sgiliau llythrennedd<br>• Dull chwilio systematig o'r dystiolaeth ar gyfer y dulliau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin er mwyn gwella sgiliau rhifedd<br>• Dull chwilio systematig o'r dystiolaeth ar gyfer y dulliau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin er mwyn gwella ymddygiad a lles<br>• Adolygu'r dystiolaeth ar gyfer rhaglenni addysgu ar-lein<br>• Prosiectau ar gyfer cynorthwyo ysgolion a rhieni/gofalwyr i ailadeiladu sgiliau llythrennedd Cymraeg a Saesneg disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 3. | • Cafodd arweinwyr ysgolion ac athrawon ddealltwriaeth o'r arfer gorau wrth gynllunio ar gyfer addysgu sgiliau penodol mewn cyd-destun dysgu cyfunol, ac roeddent yn gallu ehangu a gwella modelau dysgu cyfunol a oedd yn bodoli eisoes.<br>• Cafodd arweinwyr ysgolion ddealltwriaeth o nodweddion allweddol rhaglenni llythrennedd, rhifedd a lles effeithiol, ac o'r meini prawf cynhwysiad cynradd ac uwchradd y dylid eu defnyddio er mwyn penderfynu a ddylid mabwysiadu rhaglen benodol.<br>• Bydd gan ysgolion fynediad at ystod o ddeunyddiau ar gyfer ysgol a rhieni a fydd ar gael yn y ddwy iaith erbyn Medi 2020.<br>• Rhieni yn ymgysylltu ac yn cefnogi eu dysgwyr i wella eu sgiliau sylfaenol. | • Hyd at 55 digwyddiad hyfforddi clwstwr a sesiynau gweithredu a chefnogi tymhorol gan yr All wedi hynny<br>• Pob clwstwr GwE wedi eu gwahodd<br>• Deunyddiau cefnogi rhieni hefyd ar gael<br>• Amser a glustnodwyd i'w gadarnhau |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP Dychwelyd i'r Ysgol, Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma**<br>Hwyluswyd sesiwn dull ysgol gyfan gan yr Athro Coral Harper, *Trauma Informed Schools,* ar strategaethau i'w hystyried wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol gan gynnwys effaith y pandemig / ethos ysgol / egwyddorion a modelau allweddol o fewn dysgu ac addysgu. Ariannwyd y sesiwn gan Awdurdodau Lleol gan dargedu pob ysgol yn yr awdurdod, ond gan ganolbwyntio ar ysgolion / lleoliadau a oedd eisoes wedi cwblhau diwrnod o ddysgu proffesiynol trwy GwE a chyllid Plant sy'n Derbyn Gofal GAD. Targedwyd hefyd leoliadau oedd â niferoedd uchel o ddysgwyr sy'n derbyn gofal. ALl - cafodd Gwynedd/Ynys Môn/Sir Ddinbych a Chonwy sesiwn 3 awr trwy ZOOM. Cafodd YCG GwE hefyd gyfle i fynychu'r grŵp UCD/CAPsDG rhanbarthol. | • Strategaethau cyfathrebu cryfach ar waith ar gyfer hysbysu CAPDG, staff ALl/ staff ysgolion a rhanddeiliaid ehangach am y prosesau ar gyfer hawlio cyllid sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Cynnydd yn nifer yr ysgolion/lleoliadau sy'n wybodus am drawma/ sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bydd hyn yn effeithio ar staff addysgu drwy eu gwneud yn fwy hyderus i ymdrin â dysgwyr a nodi cefnogaeth a darpariaeth addas, a bydd yn cynyddu'r nifer o ysgolion sydd â dull cynhwysol mewn perthynas ag addysgu a dysgu gyda'r ffocws ar ddysgu cyfunol.<br>• Mwy o sefydliadau'n hyderus wrth ddefnyddio ystod o fesurau effaith a gwerthuso mewn perthynas â dysgwyr bregus. | • 1308 o fynychwyr<br>• 12 awr o gyflwyniad gan *Trauma Informed Schools*<br>• Cefnogaeth ar gyfer sefydliadau unigol(6 awr) |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Grŵp Rhanbarthol CAPsDG GAD**<br>Roedd y grŵp yn cyfarfod bob pythefnos gyda'r ffocws ar rannu dulliau allweddol / ymchwil ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion y rhanbarth. Mae gwybodaeth ar gael ar yriant gaiff ei rannu gan yr ALl ac ar y dangosfwrdd Rhanbarthol. Mewn un cyfarfod, cyflwynwyd y DP gan *Fostering Network* trwy ddosbarthiadau meistr llesiant. Yn ogystal, cyflwynwyd sesiwn i'r tîm ar y defnydd effeithiol o GAD PsDG er mwyn rhannu gwybodaeth allweddol am y GAD ar gyfer 2020/21 ar draws ysgolion ac ALl. | • Cysondeb o ran dulliau allweddol / ymchwil ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion y rhanbarth.<br>• Gwell ymwybyddiaeth o'r materion mewn perthynas â lles.<br>• Rhannu arfer da/ dosbarthiadau meistr. | • 18 o fynychwyr<br>• 12 awr |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Tîm Rhanbarthol ADY/Cynhwysiad**<br>Caiff y grŵp ei hwyluso gan yr ALl ac mae'n cyfarfod bob pythefnos. Ffocws y cydweithio gyda GwE oedd nodi'r heriau allweddol mewn perthynas â dychwelyd i'r ysgol ac effaith hynny ar grwpiau allweddol o ddysgwyr. Mae ystod o ddogfennau allweddol wedi'u datblygu yn ychwanegol at sesiynau gwybodaeth ar y dangosfwrdd rhanbarthol / diweddariad ar fodelau dysgu o bell a dysgu cyfunol GwE a sesiwn ar y GAD ar gyfer PsDG 2020/21. | • Cysondeb yn y negeseuon a'r gefnogaeth a roddir i ysgolion.<br>• Gwell ymwybyddiaeth o'r materion a rhannu arfer da. | • 6 o fynychwyr<br>• 6 awr |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **GAD PsDG**<br>Rhannu sesiwn cyflwyno gwybodaeth ar y gefnogaeth gyffredinol a dargedir gyda GAD PYD a GAD ar gyfer PsDG | • Cysondeb yn y gefnogaeth ar gyfer ysgolion a gwell ymwybyddiaeth o faterion ac arferion da. | • 18 o fynychwyr<br>• 6 awr |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Dangosfwrdd Cyffredinol ar gyfer Lles a Chefnogaeth Dysgwyr**<br>Mae ystod o ganllawiau a chyfeirlyfr dysgu proffesiynol wedi'u datblygu a'u rhannu gyda'r holl ysgolion / lleoliadau ledled y rhanbarth. Cyfathrebwyd hyn trwy'r dull clwstwr a thrwy gyfarfodydd yr arweinwyr craidd â'r ALl. Cynhyrchwyd trosolwg clir ar gyfer yr Arweinwyr Craidd / YCG mewn perthynas â'r elfen hon ar y dangosfwrdd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan Arweinwyr Craidd. | • Canllawiau eglur wedi eu rhannu gyda'r ysgolion.<br>• Dull cyson o sicrhau bod YCG yn ymwybodol o'r strategaethau allweddol ar gyfer cefnogi ysgolion o ran modelau lles a'r cynnig dysgu.<br>• Cydlynu a chydweithio effeithiol gyda staff allweddol yr ALl o ran datblygu dangosfwrdd Cymorth a Lles Dysgwyr ar gyfer ysgolion. | • Gwybodaeth wedi'i chasglu o fewn rhaglen waith YCG. Rhannwyd y canllawiau gyda phob un o'r 53 clwstwr cynradd a fforwm penaethiaid uwchradd. Cefnogaeth bwrpasol a ddarperir i ysgolion unigol trwy YCG.<br>• Cyfathrebwyd y dull gyda'r ALl trwy fyrddau ansawdd wythnosol. |

Tudalen 124

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Ymgysylltiad Dysgwyr (Themâu Allweddol)** Mae 7 sesiwn ddigidol â thema benodol (gweminarau / *screencastify*) wedi'u cynhyrchu ar gyfer ysgolion a lleoliadau ar draws y rhanbarth mewn perthynas â rhannu arfer effeithiol ar ymgysylltiad dysgwyr o ran dysgu o bell a dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn ystod y cyfnod clo. Mae modd cael mynediad at 6 ohonynt drwy ein Hadran Lles ac maent ar gael i bob lleoliad a phartneriaid allweddol. | • Rhannu arfer effeithiol ar ymgysylltiad dysgwyr mewn perthynas â dysgu o bell a dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn ystod y cyfnod clo.<br>• Cynnydd mewn ymgysylltiad disgyblion yn dilyn y cyfnod clo cychwynnol. | • 50 awr ar gyfer cynhyrchu.<br>• Ar gael i staff y 413 ysgol a phartneriaid allweddol.<br>• Cyswllt rheolaidd rhwng YCG ag ysgolion / clystyrau gyda ffocws ar wella ymgysylltiad dysgwyr a rhannu arfer da. |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Ymgysylltu gyda Dysgwyr a Rhieni**<br><br>• Cydweithio gydag ysgolion i gwblhau cyfres o gwestiynau mewn perthynas ag ymgysylltiad dysgwyr.<br>• Datblygu trosolwg rhanbarthol o arfer cyfredol o ran sut mae dysgwyr yn cael mynediad at ddysgu o bell ac yn ymgysylltu.<br>• Adnabod arfer effeithiol fel sail ac i gefnogi arweiniad a modelau rhanbarthol<br>• Nodi rhwystrau allweddol a sut i gefnogi ysgolion mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol a phartneriaid. | • Mae'r gwaith hwn cynhyrchu trosolwg gwerthfawr o sut mae ysgolion yn ymgysylltu gyda dysgwyr .<br>• Yr adroddiad wedi'i fwydo i adroddiad cenedlaethol sydd wedi'i ddefnyddio i rannu'r arfer gorau yn genedlaethol.<br>• Defnyddiwyd cynnwys yr adroddiad i adeiladu ar yr arfer effeithiol a nodwyd ledled y rhanbarth a hefyd i ddatblygu a darparu cefnogaeth i ysgolion mewn perthynas â meysydd allweddol sydd angen eu cryfhau.<br>• Bwriedir paratoi cronfa o weminarau ar gyfer ysgolion sy'n arddangos yr arferion gorau. | • 3 x sesiwn gyda thîm llawn GwE<br>• Pob YCG wedi cynnal trafodaethau gyda 53 chlwstwr a oedd yn cynnwys 413 ysgol<br>• Un YCG wedi casglu gwybodaeth bob ALl x 6<br>• 3 x sesiwn gyda'r tîm a gyflawnodd y gwaith<br>• 60 awr |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Cefnogaeth bwrpasol wedi'i theilwra i Ysgolion / Clystyrau**<br>Mae cefnogaeth unigol wedi'i darparu i ysgolion penodol yn ôl y gofyn mewn perthynas â strategaethau lles ysgol gyfan / mesurau lles megis PASS / Boxall / arweiniad unigol ar fodelau arfer da a defnydd effeithiol o'r GAD i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gyda'r GAD PsDG. | • Gwell ymwybyddiaeth o strategaethau lles ysgol gyfan / mesurau llesiant megis PASS / Boxall<br>• Rhannu arweiniad unigol ar arfer da a defnydd effeithiol o'r GAD / GAD PsDG.<br>• Cydweithio clwstwr cryfach o ran GAD PsDG. | • 14 sesiwn<br>• 26 o fynychwyr<br>• 18 awr |

# Arweinyddiaeth

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cynhaliwyd **Cyfarfodydd Arweinwyr Craidd Cynradd** yn rheolaidd er mwyn cytuno ar ffocws y dysgu proffesiynol ar gyfer cyfarfodydd ardal leol. Y nod oedd sicrhau bod galluoedd, gwybodaeth a sgiliau YCG yn cael eu diweddaru a'u hehangu'n brydlon er mwyn darparu'r hyn yr oedd ei angen ar ysgolion.<br><br>Mae dysgu proffesiynol YCG wedi cynnwys y canlynol:<br>• *Sut i ddatblygu ymagwedd clwstwr o ran dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion*<br>• *Sut i ddatblygu dysgu o bell ar draws clystyrau ac o fewn ysgolion*<br>• *Sut i gefnogi a datblygu dychwelyd i'r ysgol, yn cynnwys asesiadau risg*<br>• *Sut i ddatblygu dysgu cyfunol ar draws clystyrau*<br>Cefnogwyd YGC unigol ymhellach gan Arweinwyr Craidd a gan YCG sydd ag arbenigedd mewn maes penodol | • Uwchsgiliwyd aelodau tîm yn effeithiol â'r wybodaeth a'r sgiliau er mwyn cefnogi ysgolion e.e. sgiliau TG. Arfogwyd YGC hefyd ag atebion ac ymatebion cyson i gwestiynau a holwyd gan ysgolion.<br>• Roedd gan YCG ddealltwriaeth ar y cyd o strategaethau LlC a'r arweiniad cenedlaethol. O ganlyniad, roedd cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth yn berthnasol i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Darparwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i bob ysgol (yn cynnwys arweiniad pwrpasol yn ôl y gofyn).<br>• Mwy o gysondeb o ran y dulliau a fabwysiadwyd o fewn awdurdodau lleol ac ar draws y rhanbarth.<br>• Cydweithio gwell o fewn Cyfarfodydd Tîm Cynradd Lleol, yn cynnwys rhannu arbenigedd YCG.<br>• Gwell cysondeb a chydweithio ar draws y tîm cynradd llawn.<br>• Anogodd yr YGC wytnwch mewn ysgolion, gan hwyluso ysgolion i gynllunio ar gyfer mwy nag un sefyllfa er mwyn bod yn fwy parod. | • 1 Tîm Cynradd llawn<br>• 12 Cyfarfod Tîm Cynradd Ardal Leol wedi eu cynnal ym mhob ardal (cyfanswm o 36 cyfarfod).<br>• 39 awr<br>• 35 YCG wedi mynychu |

# Arweinyddiaeth

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Sesiynau briffio i uwchsgilio penaethiaid ar agweddau amrywiol mewn perthynas â'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn ystod y pandemig, yn cynnwys:**<br><br>• Dysgu o bell – Rhannu gwybodaeth, systemau darparu ac adnoddau. Sesiynau pwrpasol gyda rhai clystyrau.<br>• Dysgu cyfunol - Rhannu gwybodaeth, modelau darparu a deunyddiau enghreifftiol. Sesiynau pwrpasol ac unigol gyda rhai clystyrau.<br>• Parhad dysgu – Rhannu dogfennau arweiniad allweddol a dulliau ar gyfer cefnogi ysgolion gyda chynllunio'r ddarpariaeth ac ailagor ysgolion.<br>• Rhannu canfyddiadau ymchwil a modelau arfer da.<br>• Rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau dull cyson o gefnogi ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Asesu risg – Adnabod yr heriau allweddol a dulliau/modelau ar gyfer lleihau risg i ysgolion.<br>• Dysgu Digidol – rhannu offer digidol a hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r offer ar gyfer cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol. | • Yr holl benaethiaid wedi'u hysbysu a'u diweddaru parthed y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion.<br>• Cysondeb o ran y negeseuon, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Penaethiaid wedi'u hysbysu ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen hynny].<br>• Gwell defnydd o offer digidol ar gyfer ymgysylltu â disgyblion a'u dysgu. | • 60 sesiwn ar draws y 6 ALl<br>• 119 awr<br>• Penaethiaid cynradd a chadeiryddion clystyrau |

# Arweinyddiaeth



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP ar gyfer tîm er mwyn cefnogi ysgolion gydag ailagor ysgolion, yn cynnwys:**<br>Arweiniad ar y fframwaith /dangosfwrdd rhanbarthol a ddatblygwyd ar y cyd gan swyddogion ALl a swyddogion GwE er mwyn cefnogi ysgolion gyda chynllunio ar gyfer ailagor ysgolion, yn cynnwys:<br>• Gofynion iechyd a diogelwch<br>• Trefniadau safle a chyfleusterau<br>• Trafnidiaeth<br>• Trefniadau staffio<br>• Addysgu a dysgu cyfunol<br>• Cynhwysiad a chefnogaeth i ddisgyblion<br>• Tasgau rheolaeth allweddol<br><br>Cynigiwyd y DP i holl staff GwE fel eu bod wedi'u huwchsgilio i ddarparu hyfforddiant i ysgolion/clystyrau a chynnig cefnogaeth ddilynol bwrpasol. | • Dull rhanbarthol ar gyfer datblygu fframwaith cefnogol er mwyn sicrhau fod gan bob ysgol yn y rhanbarth bolisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr er mwyn creu amgylchedd diogel ar gyfer ailagor ysgolion.<br>• Dull 'ar y cyd' effeithiol rhwng chwe awdurdod lleol y rhanbarth a GwE ar gyfer cefnogi ysgolion yn ystod cyfnod clo'r pandemig.<br>• Pob aelod o staff GwE wedi'i uwchsgilio ac yn hyderus i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol i ysgolion/clystyrau. | • 12 sesiwn<br>• 6 awr<br>• 60 o fynychwyr<br>• YCG wedi'u huwchsgilio i gefnogi pob ysgol a chlwstwr mewn sesiwn bwrpasol. |

# Arweinyddiaeth

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP ar gyfer ailagor ysgolion, yn cynnwys:**<br><br>Arweiniad a chefnogaeth ar y cyd wedi eu darparu gan swyddogion ALl a GwE trwy fframwaith/dangosfwrdd rhanbarthol i gefnogi ysgolion gyda chynllunio ar gyfer ailagor ysgolion, yn cynnwys:<br>• Gofynion iechyd a diogelwch<br>• Trefniadau safle a chyfleusterau<br>• Trafnidiaeth<br>• Trefniadau staffio<br>• Addysgu a dysgu cyfunol<br>• Cynhwysiad a chefnogaeth i ddisgyblion<br>• Tasgau rheolaeth allweddol<br><br>Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg cynhwysfawr wedi ei fodelu er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu plant yn ôl i'r ysgolion.<br><br>Sesiynau/gweithdai hyfforddi ffurfiol a chefnogaeth bwrpasol wedi'u cynnig i holl ysgolion/clystyrau'r rhanbarth. | • Dull rhanbarthol ar gyfer datblygu fframwaith cefnogol er mwyn sicrhau fod gan bob ysgol yn y rhanbarth bolisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr er mwyn creu amgylchedd diogel ti groesawu dysgwyr yn ôl i'r ysgolion<br>• Dull rhanbarthol colegaidd a chyfunol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE i gefnogi ysgolion yn ystod cyfnod clo y pandemig<br>• Mae ymateb penaethiaid wedi bod yn gadarnhaol gyda gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael<br>• Rhannodd penaethiaid, Arweinwyr Craidd a chynrychiolwyr ALl farn a phryderon, gan ddysgu o arfer gorau | • Pob un o 413 pennaeth y rhanbarth - uwchradd, cynradd, arbennig ac UCD<br>• 30 sesiwn uwchradd<br>• 53 clwstwr cynradd. Darparwyd ar y cyd â swyddogion ALl x 2 gyfarfod<br>• 272 awr<br>• Cefnogaeth ddilynol bwrpasol i ysgolion a chlystyrau unigol gan YCG/swyddogion ALl |

# Arweinyddiaeth

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Uwchsgilio aelodau'r Awdurdod Addysg Lleol ar agweddau amrywiol mewn perthynas â'r gefnogaeth effeithiol a gynigir i ysgolion/clystyrau:<br><br>• Dysgu o bell – Rhannu gwybodaeth, systemau darparu ac adnoddau.<br>• Dysgu cyfunol - Rhannu gwybodaeth, modelau darparu a deunyddiau enghreifftiol.<br>• Parhad dysgu – Rhannu dogfennau arweiniad allweddol a dulliau ar gyfer cefnogi ysgolion gyda chynllunio'r ddarpariaeth ac ailagor ysgolion.<br>• Rhannu canfyddiadau ymchwil a modelau arfer da.<br>• Rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau dull cyson o gefnogi ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Asesu risg – Adnabod yr heriau allweddol a dulliau/modelau ar gyfer lleihau risg i ysgolion. | • Aelodau Awdurdodau Lleol wedi'u hysbysu a'u diweddaru parthed y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion.<br>• Cysondeb o ran y negeseuon, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Aelodau Awdurdodau Lleol wedi'u hysbysu ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen hynny]. | • 35 sesiwn ar draws y 6 ALl<br>• 52 awr<br>• 210+ o fynychwyr (6 ym mhob sesiwn gyda rhai aelodau ychwanegol, yn ddibynnol ar yr agenda) |

# Cymorthyddion

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| Llwyfan dysgu proffesiynol wedi'i ddatblygu a'i rannu ag ysgolion. *Google Classroom* yn cynnwys sawl gweithgaredd DP ar gyfer yr agweddau canlynol:<br>• Pasbort Proffesiynol y CGA<br>• Llwybr Dysgu ar gyfer Cymorthyddion Dysgu<br>• CALU<br>• Sgiliau Hanfodol<br>• Safonau Proffesiynol<br>• Cwricwlwm i Gymru<br>• Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu<br>• Hwb<br>• Addysgu a Dysgu<br>• ADY<br>• Cyflyrau Sbectrwm Awtistig<br>• Hawliau plant<br>• Diogelu<br>• Siaradwyr sy'n ysbrydoli<br>• Ffynonellau gwybodaeth | • Cafodd dros 1,700 o gymorthyddion fynediad at weithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod cyfnod COVID-19.<br>• Adborth a gwerthusiadau cadarnhaol gan gymorthyddion y rhanbarth.<br>• Mae llawer o gymorthyddion wedi manteisio ar y cyfnod clo i ddiweddaru eu tystysgrifau, e.e. hylendid bwyd<br>• Nododd llawer o gymorthyddion bod ganddynt well gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i'w helpu yn eu gwaith beunyddiol wrth gefnogi dysgwyr.<br>• Nododd llawer gynnydd yn eu sgiliau digidol ac yn sut maent yn eu cymhwyso. | Mae 1,700 o gymorthyddion wedi ymuno â'r 'dosbarth' ac ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol. |

# Cymorthyddion

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Darparu a datblygu rhaglen genedlaethol er mwyn cefnogi darpar GALU**<br><br>Cyfres o gyfarfodydd/gweithdai cenedlaethol ar gyfer grŵp cyfan neu is-grwpiau er mwyn dylunio a datblygu'r rhaglen. | • Deunyddiau cyflwyno'r rhaglen ar gael i'r consortiwm eu defnyddio'n rhanbarthol (cyflwyniadau *Powerpoint* / deunyddiau hyfforddi).<br>• Llawlyfr yr Ymgeisydd, Llawlyfr yr Aseswr a Llawlyfr yr Hwylusydd nail ai wedi'u cwblhau neu'n cael eu cynhyrchu.<br>• Y broses asesu a'r meini prawf yn cael eu datblygu. | • 171 awr (cyfarfod a pharatoi/datblygu deunyddiau cenedlaethol) |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| Cefnogi ymarferwyr y **Cyfnod Sylfaen**, Uwch Dimau Arwain ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, gyda chynllunio a pharatoi cyfarwyddiadau/adnoddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg/ail-iaith, wrth ddysgu o bell/dysgu cyfunol. | • Codi ymwybyddiaeth athrawon, Uwch Dimau Arwain ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ysgolion o'r adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg yn y CS ar 'google classroom' i gefnogi'r dysgu. Athrawon CS yn eu defnyddio wrth chwilio am syniadau ac adnoddau fel rhan o'u gwaith cynllunio dysgu o bell.<br>• Athrawon yn cynllunio a pharatoi cyfarwyddiadau dwyieithog, cam wrth gam, wedi eu trosleisio fel bo'r disgyblion yn clywed yr iaith Gymraeg, ac yn gwrando a dilyn y cyfarwyddiadau. | • 11 sesiwn<br>• 13 awr<br>• 140 o fynychwyr |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cefnogi ymarferwyr yng **Nghyfnod Allweddol 2**, Uwch Dimau Arwain ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, gyda chynllunio a pharatoi cyfarwyddiadau/adnoddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg/ail-iaith, wrth ddysgu o bell/dysgu cyfunol. | • 10 adnodd i danio'r dychymyg a phum gweithgaredd amrywiol o fewn pob adnodd sy'n cefnogi Sgiliau llythrennedd dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf Cyfnod Allweddol 2 a 3 ar gael i bos ysgol cyfrwng Gymraeg.<br>• Canllaw i rieni ar gael iddynt gefnogi eu plant.<br>• Modelu ffurf effeithiol o gyflwyno tasgau i ddysgwyr.<br>• Fframiau siarad ar gael i ysgolion ar gyfer hybu sgiliau llafar Cymraeg | • Adnoddau ac arweiniad wedi eu rhannu ag holl ysgolion cyfrwng Gymraeg y rhanbarth |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Darparu adnoddau dysgu o bell yn 'Google Classroom' ar gyfer **CA3 a CA4**.<br><br>Hysbysebwyd athrawon GwE am yr adnodd drwy ebyst uniongyrchol i ysgolion, drwy Fwletin GwE a thrwy Newyddlen Cymraeg GwE. Diweddarwyd athrawon am gynnwys y dosbarth yn gyson ar ebost a rhoddwyd sylw ac arweiniad i'r adnoddau mewn cyfarfodydd rhwydwaith. | • Sicrhau fod gan athrawon fynediad at yr adnoddau gorau i hybu dysgu o bell a dysgu cyfunol yn eu hadrannau<br>• Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion glywed a gweld y Gymraeg a siarad Cymraeg.<br>• Modelu arfer dda o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol i benaethiaid adran ac athrawon<br>• Rhannu copïau digidol o destunau darllen, gyda chaniatâd y gweisg, er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen yn y Gymraeg<br>• Rhoi arweiniad a hyfforddiant digidol i athrawon mewn un lle ar sut i ddefnyddio meddalwedd Hwb megis Google Classroom, Screencastify, Adobe Spark, Flipgrid a gweminnarau er mwyn eu datblygu'n broffesiynol | • 134 aelod yn nosbarth CA3<br>• 116 aelod yn nosbarth CA4 |

# Y Gymraeg



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd **Rhwydwaith Cymraeg** i gyflwyno Modelau Dysgu Cyfunol ‘Ein Byd’ **CA3 a CA4**.<br><br>• Cynhaliwyd sesiynau dysgu proffesiynol mewn cyfarfodydd rhwydwaith digidol i benaethiaid adran Cymraeg drwy Teams. Yn y cyfarfodydd rhoddwyd sylw i’r gwahanol blatfformau sydd ar gael i athrawon Cymraeg gael mynediad at ddeunyddiau sydd wedi eu haddasu ar gyfer y cyfnod dysgu o bell a dysgu cyfunol;<br>➢ y ddau ddosbarth Google<br>➢ Rhwydwaith ‘Cymraeg GwE’ yn Hwb<br>➢ Rhwydwaith ‘Y Pair’ yn Hwb.<br>• Clustnodwyd amser yn y cyfarfod hefyd i egluro’r Model Dysgu Cyfunol a oedd wedi ei greu ar y thema ‘Ein Byd’ i ddysgwyr Bl.5-9, i ddygwyr Bl.9 a oedd yn pontio i Fl.10 ac i ddysgwyr Bl.10. Eglurwyd y prif egwyddorion a’r gwaith ymchwil tu ôl i’r modelau hyn a rhannwyd yr ymchwil gyda’r arweinwyr canol. Dangoswyd y model iddynt hefyd gan egluro ei hyblygrwydd – gellid eu ddefnyddio fel cynllun gwaith cyflawn o Fedi ymlaen (gyda digon o dasgau am hanner tymor) neu fe ellid defnyddio’r tasgau’n unigol. | • Mae’r deunyddiau yn rhoi arweiniad i arweinwyr canol am yr arferion dysgu o bell / dysgu cyfunol gorau gan ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd (gweler isod)<br>• Bydd yr arweinwyr canol yn fwy hyderus yn mynd yn ôl i’w hadrannau i arwain ar ddysgu cyfunol effeithiol<br>• Mae’r Modelau yn rhai parod a hygyrch y gellid eu defnyddio gyda’r dysgwyr o Fedi ymlaen a roedd pawb yn werthfawrogol iawn o hynny – roedd yn cynnig model clir ynghanol cyfnod o ddryswch. | • 3 sesiwn<br>• 3 awr<br>• 26 wedi mynychu |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Y GIST – Rhwydwaith Athrawon Cymraeg Ail Iaith Uwchradd ar HWB**<br><br>**Darparwyd:**<br>• Cyngor a Chanllawiau Defnyddiol<br>• Cymorth a Chanllawiau Digidol<br>• Modelau Dysgu Cyfunol:<br>• Heriau Amrywiol<br>• Ffurfiau Ysgrifennu<br>• Adnoddau Iaith<br>• Adnoddau Llenyddiaeth<br>• Datblygu Sgiliau/patrymau iaith/mynegi barn<br>• Newyddlenni<br>• Pecynnau Gwaith CA4<br>• Deunydd Google Classroom ar gyfer CA3 a 4 | • Deunyddiau ac arweiniad wedi eu darparu ar gyfer penaethiaid adran ac ymarferwyr.<br>• Magu hyder athrawon i rannu arferion da, codi chwilfrydedd, ennyn diddordeb, ehangu gorwelion drwy awgrymu pynciau amgen / trawsgwricwlaidd i hybu a dysgu'r Gymraeg. | • Arweiniad ag adnoddau wedi eu rhannu hefo pob ysgol uwchradd sy'n darparu Cymraeg Ail-iaith |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Cydweithio Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Gymraeg (Uwchradd) y pedwar consortia i ymateb i amcan D9 Llywodraeth Cymru.**<br><br>Pwrpas y cydweithio oedd i greu a rhannu adnoddau dysgu o bell addas yn y Gymraeg i'w rhannu gydag athrawon ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Pwrpas arall oedd sicrhau hygyrchedd y deunyddiau hynny i rieni di-Gymraeg oedd yn cefnogi eu plant adref – gwnaethpwyd hynny drwy roi eglurhad dwyieithog i'r tasgau a/neu cyfieithu'r adnodd yn ôl y galw. Roedd cynrychiolwyr o Estyn, CBAC, Llywodraeth Cymru, Yr Academi ac arweinwyr Cynllun y Gymraeg yn rhan o'r gwaith o'r dechrau hefyd ac yn gefnogol iawn i'r gwaith.<br><br>O'r dechrau, penderfynwyd gwahodd athrawon (4 o GwE) i fod yn rhan o'r cydweithio cenedlaethol yma a rhannwyd hwy'n ddau grŵp – Tîm Adnoddau CA3 a Thîm Adnoddau CA4. | • Cydweithio effeithiol ar lefel genedlaethol er mwyn cefnogi a datblygu arweinwyr canol ac athrawon i rannu arfer dda wrth hybu'r Gymraeg yn eu hysgolion - ymysg y dysgwyr a'r rhieni di-Gymraeg<br>• Roedd yn ddatblygiad proffesiynol gwerthfawr i'r athrawon a oedd yn rhan o'r gweithgorau gan fod cyfle iddynt rannu eu profiadau dysgu o bell a rhannu deunyddiau llwyddiannus gyda'i gilydd<br>• Edrychwyd ar egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y gweithgorau a bu hynny'n sylfaen i'r modelau Cymraeg a gynhyrchwyd gan ymgynghorwyr Cymraeg GwE<br>• Rhoddwyd pwyslais ar dasgau gwrando, gwylio a thrafod yn y Gymraeg gan fod pryder dybryd nad oedd cyfleoedd i ddysgwyr Cymru glywed a siarad y Gymraeg oherwydd y cau ysgolion<br>• Penderfynwyd dechrau rhwydwaith newydd cenedlaethol yn Hwb fel bod athrawon Cymraeg yn gallu rhannu eu deunyddiau dysgu o bell a dysgu cyfunol gyda'i gilydd yn rhwydd | • 40 sesiwn<br>• 45 awr<br>• 29 o fynychwyr |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Y Pair – rhwydwaith cenedlaethol yn Hwb i rannu adnoddau dysgu o bell / dysgu cyfunol Cymraeg**<br><br>Wrth sefydlu 'Y Pair' yn ystod y cyfnod cloi rhoddwyd sylw i'r dulliau a strategaethau addysgu a oedd yn gweithio orau wrth ddysgu o bell. Edrychwyd hefyd ar ganfyddiadau adroddiad rhyngwladol am ddysgu o bell a chanfyddiadau adroddiad Parentkind. Mae negeseuon ac egwyddorion yr ymchwil yma yn sail i'r holl adnoddau sydd yn 'Y Pair'. | • Ymchwil dysgu o bell wedi ei rannu ag athrawon y Gymraeg mewn negeseuon ebost, drwy ddau ddosbarth Google ac mewn cyfarfodydd rhwydwaith Cymraeg.<br>• Uwchsgilio arweinwyr canol am ofynion dysgu o bell a'r arferion gorau. Gosododd hynny gyfeiriad i'w gwaith hwy yn eu hadrannau fel eu bod yn gallu adnabod materion a oedd angen eu datblygu e.e. defnyddio Flipgrid, recordio gwersi gan ddefnyddio Screencastify.<br>• Pwyslais ar dasgau gwylio a gwrando, tasgau trafod ac adnoddau ble mae'r athro wedi recordio ei lais (e.e. creu fidio Screencastify i egluro tasg, darllen testun/stori). | • 168 aelod<br>• Oddeutu hanner adrannau Cymraeg GwE wedi rhannu eu deunyddiau dysgu o bell mwyaf llwyddiannus. |

# Y Gymraeg

Hafan



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Newyddlenni Cymraeg GwE**<br>Penderfynwyd coladu deunyddiau Cymraeg a oedd yn berthnasol i'r cyfnod dysgu o bell / dysgu cyfunol mewn un lle. Roedd y newyddlenni yn ddwyieithog. Rhannwyd hwy gydag athrawon drwy ebyst dwyieithog i benaethiaid ysgolion uwchradd GwE ac hefyd yn uniongyrchol drwy ebyst i benaethiaid adran Cymraeg ysgolion GwE. Rhannwyd y newyddlenni hefyd yn y ddau ddosbarth Google ac yn mwletinau GwE. Rhannwyd hwy'n draws rhanbarthol gydag ymgynghorwyr Cymraeg y consortia eraill hefyd er mwyn cefnogi eu gwaith hwy.<br><br>Roedd themâu penodol i'r newyddlenni a phenderfynwyd ar y themâu hynny wrth wrando ar lais yr athro e.e. Dysgu o bell, Darllen, Digidol, Adnoddau Cenedlaethol Cymraeg yn Hwb. Roedden nhw'n cynnig arweiniad dysgu proffesiynol i athrawon wrth eu defnyddio gan eu bod yn egluro'r arferion gorau o ran dysgu o bell / dysgu cyfunol ac yn cyfoethogi eu syniadau wrth osod gwaith cyfoes a pherthnasol i ddysgwyr. Roedd y newyddlen ddigidol yn fodd hefyd o gynnig cyfleoedd i athrawon wella eu sgiliau digidol ac i wella eu hymgysylltiad gyda dysgwyr e.e, drwy recordio fideos ar Screencastify neu ddefnyddio Adobe Spark. | • Ymchwil dysgu o bell wedi ei rannu ag athrawon y Gymraeg mewn negeseuon ebost, drwy ddau ddosbarth Google ac mewn cyfarfodydd rhwydwaith Cymraeg.<br>• Uwchsgilio arweinwyr canol am ofynion dysgu o bell a'r arferion gorau. Gosododd hynny gyfeiriad i'w gwaith hwy yn eu hadrannau fel eu bod yn gallu adnabod materion a oedd angen eu datblygu e.e. defnyddio Flipgrid, recordio gwersi gan ddefnyddio Screencastify.<br>• Pwyslais ar dasgau gwylio a gwrando, tasgau trafod ac adnoddau ble mae'r athro wedi recordio ei lais (e.e. creu fidio Screencastify i egluro tasg, darllen testun/stori). | • 14<br>• 14awr<br>• 6 YCG<br>• Newyddlen wedi eu rhannu a 413 o ysgolion GwE ac i'r 53 arweinydd y Gymraeg pob clwstwr |

# Y Gymraeg

Hafan



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Pontio CA2 a CA3**<br><br>Cyflwyno model Dyddlyfr allai hwyluso pontio CA2/3 a model y gellid ei addasu a'i deilwra ar gyfer CA3 yn cynnwys tasgau darllen ac ysgrifennu i'w haddasu yn ôl gofynion ac anghenion y dysgwyr. Mae'n cynnwys gweithgareddau tymor hir y gellir eu datblygu o fewn dull cyfunol sy'n cwmpasu dysgu o bell a dysgu wyneb yn wyneb.<br>Cyflwynwyd pecyn cyn y ddau sesiwn oedd yn amlygu egwyddorion/ canllaw athro/ disgybl/ a thasgau enghreifftiol. Pecyn ar gael yn Saesneg i'w addasu ar gyfer rhieni di-Gymraeg.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau ar y canlynol:<br>• Sut oedd y model yn hyrwyddo Lles, Addysgeg, Dysgu Cyfunol a CiG.<br>• Sut oedd y model yn cynnig cyfleodd i feithrin ac ysgogi ysgrifenwyr gan ymestyn disgyblion abl a thalentog ac yn cynnal y disgyblion mwy bregus. | • Model o arfer dda ar gyfer pontio wedi ei rannu ag ysgolion.<br>• Arweiniad clir wedi ei rannu ar sut i addasu'r model fel y gall ysgolion berchnogi'r adnodd a datblygu enghreifftiau pellach.<br>• Model wedi ei beilota a'i arfarnu. | • 2 sesiwn<br>• 2 awr<br>• 20 o fynychwyr |

# Y Gymraeg

Hafan



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Cynllun Gwefeillio**<br><br>Cynllun i gefnogi **siarad Cymraeg drwy sesiynau ffrydio byw**.<br><br>Rhoddwyd cyflwyniadau ar<br>• gefndir/ nodau y cynllun<br>• canllawiau a threfniadau diogelu /<br>• enghreifftiau o fodelau/sesiynau peilota/<br>• pecyn cefnogaeth/<br>• canllaw i rieni.<br>Cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb gan Gydlynydd Siarter Iaith yn dilyn peilota a modelu'r cynllun yng Ngwynedd.<br><br>Bwriedir cyflwyno'r cynllun i ysgolion yn nhymor yr Hydref. | Sicrhau dealltwriaeth i hanfodion y cynllun a'r modd y gallai :<br>• gynnig darpariaeth gyfoethog i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg wrth iddynt ymarfer eu sgiliau llafar a chau'r bwlch amddifadedd o ran cyfleodd ieithyddol<br>• sicrhau cyfleodd arloeosol i rywdweithio yn ddigidol<br>• hyrwyddo trochi hwyr<br>• hyrwyddo'r Siarter Iaith<br>• gynnig cyfleodd i ddisgyblion siarad gyda disgyblion eraill mewn cymunedau newydd-pontio cyfnodau allweddol/ o fewn ysgol, clwstwr ac yn draws sirol a rhanbarthol.<br>• ddylanwadu ar ddefnydd iaith a sefydlu yr 'arfer' o siarad Cymraeg | • 30 cynrychiolydd y Grŵp D9 cenedlaethol<br><br>I'w ddatblygu ymhellach gydag ysgolion y rhanbarth |

# Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **AGA**<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer YCG – rhannwyd camau nesaf AGA a gwaith cydweithredol yn y dyfodol mewn cyfarfod tîm llawn 28/04/20. Darparwyd ymholiadau a chefnogaeth unigol yn dilyn hyn.<br>• Cynigion dysgu proffesiynol gan staff GwE ar gyfer rhaglenni CaBan 2020-21 a deunyddiau cynllunio – 23 o staff GwE<br>• Cyfarfodydd cynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr | • Aelodau'r tîm wedi eu harfogi'n fwy effeithiol i gefnogi anghenion AGA ysgolion.<br>• Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion.<br>• Rhaglenni proffesiynol, Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr, ar gyfer staff ysgolion, GwE ac ALl, yn cynnwys ymchwil sy'n agosach at arferion. | Cyfarfod Tîm Llawn<br>Pob YCG |

# Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar





| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| • Yn ystod y cyfnod clo, mynychwyd cyfarfodydd y Brifysgol Agored (PA) a CaBan lle cafodd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion (yn cynnwys athrawon a mentoriaid) ei gynllunio ar gyfer 2020-21<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer YCG – rhannwyd camau nesaf AGA a gwaith cydweithredol ar gyfer y dyfodol mewn cyfarfod tîm llawn<br>• Dysgu proffesiynol dilynol ar gyfer staff ALl ac ysgolion trwy ddiweddariad BAS 26/05/20<br>• Dysgu proffesiynol unigol ar gyfer ysgolion, trwy alwadau ffôn, ar sut y bydd rhaglen y BA yn gweithredu a sut y gallent ymwneud â'r bartneriaeth<br>• Cyn y cyfnod clo, mynychwyd cyfarfodydd PA a CaBan lle cynlluniwyd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion. Cafodd peth ohono ei ddarparu yn ystod y cyfnod clo gan y prifysgolion. Ers y cyfnod clo mae'r BA wedi darparu hyfforddiant i staff ysgol ar fentora a thiwtora yn seiliedig ar ddeunyddiau dysgu proffesiynol a gyfrannwyd cyn y cyfnod clo.<br>• Dogfen dysgu proffesiynol wedi ei chynhyrchu ar gyfer ysgolion ar sut i ddatblygu amserlen ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion PA<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio o CaBan ar y broses sefydlu gan IGJ. Cyfrannwyd i'r dysgu proffesiynol trwy fynychu diwrnodau datblygu staff CaBan<br>• Cyfrannu at ddatblygu deunyddiau dysgu proffesiynol ar gyfer rhaglenni CaBan gyda staff CaBan – dysgu cyfunol<br>• Cynigion dysgu proffesiynol gan staff GwE ar gyfer rhaglenni CaBan 2020-21 a deunyddiau cynllunio – 24 o staff GwE<br>• Cyfarfodydd cynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr | • Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion.<br>• Gwell cydweithio rhwng GwE a phrifysgolion<br>• Gwell cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer myfyrwyr a mentoriaid<br>• Rhaglenni gwell yn y prifysgolion – yn agosach at arferion mewn ysgolion, er enghraifft, dysgu cyfunol<br>• Rhaglenni proffesiynol, Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr, ar gyfer staff ysgolion, GwE ac ALl<br>• Gweminarau ar y cyd ar y gweill ar gyfer ysgolion | • 1 Cyfarfod Tîm Llawn<br>6 chyfarfod BAS<br>1 cyflwyniad i fyfrwyr<br>6 chyfarfod gyda phrifysgolion<br>12 cyfarfod gydag ysgolion unigol<br>• 10 awr |

# Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan

| Trosolwg byr | Effaith gychwynnol | Amser ac aelodau |
|---|---|---|
| **Cefnogaeth i ANG trwy hyfforddiant ar-lein cychwynnol:**<br>• Trefniadau Sefydlu Statudol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso, Mentoriaid Sefydlu a Gwirwyr Allanol<br>• Rolau a chyfrifoldebau<br>• Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth<br>• Y proffil sefydlu / PauDP<br>• Gwybodaeth o ran yr ALl / y Corff Awdurdodol / Consortiwm<br>• "Sefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso" - cyflwyniad CGA | • Cysondeb o ran strwythur a chefnogaeth i bob ANG yng ngogledd Cymru<br>• Profiad o safon uchel i ANG<br>• Proses deg a chyfartal i bob ANG<br>• Gwell dealltwriaeth o broffil ar-lein ANG<br>• Gwell dealltwriaeth o gofnodi profiadau ANG (PauDP)<br>• Asesu trylwyr a chyson i bob ANG<br>• Adnabod yr hyblygrwydd sydd mewn gwahanol batrymau cyflogi ANG | • 15 sesiwn<br>• 30 awr<br>• 300+ aelod |

# COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflwyno sesiynau 'Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi' yn ystod tymor yr haf 2019/20 sy'n llywio'r canllawiau hyn, ynghyd â'r cyngor gwyddonol a meddygol diweddaraf. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r cyngor iechyd cyhoeddus y mae'n rhaid i ysgolion ei ddilyn ar mwyn lleihau'r risgiau a | | | | **Mae'r risg o blant yn mynd yn ddifrifol wael o'r coronafeirws (COVID-19) yn isel iawn, a chaiff bod allan o'r ysgol effaith negyddol ar iechyd. Mae'r ysgol yn bwynt cyswllt hanfodol i iechyd cyhoeddus a gwasanaethau diogelu, sy'n bwysig iawn i les dysgwyr a theuluoedd.** | | | | **Does dim un dull sy'n addas i bawb. Mae arweinwyr ysgolion yn deall anghenion eu hysgolion a'u cymunedau. Gallant ddod i farn wybodus, gan greu cydbwysedd rhwng darpariaeth cwricwlwm a mesurau rheoli risg. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn darparu egwyddorion i helpu ysgolion a lleoliadau addysgol i ddod i farn wybodus a lleihau risgiau. Gyda chymorth awdurdodau lleol, disgwylir i ysgolion a lleoliadau weithio'n agos gyda rhieni a staff wrth gytuno ar y dulliau gorau ar gyfer eu hamgylchiadau.** | |
| Logisteg | Adeiladau | • Cyfrifo cynhwysedd ysgol | 4 | 3 | 12 | • Yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd, gallai 56 $m^2$ safonol gymryd 8 disgybl i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o 2m.<br>• Ar gyfer ysgol arferol efo amrywiaeth o ddosbarthiadau byddai hyn yn awgrymu cynhwysedd posibl o 35% o ddefnydd arferol.<br>• Mae'r dosbarth cyfartalog, efo dodrefn a staff ychwanegol yn 6 disgybl.<br>• Gallai ysgolion fod eisiau gweithredu ffactorau cyfyngu eraill neu edrych ar raddoli cynhwysedd o 20% i 33% yn dibynnu ar eu cyfyngiadau unigol.<br>• Gallai ysgolion fod eisiau dechrau ar ben isaf yr ystod ac, ar sail profiad, addasu cynhwysedd dros yr wythnosau dilynol.**Mae sut y gellir lleihau cyswllt yn dibynnu ar amgylchiadau'r ysgol, a bydd hyn yn cynnwys fel a ganlyn (gymaint ag y bo modd):**<br>**• grwpio dysgwyr gyda'i gilydd**<br>**• osgoi cyswllt rhwng grwpiau**<br>**• trefnu dosbarthiadau fel bod desgiau yn wynebu'r blaen**<br>**• staff yn cadw pellter oddi wrth ddisgyblion a staff eraill gymaint ag y bo modd.** | | | | • Mae gan ALl ddata ar gynhwysedd a gellid cynnal amrywiaeth o fodelau wrth i'r cyngor ar gadw pellter cymdeithasol aeddfedu gyda'r cyngor gwyddonol cyfredol. Dylid gweithredu'r un egwyddorion diogelu i'r ystafell athrawon. **Yr egwyddor gyffredinol yw lleihau'r cyswllt rhwng dysgwyr a staff. Gellir cyflawni hyn drwy gadw grwpiau cyswllt ar wahân a chadw pellter rhwng unigolion, lle bo hynny'n bosibl. Nid dewisiadau eraill yw'r rhain a bydd y ddau fesur yn helpu, ond bydd y cydbwysedd rhyngddynt yn newid, gan ddibynnu ar:**<br>**• allu plant i gadw pellter cymdeithasol**<br>**• cynllun safle'r ysgol**<br>**• pa mor ymarferol yw cadw grwpiau penodol ar wahân wrth gynnig y cwricwlwm (yn enwedig yn yr ysgol uwchradd).**<br><br>**Mae cadw pellter rhwng pobl yn adeilad yr ysgol a lleihau'r amser wyneb yn wyneb yn lleihau'r risg o drosglwyddo. Mae iechyd cyhoeddus yn cynghori'n gryf y dylai staff mewn ysgolion uwchradd gadw pellter oddi wrth eu dysgwyr, gan aros ym mlaen y dosbarth ac i ffwrdd o'u cyd-weithwyr lle bo modd. Yn ddelfrydol, dylai oedolion gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd, ac oddi wrth ddysgwyr.**<br>**Dylai ysgolion a lleoliadau wneud mân addasiadau i'r dosbarth i gefnogi cadw pellter cymdeithasol lle bo modd. Dylai hyn gynnwys dysgwyr yn eistedd ochr yn ochr gan wynebu ymlaen, yn hytrach na wynebu ei gilydd, a gallai olygu symud dodrefn diangen allan o ddosbarthiadau er mwyn creu mwy o le.**<br>**Ceir cyngor cadarn gan iechyd cyhoeddus bod staff mewn ysgolion uwchradd yn cadw pellter oddi wrth eu dysgwyr, gan aros ym mlaen y dosbarth ac i ffwrdd o'u cyd-weithwyr, lle bo hynny'n bosibl. Yn ddelfrydol, dylai oedolion gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd, ac oddi wrth ddysgwyr.** | |
| Logisteg | Yr ystafelloedd | • Gofynion iechyd a diogelwch o safbwynt yr ystafell ddosbarth a defnyddio lle o fewn yr ysgol. | 4 | 4 | 16 | • Bydd angen i ysgolion edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod cymdeithasol. | | | | • Mae angen i ysgolion ofalu bod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau ar ôl cyfnod o gau fel clefyd Legionnaire, profi larymau tân a systemau chwistrellu dŵr, tynnu llwch ac ati.<br>• Sylwch nad yw hon yn rhestr lawn ac y bydd angen i ysgolion gysylltu â'u hymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch am asesiad cyfansawdd. | |
| Logisteg | Cludiant | • Penodol iawn i'r ysgol, yn amrywio o ychydig iawn o ofynion gyda'r mwyafrif yn byw o fewn 3 milltir ac yn teithio'n ddiogel i'r ysgol, hyd at ysgolion ble mae mwyafrif y dysgwyr yn cael eu cludo i'r ysgol.<br>• Hefyd, mae angen ystyried dysgwyr bregus y mae arnynt angen trefniadau unigryw. | 3 | 4 | 12 | • Cysylltu â'r ALl am gludiant mewn perthynas â'r diwrnod ysgol a faint fydd angen.<br>• Parhau i leihau niferoedd sydd yn cael cludiant. **Bydd rhywfaint o gymysgu uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng plant mewn gwahanol grwpiau cyswllt yn anochel, megis ar gludiant ysgol, wrth dderbyn addysgu arbenigol neu oherwydd cyfyngiadau staffio. Lle na gellir osgoi cymysgu, dylai ysgolion leihau'r risg o drosglwyddo gan ddefnyddio amrediad o fesurau rheoli risg.** | | | | • Bydd pob giât heblaw am y giât ffrynt ar gau.<br>• UDA ar y giât i adael bysus a thacsis i mewn ac allan unwaith y bydd yn ddiogel.<br>• Rhaid i hyn fod yn berthnasol i bob safle - dylai fod yn hyblyg i bob ysgol.<br>• Bydd angen i blant ar fysus fod ar rota hefyd.<br>• Creu mannau gollwng disgyblion - meysydd parcio gerllaw ac ati.<br>• Efallai bydd rhaid i ddysgwyr beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau prysur ac felly, o ganlyniad, gall ysgolion fod angen ystyried cynnal diwrnod ysgol tu allan i oriau teithio prysur. **Cludiant (Mae canllawiau LlC yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd angen eu diweddaru)**<br>**Dylid rhoi ystyriaeth i'r canllawiau cludiant diweddaraf. Lle bo'n bosibl, dylai rhieni a gofalwyr deithio gyda'u plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, yn ddelfrydol ar droed, neu ar feic, sgwter neu unrhyw ffordd arall o deithio llesol. Dylid cadw pellter cymdeithasol ar y daith i'r ysgol ac oddi yno. Dylai pobl o fwy na dwy aelwyd deithio gyda'i gilydd dim ond os yw cadw pellter cymdeithasol yn bosibl.**<br><br>**Mewn unrhyw drefniadau cludiant ysgol, dylid rhoi blaenoriaeth i'r rhai hynny na allant fynychu'r ysgol heb gludiant.** | |

Tudalen 148

# COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgwyr a Staff | Adnabod disgyblion i'w hailintegreiddio | Wrthi'n gweithio ar ddiffiniad LlC o weithwyr bregus ac allweddol - niferoedd presennol sydd angen cymorth yn codi. **Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ysgolion a lleoliadau gynllunio ar gyfer dychwelyd yr holl ddysgwyr yn raddol o ddechrau tymor yr Hydref.** | 4 | 3 | 12 | • Ail integreiddio ar sail anghenion<br>• Dim cymysgu anghenion/cyfnodau.<br>• Asesiad risg unigol i bob disgybl sydd â chynllun gofal<br>• Dechrau efo cynhwysedd 20% a chynyddu yn ôl llwyddiant<br>• Oni bai y caiff ei reoli'n ofalus iawn, gallai hyn achosi i'r ysgol fod ar gau am gyfnod hir. **Dylai ysgolion ystyried dychwelyd yn raddol gan ddechrau gyda grwpiau blwyddyn 7, 11 a 13 am y pythefnos cyntaf**<br>**Rhaid i bob dysgwr arall fynychu'r ysgol. Dylai ysgolion ystyried pryderon posibl disgyblion, rhieni/gofalwyr a all fod yn amharod neu'n bryderus ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol. Dylent roi'r cymorth addas ar waith i fynd i'r afael â hyn. Gall hyn gynnwys dysgwyr sydd wedi bod yn gwarchod (shielding) a sydd wedi cael gwybod nad yw hyn yn angenrheidiol mwyach, y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae rhywun yn clinically vulnerable, neu'r rhai sy'n pryderu am y risg gymharol uchel o goronafeirws (COVID-19), gan gynnwys y rheini o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu sydd â chyflyrau penodol fel gordewdra a diabetes.** | | | | • Angen cymorth gan bob gwasanaeth ALl i reoli disgwyliadau rhieni/gofalwyr.<br>• Os na ellir arddel y polisi cadw pellter cymdeithasol yn gaeth, dylid nodi na ddylai'r unigolion hynny fynychu. Dylid eu cefnogi i weithio o gartref. Gallai hyn ddibynnu pam bod ysgolion yn ail agor - addysg, lles neu economi.<br>• Mewn ysgolion uwchradd - gall y cwricwlwm fod yn seiliedig ar brosiect yn dibynnu faint o staff sydd ar gael.<br>• Efallai bydd angen ystyried teuluoedd sydd â mwy nag un plentyn yn yr ysgol. A yw Blwyddyn 10, Blwyddyn 12, Blwyddyn 6 yn flaenoriaeth er enghraifft, neu deuluoedd sydd mewn angen, teuluoedd sy'n gweithio? Y Gymraeg? Ar gyfer ysgolion 1 i 16, a ddylid ystyried dysgwyr Blwyddyn 11 i helpu gyda'u pontio i'r cam nesaf yn eu dysgu?<br>• Rhaid cael cyfarwyddwyd cenedlaethol pendant ar bwy sy'n cael blaenoriaeth ar sail y rheswm dros ail agor ysgolion. Yna rhaid i ysgolion chwilio am y datrysiadau.<br>• Tri grŵp i'w hadnabod:<br>1 - Yn yr ysgol ond mewn amgylchiadau anghyfarwydd<br>2 - Methu dod i mewn (bregus, ac ati)<br>3 - Ddim yn fodlon dod i mewn (awgrymu cyswllt â statws economaidd gymdeithasol)<br>• Byddai ysgolion yn annoeth i orfodi unrhyw un i ddod i'r ysgol – efallai bydd angen polisi presenoldeb dros dro ar ysgolion.<br>• Efallai bydd ysgolion eisiau ystyried a yw bregus yn flaenoriaeth, yna dan anfantais digidol yna AAA ac Anawsterau.<br>• Bydd yn hanfodol cadw cofnodion presenoldeb manwl o safbwynt diogelu ac er mwyn cynllunio strategaeth ysgol, ALl a Cymru yn strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ysgolion a lleoliadau gynllunio ar gyfer pob dysgwr yn dychwelyd yn raddol o ddechrau tymor yr hydref. | |
| Dysgwyr a Staff | Crisialu pwrpas presenoldeb addysgol ar safleoedd ysgol | • Bydd yn anodd gorfodi gofynion presenoldeb arferol gan fydd dymuniadau rhieni/gofalwyr yn amrywion fawr o ran eu disgwyliadau am ddiogelwch eu plant mewn rhaglen ail ymgysylltu. | 4 | 4 | 16 | • Bydd angen i ysgolion gysylltu â'r ALl i weld a yw'r canllawiau a'r disgwyliadau i'w rhannu efo rhieni/gofalwyr a chreu gweithdrefnau gwirio ac olrhain os teimlant nad yw dysgwyr yn cyrraedd y disgwyliadau hyn. **Dylai ysgolion a lleoliadau weithio gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd o ddechrau'r tymor. Bydd hyn yn hanfodol i helpu disgyblion i ddal i fyny gyda'u haddysg, i wneud cynnydd ac i hybu eu lles a'u datblygiad ehangach.** | | | | • Mae angen rhannu unrhyw ganllawiau diwygiedig mewn da bryd â'r holl randdeiliaid i sicrhau cysondeb disgwyliadau a'r hawl i ofyn i ysgolion ac ALl ystyried amgylchiadau unigol.<br>• Dylid gwneud hyn ar ffurf anogaeth yn hytrach na gorfodaeth, oni bai ei fod yn bryder am ddiogelu.<br>• Ni ddylai unrhyw un sydd â symptomau Covid-19 fynd i leoliad am ba bynnag reswm.<br>• Plant cymwys – gan gynnwys grwpiau blaenoriaeth - dylid eu hannog yn gryf i fynd i'r ysgol, oni bai eu bod nhw'n hunan ynysu neu'n fregus (yn yr achos hwn, dylent ddilyn cyngor meddygol).<br>• Os oes rhywun yn eu cartref yn fregus, dylent fynd i'r ysgol dim ond os gellir cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol caeth, a bod y plant yn gallu deall a dilyn y cyfarwyddiadau hynny.<br>• Dylai teuluoedd ddweud wrth eu hysgol, fel ag yr arfer, os bydd eu plentyn methu mynd fel y gall staff edrych ar y rheswm efo nhw a rhoi sylw i rwystrau efo'i gilydd.<br>•Dylai ALl ei gwneud hi'n glir na fydd rhieni yn cael eu dirwyo am beidio ag anfon eu plant i'r ysgol ar yr adeg hon, ac ni fydd ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif am lefelau presenoldeb.<br>• Dylai ysgolion barhau i roi gwybod i weithwyr cymdeithasol os nad yw plant sydd â gweithiwr cymdeithasol yn mynd i'r ysgol. | |

## COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgwyr a Staff | Staff sydd ar gael | • Oherwydd y system rota, y staff sydd ar gael yn briodol.<br>• Tua 10% yn gwarchod eu hunain a 5% ddim ar gael i weithio am resymau eraill. | 3 | 3 | 9 | • Wrth i gyswllt â mwy o ddysgwyr gynyddu, bydd yr angen i staff sydd angen hunan ynysu hefyd yn codi.<br>• Mae staff sydd ag asthma ac/neu gyflyrau meddygol eraill yn llai tebygol o fynd i'r gwaith - angen canllawiau cenedlaethol.<br>•Bydd staff sydd â gorbryder efallai'n ei gweld hi'n anodd mynd i'r gwaith heb gael eu sicrhau. | | | | • Angen canllawiau cenedlaethol/lleol ar asthma/cyflyrau meddygol eraill.<br>Ni ddylai unrhyw un sydd wedi derbyn llythyr cysgodi fod yn bresennol ar hyn o bryd (yn unol â LlC).<br>• Efallai bydd ALl yn dymuno diffinio'r term 'bregus' fel bod gan yr holl randdeiliaid yr un diffiniad.<br>• Dylai ysgolion allu adnabod staff sy'n gweithio gartref a staff sydd ar gael yn yr ysgol.<br>• Mater ychwanegol yw staff sydd â phlant oedran ysgol, mae angen adnabod hyn a'i ystyried yn y rota<br>• Dylai ysgolion ystyried adleoli staff: ni fydd staff sy'n gweithio yn yr ysgol yn gallu gwneud yr un dyletswyddau dysgu o bell.<br>• Gall fod angen ystyried adleoli grwpiau i sicrhau tegwch a chydbwysedd ymysg staff.<br>• Dylid rhannu darpariaeth ar gyfer profi Covid-19, a dylai'r holl randdeiliaid ei deall.<br>•Dylai ALl, Cyrff Llywodraethu ac Uwch Arweinwyr fod yn ymwybodol o les eu staff i gyd, gan gynnwys uwch arweinwyr eu hunain, a'r angen i weithredu arferion gwaith hyblyg mewn ffordd sy'n hybu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, ac yn cefnogi athrawon ac arweinwyr. **Gofynnwn i ysgolion/lleoliadau ac awdurdodau lleol:**<br>**• gyfleu disgwyliadau clir a chyson ynghylch presenoldeb i rieni/gofalwyr drwy gydol yr haf cyn y flwyddyn ysgol newydd**<br>**• adnabod dysgwyr sy'n amharod neu'n bryderus am ddychwelyd, neu sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae angen datblygu cynlluniau ar gyfer ailymgysylltu â hwy. Dylai hyn gynnwys plant a phobl ifanc difreintiedig a bregus, yn enwedig y rhai a oedd yn absennol yn barhaus cyn y pandemig neu nad ydynt wedi ymgysylltu â'r ysgol yn rheolaidd yn ystod y pandemig.**<br>**• gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill, fel bo'n briodol, i gefnogi'r dychwelyd i'r ysgol, gan gynnwys parhau i hysbysu gweithiwr cymdeithasol y plentyn, os oes ganddo un, am ddiffyg presenoldeb.** | |
| Dysgwyr a Staff | Asesu'r risg i staff a dysgwyr bregus | . • Bydd angen i ysgolion lunio cofrestr o staff a dysgwyr sy'n 'fregus' o dan y gofynion presennol. | 4 | 4 | 16 | • Bydd angen ei diweddaru wrth i'r sefyllfa ddeinamig hon newid a bydd angen cyfleu unrhyw newid mewn statws mewn da bryd cyn i'r statws newydd ddechrau. | | | | • Dylid gwneud hyn mewn partneriaeth â'r ALl i sicrhau cysondeb ac ymgynghori priodol â'r holl randdeiliaid.<br>**Bydd profi cyflym ar gael gan raglen Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru i gefnogi achosion o goronafeirws mewn ysgolion/lleoliadau. Bydd Byrddau Iechyd lleol yn darparu profion antigen PCR i bawb yn 'swigod' yr ysgol/lleoliad a effeithir (grŵp bach, cyson o ddim mwy na 8), a phawb yn yr ysgol/lleoliad os nad yw'r lleoliad wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion ac/neu fesurau Atal a Rheoli heintiau.**<br>**Gellir darparu a samplo profion antigen cyflym mewn amrywiaeth o ffyrdd megis defnyddio unedau profi symudol (MTUs), lloerennau profi dros dro a llwybrau gollwng a chasglu. Trafodir y dull profi mwyaf priodol, a chytuno ar hyn, gyda'r holl randdeiliaid.** | |
| Dysgwyr a Staff | Dangos symptomau yn yr ysgol - Gweithwyr, Dysgwyr, Rhieni/Gofalwyr | • Ni ddylai gweithwyr, dysgwyr neu rieni/gofalwyr sy'n teimlo'n wael/dangos symptomau Covid-19 fynd i'r/ymweld â'r ysgol. | 2 | 4 | 8 | • Ni ddylai unrhyw weithwyr, dysgwyr neu rieni/gofalwyr sy'n teimlo'n wael/dangos symptomau Covid-19 fynd i'r/ymweld â'r ysgol.<br>• Os bydd unrhyw un yn cael ei daro'n wael yn yr ysgol, rhaid iddynt adael yr ysgol cyn gynted ag y bo modd a dilyn canllawiau hunan ynysu.<br>• Ysgol i fonitro absenoldeb salwch dysgwyr a dweud wrth yr ALl am unrhyw achos a amheuir o symptomau Covid-19. **Dywed y Prif Swyddog Meddygol nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r angen i wisgo gorchuddion wyneb anfeddygol ar raddfa eang yn y gymuned. Argymhellir y rhain pan na ellir cadw pellter cymdeithasol.**<br>**Dylid ymateb i unrhyw haint drwy ddefnyddio'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu. Dylid rheoli achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yng nghymuned yr ysgol, a dilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol i ynysu'r haint.** | | | | **Mae canllawiau diweddaraf LlC yn argymell bod mesurau hanfodol yn cynnwys:**<br>**• pobl sy'n sâl yn aros gartref**<br>**• hylendid dwylo ac anadlol cadarn**<br>**• gwell trefniadau glanhau**<br>**• ymwneud gweithredol â'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu**<br>**• ystyried yn ffurfiol sut i leihau cyswllt a chadw i'r eithaf bellter cymdeithasol yn yr ysgol ble bynnag bo'n bosibl**<br>**• ystyried yn ffurfiol sut i leihau'r potensial ar gyfer halogiad cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol**<br><br>**Bydd strategaethau i leihau cyswllt yn dibynnu ar amgylchiadau'r ysgol, a bydd hyn yn cynnwys fel a ganlyn (gymaint ag y bo modd):**<br>**• grwpio dysgwyr gyda'i gilydd**<br>**• osgoi cyswllt rhwng grwpiau**<br>**• trefnu dosbarthiadau fel bod desgiau yn wynebu'r blaen**<br>**• staff yn cadw pellter oddi wrth ddisgyblion a staff eraill gymaint ag y bo modd.** | |

Tudalen 151

## COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgwyr a Staff | Anaf i ddysgwyr ar y safle | • Pe byddai dysgwr yn cael anaf yn yr ysgol, byddai'r staff yn rhoi sylw i'r anaf neu'n trefn i weld meddyg neu fynd i'r ysbyty. | 2 | 4 | 8 | • Wrth roi sylw i unrhyw glwyfau ac ati, staff ysgol i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) pob amser.<br>• Gofyn am ganiatâd gan riant/gofalwr i fynd i'r feddygfa neu'r ysbyty yn ystod pandemig.<br>• Os oes unrhyw amheuaeth (neu'n methu cysylltu â rhiant/gofalwr), cysylltu â Galw GIG/Gwasanaethau Brys am gyngor. | | | | • Mae angen ystyried beth fyddai'n digwydd petai dysgwr yn cael ei anafu'n ddifrifol, neu fod rhywun â chyflwr meddygol angen mynd i'r ysbyty.<br>• Wrth gwrs, gellid galw'r gwasanaeth brys ar gyfer rhai digwyddiadau difrifol, ond nid pob tro.<br>• A yw staff yn fodlon mynd i'r ysbyty os na allai rhiant/gofalwr ddod i nol y dysgwr?<br>• A fyddai'r rhiant/gofalwr yn hapus i'r dysgwr fynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf, gan gofio y gallai rhai fod yn amharod i fynd i'r ysbyty ar hyn o bryd? | |
| Dysgwyr a Staff | Gwisg ysgol | • Bydd plant wedi tyfu dros gyfnod y cyfyngiadau, efallai na fydd eu gwisg ysgol yn ffitio bellach.<br>• Bydd hyn yn broblem fawr os na roddir llawer o rybudd iddynt ddychwelyd i'r ysgol. | 3 | 3 | 9 | • Yn wir, gallai'r sefyllfa fod yn waeth oherwydd problemau ariannol rhieni yn ystod cyfnod y cyfyngiadau, yn enwedig heb dâl llawn neu ddim tâl yn dod i mewn i'r tŷ.<br>• Mae angen i ysgolion ddangos cydymdeimlad ac efallai llacio rhai o'u rheolau o safbwynt gwisg ysgol.<br>**Corff llywodraethu ysgol sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch gwisg ysgol. Fe wnaeth rhai ysgolion lacio eu** | | | | • Ddylai ysgolion groesawu dysgwyr yn ôl heb wisg ysgol?<br>• Mae'n bwysig bod y neges hon yn cael ei rhannu gyda'r holl rieni.<br>• Os yn bosib, rhoi amser synhwyrol i rieni roi trefn ar sefyllfa'r wisg ysgol.<br>• Ble mae rhieni yn cael trafferthion ariannol, yna dylai ysgolion geisio darparu'r wisg ysgol i'r plentyn/plant.<br>• Efallai annog rhieni sy'n cael trafferth i drefnu'r esgidiau a gallai'r ysgol helpu efo'r wisg ysgol, gellid hefyd gofyn i'r Gymdeithas Rieni efo gwerthu/ffeirio. | |
| Dysgwyr a Staff | Cod Gwisg Staff | • Cod gwisg presennol ddim yn ymarferol efallai. | 4 | 3 | 12 | • Bu rhywfaint o drafodaeth y dylai staff ystyried golchi eu dillad ar ddiwedd pob diwrnod i leihau'r potensial i drosglwyddo haint. **Dylai unrhyw newid i ddisgwyliadau o ran gwisg ysgol** | | | | • Efallai bydd ysgolion eisiau ystyried gwisg llai ffurfiol. | |
| "Y Diwrnod Ysgol" | Cyrraedd yr Ysgol | • Pob cerbyd i gyrraedd yr ysgol a gollwng mewn un lle canolog.<br>• Gofyn i rieni beidio â dod â'u plant ar safle'r ysgol, neu gyfyngu mynediad at adeiladau'r ysgol. | 3 | 3 | 9 | • Efallai bydd ysgolion eisiau ystyried amseroedd cychwyn gwasgarog neu wasgaru grwpiau Blwyddyn dros sesiynau bore a phrynhawn ar wahân.<br>• Pob dysgwr i aros yn y tacsi nes daw staff i'w nol nhw.<br>• Dysgwyr i ddod i mewn drwy un drws dynodedig a golchi dwylo cyn mynd i'r dosbarth.<br>• Efallai bydd ysgolion eisiau ystyried i ddysgwyr aros mewn dosbarthiadau dynodedig ac i'r staff symud i'r dosbarthiadau hyn. | | | | • Disgyblion nad ydynt yn yr ysgol yn cael eu denu i gyfarfod â ffrindiau tu allan i'r ysgol a fyddai'n codi peryglon ychwanegol.<br>• Dylid parhau i gysylltu o bell â rhiant/gofalwr.<br>**Os yw'n bosibl, dylai ysgolion ystyried amseroedd dechrau gwasgarog, neu addasu amseroedd dechrau a gorffen i gadw grwpiau ar wahân wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol. Ni ddylai amseroedd dechrau a gorffen gwasgarog leihau nifer yr oriau addysgu. Gall dechrau gwasgarog, er enghraifft, gynnwys cywasgu/gwasgaru cyfnodau rhydd neu amser egwyl ond cadw'r un faint o amser addysgu, neu gadw hyd y diwrnod yr un fath ond dechrau a gorffen yn hwyrach i osgoi'r cyfnod prysur. Dylai ysgolion ystyried sut i gyfleu hyn i rieni/gofalwyr a'u hatgoffa am y broses ar gyfer gollwng plant a'u casglu, gan gofio na chaniateir ymgynnull wrth gât yr ysgol na dod ar safle'r ysgol heb apwyntiad.**<br><br>**Dylai ysgolion hefyd gael proses ar gyfer tynnu gorchudd wyneb pan fydd dysgwyr a staff sy'n eu defnyddio yn cyrraedd yr ysgol, a dylid cyfleu hyn yn glir iddynt. Rhaid cyfarwyddo'r dysgwyr i beidio â chyffwrdd tu blaen eu** | |
| "Y Diwrnod Ysgol" | Cyrraedd y Dosbarth | •Gall cyfyngiadau'r adeilad olygu ychydig iawn o ddisgyblion ym mhob dosbarth.<br>•Wrth weithredu polisi disgyblion statig a staff symudol, byddai'n rhaid i hyn fod ar sail gwaith prosiect. | 3 | 2 | 6 | • Symud desgiau i sicrhau cadw pellter cymdeithasol.<br>• Pob disgybl i gael ei le ei hun a'i gyfarpar ei hun i weithio<br>• Bydd angen i'r amserlen ystyried amser i gymryd egwyl i fynd i'r toiled, fesul dipyn. **Wrth lunio amserlen, dylai grwpiau gael eu cadw ar wahân a dylid lleihau'r symud o gwmpas safle'r ysgol. Er mai risg isel yw pasio yn y coridor neu'r lle chwarae, dylai ysgolion osgoi creu coridorau, mynedfeydd ac allanfeydd prysur. Dylai ysgolion hefyd ystyried amseroedd egwyl ac amserau cinio gwasgarog (ac amser ar gyfer glanhau arwynebau yn y neuadd fwyta rhwng grwpiau).** | | | | • A oes digon o doiledau/cyfleusterau ymolchi yn y bloc addysgu cyfyngedig/dynodedig?<br>• A oes digon o gyfleusterau golchi dwylo?<br>• Ystyried system unffordd tu mewn a thu allan i'r ysgol<br>• Gadael drysau ar agor (ar wahân i ddrysau tân) fel nad oes angen cyffwrdd â dolenni drysau ac ati. Yn yr achos hwn, bydd angen i ysgolion adolygu eu polisïau diogelu. | |
| "Y Diwrnod Ysgol" | Addoli ar y cyd a Gwasanaethau | • Addoli ar y cyd/gwasanaethau dyddiol yn unol ag amserlen yr ysgol. | 4 | 4 | 16 | • Dim addoli ar y cyd fel ysgol gyfan/cyfnod allweddol na gwasanaethau.<br>• Cynnal addoli ar y cyd mewn dosbarthiadau unigol. | | | | **Dylid cadw grwpiau cyswllt ar wahân lle bo'n bosibl, sy'n golygu y dylai ysgolion osgoi cyfarfodydd mawr fel gwasanaethau boreol neu addoli ar y cyd gyda mwy nag un grŵp.** | |

## COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| "Y Diwrnod Ysgol" | Amseroedd Egwyl/Cinio | • Mae risg sylweddol i'r gofyn am gadw pellter cymdeithasol, a gallu staff i blismona gofynion yn ddiogel. | 4 | 3 | 12 | • Dylid rhoi ystyriaeth i gwtogi'r diwrnod i leihau grwpiau torfol amser egwyl.<br>• Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddileu'r angen am amser cinio drwy gwtogi'r diwrnod a graddoli grwpiau blwyddyn rhwng y bore a'r prynhawn.<br>• Gellid parhau i weithredu'r drefn bresennol i blant PYD. | | | | • Byddai hyn yn dibynnu ar nifer y disgyblion a faint o dir sydd ar gael - posibl cael ardaloedd ac ati - rheolau chwarae/ymgysylltu ac ati - gellid ymgynghori â disgyblion.<br>• Byddi angen adolygu cynigion i ddefnyddio'r ffreutur i raddau, neu ddim o gwbl, yn unol â'r arweiniad gan y Llywodraeth ar ysgolion yn darparu prydau ar y safle. **Ar yr amserlen, dylai grwpiau gael eu cadw ar wahân a dylid lleihau'r symud o gwmpas safle'r ysgol. Er mai risg isel yw pasio yn y coridor neu'r lle chwarae, dylai ysgolion osgoi creu coridorau, mynedfeydd ac allanfeydd prysur. Dylai ysgolion hefyd ystyried amseroedd egwyl ac amseroedd cinio gwasgarog (ac amser ar gyfer glanhau arwynebau yn y neuadd fwyta rhwng grwpiau).** | |
| Trefniadau Domestig | Arlwyo | Gall dysgwyr gael prydau amser cinio yn yr ysgol. | 3 | 4 | 12 | • Dylai dysgwyr fwyta yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain lle bo'n bosibl.<br>• A fydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddod â'u cinio eu hunain? - Holwch adran arlwyo'r ALl. Dylai ysgolion hefyd ystyried amseroedd egwyl ac amserau cinio gwasgarol (ac amser ar gyfer glanhau arwynebau yn y neuadd fwyta rhwng grwpiau).<br>**Dylai ysgolion hefyd ystyried amseroedd egwyl ac amseroedd cinio gwasgarog (ac amser ar gyfer glanhau arwynebau yn y neuadd fwyta rhwng grwpiau).**<br>**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ceginau ysgol yn agored yn llawn o ddechrau tymor yr hydref ac y bydd gofynion cyfreithiol arferol yn berthnasol o ran darparu bwyd i bob disgybl sydd am ei gael, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.** | | | | • Dylai'r ddarpariaeth ystyried a ddylai gynnwys brecwast, cinio ac, o bosibl, swper pan fo angen am hyd y gofal. Efallai y bydd angen byrbrydau hefyd.<br>• Os yw'n bosibl, dylid gweini bwyd yn yr ystafelloedd lle mae'r dysgwyr yn ymgymryd â gweithgaredd. Mae hyn yn lleihau'r risg o drosglwyddo haint. Dylid glanhau'r ardal yn unol â'r canllawiau ar ôl bwyta.<br>• Dylai staff sicrhau eu bod yn parhau i ymbellhau'n gymdeithasol yn ystod amseroedd bwyd a dylai dysgwyr eistedd dau fetr oddi wrth ei gilydd.<br>• Yn yr achos hwn, dylid cael gwared ar y byrddau o annibendod, wedi'u diheintio, ac yn weledol lân cyn darparu'r pryd/byrbryd.<br>• Os oes unrhyw bryderon, dylai ysgolion a lleoliadau ofyn am gyngor eu tîm iechyd yr amgylchedd lleol am gyngor.<br>• Dylai dysgwyr hefyd olchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta a dylai staff hefyd olchi eu dwylo cyn ac ar ôl gweini bwyd.<br>• Efallai y bydd yr ysgol neu'r lleoliad am ystyried darparu prydau ar gyfer staff hefyd er mwyn lleihau nifer y gwrthrychau sy'n cael eu trosglwyddo o'r adeilad ac i'r adeiladau.<br>• Dylai awdurdodau lleol a phenaethiaid weithio gyda darparwyr a chyflenwyr bwyd i sicrhau bod hylendid yn cael ei wneud yn drylwyr iawn, gan gynnwys paratoi, defnyddio a gwaredu.<br>• Rhaid peidio â rhannu bwyd. Dylid gwahanu unrhyw fyrbrydau yn glir i osgoi hyn<br>• Gallai amser cinio ac egwyl gael ei wahanu i gefnogi ymbellhau cymdeithasol. | |
| Trefniadau Domestig | Dal/Lledaenu. Methu cadw pellter cymdeithasol wrth roi gofal personol. | • Mae ysgolion wrthi'n dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fenig a ffedogau.<br>• Dylai masgiau wyneb fod ar gael i staff. | 4 | 3 | 12 | • Dilyn canllawiau ar gyfarpar diogelu personol gan gynnwys masgiau wyneb, ffedogau a menig.<br>• Rhoi gwastraff mewn dau fag.<br>• Gofalu bod biniau gwastraff yn cael eu gwagio pob diwrnod gan y tîm gofalwyr.<br>• Cynyddu oriau glanhau fel bod arwynebau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd y dydd/shifft.<br>**Dylai ysgolion barhau i ddefnyddio menyg a ffedogau wrth ddarparu gofal personol i blentyn neu berson ifanc. Mae hyn yn cynnwys gofal personol, ymarferol fel ymolchi, mynd i'r toiled, cymorth cyntaf a rhai gweithdrefnau clinigol megis bwydo â chymorth. Dylid gwisgo masgiau llawfeddygol a sbectol diogelu llygaid sy'n gwrthsefyll hylifau os yw'r asesiad risg yn datgan bod risg o sblasio'r llygaid, er enghraifft drwy beswch, poeri neu chwydu. Dylid defnyddio menyg, gynau sy'n gwrthsefyll hylif, masgiau FFP3 a sbectol diogelu llygaid wrth ymgymryd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol, megis sugno. Dylid defnyddio menyg a ffedogau wrth lanhau offer neu arwynebau a allai fod wedi'u halogi gan hylifau corff megis poer neu secretiad anadlol.** | | | | • Adolygwch oriau/arferion glanhau i feithrin hyder y cyhoedd.<br>• Mae angen strategaeth ar gyfer unrhyw aelod o'r ysgol sy'n arddangos symptomau Covid-19.<br>• Polisi ar waith ar gyfer hysbysu cymuned yr ysgol am unrhyw achosion a gadarnhawyd a'r gallu i olrhain, lle bo hynny'n rhesymol, eraill a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r achos a gadarnhawyd.<br>• Y Cyngor presennol yw nad oes angen sgrinio tymheredd. Bydd rhieni/gofalwyr y dysgwr yn gallu gwirio eu tymheredd. Beth bynnag, ni fydd sgrinio'n nodi pob achos o Covid-19 a gall y dull o wirio'r tymheredd roi staff mewn mwy o berygl o drosglwyddo. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Wrth gwrs, dylai staff fod yn wyliadwrus o newidiadau i dymheredd ac arwyddion twymyn y plant.<br>• Ni ddylid anfon unrhyw ddysgwr â symptomau i'r ysgol o gwbl ac mae'n hanfodol bod rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i weithredu'n unol â hynny.<br>• I'r mwyafrif helaeth o ddysgwyr, mae Covid-19 yn salwch ysgafn. Cynghorwyd dysgwyr sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n amddiffyn oherwydd cyflyrau meddygol a oedd yn bodoli eisoes i ymgymryd â mesurau penodol i ' gysgodi '. Mae gan y dysgwyr hyn gyflyrau iechyd sylfaenol difrifol sy'n eu rhoi mewn perygl uchel o salwch difrifol o Covid-19 ac fe'u cynghorir i ddilyn mesurau gwarchod yn drylwyr er mwyn eu cadw eu hunain yn ddiogel. Ni ddylai ysgolion ddisgwyl i'r dysgwyr hyn fynychu ysgolion neu leoliadau ar hyn o bryd, a dylent barhau i gael cymorth gartref gymaint â phosibl.<br>• Unwaith y bydd rhywun yr amheuir ei fod wedi cael cadarnhad neu fod ganddo symptomau wedi'i nodi, rhaid nodi pob ardal lle mae'r person hwn wedi'i adnabod a'i gadw'n glir. Dylai'r broses o reoli'r ardal fod yn ffisegol lle bo'n bosibl h.y. rhwystrau gydag arwyddion addas neu y tu ôl i ddrysau wedi'u cloi. Dylid glanhau cyn ailfeddiannol yn dilyn canllawiau ' Covid-19: glanhau mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd '.<br>• Bydd angen ystyried plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn glinigol (nad ydynt yn gwarchod) fesul achos, ond wrth gwrs, ni fyddem ond yn disgwyl i'r rhain fod yn bresennol os yw rhieni/gofalwyr yn fodlon bod hyn yn ddiogel iddynt.<br>• Mae risg y bydd dysgwyr (a staff) yn ofidus a hyd yn oed yn crio wrth ddychwelyd i'r ysgol. | |

| COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
| Trefniadau Domestig | Ymwelwyr â'r Ysgol | • Dim ond ymwelwyr hanfodol i ddod i'r brif dderbynfa ac aros i staff ddod i gyfarfod â nhw.<br>• Dim ymwelwyr oni bai bod hyn wedi'i drefnu o flaen llaw. | 3 | 3 | 9 | • Pob ymwelydd i fod wedi'i drefnu o flaen llaw.<br>• Dim ymwelwyr allanol heblaw am ymwelwyr allweddol e.e. nyrs ysgol, gweithwyr cymdeithasol amddiffyn plant.<br>• Canslo pob ymweliad/cyswllt anstatudol neu eu gwneud drwy rith gyfarfodydd. | | | | • Cefnogaeth yr ALl i reoli disgwyliadau rhieni ac asiantaethau allanol bod ysgolion yn rhedeg 'yn ôl yr arfer' yn syth.<br>• Dim ymweliadau na chyfarfodydd afraid - gallent fod dros y ffôn neu Teams ac ati<br>• Rhaid cadw cydbwysedd rhwng diogelwch y safle a'r polisi o gadw pob drws ar agor ar wahân i ddrysau tân a drysau toiled. **Dylai ysgolion a lleoliadau ystyried sut i reoli ymwelwyr eraill â'r safle, megis Contractwyr. Dylent sicrhau bod canllawiau safle ar gadw pellter cymdeithasol a hylendid yn cael eu hegluro i ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd, neu o flaen llaw. Dylai ymweliadau ddigwydd y tu allan i oriau ysgol os yw'n bosibl. Dylid cadw cofnod o bob ymwelydd.** | |
| Trefniadau Domestig | Prosesau Glanhau | • Newid prosesau glanhau i ganolbwyntio ar arwynebau, drysau a mannau cyffredin.<br>• Gofynnir i bob staff fod yn ystyriol a chefnogi prosesau glanhau. | 4 | 3 | 12 | • Glanhau i ganolbwyntio ar y blociau cyfyngedig a datblygu polisi glanhau trylwyr. Mae mwy o lanhau yn cynnwys glanhau arwynebau sydd yn cael eu cyffordd yn aml gan ddefnyddio cynhyrchion safonol, fel glanedyddion a blew.<br><br>**Mae mwy o lanhau yn cynnwys glanhau arwynebau a gyffyrddir yn aml gyda cynhyrchion safonol, megis glanedydd a channydd.**<br><br>**Dylai ysgolion a lleoliadau ddilyn y canllawiau diweddaraf ar lanhau mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd. Mae pwyntiau i'w hystyried a'u gweithredu yn cynnwys rhoi amserlen lanhau ar waith sy'n sicrhau gwella glanhau yn gyffredinol, fel a ganlyn:**<br>**• glanhau ystafelloedd/mannau a rennir yn fwy aml ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan wahanol grwpiau, neu lanhau'n fwy aml nag arfer arwynebau a gyffyrddir yn aml.**<br>**• lle bo'n bosibl, mae angen darparu toiledau ar wahân ar gyfer gwahanol grwpiau cyswllt. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd defnyddio diheintydd dwylo cyn mynd i mewn i'r toiled a sicrhau bod y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd yn helpu. Rhaid annog dysgwyr i** | | | | • Costau cysylltiedig oherwydd ymateb i asesiad risg. | |
| Arweiniad a Dogfennau | Adolygu Polisïau Allweddol | • Arfarnu'r polisïau cyfredol i sicrhau y byddant yn gwrthsefyll craffu dan y gofynion presennol. | 3 | 3 | 9 | • Gosod strwythur adolygu polisi i sicrhau craffu a chymeradwyaeth gan y Corff Llywodraethu. | | | | • Cysylltu ag ALl i rannu arferion da a chydymffurfiad. | |

## COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arweiniad a Dogfennau | Creu canllawiau ysgol newydd | • Mae'r arferion gwaith presennol wedi esblygu yn ystod cyfnod ail bwrpasu ysgolion.<br>• Dylai ysgolion ystyried gosod arweiniad newydd ar gyfer y cyfnod ail ymgysylltu nesaf hwn. | 3 | 3 | 9 | • Datblygu set o ddisgwyliadau ac egwyddorion canllaw i'r holl randdeiliaid. **Bydd yn bwysig bod ysgolion yn gwella'r awyru mewn ystafelloedd dosbarth (er enghraifft, drwy agor ffenestri lle bo'n ddiogel gwneud hynny.) Mae awyru da yn hanfodol bob amser. Dylai ysgolion sicrhau bod pob system yn gweithio yn eu dull gweithredu arferol. Dylid defnyddio awyru naturiol trwy agor ffenestri neu awyrellau cyn belled ag y bo modd. Lle bo awyru canolog neu fecanyddol, dylid addasu systemau ailgylchiadol i awyr iach llawn. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithredu systemau fel arfer. Os oes gan unedau awyru hidlyddion, sicrhewch ofal priodol wrth newid hidlyddion.** | | | | • Gwirio efo Adnoddau Dynol bod unrhyw arweiniad diwygiedig yn cydymffurfio â chytundebau efo Undebau a Chymdeithas.<br>• Gall ysgolion fod eisiau ystyried datblygu llawlyfr (copi caled ac/neu ar-lein) i gyfeirio ato ar gyfer y trefniadau gweithredu newydd. | |
| Arweiniad a Dogfennau | Larwm Tân/Gadael mewn achos o dân | • Mae'n bosib nad oes unrhyw ymarferion tân, profion larwm ac ati wedi cael eu cynnal yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.<br>• Efallai na fyddai mesurau arferol ysgol yn briodol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cadw pellter cymdeithasol a newidiadau posibl i goridorau/llwybrau allan o adeilad yr ysgol. | 3 | 4 | 12 | • Adolygu Asesiad Risg Tân.<br>• Profion larwm tân wythnosol, yn ôl yr arfer.<br>• Gohirio ymarferion gwagio'r adeilad mewn achos o dân (adolygu'r sefyllfa pob 6 wythnos).<br>• Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol.<br>• Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân. | | | | | |
| Parhad Dysgu | Adolygu dull dysgu o bell i gynnwys mwy o ddysgwyr yn cael cyswllt â'r ysgol. | • Mae llawer o ysgolion yn gweithredu efo tua 2% o boblogaeth yr ysgol.<br>• Bydd unrhyw ail ymgysylltu yn effeithio'n sylweddol ar y trefniadau hyn. | 4 | 3 | 12 | • Yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd a modelu disgwyliadau, awgrymir y gallai ail ymgysylltu cychwynnol fod rhwng 15% a 40%. | | | | • Dylai trefniadau gweithredu edrych ar effaith ymarferol ail ymgysylltu gan ddechrau ar 15% yn wreiddiol a chodi fesul 10%. | |
| Parhad Dysgu | Diwrnod cyflwyno staff i'r prosesau newydd | • Yn rhan o'r rhaglen gynllunio, dylai ysgolion geisio cael rhaglenni datblygiad proffesiynol yn seiliedig ar y gweithdrefnau newydd. | 3 | 3 | 9 | • Gall ysgolion ddymuno ystyried graddoli yr hyfforddiant hwn i sicrhau canllawiau cadw pellter cymdeithasol priodol. | | | | • Rhaglen raddol yn cynnwys hyfforddiant ac arweiniad ar yr arferion, y trefniadau a'r polisïau gweithredu newydd, ac amser i staff baratoi'n bersonol.<br>• Dylid hefyd rhoi amser i addasu eu dosbarthiadau yn unol â'r trefniadau gweithredu newydd. **Gweler polisi a chanllawiau arfer GwE ar Ddysgu Cyfunol** | |

Tudalen 154

Tudalen 155

| COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
| Parhad Dysgu | Rhaglen Gyflwyno i Ddysgwyr | • Bydd dysgwyr wedi cael llu o emosiynau a phrofiadau ers 23 Mawrth, 2020.<br>• Caiff hyn gryn effaith ar y ddarpariaeth fugeiliol mewn ysgol. | 4 | 4 | 16 | • Dylid ystyried rhaglen gyflwyno sy'n gadael i ddysgwyr edrych ar eu teimladau a'u hemosiynau, ac yn eu cyfeirio at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn yr ysgol. | | | | • Dylai gwasanaethau cymorth a lles yr ALl gysylltu ag ysgolion i helpu efo arweiniad yn gysylltiedig â 'thrawma' a, ble bo'n briodol, gwasanaethau profedigaeth.<br>• Dylid gwneud yn glir i bawb yn y gymuned bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn dal wedi'i atal ac nad oes disgwyl i ysgolion fod yn cyflwyno cwricwlwm tebyg i strwythur a chynnwys yr hyn a gafwyd cyn 23 Mawrth, 2020 hyd nes byd y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i adfer unwaith eto.<br>• Ble bydd grwpiau blwyddyn yn dychwelyd i'r ysgol, dylai arweinwyr ysgol ystyried:<br>- iechyd meddwl a lles dysgwyr, ac adnabod unrhyw ddysgwr allai fod angen cymorth ychwanegol er mwyn bod yn barod i ddysgu;<br>- asesu ble mae dysgwyr arni yn eu dysgu, a chytuno pa addasiadau sydd angen eu gwneud i gwricwlwm yr ysgol dros yr wythnosau nesaf;<br>- adnabod a chynllunio sut oriau i gefnogi addysgu grwpiau anghenion uchel, gan gynnwys dysgwyr difreintiedig, dysgwyr AAA ac Anawsterau a dysgwyr bregus.<br>- cefnogi dysgwyr Blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd i gydweithio â chydweithwyr uwchradd i'w cynnal wrth iddynt drosglwyddo i Flwyddyn 7.<br>• Dylai ysgolion wneud eu gorau i gefnogi dysgwyr sy'n mynd i'r ysgol yn ogystal â'r rheiny sy'n aros adref, gan ddefnyddio cymorth dysgu o bell. | |
| Parhad Dysgu | Adolygu'r Cynnig Cwricwlwm | • Mae'n annhebygol y gellid ailadrodd y cynnig cwricwlwm safonol a gafodd disgyblion yn Nhymor yr Hydref (2019) dan y cyfyngiadau diwygiedig. | 3 | 3 | 9 | Dylai ysgolion ystyried ailstrwythuro eu cynnig cwricwlwm naill ai ar sail cynnig craidd, craidd + cynnig neu gynnig prosiect. | | | | • Rhannwyd arweiniad ar ail gynllunio'r cwricwlwm ar draws y rhanbarth yn yr hyfforddiant cynllunio cwricwlwm gan Ian Gerrard. | |
| Sicrhau Disgwyliadau | Dim cydymffurfio â rheolau | • Rheolau'r safle yn cael eu rhannu â holl weithwyr ysgol, dysgwyr, rhieni/gofalwyr drwy drafodaethau anffurfiol, llythyrau, e-bost ac ati.<br>• Staff yn monitro rheolau'r safle fel y bo angen. | 2 | 4 | 8 | • Pawb i fod yn ymwybodol o reolau'r safle boed yn weithwyr, dysgwyr, rhieni/gofalwyr.<br>• Arwyddion i atgyfnerthu rheolau'r safle ac arweiniad Covid-19.<br>• Pennaeth/Athrawon dynodedig yn monitro a gweithredu rheolau'r safle a gofynion cadw pellter cymdeithasol.<br>• Cymerir camau disgyblu yn erbyn unigolion sydd yn methu dro ar ôl tro i ddilyn unrhyw reolau safle/ALl. | | | | | |
| Sicrhau Disgwyliadau | Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr | •Cydnabyddir bod cynnal perthynas effeithiol a chadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref yn greiddiol ac, yn rhan o hyn, mae ysgolion wrthi'n defnyddio ystod o ddulliau ar gyfer cyfathrebu efo rhieni/gofalwyr i gynnwys galwadau ffôn, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost, testun, defnyddio Hwb a thynnu partneriaid i mewn i gefnogi teuluoedd efo adnoddau.<br>• Gall negeseuon ar newyddion cenedlaethol a Chymru arwain ar beth dryswch o ran y goblygiadau i'w hardal leol nhw. | 3 | 4 | 12 | • Rhesymeg a phwrpas pendant dros ysgolion yn ail agor yn helpu rhoi tryloywder a gwybodaeth i rieni/gofalwyr ar ba ddysgwyr sy'n cael blaenoriaeth a pham.<br>• Ysgolion yn cael eu cefnogi efo modelau/templedi o'r hyn i'w gynnwys mewn gohebiaeth i rieni/gofalwyr i egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau a fydd ganddyn nhw, y dysgwyr, a'r ysgol yn y cyfnod nesaf hwn wrth ddychwelyd i'r ysgol. .<br>• Rhannu esboniadau a modelau o'r diwrnod ysgol, yn ogystal â dealltwriaeth o ofynion cadw pellter cymdeithasol o fewn adeilad yr ysgol. | | | | • Dylai ysgolion a lleoliadau ddarparu dulliau cyfathrebu clir er mwyn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall disgwyliadau. Gallai hyn gynnwys:<br>• Rhybudd ymlaen llaw gan rieni ynghylch a fyddant yn anfon eu plant.<br>• Cynghorwch y rhieni i ddatgan nad yw eu plant wedi dangos symptomau Covid-19.<br>• Eglurder o ran trefniadau trafnidiaeth i ac o safle'r ysgol, bydd hyn hefyd yn cynnwys gollwng a chasglu.<br>• Amseru diwrnod ysgol – yn enwedig os yw'r ysgol yn amseroedd cychwyn syfrdanol.<br>• Mynedfeydd ac allanfeydd ysgol – gall hyn fod yn wahanol i drefniadau "arferol".<br>• Trefniadau bwyta a pholisi hylendid.<br>• Gweithdrefnau os yw plentyn yn mynd yn sâl yn ystod amser yn yr ysgol.<br>• Trefniadau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr drwy gydol y diwrnod ysgol.<br>• Protocolau clir ar gyfer plant iach sy'n dychwelyd i'r ysgol yn unig, yn deall beth sy'n digwydd yn ystod y dydd os bydd plentyn yn troi'n sâl.<br>• Ysgolion i ystyried y dull o gefnogi teuluoedd cyfan gyda mwy nag un plentyn yn dychwelyd ar yr un pryd.<br>• Ysgolion i ystyried sut y gall rhieni roi adborth i ysgolion-holiadur ar farnau am ddychwelyd, adborth ar ddysgu o bell a chymorth sydd ei angen ar blant. **Mae strategaeth gyfathrebu glir yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau addysgol a gofal plant, o gofio faint o sylw y mae'r math hwn o ddigwyddiad yn debygol o'i gael gan y cyfryngau. Mae'n hanfodol felly cynnwys cyd-weithwyr o dimau cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau partner yn gynnar.** | |
| | | | | | | | | | | | |

| COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol | Cyfrifoldeb |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |

Tudalen 156

| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| --- |
| |
| |
| |
| |

Tudalen 157

| |
|---|
| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| |
| |

Tudalen 159

| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| --- |
| |
| |
| |

Tudalen 160

| |
|---|
| |
| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

| |
|---|
| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| |
| |
| |

| |
|---|
| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| |
| |
| |

Tudalen 162

| |
|---|
| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| |
| |
| |
| |

Tudalen 163

| |
|---|
| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| |
| |
| |
| |
| |

Tudalen 164

| |
|---|
| |
| A ydych yn fodlon bod y risgiau a nodwyd wedi cael sylw? |
| |
| |
| |
| |

Tudalen 165

**Adnoddau ar gael i ysgolion fel rhan o ddeunyddiau cefnogi Sgiliau Carlam.**

**Adnodd 1: Enghreifftiau o Ddilyniannau Dysgu**

Dilyniannau dysgu estynedig yw'r **model Sgiliau Carlam** sydd â'r nod o helpu athrawon i ganolbwyntio ar y sgiliau llythrennedd a rhifedd ar eu pennau eu hunain er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol mi gyrchu'r cwricwlwm cyfan ar y lefel briodol. Maent yn cynnwys sgiliau llythrennedd unigol megis llafaredd, darllen lefel uwch, ysgrifennu/gramadeg/sillafu, adeiladu geirfa; ac arian, lluosi, amser ac iaith fathemategol, etc, mewn rhifedd. Fe'u bwriadwyd i gefnogi dysgwyr i gyrchu gweddill eu dysgu.

Mae pob model yn seiliedig ar y dilyniant addysgu a argymhellir gan yr 'Education Endowment Foundation' o ran agwedd hyblyg at addysgu a strategaethau ysgol-gyfan, cefnogaeth wedi'i dargedu i gyflymu dysgu a strategaethau ehangach (gan gynnwys cefnogi rhieni a gofalwyr). Mae modd eu haddasu i'w defnyddio yn y cartref neu'r ysgol, i allu ac oedran y dysgwyr, ac i weithredu fel model i athrawon ddatblygu mwy ar eu modelau eu hunain.

Cynlluniwyd y gweithgareddau i ymgorffori 'r FfCD ac i fod yn seiliedig ar gwricwlwm ehangach a dysgu yn yr awyr agored, lle bo hynny'n briodol, i symbylu a pharhau i adeiladu lles, annibyniaeth a hyder y dysgwr.

Mae pob model yn cynnwys briffiad wedi'i drosleisio i athrawon a chyfres o fideos byrion i rieni i'w helpu i gefnogi eu plant gartref, petai'r ysgolion yn dewis eu rhannu.

Fe'u cynhyrchwyd yn y ddwy iaith gyda chyd-destunau a deunyddiau darllen wedi eu dethol i adlewyrchu diwylliant a naws y naill iaith a'r llall yn y ffordd orau.

**Adnodd 2-5: Adolygiadau tystiolaeth**

Mae'r pedwar adolygiad hwn yn grynodeb o'r dystiolaeth gyfredol am ystod o raglenni ac ymyriadau a ddefnyddir yn gyffredin. Am bob rhaglen, mae ystod o wybodaeth ymarferol a buddiol i arweinwyr ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am effeithiolrwydd, cost, gofynion hyfforddi a chysylltiadau a'r cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| **2** | Adolygiad o dystiolaeth rhaglenni llythrennedd |
| **3** | Adolygiad o dystiolaeth rhaglenni rhifedd |
| **4** | Adolygiad o dystiolaeth rhaglenni ymddygiad a llesiant |
| **5** | Adolygiad o dystiolaeth rhaglenni ar-lein (llythrennedd a rhifedd) |

**Adnodd 6: Pecynnau addysgu ac adeiladu rhugled**

Mae'r pecynnau hyn yn adeiladu ar ystod o strategaethau ac adnoddau sy'n bod eisoes ac sydd ar gael i ysgolion trwy brosiectau a gyflwynwyd gan GwE a'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (SCYATE), Prifysgol Bangor. Maent yn canolbwyntio ar ddefnyddio strategaethau addysgu ac adeiladu rhuglder seiliedig ar dystiolaeth i helpu darllen a darllen rhugl disgyblion, sgiliau deall a geirfa, a sgiliau rhifedd sylfaenol a rhuglder rhifedd

Gwelwyd bod i'r strategaethau sylfaen gref o ymchwil damcaniaethol, ynghyd â thystiolaeth gadarnhaol o dreialon effeithiolrwydd. Maent oll yn gymharol syml i'w defnyddio ar raddfa heb fod angen HMS hirfaith. Maent hefyd yn addas i rieni eu defnyddio.

| | |
|---|---|
| **6a** | Cadw Disgyblion yn Darllen! (HEADSPROUTS, FP-CA2) |
| **6b** | Strategaethau Darllen Ailadroddus a Rhuglder Geiriau Amlder Uchel (CA2-3 ar hyn o bryd yn cael ei ddiwygio ar gyfer y Gymraeg, a thestunau unswydd Cymraeg yn cael eu hysgrifennu) |
| **6c** | Strategaeth rhifedd SAFMEDS (prosiect cefnogi rhieni CA2) |
| **6d** | Strategaeth rhifedd SAFMEDS rhifedd /Ap Quizizz (CA2-3) |
| **6e** | Cyfarwyddiadau o bell ar gyfer Llythrennedd ac Iaith (RILL - ar hyn o bryd yn cael ei ddiwygio ar gyfer y Gymraeg, a thestunau unswydd Cymraeg yn cael eu hysgrifennu) |

**Adnodd 7: Cynnig Llythrennedd Uwchradd**

Yn y sector uwchradd mae'n hanfodol ein bod yn datblygu mwy ar sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm fel bod dysgwyr yn gallu datgloi dysgu a chaffael gwybodaeth. Mae'r her o wella sgiliau llythrennedd yn flaenoriaeth arbennig i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.
Pecyn Offer Llythrennedd digidol yw'r pecyn cyntaf a gynigir i ysgolion. Mae'r pecyn yn gwneud pedwar argymhelliad allweddol ar sail ymchwil yr EEF, a chefnogir pob argymhelliad gan enghreifftiau ymarferol y gall athrawon yn yr ystafell ddosbarth eu haddasu er mwyn cefnogi a chyfoethogi sgiliau llythrennedd eu dysgwyr. Mae pecyn o ddysgwyr proffesiynol, eto yn agored i'r holl athrawon dosbarth ar draws y rhanbarth, yn mynd gyda'r adnodd.
Mae'r ail becyn sydd ar gael i ysgolion yn canolbwyntio ar yr ymyriad llythrennedd sydd yn hanfodol i bob dysgwr a nodwyd ar draws pob ystod gallu. Datblygwyd rhaglen o ymyriad llythrennedd rhyngweithiol, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac y mae ar gael i ysgolion i'w ddefnyddio. Gellir defnyddio'r rhaglen yn yr ysgol neu yn y cartref am ein bod yn cydnabod mor bwysig yw cefnogaeth rhieni i gyflymu dysgu. Mae ymyriad effeithiol hefyd yn adnabod dysgwyr yn gynnar; yn defnyddio asesu i dargedu angen ac adolygu'r effaith yn rheolaidd, ac y mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi ysgolion i wneud hyn. Hefyd, datblygwyd pecyn dysgu proffesiynol cynhwysfawr i athrawon neu gymorthyddion dysgu er mwyn cefnogi ysgolion i sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithiol.

**Adnodd 8: Pecynnau rhifedd uwchradd**

*Pecyn yw'r adnoddau hyn fydd yn galluogi ein cydweithwyr yn y sector uwchradd i gefnogi'r ymgyrch rhifedd yn yr ysgol. Mae'r adnoddau sydd ynddo yn addas i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth (gan gynnwys cysylltiadau trawsgwricwlaidd), i ddysgwyr sy'n gweithio i ffwrdd o'r ysgol ac i rieni er mwyn cefnogi'r dysgwyr. Lle bo modd, seilir yr adnoddau ar dystiolaeth ac y maent yn cynnwys ystod o adnoddau dysgu y mae modd eu defnyddio ar gyfer anghenion dysgwyr gwahanol fel sy'n briodol*
.

| | | |
|---|---|---|
| **8a i** | Deunyddiau cefnogi cyffredinol<br>Trefnu'r cwricwlwm rhifedd i flynyddoedd 7-9 i flaenoriaethu agweddau o'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cyfuno pynciau y gellir eu dysgu gyda'i gilydd i greu'r isod:<br>• Cysylltiadau rhwng y fframwaith presennol a'r cwricwlwm newydd.<br>• Pynciau wedi eu trefnu yn ysgolion cynnydd i ddarparu adnoddau i bob ystod o allu ar CA3.<br>• Cysylltu pynciau a'r prosiectau eraill – SAFMEDS ac iSTer lle bo hynny'n briodol. | **CA3** |

| | | |
|---|---|---|
| **8a ii** | Deunyddiau cefnogi cyffredinol<br>Deunyddiau i gefnogi athrawon i gyfarwyddo dysgwyr gyda dysgu annibynnol ac o bell. Mae'r adnoddau yn cynnwys pecyn cymorth sy'n addas i ddysgwyr, dysgwyr gyda chefnogaeth rhieni, dysgwyr gyda chefnogaeth heb fod yn arbenigol, dysgwyr dan gyfarwyddyd athrawon.<br>Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys y canlynol:<br>• Cwestiynau diagnostaidd– i'w cwblhau ar ddechrau a diwedd y gyfres o gyfleoedd dysgu.<br>• Gwersi y gellir eu dilyn, gan gynnwys clipiau fideo ac enghreifftiau i gefnogi.<br>• Tasgau i'w cwblhau a'u hunan-farcio fel y gall dysgwyr asesu eu datblygiad eu hunain. | **CA3** |
| **8a iii** | Deunyddiau cefnogi cyffredinol<br>• Deunyddiau a gefnogir o wefan Maths.Cymru fel y gall yr holl athrawon, dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid eu cyrchu.<br>• Hyrwyddo brand 'Maths.Cymru' fel siop un-stop i ddeunyddiau cefnogi.<br>• Meysydd penodol wedi eu targedu am CA3 yn y wefan (gydag ardal i CA4 y bydd angen i ddysgwyr ei chyrchu wrth iddynt symud i fyny trwy'r ysgol).<br>• Rhyddhau deunyddiau dros y ddau dymor nesaf gyda gwahanol grwpiau o randdeiliaid. | **CA3-CA4** |
| | Pecyn cefnogi wedi'i dargedu i gynnwys<br>• Adnoddau i gefnogi'r gweithlu, i gefnogi dysgu wedi ei bersonoleiddio, deunyddiau cefnogi ychwanegol ac i gefnogi rôl rhieni yn y dysgu. | **CA3** |
| **8b i** | Deunyddiau cefnogi wedi'u targedu<br>• Hyrwyddo a datblygu pecyn y gall uwch-arweinwyr mewn ysgolion ei ddefnyddio i ddatblygu'r gweithlu er mwyn cyflymu'r dysgu i bawb. | **CA3** |
| **8b Ii** | Deunyddiau cefnogi wedi'u targedu<br>• Datblygu pecyn dysgu proffesiynol i gefnogi dysgwyr uwch i ddatblygu'r profiadau dysgu wedi'u personoleiddio er mwyn cyflymu'r dysgu i bawb. | **CA3** |
| **8b iii** | Deunyddiau cefnogi wedi'u targedu<br>• Datblygu pecyn dysgu proffesiynol i gefnogi Cydlynwyr UDRh/CAAY/ Rhifedd i ddatblygu'r gweithlu yn yr ysgol i fuddsoddi ymhellach mewn ymyriad rhifedd grwpiau bychain. | **CA3** |
| **8b iv** | Deunyddiau cefnogi wedi'u targedu<br>Datblygu ystod o adnoddau a all gefnogi'r sesiynau y gall ysgolion eu dewis i'w cyflwyno i'r gymuned ehangach er mwyn cryfhau cysylltiadau gyda rhieni a'r gymuned ehangach er mwyn cefnogi datblygiad rhifedd | **CA3** |

| | | |
|---|---|---|
| **8c** | Datblygiad iSTeR<br>Strategaethau adalw fesul tipyn i fathemateg (CA3-4) a ddatblygwyd ochr yn ochr â Phrifysgol Bangor i roi cefnogaeth bellach i ddatblygu pynciau a ystyriwyd yn 8a ac 8b. | **CA 3** |
| **8d** | Datblygiad SAFMEDS<br>Deunyddiau a ddatblygwyd fel cydweithrediad rhwng Prifysgol Bangor a chydweithwyr CA2 a CA3.<br>Cysylltiedig â datblygu pynciau a ystyriwyd yn 8a ac 8b lle bo hynny'n briodol. | CA3 |

# Cynnig Proffesiynol 2020-2021













# CYNNWYS


CYNNIG PROFFESIYNOL 03

LLES 04

Y DAITH DDIWYGIO 11

CWRICWLWM I GYMRU 12

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) 16

Y GYMRAEG 20

DATBLYGU'R GWEITHLU 21

CYNORTHWYWYR DYSGU 22

ARWEINYDDIAETH 24

CYFNOD SYLFAEN, LLYTHRENNEDD & RHIFEDD, PYNCIAU 27

CYFLYMU'R DYSGU 33

DIGIDOL 39

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn ddyrys sydd wedi amlygu pa mor anhygoel o hyblyg yr ydych chi fel penaethiaid ac ysgolion yn gallu bod wrth ymateb i'r holl heriau mae COVID-19 wedi ei daflu atoch chi. Yn dilyn trafod gyda sawl un ohonoch, bydd cynnig GwE yn adlewyrchu'r hyblygrwydd yna gan fod ar gael i chi ar amser sydd yn gyfleus ac yn amserol i chi.

Byddwn yn trafod efo chi yn eich dalgylchoedd er mwyn adnabod yr agweddau sydd wedi eu blaenoriaethu ac yna, hyd eithaf gallu'r gwasanaeth, yn mynd ati i ymateb i'r anghenion yma mewn dull hyblyg sydd yn eich gweddu chi fel ysgolion.

Mae'r cynnig eleni wedi ei grynhoi o dan 5 prif bennawd sef:

- **LLES**
- **Y DAITH DDIWYGIO:**
  Cwricwlwm i Gymru
  Anghenion Dysgu Ychwanegol [ADY]
  Y Gymraeg
- **DATBLYGU'R GWEITHLU:**
  Cynorthwywyr Addysgu
  Arweinyddiaeth
  Cyfnod Sylfaen, Llythrennedd a Rhifedd, Pynciau
- **CYFLYMU'R DYSGU**
- **DIGIDOL**

Mae'r hyn sydd i ddilyn yn rhoi syniad lefel uchel i chi o'r Dysgu Proffesiynol sydd yn cael ei gynnig gan GwE yn ystod y flwyddyn academaidd yma. Nid yw'n rhestr derfynol ond mae'n rhoi blas i chi er mwyn eich cynorthwyo i adnabod y Dysgu Proffesiynol fydd angen ar eich ysgolion a'r staff i'r dyfodol agos.

Byddwn yn gweithio efo chi fel ysgolion er mwyn adnabod yr amseriad gorau er mwyn cyflwyno'r Dysgu Proffesiynol, ac o'r herwydd nid oes amseroedd na dyddiadau wedi eu cynnwys yn y cynnig lefel uchel yma.

Bydd GwE yn gweithio yn agos efo chi fel ysgolion yn ogystal er mwyn parhau i ddyfnhau'r gwaith Cymheiriol sydd eisoes wedi sefydlu ac i adnabod agweddau y byddech chi fel ysgolion yn gallu cynnig i ysgolion eraill er mwyn datblygu agweddau penodol o Ddysgu Proffesiynol.



# LLES



## Delio gydag anawsterau ymlyniad a thrawma mewn Lleoliadau Addysg

**Enw'r Darparwr: Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma - Dr Coral Harper**

**Disgrifiad Cryno:**

- Mae'n addas ar gyfer pob aelod o staff yr ysgol, ond yn targedu Athrawon Dynodedig PMG / Pennaeth Gofal Bugeiliol / Lles / Cydlynwyr ADY
- 3 awr CDP ar-lein a ddarperir mewn 2 sesiwn 90 munud yr un
- Darparu rhagarweiniad i Drawma Datblygiadol ac Ymlyniad drwy ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan ganol bwyntio ar feithrin dull ysgol gyfan o weithredu
- Cefnogi pob mynychwr i adnabod strategaethau o ran addysgu a dysgu er mwyn helpu dysgwyr yn eu hysgolion

## Bioffilia: Gwyddoniaeth Natur ac Anifeiliaid: Pam fod treulio amser yn yr awyr agored yn ein gwneud yn hapusach, yn iachach ac yn fwy abl i ddysgu

**Enw'r Darparwr: Dr Coral Harper, Ymgynghorydd Addysg ac Iechyd Meddwl Annibynnol**

**Disgrifiad Cryno:**

Bydd y CDP ar-lein hwn yn dair awr (neu 2 x 90 munud), a bydd yn cefnogi'r ysgol i ddatblygu dealltwriaeth o Fioffilia gyda golwg ar hunan-reoleiddio ym Myd Natur

- Deall yr effaith gemegol fuddiol a gaiff Diddordeb Caled a Meddal ym Myd Natur (ar yr ymennydd)
- Ymgorffori dysgu mewn ymarfer – Gweithgareddau i gefnogi lles emosiynol yn yr awyr agored
- Asesiad Risg/Budd

## Datblygu Parthau Hunan-Reoleiddio mewn lleoliadau cynradd

**Enwau'r Darparwyr: Dr Janet Rose / Nia Thomas – GwE**

**Disgrifiad Cryno:**

- Mae'r gweithdy hwn wedi'i gynllunio i fynd law yn llaw â'r gweithdy Hyfforddiant Emosiwn a chaiff ei gyflwyno yn Saesneg gydag adnoddau dwyieithog
- Bydd y gweithdy'n canolbwyntio'n benodol ar strategaethau sy'n galluogi plant i feithrin sgiliau mwy effeithiol wrth reoleiddio eu teimladau a'u hymddygiad er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar eu gwaith ysgol. Bydd y gweithdy'n cynnig nifer o wahanol strategaethau i gyfranogwyr y bydd modd iddynt eu rhoi ar waith yn rhwydd yn yr ystafell ddosbarth
- Mae strategaethau hyn yn helpu plant ddysgu sut i reoleiddio'r system sy'n ymateb i straen, eu teimladau a'u hymddygiad, ac yn helpu i feithrin llythrennedd emosiynol

## Cefnogi Addysg ar gyfer Plant sydd Mewn Gofal ar draws y rhanbarth

**Enw'r Darparwr: Sharon Williams, GwE**

**Disgrifiad Cryno:**

- Gellir cyflwyno'r sesiwn 45 munud yn y Gymraeg / Saesneg ac mae'n addas ar gyfer pob aelod staff sy'n cefnogi plant sydd mewn gofal – ond gan ganolbwyntio'n bennaf ar ANG / Arweinydd Dynodedig
- Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar – Beth mae'n ei olygu i fod 'mewn gofal'? / Rôl yr ysgol a'r ALl wrth gefnogi disgyblion PMG
- Dyrchafu dyheadau plant sydd mewn gofal ac ystyried effaith trawma yn ystod plentyndod cynnar ac anawsterau ymlyniad mewn addysg, a chefnogaeth gyffredinol i weithredu
- Cefnogaeth, prosesau a gweithdrefnau e.e. Cynlluniau Addysg Personol

## Datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â Lles

**Enw'r Darparwr: Sharon Williams, GwE**

**Disgrifiad Cryno:**

- Gellir cyflwyno'r sesiwn 60 munud yn y Gymraeg / Saesneg ac mae'n addas ar gyfer unrhyw leoliad
- Bydd y sesiwn yn canolbwyntio ar Les cyffredinol ac yn cyfeirio at ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth / strategaethau cenedlaethol parthed y dull ysgol gyfan o weithredu
- Bydd yn canolbwyntio ar yr ystyriaethau a'r arferion / egwyddorion allweddol i ysgolion a fydd yn fuddiol i bob dysgwr
- Caiff gwybodaeth ei rhannu hefyd am y gronfa ddata o dystiolaeth Dysgu Carlam Lles a cheir cyfeiriadau at ganllawiau pellach

## Y Ffordd Iawn – Dull o weithredu Iawnderau plant yng Nghymru

**Enwau'r Darparwyr: Comisiynydd Plant Cymru / GwE**

**Disgrifiad Cryno:**

- Mae'r gweithdy'n addas ar gyfer pob lleoliad a gellir ei gyflwyno yn y Gymraeg / Saesneg – bydd y sesiynau yn para rhwng 60 a 90 munud
- Ffocws y gweithdy fydd cyflwyno Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a sut y gellir eu rhoi ar waith yn yr ysgol o safbwynt y 4 diben oddi mewn i CiG, a llais y dysgwr yn ogystal
- Bydd y gweithdy hefyd yn rhoi statws 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' i chi fel bod modd rhaeadru ar draws eich ysgol / clwstwr

## Y Rhestr Wirio Arsylwi

**Enw'r Darparwr: Helen Worrall, Ymgynghorydd Addysg / Awdur**

**Disgrifiad Cryno:**

- Bydd y cyfranogwyr, drwy gyfrwng crynodeb o'r Ddamcaniaeth Ymlyniad, yn gallu deall sut y mae profiadau plentyndod cynnar, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag esgeulustod, trawma a cholled, yn effeithio mewn modd negyddol ar y gallu i ffurfio perthynas gadarnhaol ag eraill, a sut y mae hyn yn amharu ar eu lles, eu hymddygiad a'u hanghenion o fewn ein hysgolion
- Daw'r cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r amrediad o adnoddau yn y llyfrau 'rhestrau gwirio arsylwi' a sut y bwriedir iddynt gael eu defnyddio
- Daw'r cyfranogwyr i ddeall sut y mae'r Rhestr Wirio Arsylwi ar gyfer pob grŵp oedran wedi'i strwythuro, sut y mae ei chwblhau a sut y gellir ei dehongli i oleuo'r ddealltwriaeth o angen ac i ddylanwadu ar gynllunio
- Bydd y cyfranogwyr yn deall sut y gellir defnyddio'r rhestr wirio fel dull effeithiol o fonitro ac arsylwi newidiadau yn lles emosiynol plentyn neu berson ifanc ac, yn hynny o beth, sut y gellir ei defnyddio fel adnodd sy'n dangos cynnydd ac effeithiolrwydd yr ymyriadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i well dealltwriaeth

## Meddwl yn Wahanol ar gyfer Dysgwyr Difreintiedig

**Enw'r Darparwr:** *Challenging Education*

**Disgrifiad Cryno:**

- Mae'r Rhaglen Dysgu Proffesiynol yn seiliedig ar chwe modiwl hyfforddi a recordiwyd ac a gaiff eu rhyddhau bob hanner tymor drwy gydol y flwyddyn academaidd. Maent ar gael i bob aelod staff (a llywodraethwyr) i'w defnyddio yn ôl yr angen. Maent yn addas ar gyfer pob ysgol / lleoliad
- Caiff pob modiwl hyfforddiant ei rhannu i gyfres o sesiynau fideo byr (i'w gweld ar-lein yn unig) ac, i gyd-fynd â nifer o'r rhain, bydd deunydd darllen a/neu daflenni gwaith myfyriol y gellir eu lawrlwytho. Bydd cyfle hefyd i ymuno â sesiwn adborth fyw
- Caiff lleoliadau fynediad at y modiwlau drwy GwE at 31ain o Awst 2021
- Bydd y ffocws ar gefnogi pobl ifanc fregus a difreintiedig ac yn cynnwys: Sut deimlad yw bod o dan anfantais mewn ysgol; effaith y cwricwlwm; Addasu dulliau addysgu a defnyddio strategaethau metawybyddol mewn ffordd effeithiol; delio â'r anawsterau wrth gyfranogi; Addysgu ymddygiadau dysgu priodol a dysgu sy'n gysylltiedig â gyrfa

## Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd – YGaTh

**Enw'r Darparwr: GwE**

**Disgrifiad Cryno:**

- Mae'r gweithdy'n addas ar gyfer pob lleoliad a gellir ei gyflwyno yn y Gymraeg / Saesneg
- Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar becyn cymorth YGaTh Llywodraeth Cymru. Mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio i roi cymorth ymarferol i ysgolion gyda throsolwg o'r 5 thema allweddol o safbwynt ymgysylltu â rhieni ac â'r gymuned
- Bydd y gweithdy hefyd yn canolbwyntio ar enghreifftiau ymarferol o ysgolion ar draws y rhanbarth yng nghyswllt gwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag ymgysylltiad teuluol a llais y teulu
- Bydd y gweithdy hefyd yn rhannu canllawiau pellach neu'n cyfeirio at arweiniad pellach o ran rhaglenni / darpariaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth

## Sut ydym ni'n mesur lles? – Y sgwrs

**Enw'r Darparwr: : GwE**

**Disgrifiad Cryno:**

- Gellir cyflwyno'r gweithdy 60 munud hwn yn y Gymraeg/Saesneg
- Canolbwynt y gweithdy yw rhoi trosolwg i ysgolion / lleoliadau o'r amrediad cyffredinol o fesurau / dulliau "lles" sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Bydd enghreifftiau ymarferol o'r hyn a ddefnyddiwyd gan ysgolion, a'r effaith a gafwyd, hyd yma. Byddwn hefyd yn cysylltu â'r 6 awdurdod lleol ynghylch cymorth a dargedir i ddysgwyr

## *Bloom* – ar gyfer iechyd meddwl a gwydnwch pobl ifanc

**Enw'r Darparwr: Mental Health UK (Hafal Cymru)**

**Disgrifiad Cryno:**

- Mae *Bloom* yn adnodd di-dâl i ysgolion. Mae'n darparu dulliau a gwybodaeth i ddysgwyr yn CA4/ôl 16 er mwyn iddynt allu cynnal eu hiechyd meddwl a'u lles - https://mentalhealth-uk.org/partnerships/projects/bloom/
- Mae'r hyfforddiant ar-lein ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly hefyd yr adnoddau / cynlluniau gwersi / llyfr gwaith myfyrwyr
- Mae'r rhaglen yn cynnwys 6 pwnc allweddol – Beth yw Gwydnwch? Straen Arholiadau / Gwneud penderfyniadau / Rheoli Astudio / Pwysau cymdeithasol a chyfeillion
- Yn dilyn yr hyfforddiant, mae'n bosib wedyn i ysgolion gael cymorth ymarferol drwy Hafal Cymru wrth gyflawni'r gwaith mewn ysgolion

## Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen Tymor yr Hydref. Ffocws – Iechyd a Lles. Strategaethau effeithiol i gefnogi'r dysgu

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- Ymddygiad Sgematig – Beth yw sgema a sut i gefnogi ymddygiad sgematig? Cyd-fynd â'r camau cynnydd cynnar Cwricwlwm i Gymru
- Adnabod Trawma – ACE's. Astudiaeth Achos yn egluro strategaethau effeithiol i'w defnyddio â'r holl ddisgyblion i ddelio ag achosion o or-bryder a thrawma
- Gwybodaeth am asesiadau ar lein
- Recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE

## Lles ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

**Enw'r darparwr(wyr): Ieuan Jones**

**Disgrifiad bras:**

- Sicrhau bod lles pob dysgwr o'r flaenoriaeth uchaf ym mhob ysgol ledled y rhanbarth
- Sicrhau bod pob dysgwyr yn gwneud y gorau o'u potensial dysgu llawn a dod yn unigolion iach, hyderus sy'n adeiladu eu lles emosiynol trwy ddatblygu hyder
- Sicrhau bod yr athrawon yn deall bod datblygu iechyd a lles corfforol yn arwain at fuddion gydol oes
- Hyrwyddo bod gan bob ysgol amgylchedd iach a diogel sy'n cwmpasu agwedd gyfannol tuag at les a bod pob dysgwr

## Gwreiddio Rhaglen VESPA mewn Ysgolion

**Enw'r Darparwr: Martyn Froggett**

**Disgrifiad Cryno:**

- Hyfforddiant yn parhau i ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen a chyfle i gael hyfforddiant i'r rhai nad ydynt. Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygu Hyrwyddwyr VESPA, darparwyr presennol y rhaglen, a darpar-ddarparwyr

## Gweithdai Lles Penaethiaid

**Enw'r Darparwr: Claire Chidley - arbenigwraig profiadol ac uchel ei pharch yn y maes - fydd yn hwyluso'r gweithdai**

**Disgrifiad Cryno:**

- Gweithdy 'byw' unwaith ac am byth sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o agweddau ar les personol Prifathrawon e.e. gwytnwch, addasu i amgylchedd cyfnewidiol, myfyrio personol ac ati. Cyflwynir y rhaglen yn ystod mis Tachwedd 2020
- Yn dilyn hyn, bydd cyfres o weminarau byr, a fydd yn cael eu recordio, gan ganolbwyntio ar themâu ac agweddau amrywiol ar les a gwytnwch. Yn ogystal â hyn bydd deunyddiau ac ymarferion darllen cyn ac ar ôl y gweithdy i arweinwyr ysgol ymgysylltu â nhw. Gall ysgolion gymryd rhan yn y sesiynau hyn yn hyblyg a'u defnyddio yn eu hysgolion eu hunain os dymunant.
- Bydd ymgysylltu a chefnogaeth cymheiriaid yn allweddol trwy gydol y cynnig gyda chyfleoedd i ymgysylltu â chyfoedion o fewn uwch dimau arweinyddiaeth ysgolion unigol a / neu gydag arweinwyr o ysgolion eraill.
- Bydd cyfle i grwpiau o ysgolion ddod ynghyd i archwilio ymhellach agweddau penodol ar les personol, cyfunol a sefydliadol. Gallai hyn fod yn glystyrau o ysgolion cynradd neu grwpiau o ysgolion uwchradd



# Y DAITH DDIWYGIO



# CWRICWLWM I GYMRU

## Rheoli Newid

**Enw'r darparwr(wyr): Ruth Thackray ac Euros Davies**

**Disgrifiad bras:**

- Sesiwn ymarferol a gafaelgar i gefnogi ysgolion ar arwain a chynllunio newid trwy'r daith ddiwygio.
- Beth yw Rheoli Newid a sut i fynd ati i reoli newid?
- Cyfle i gydweithio efo cyfoedion mewn grwpiau bach er mwyn trafod amrywiol sefyllfaoedd
- Rhennir y Dysgu proffesiynol i ddwy sesiwn o tuag awr a thri chwarter

## Datblygu gweledigaeth a rennir

**Enw'r darparwr(wyr): Ruth Thackray ac Euros Davies**

**Disgrifiad bras:**

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.
- Beth yw eich gweledigaeth bresennol? Oes angen ei addasu/ddiweddaru?
- Sut fyddwch yn sicrhau fod hon yn weledigaeth ar gyfer yr holl gymuned a'ch rhanddeiliaid?
- Sut mae datblygu gweledigaeth gytûn yn ystod cyfnod COVID-19

## Disgwyliadau'r System

**Enw'r darparwr(wyr): Ruth Thackray ac Euros Davies**

**Disgrifiad bras:**

- Trafodaeth a gwneud synnwyr o'r disgwyliadau ar gyfer y daith at Fedi 2022
- Sesiwn anffurfiol gyda digon o amser i holi cwestiynau a mynegi barn
- Buddiol i ysgolion allu mapio'r daith hyd at Fedi 2022
- Adnabod ble mae Cwricwlwm i Gymru yn y daith ddiwygio ehangach

## Dysgu Cyfunol, cyflymu'r dysgu a Chwricwlwm i Gymru

**Enw'r darparwr(wyr): Ruth Thackray ac Euros Davies**

**Disgrifiad bras:**

- Adnabod a pharatoi ar gyfer senarios a heriau sydd yn codi oherwydd COVID-19
- Adnabod esiamplau o sut all y gwaith yma ein helpu i baratoi ar gyfer CiG
- Beth yw'r cysylltiadau rhwng yr agweddau yma?
- Cyfleoedd i adlewyrchu

## Deall Cwricwlwm sy'n cael ei yrru gan y Dibenion

**Enw'r darparwr(wyr): Ruth Thackray ac Euros Davies**

**Disgrifiad bras:**

- datblygu a deall cysyniadau o fewn Cwricwlwm i Gymru a sut i gynllunio i newid cwricwlwm
- Deall y cysyniad y tu ôl i Gwricwlwm sydd yn cael ei yrru gan Ddibenion

## Addysgeg

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm CiG GwE**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfres o sesiynau byr yn edrych ar beth sy'n gwneud Addysgeg effeithiol
- Cyswllt efo'r Ysgolion fel Sefydliadau sy'r Dysgu a'r rhan mae ymchwil yn ei chwarae
- Cyswllt efo'r Safonau Dysgu Proffesiynol

## Creu gofod ac amser i Ddysgu Proffesiynol

**Enw'r darparwr(wyr): Tím CiG GwE**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfle i edrych ar ddysgu proffesiynol effeithiol i'r holl staff a sut mae'n cefnogi'r Daith Ddiwygio
- Trafod dulliau ac enghreifftiau effeithiol o greu gofod ac amser ar gyfer Dysgu Proffesiynol
- Adnabod y DP sydd ar gael ar gyfer y daith ddiwygio a sut i fanteisio arno fel ysgol a dalgylch

## Diweddariad Cwricwlwm Cymru i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

**Enw'r darparwr(wyr): Ieuan Jones**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfle i edrych ar y datblygiadau diweddara o fewn Cwricwlwm Cymru
- Canolbwyntio ar y "Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig", yr "Egwyddorion cynnydd" a'r "Disgrifiadau dysgu"
- Athrawon yn cael cyfle i ddatblygu agweddau o'r cwricwlwm ei hun, gan alluogi ei dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm
- Rhannu arfer gorau o ran yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3

## Sut i ddarparu cwricwlwm holistaidd datblygiadol pwrpasol ac integredig o'r cyfnod sylfaen i waelod CA2

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad Bras:**

- Rhannu syniadau a phrofiadau dysgu
- Sut i gynllunio drwy ddull holistaidd gan ddefnyddio cyd-destun dilys
- Addas ar gyfer aelodau o'r uwch dîm arwain, athrawon a chymorthyddion y CS a blynyddoedd 3 a 4
- Weminar byw ond bydd recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE

## Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad Bras:**

- Sut i gynllunio amgylchedd ddysgu effeithiol
- Sut i ddefnyddio'r ddarpariaeth yn effeithiol i ehangu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion
- Datblygu a deall theorïau sy'n ymwneud â dysgu a datblygiad plentyn sy'n berthnasol i'r gwaith cynllunio
- Addas ar gyfer aelodau o'r uwch dîm arwain, athrawon a chymorthyddion y CS a blynyddoedd 3 a 4
- Weminar byw ond bydd recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE

## Datblygu sgiliau mathemateg a rhifedd dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn yr ardal tu allan

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- Syniadau ynglyn â ffyrdd o ddatblygu sgiliau mathemategol a rhifyddol disgyblion drwy brofiadau dysgu cyfoethog yn yr awyr agored(nifer fawr o'r gweithgareddau yn seiliedig ar 'Y Nadolig' a'r defnydd o adnoddau naturiol a darnau rhydd)
- Gweithgareddau i gefnogi datblygiad personol, cymdeithasol a lles y dysgwyr
- Yn addas ar gyfer athrawon a chymorthyddion Meithrin i Flwyddyn 2
- Weminar byw ond bydd recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE

## Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Saesneg (unwaith bob hanner tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Gaynor Murphy, Anna Lloyd Williams a Louise Usher**

**Disgrifiad Cryno:**

- Datblygu ymhellach safonau addysgu a dysgu
- Datblygu dulliau dysgu cyfunol effeithiol
- Atgyfnerthu ymhellach ansawdd yr arweinyddiaeth
- Creu cyfleoedd i rannu'r arferion gorau ac i ddatblygu dulliau o ymdrin â'r CIG

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

### Gwahaniaethu: Mike Gershon

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol**

**Disgrifiad bras:**

- Fideo 1 - Diffinio Gwahaniaethu a Haenu
- Fideo 2 - Sgaffaldiau, Modelu a'r Cof Gweithredol
- Fideo 3 - Defnyddio Tacsonomi i Wahaniaethu
- Fideo 4 - Adborth a Metawybyddiaeth

### Cyfathrebu cadarnhaol

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol a chyflwynydd hyfforddiant rhithwir ar-lein Nicola S Morgan**

**Disgrifiad bras:**

- Sut i drin sgyrsiau heriol gan ddefnyddio 8 cam a fydd yn eich helpu i deimlo'n fwy parod, cyfathrebu'n hyderus a chadw rheolaeth ar y sefyllfa a chi'ch hun
- Sesiwn 2.5 awr

### Delio gyda sefyllfaoedd anodd yn effeithiol

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol a chyflwynydd hyfforddiant rhithwir ar-lein Nicola S Morgan**

**Disgrifiad bras:**

- Datblygu strategaethau penodol ar gyfer datrys gwrthdaro
- Ymarfer sgiliau cyfathrebu
- Datblygu sgiliau dylanwadu a thrafod i hwyluso penderfyniadau
- Sesiwn 2.5 awr

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru (Eliesha Lefel 1)

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol**

**Disgrifiad bras:**

- Beth yw'r system ADY newydd?
- Nodi anghenion dysgu ychwanegol
- Rolau a chyfrifoldebau allweddol

## Gweithio gyda rhieni

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol a'r cyflwynydd Samantha Garner**

**Disgrifiad bras:**

- Edrych ar yr heriau a wynebir wrth weithio gyda rhieni a sut y gallwn feithrin perthynas effeithiol a chadarnhaol i sicrhau'r deilliannau gorau i blant a phobl ifanc

## Cynhwysiant mewn addysg

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol**

**Disgrifiad bras:**

- Beth yw cynhwysiant a sut i'w hyrwyddo yn ein lleoliad a'n harferion gwaith unigol?

## Proffiliau Un-Dudalen

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol a'r cyflwynydd Ben Rosamond**

**Disgrifiad bras:**

- Beth yw proffil un-dudalen?
- Sut y gallant ein helpu i gefnogi plant a phobl ifanc yn well?

## *Quality First Teaching*

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol a'r cyflwynydd Samantha Garner**

**Disgrifiad bras:**

- "*Quality First Teaching*": Beth yw hyn, a sut y gallwn ei gyflawni?

## Addysgu mewn ffordd amlsynhwyraidd i gefnogi myfyrwyr sydd ag ADY

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol**

**Disgrifiad bras:**

- Pam nad yw pawb ohonom yn dysgu yn yr un ffordd?
- Sut y gallwn gynllunio a gwerthuso ein harferion i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob dysgwr, nid yn unig y rheiny sy'n dysgu sut rydym ni'n addysgu?

## Adolygiadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol a'r cyflwynydd Ben Rosamond**

**Disgrifiad bras:**

- Beth yw Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?
- Sut gall Adolygiadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ein helpu i gefnogi plant a phobl ifanc yn well?

## Meddwl sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn i Bawb

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol a Helen Sanderson Associates**

**Disgrifiad bras:**

- Ychwanegu at eich dealltwriaeth o'r hyn y mae bod yn berson-ganolog yn ei olygu

## Datblygu Deiliannau Effeithiol

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol**

**Disgrifiad bras:**

- Sesiwn 1 - Paratoi (dysgu beth sy'n bwysig, pwy sy'n bwysig a ble mae'n bwysig)
- Sesiwn 2 - Y Dilyniant Canlyniadau (ysgrifennu canlyniadau effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)
- Sesiwn 3 - Y System Gymorth (gwirio datrysiadau a datrys problemau)
- Bydd angen i bob unigolyn gwblhau pob sesiwn (3 sesiwn = 7.5 awr) (Rhith-hyfforddiant ar-lein)

## Y GYMRAEG

### Llythrennedd yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Gymraeg GwE**

**Disgrifiad bras:**

- Rhwydweithiau / clystyrau ar draws y rhanbarth yn cydweithio i greu adnoddau newydd trawsgwricwlaidd
- Cefnogi ac adeiladu ar gynlluniau sydd eisoes yn weithredol ac yn llwyddiannus
- Cynnig arweiniad ar sut i osod y Cwricwlwm Newydd yn ganolbwynt i ddatblygu Llythrennedd ymhellach eto o fewn cynlluniau adrannau unigol neu o fewn Meysydd Dysgu traws-ysgol

### Cynnig cyfleon i athrawon weithio ar brosiectau traws-rhanbarthol/cenedlaethol

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Gymraeg GwE**

**Disgrifiad bras:**


- Prosiectau ar y gweill ar gyfer CA3 a CA4
- Gwahoddiad i athrawon ymuno â phanel y prosiectau
- Bydd cyfeiriad y prosiectau yn cael ei phennu gan banel y prosiectau

### Dulliau Addysgu Dwyieithog

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Gymraeg GwE a Phrifysgol Bangor**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfeirlyfr cyflym i addysgwyr, yn seiliedig ar Ymchwil ryngwladol i ddulliau addysgu dwyieithog, cafodd y gwaith ei arwain gan yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor
- Mae'n cynnwys trosolwg byr o'r llenyddiaeth ryngwladol gan berthnasu'r arferion hynny i'r cyd-destun addysgol yma yng Nghymru
- Cafodd y llyfryn ei gynhyrchu i gyd fynd a Chynhadledd y Gymraeg mewn Addysg a Dwyieithrwydd (Hydref/ Tachwedd 2018) a chaiff ei gefnogi gan fideos YouTube o'r Gynhadledd rhai Cymraeg a thrwy gyfrwng y Saesneg



# DATBLYGU'R GWEITHLU



## CYNORTHWYWYR ADDYSGU

### Hyfforddiant Ymsefydlu i Gynorthwywyr Addysgu Newydd (digidol)

**Enw'r darparwr(wyr): Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu**

**Disgrifiad bras:**

- Deall rôl y cynorthwywyd addysgu a sut i ddatblygu'n broffesiynol
- Deall sut mae polisïau a fframweithiau yn effeithio ar rôl y cynorthwyydd addysgu
- Mynd i'r afael â newidiadau, ac ystyried pa mor berthnasol ydynt yn eu lleoliadau eu hunain

### Hyfforddiant Darpar CALU Cylch 1 (Modiwlau 2, 3 a 4)

**Enw'r darparwr(wyr): Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu**

**Disgrifiad bras:**

- Deall gofynion statws a rôl CALU a pharatoi ar gyfer asesiad CALU
- Dod i ddeall eu heffaith broffesiynol ar ddysgwyr
- Deall sut mae polisïau a fframweithiau yn effeithio ar rôl CALU, mynd i'r afael â'r newidiadau cenedlaethol presennol, ac ystyried pa mor berthnasol ydynt yn eu lleoliadau eu hunain
- Creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg cynorthwywyr addysgu, o fewn ysgolion, a rhwng ysgolion

### Hyfforddiant Darpar CALU Cylch 2 (Modiwl 1 – 4)

**Enw'r darparwr(wyr): Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu**

**Disgrifiad bras:**

- Deall gofynion statws a rôl CALU a pharatoi ar gyfer asesiad CALU
- Dod i ddeall eu heffaith broffesiynol ar ddysgwyr
- Deall sut mae polisïau a fframweithiau yn effeithio ar rôl CALU, mynd i'r afael â'r newidiadau cenedlaethol presennol, ac ystyried pa mor berthnasol ydynt yn eu lleoliadau eu hunain
- Creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg cymorthyddion dysgu, o fewn ysgolion, a rhwng ysgolion

## Cynorthwywyr Addysgu / CALU – Cefnogi a bwrw ymlaen â Rhifedd yn CA2

**Enw'r Darparwr: Manon Davies**

**Disgrifiad Cryno:**

- Strategaethau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth i gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd y dysgwyr
- Cyflwyniad i ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn parhau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc
- Addas ar gyfer Cymorthyddion a CALU ar bob lefel

## Cynorthwywyr Addysgu / CALU – Cefnogi a bwrw ymlaen â Llythrennedd yn CA2

**Enw'r Darparwr:  Vicky Lees**

**Disgrifiad Cryno:**

- Strategaethau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth i gefnogi datblygiad sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu
- Cyflwyniad i ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn parhau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc
- Addas ar gyfer Cymorthyddion a CALU ar bob lefel

# ARWEINYDDIAETH

## Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol

**Darparwyr: Rhaglen genedlaethol a reolir gan y consortia rhanbarthol mewn cydweithrediad â phartneriaid cyflenwi**

**Disgrifiad bras:**

- Mae'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth 1-flwyddyn hon ar gael i bob arweinydd canol ledled Cymru sydd â meysydd cyfrifoldeb a/neu reolaeth llinell staff.
- Rhaglen ddatblygu traws-gyfnod, ymarferol, a gyflwynir trwy fodel dulliau cymysg
- Bydd y rhaglen yn: datblygu sgiliau arwain y cyfranogwyr a chynhwysedd arweinyddiaeth yr ysgol; gwella profiadau ar gyfer disgyblion a chodi safonau
- Cynigir opsiynau o ran achredu, mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor

## Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr

**Darparwyr: Rhaglen genedlaethol a reolir gan y consortia rhanbarthol mewn cydweithrediad â phartneriaid cyflenwi**

**Disgrifiad bras:**

- Mae'r rhaglen ddatblygu 1-flwyddyn hon yn gyfle dysgu proffesiynol ar gyfer uwch arweinwyr ledled Cymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am agwedd ar arweinyddiaeth ar draws sefydliad
- Mae'r rhaglen yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfleoedd e-ddysgu a thechnoleg trwy'r holl gynnwys dysgu, ymchwil a chyfarwyddiadol sydd ar gael yn ddigidol. Dyma fydd y prif fodd o gasglu a chyfnewid gwybodaeth a dysgu
- Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod effeithiol trwy hunanarfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach
- Mae cyflwyno'r rhaglen uwch arweinwyr yn cynnwys mentora, rhwydweithiau cymorth cymheiriaid a Hunan Adolygiad Safonau arweinyddiaeth unigol

## Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP

**Darparwyr: Rhaglen asesu a datblygu genedlaethol, a reolir gan y consortia rhanbarthol ar ran Llywodraeth Cymru**

**Disgrifiad bras:**

- Mae'r rhaglen datblygu 1-flwyddyn hon yn gyfle dysgu proffesiynol cyffroes ar gyfer arweinwyr ysgol profiadol o bob cwr o Gymru sy'n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol agos. Mae cwblhau'r rhaglen hon yn ddisgwyliad ar gyfer pob ymgeisydd CPCP y dyfodol
- Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod o effeithiol trwy hunanwerthuso a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach. Bydd yn sicrhau tegwch o ran mynediad ar gyfer ymarferwyr ledled Cymru, ynghyd â chynnydd yn nifer yr ymgeiswyr o safon uchel am swyddi penaethiaid mewn ysgolion.
- Bydd y rhaglen yn galluogi'r cyfranogwyr i fyfyrio ar eu harfer proffesiynol eu hunain, ac i sicrhau eu bod wedi paratoi'n dda wrth ymgeisio i ymgymryd ag asesiad ffurfiol ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).
- Cynhelir y rhaglen dros gyfnod o flwyddyn, ac mae'n gofyn am ymrwymiad sy'n gyfwerth â phum niwrnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr. Gallai'r rhaglen gael ei darparu trwy fodel dysgu cyfunol.

## Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd eu Penodi a Phenaethiaid Dros Dro

**Darparwyr: Rhaglen genedlaethol a reolir gan y consortia rhanbarthol mewn cydweithrediad â phartneriaid cyflenwi**

**Disgrifiad bras:**

- Mae'r rhaglen dwy-flynedd hon ar gael i bob pennaeth ledled Cymru sydd yn eu swydd barhaol neu swydd dros dro cyntaf
- Mae'r rhaglen yn cynnig: Diwrnodiau Datblygu ym maes Arweinyddiaeth; cefnogaeth gan Hyfforddwyr Arweinyddiaeth a chyfleoedd rhwydweithio
- Mae'n anelu at sefyllfa lle mae Penaethiaid sy'n newydd yn eu rôl yn parhau i ddatblygu ac i elwa o strwythur cefnogi / rhwydweithio gyda chymheiriaid
- Cynigir opsiynau achrediad, mewn partneriaeth â'r Athrofa Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor

## Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol

**Darparwyr: Rhaglen genedlaethol a reolir gan y consortia rhanbarthol mewn cydweithrediad â phartneriaid cyflenwi**

**Disgrifiad bras:**

- Mae'r rhaglen dwy-flynedd hon yn gyfle dysgu proffesiynol i benaethiaid profiadol ac wedi cael ei chreu i alluogi penaethiaid i fyfyrio ar eu perfformiad presennol a phennu'r camau nesaf i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol
- Bydd yn darparu heriau a chefnogaeth bwrpasol i bob cyfranogwr; amser i drafod syniadau, theorïau ac erfynau arweinyddiaeth; a'r cyfle i elwa gan, a helpu eraill i gyflawni'r rôl yn llwyddiannus
- Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth effeithiol iawn trwy hunanarfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach
- Mae cyfle i gael achrediad mewn partneriaeth â Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant (Yr Athrofa) a Phrifysgol Bangor i'r rhai sy'n dymuno dilyn y llwybr hwnnw

## Rhaglen Arweinyddiaeth Ôl-16 – Diwrnod 4

**Enw'r Darparwr: Traws-Gonsortia – Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16**

**Disgrifiad bras:**

- Cwblhau'r cwrs o 2019-20
- Ar gyfer cynrychiolwyr a wnaeth gwblhau rhan gynharaf y rhaglen
- Dwy sesiwn 90-munud ar Dachwedd 25/Rhagfyr 3. Dylai'r cynrychiolwyr fynychu'r ddwy sesiwn

## Rhaglen Cymell a Mentora

**Enw'r Darparwr: Ieuan Jones a Bethan Cartwright**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfres o weithdai ar gyfer y Pennaeth a/neu'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer datblygu eu sgiliau Cymell a Mentora
- Arfogi mynychwyr gyda strategaethau a modelau er mwyn cefnogi gwaith cymell a mentora effeithiol wrth i gymell gael ei wreiddio o fewn y sefydliad.
- Gweithdai rhyngweithiol gyda digon o gyfleoedd i dorri allan i ystafelloedd trafod a chwarae rôl er mwyn datblygu dealltwriaeth

## CYFNOD SYLFAEN, LLYTHRENNEDD & RHIFEDD, PYNCIAU

### Arsylwi yn erbyn y proffil cryno

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- Pwysigrwydd y cylch arsylwi
- Gwneud arsylwadau yn erbyn y proffil cryno a deall sut i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

Recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE

### Ymarferwyr yn hwyluso a chefnogi'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- Cwestiynu effeithiol – gan gynnwys cwestiynau i ddatblygu ymresymu rhifyddol a chwestiynau i annog y disgyblion i fyfyrio ac ymestyn eu hymatebion
- Dull 'Blank' o gwestiynu
- Strategaethau i feithrin dysgwyr annibynnol

Sesiynau i'w trefnu ar gais clwstwr drwy'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant

### Rhwydweithiau Tymhorol y Cyfnod Sylfaen

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- Yn ystod y cyfarfodydd trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol parthed y cyfnod sylfaen yn ogystal â rhannu astudiaeth achos 'arfer dda'
- Dyddiadau i'w rhannu drwy fwletin GwE a thrydar GwE a thrydar GwE cynradd

Weminar byw ond bydd recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE

## Cyfarfodydd rhwydwaith tymhorol llythrennedd a rhifedd

**Enwau'r Darparwyr: Manon Davies a Vicky Lees**

**Disgrifiad bras:**

- Hwyluso rhwydweithiau rhanbarthol a lleol ar gyfer arweinwyr pwnc ym maes Llythrennedd a Rhifedd
- Canolbwyntio'n benodol ar gydweithio a rhannu'r arferion gorau, addysgu Llythrennedd a Rhifedd mewn ffordd effeithiol, archwilio amrediad o dystiolaeth ddibynadwy a dulliau addysgegol i ddatblygu'r cwricwlwm newydd
- Datblygu arweinyddiaeth ddosranedig trwy uwchsgilio a grymuso pob aelod staff sy'n arwain ym maes Llythrennedd/Rhifedd

## Llythrennedd a Rhifedd: Dylunio eich Cwricwlwm yn CA2

**Enwau'r Darparwyr: Manon Davies a Vicky Lees**

**Disgrifiad bras:**

- Rhannu syniadau ar sut i gynllunio'n effeithiol ddatblygiad sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, wrth i chi ddylunio eich cwricwlwm
- Defnydd effeithiol o'r amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored
- Addas ar gyfer yr holl arweinyddion, athrawon a staff ategol

## Fforymau i Athrawon Saesneg (ar agor i bob athro/athrawes, unwaith bob hanner tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Gaynor Murphy, Anna Lloyd Williams a Louise Usher**

**Disgrifiad bras:**

- Datblygu ymhellach safonau addysgu a dysgu – blaenoriaeth pwnc-benodol bob hanner tymor
- Creu cyfleoedd i athrawon rannu a chydweithio
- Creu cyfleoedd i rannu'r arferion gorau

## Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Mathemateg (unwaith y tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Delyth Ellis a Sian Caldwell**

**Disgrifiad bras:**

- Datblygu ymhellach safonau addysgu a dysgu
- Datblygu dulliau dysgu cyfunol effeithiol
- Atgyfnerthu ymhellach ansawdd yr arweinyddiaeth
- Creu cyfleoedd i rannu'r arferion gorau
- Datblygu dulliau o ymdrin â'r CIG

## Fforymau i Athrawon Mathemateg (ar agor i bob athro/athrawes, unwaith y tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Delyth Ellis a Sian Caldwell**

**Disgrifiad bras:**

- Datblygu ymhellach safonau addysgu a dysgu – blaenoriaeth pwnc-benodol bob tymor
- Creu cyfleoedd i athrawon rannu a chydweithio
- Creu cyfleoedd i rannu'r arferion gorau

## Rhwydweithiau Cydlynwyr Rhifedd (unwaith bob hanner tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Delyth Ellis a Sian Caldwell**

**Disgrifiad bras:**

- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Rhifedd ar draws yr ysgol yn seiliedig ar argymhellion allweddol y Sefydliad Gwaddol Addysgol
- Gwella sgiliau'r gweithlu
- Defnyddio cefnogaeth QA er mwyn adnabod yr arferion gorau

## Cyflwyno /ailgynnau Ieithoedd Rhyngwladol yn y cwricwlwm cynradd

**Enwau'r Darparwyr: Dyfodol Byd Eang ac Ieithoedd Tramor Modern GwE/IEITHOEDD RHYNGWLADOL – Cynradd**

**Disgrifiad bras:**

- Rhannu arfer dda: Ysgolion Arweiniol Cynradd GwE
- Ieithoedd Rhyngwladol a Covid
- Adnoddau ymarferol sy'n barod i'w defnyddio
- Cymorth gan y Tîm

## *Power Language*: cyflwyniad a diweddariad

**Enw'r Darparwr: Power Language - Cynradd**

**Disgrifiad bras:**

- Y Gynhadledd Genedlaethol/cyflwyniad gan gyfarwyddwr Power Language: Richard Tallaron
- Trosolwg o'r wefan a'r adnoddau/cynlluniau ar gyfer Dysgu Unigol mewn ysgolion cynradd
- Cyfleoedd am hyfforddiant ac adnoddau a chynlluniau sydd wedi'u teilwra
- Ar gyfer athrawon cynradd nad ydynt yn athrawon arbenigol

## Yr Egwyddor Addysgegol mewn ITM – rhan 1: yr Her

**Enwau'r Darparwyr: Dyfodol Byd Eang Ieithoedd Tramor Modern GwE + Ariane Laumonier (Institut français) – Sector Uwchradd**

**Disgrifiad bras:**

- Anelir at ANG ac athrawon nad ydynt yn athrawon arbenigol, ond hefyd yn fuddiol i gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Newydd.
- Diffinio her a sut i'w chyflawni: y ddamcaniaeth
- Enghreifftiau ac adnoddau ymarferol
- DYDDIAD: WYTHNOS Y 30AIN Tachwedd

## Yr Egwyddor Addysgegol mewn ITM – rhan 1: Adalw

**Enw'r Darparwr: Dyfodol Byd Eang Ieithoedd Tramor Modern GwE – Sector Uwchradd**

**Disgrifiad bras:**

- Ymarferion adalw i fynd i'r afael â'r bwlch yn y wybodaeth oherwydd y cyfnod clo
- Meithrin hyder a hyfedredd y disgyblion
- Arweinwyr Hwb i rannu arferion da
- Trafodaeth ac enghreifftiau ymarferol

## Yr Egwyddor Addysgegol mewn ITM – rhan 3: Y Dull Dysgu Cyfunol (DC)

**Enw'r Darparwr: Dyfodol Byd Eang Ieithoedd Tramor Modern GwE – Sector Uwchradd**

**Disgrifiad bras:**

- Y dull DC ar waith: rhannu arferion da – Arweinwyr Hwb
- DC i fod yn barod am arholiadau: syniadau ac enghreifftiau
- Trafodaeth ac enghreifftiau ymarferol
- Pob athro/athrawes

## Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Gwyddoniaeth

(unwaith y tymor, yn amlach os bydd angen)

**Enwau'r Darparwyr: Nicola Jones, Beverly Humphreys-Jones, Huw Smith**

**Disgrifiad bras:**

- Gwella ansawdd Addysgu a dysgu yn yr hinsawdd bresennol (Cyfunol, o bell, ffrydio byw)
- Datblygu dulliau ar gyfer cynllunio'n effeithiol ar gyfer dysgu
- Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel a chreu cyfleoedd i rannu'r arferion gorau
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r CIG a chynllunio cwricwlwm ar gyfer 2022

## Cymorthfeydd Gwyddoniaeth (ar agor i bob athro/athrawon, unwaith bob hanner tymor)

**Enw'r Darparwr: I'w gadarnhau**

**Ar gyfer pob un o'r cymwysterau a ganlyn:**

- Lefel 3 Gwyddoniaeth Feddygol
- TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol
- TGAU Bioleg (Dyfarniad Sengl a Dwbl)
- TGAU Cemeg (Dyfarniad Sengl a Dwbl)
- TGAU Ffiseg (Dyfarniad Sengl a Dwbl)

**Disgrifiad bras:**

- Rhannu diweddariadau gan CBAC
- Rhannu'r arferion gorau o ysgolion sydd wedi llwyddo i gyflwyno/cyflawni'r cymhwyster
- Rhoi llwyfan i athrawon drafod pryderon, i ofyn cwestiynau ac i gefnogi ei gilydd

## Rhwydweithiau Addysgu a Dysgu Gwyddoniaeth (ar agor i bob athro/athrawes – unwaith bob hanner tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Nicola Jones, Beverly Humphreys-Jones, Huw Smith**

**Disgrifiad bras:**

- Datblygu ymhellach ansawdd addysgu a dysgu a chynllunio'n effeithiol ar gyfer dysgu – **blaenoriaeth pwnc-benodol bob hanner tymor**
- Creu cyfleoedd i athrawon gydweithio a rhannu arferion gorau
- Creu cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu dull STEM o weithredu ac i feithrin 'Cyfalaf Gwyddoniaeth' y dysgwyr
- Gwella'r ddealltwriaeth o'r CIG a chynllunio cwricwlwm ar gyfer 2022

## Ymgyfarwyddo gydag adnoddau i gefnogi llythrennedd Cymraeg yn CA2

**Darparwyr: Tîm y Gymraeg GwE**

**Disgrifiad bras:**

- Cyflwyniad i'r adnoddau sydd wedi cael eu datblygu'n genedlaethol
- Manylu ar yr hyn sydd ar gael i ddatblygu siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu drwy CA2
- Amlygu'r arfau digidol sydd ar gael drwy Hwb i gyfoethogi ac ehangu'r gweithgareddau ymhellach ac sy'n cefnogi dysgu cyfuno

## Cyfeirlyfr Hyfforddiant y Gymraeg GwE

**Darparwyr: Amrywiol**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfeirlyfr sy'n cyfeirio at y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yng Ngogledd Cymru
- Mae'n cyfeirio'r gweithlu at ddarpariaeth Genedlaethol e.e. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, a'r hyn sy'n cael ei gynnig yn lleol gan yr Awdurdodau unigol

## Cyfarfodydd rhwydwaith – Penaethiaid 6ed Dosbarth

**Enwau'r Darparwyr: Martyn Froggett/ Christine Wynne / Elfed Morris**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfarfodydd tymhorol i Benaethiaid 6ed Dosbarth i gyfnewid barn am faterion cyfredol fel UCAS/ Lles / Dysgu Cyfunol
- Cyfraniadau penodol ar destunau gan siaradwyr/gwesteion i'w darparu yn ôl yr angen




# CYFLYMU’R DYSGU



## Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

**Enw'r darparwr: Ieuan Jones**

**Disgrifiad bras:**

- Sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar sgiliau llythrennedd lefel uchel perthnasol
- Rhoi cymorth i athrawon i adnabod a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm
- Rhannu arfer gorau o ran addysgu yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3
- Datblygu yn effeithiol sgiliau llythrennedd bob dysgwr ar draws y cwricwlwm

## Rhifedd ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

**Enw'r darparwr: Ieuan Jones**

**Disgrifiad bras:**

- Sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar sgiliau rhifedd lefel uchel perthnasol
- Rhoi  cymorth i athrawon i adnabod a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Rhannu arfer gorau o ran addysgu yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3
- Datblygu yn effeithiol sgiliau rhifedd bob dysgwr ar draws y cwricwlwm

## Rhwydweithiau Arweinwyr Llythrennedd (unwaith bob hanner tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Gaynor Murphy, Anna Lloyd Williams a Louise Usher**

**Disgrifiad bras:**

- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Llythrennedd ar draws yr ysgol yn seiliedig ar argymhellion allweddol y Sefydliad Gwaddol Addysgol
- Gwella sgiliau'r gweithlu
- Defnyddio cefnogaeth QA er mwyn adnabod yr arferion gorau

## Dysgu Carlam ym maes Llythrennedd i bob Athro/Athrawes a Chymhorthydd yn yr Ystafell Ddosbarth (unwaith y tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Gaynor Murphy, Anna Lloyd Williams a Louise Usher**

**Disgrifiad bras:**

- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Llythrennedd ar draws yr ysgol yn seiliedig ar argymhellion allweddol y Sefydliad Gwaddol Addysgol
- Gwella sgiliau'r gweithlu
- Defnyddio cefnogaeth QA er mwyn adnabod yr arferion gorau
- Uwchsgilio staff ategol i sicrhau gweithrediad effeithiol y rhaglenni ymyrraeth llythrennedd

## Datblygu sgiliau mathemateg a rhifedd dysgwyr y cyfnod sylfaen yn yr ardal tu allan

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- **Syniadau ynglyn â ffyrdd o ddatblygu sgiliau mathemategol a rhifyddol disgyblion drwy brofiadau dysgu cyfoethog yn yr awyr agored(nifer fawr o'r gweithgareddau yn seiliedig ar 'Y Nadolig' a'r defnydd o adnoddau naturiol a darnau rhydd)**
- **Gweithgareddau i gefnogi datblygiad personol, cymdeithasol a lles y dysgwyr**
- **Yn addas ar gyfer athrawon a chymorthyddion Meithrin i Flwyddyn 2.**

**Weminar byw ond bydd recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE.**

## Model dysgu carlam y Cyfnod Sylfaen ac esiamplau o weithgareddau i gyd-fynd â'r model

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- Arweiniad ar y gwahanol adrannau o'r model dysgu carlam Cyfnod Sylfaen
- Enghreifftiau o weithgareddau i gyd-fynd â'r gwahanol adrannau ar gyfer Meithrin/Derbyn a Blwyddyn 1 a 2

Recordiad ar gael yn yr adran 'Gweminarau' yng Nghanolfan cefnogaeth GwE.

## Addysgu Manwl a SAFMEDS - Gweminar Rhifedd Cynradd ac Uwchradd

**Enwau'r Darparwyr: Kaydee Owen (Prifysgol Bangor), Manon Davies (Cynradd), Sian Caldwell (Uwchradd)**

**Disgrifiad bras:**

- Strategaeth rhifedd, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i gynorthwyo dysgwyr i feithrin rhuglder mewn sgiliau mathemategol penodol
- Cyflwyniad i adnoddau newydd SAFMEDS ac Addysgu Manwl, y rhaglen ar-lein a'r pecyn cymorth cynhwysfawr i helpu teuluoedd i ddefnyddio strategaeth SAFMEDS ac Addysgu Manwl gartref
- Mynediad ar-lein i hyfforddiant SAFMEDS llawn i unrhyw ysgol/aelod staff nad ydynt eisoes wedi mynychu hyfforddiant SAFMEDS. Gall yr aelodau staff hynny sydd eisoes wedi mynychu hyfforddiant ddefnyddio'r hyfforddiant i'w hatgoffa
- Mae cymorth ac arweiniad ymarferol ar gael gan aelodau staff penodol ym Mhrifysgol Bangor drwy e-bost a thros y ffôn
  https://sites.google.com/hwbcymru.net/gwewebinars/primary

## Rhaglen Dysgu Carlam – Gweminar Llythrennedd a Rhifedd Cynradd

**Enwau'r Darparwyr: Manon Davies, Vicky Lees, Joanne Davies, Anna Hughes a Gwawr Thomas**

**Disgrifiad bras:**

- Enghreifftiau o ddilyniannau dysgu ym maes Llythrennedd a Rhifedd ac adolygu pecynnau addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Fframweithiau cynllunio effeithiol ar gyfer addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd penodol ar wahân, hyblyg ar gyfer eu defnyddio gartref, yn yr ysgol neu fel modelau cyfunol; enghreifftiau o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, defnyddio'r awyr agored i gefnogi dysgu a lles, FfCD a dulliau arloesol eraill yn y ddarpariaeth trwy brofiadau dysgu cyfannol
- Adolygiad cynhwysfawr o'r strategaethau addysgu a'r rhaglenni ar-lein ym maes llythrennedd a rhifedd i ddarparu gwybodaeth fel y gall addysgwyr wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth i gael yr effaith orau ar ddeilliannau disgyblion
  https://sites.google.com/hwbcymru.net/gwewebinars/primary

## Rhaglen ddarllen 'Headsprout' – Gweminar i roi trosolwg a gwybodaeth ategol

**Enwau'r Darparwyr: Vicky Lees / Sarah Roberts (Prifysgol Bangor)**

**Disgrifiad bras:**

- Cyflwyniad i'r rhaglen ddarllen, y rhaglen ar-lein a'r pecyn cynhwysfawr o gefnogaeth i helpu teuluoedd ddefnyddio strategaeth Headsprout gartref
- Mae'r rhaglenni'n cwmpasu darllen cynnar, darllen a deall ac uwch-sgiliau darllen
- Mae gwybodaeth ymarferol am weithrediad y rhaglen a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer y cartref/ysgol ar gael gan aelodau staff penodol ym Mhrifysgol Bangor
- Mae cymorth i weithredu'r rhaglen ar gael drwy e-bost a thros y ffôn https://sites.google.com/hwbcymru.net/gwewebinars/primary

## Gweminar rhaglen rhuglder 'Darllen Ailadroddus a Geiriau Amledd Uchel'

**Enwau'r Darparwyr: Vicky Lees / Ymchwilwyr Prifysgol Bangor**

**Disgrifiad bras:**

- Cyflwyniad i'r rhaglen ddarllen a sillafu 8 wythnos ddi-dâl, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu ffonoleg, geirfa, darllen a sillafu geiriau, trwy gyfarwyddyd byw (cydamseredig) ac o bell (anghydamseredig)
- Mae'n cynnwys pecyn cymorth cynhwysfawr i helpu teuluoedd fanteisio ar y rhaglen o'r cartref
- Mynediad at hyfforddiant RILL llawn i staff a theuluoedd
- Cymorth parhaus i weithredu'r rhaglen ar gael drwy e-bost a thros y ffôn

## Gweminar Rhaglen Ddarllen a Sillafu 'Cyfarwyddyd o Bell mewn Iaith a Llythrennedd' (RILL)

**Enwau'r Darparwyr: Vicky Lees / Ymchwilwyr Prifysgol Bangor**

**Disgrifiad bras:**

- Cyflwyniad i'r rhaglen ddarllen a sillafu 8 wythnos ddi-dâl, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu ffonoleg, geirfa, darllen a sillafu geiriau, trwy gyfarwyddyd byw (cydamseredig) ac o bell (anghydamseredig)
- Mae'n cynnwys pecyn cymorth cynhwysfawr i helpu teuluoedd fanteisio ar y rhaglen o'r cartref
- Mynediad at hyfforddiant RILL llawn i staff a theuluoedd
- Cymorth parhaus i weithredu'r rhaglen ar gael drwy e-bost a thros y ffôn.

## Dysgu Carlam ym maes Llythrennedd i bob Athro/Athrawes a Chymhorthydd yn yr Ystafell Ddosbarth (unwaith y tymor)

**Enwau'r Darparwyr: Gaynor Murphy, Anna Lloyd Williams a Louise Usher**

**Disgrifiad bras:**

- IGwella'r ddarpariaeth ar gyfer Llythrennedd ar draws yr ysgol yn seiliedig ar argymhellion allweddol y Sefydliad Gwaddol Addysgol
- Gwella sgiliau'r gweithlu
- Defnyddio cefnogaeth QA er mwyn adnabod yr arferion gorau
- Uwchsgilio staff ategol i sicrhau gweithrediad effeithiol y rhaglenni ymyrraeth llythrennedd

## Cynllun Llafaredd "Dy Lais Di" (GwE) – Llais21

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Gymraeg GwE**

**Disgrifiad bras:**

- Cynllun hyrwyddo Llafaredd yng NgA3 yn ogystal â phontio â CA2
- Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar egwyddorion addysgu llafaredd Voice21 (School21)
- Cefnogi'r 'Dysgu Carlam' trwy ganolbwyntio ar lafaredd o fewn y cynllun hwnnw
- Adeiladu a datblygu ar gynlluniau a fu eisoes yn llwyddiannus e.e. llafaredd@gwe â'r Cynllun Gwefeillio

## Cefnogi plant i ddefnyddio'r Gymraeg ac fel ail iaith

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Gymraeg GwE**

**Disgrifiad bras:**

- Adnoddau ar Hwb er mwyn cefnogi rhieni plant sy'n mynychu ysgol Gymraeg neu'n Dysgu Cymraeg mewn ysgol Saesneg neu ddwyieithog
- Gwybodaeth am gymorth mewn ffurf meddalwedd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg
- Adnoddau dysgu o bell ar gyfer pob oedran hefyd ar gael mewn un lle.
- Clip fideo gan Enlli Thomas sy'n addas i rieni o ran "Cefnogi plant i ddefnyddio'r Gymraeg"



# DIGIDOL



## Google for Education

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Cyrsiau ar lein wedi ei hollti i dair haen – 1. Apiau Craidd Google 2. Google Classroom (Cychwynnol) 3. Google Classroom (Canolradd)
- Pob cwrs oddeutu 45 munud o hyd ac yn cynnwys cyfres o fideos, tasgau ymarferol ac asesiad ar y diwedd
- Addas ar gyfer athrawon sydd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau ar eu liwt eu hunain neu i ysgolion allu eu defnyddio mewn sesiynau hyfforddiant staff, nosweithiau gwyll neu ddyddiau HMS
- Addas ar gyfer pob sector
- Wedi ei leoli ar dudalen dysgu digidol y ganolfan gefnogaeth

## Adobe Spark

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Cyrsiau ar lein yn cyflwyno elfennau o Adobe Spark – Spark Post / Spark Video / Spark Page
- Gellir cwblhau'r elfennau yn unigol (tua 15 munud yr un) neu cwblhau y cwrs yn llawn sy'n cynnwys tasgau ymarferol ac asesiad terfynnol(tua 70-80 munud)
- Addas ar gyfer athrawon sydd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau ar eu liwt eu hunain neu i ysgolion allu eu defnyddio mewn sesiynau hyfforddiant staff, nosweithiau gwyll neu ddyddiau HMS
- Addas ar gyfer pob sector
- Wedi ei leoli ar dudalen dysgu digidol y ganolfan gefnogaeth

## Flipgrid

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Cyrsiau ar lein wedi ei hollti i ddwy haen – 1. Flipgrid Cychwynnol  2. Flipgrid Canolradd
- Pob cwrs oddeutu 45 munud o hyd ac yn cynnwys cyfres o fideos, tasgau ymarferol ac asesiad ar y diwedd
- Addas ar gyfer athrawon sydd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau ar eu liwt eu hunain neu i ysgolion allu eu defnyddio mewn sesiynau hyfforddiant staff, nosweithiau gwyll neu ddyddiau HMS
- Addas ar gyfer pob sector
- Wedi ei leoli ar dudalen dysgu digidol y ganolfan gefnogaeth

## j2e

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Cyrsiau ar lein yn cyflwyno elfennau o j2e – Creu Dosbarthiadau/Grwpiau + j2homework / j2e5 + j2whiteboard + j2blast / jit5 + j2whiteboard + j2blast / j2data
- Pob cwrs oddeutu 45 munud o hyd ac yn cynnwys cyfres o fideos, tasgau ymarferol ac asesiad ar y diwedd
- Addas ar gyfer athrawon sydd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau ar eu liwt eu hunain neu i ysgolion allu eu defnyddio mewn sesiynau hyfforddiant staff, nosweithiau gwyll neu ddyddiau HMS
- Addas ar gyfer ysgolion cynradd
- Wedi ei leoli ar dudalen dysgu digidol y ganolfan gefnogaeth

## 360 Safe Cymru - Gweminar byw/ ar alw

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Cyflwyniad i feddalwedd hunan arfarnu diogelwch digidol 360 Safe Cymru
- Edrych ar fanteision defnyddio'r meddalwedd
- Cynnig trosolwg o'r templedi a'r polisiau sydd ar gael
- Gweminar byw er mwyn rhoi cyfle i bobl ofyn cwestiynau ond bydd hefyd ar gael ar alw - addas ar gyfer pob sector

## 360 Safe Cymru - Sesiynau clwstwr neu gynghreiriau

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Hyfforddiant ymarferol ar sut i ddefnyddio'r offeryn hunan adolygu diogelwch digidol
- Cyfle i ysgolion y clwstwr gael ymgyfarwyddo a'r system a'i gynnwys
- Cyfle i ysgolion y clwstwr gael cydweithio wrth adnabod blaenoriaethau a chynllunio gwelliannau
- Addas ar gyfer pob sector

## *360 Digi Cymru*

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Gweminar i lansio a chodi ymwybyddiaeth o'r offeryn adolygu dysgu digidol newydd - 360 Digi Cymru
- Cyfle i weld y system ar waith a thrafod prif fanteision ei ddefnyddio
- Cyfle i weld sut all ysgol ddefnyddio'r offeryn i adnabod eu cryfderau a'u gwendidau, cynllunio gwelliannau a datblygu agweddau penodol o'u darpariaeth er mwyn codi eu safonau dysgu digidol
- Addas ar gyfer pob sector

## 360 Digi Cymru - Sesiynau clwstwr neu gynghreiriau

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Hyfforddiant ymarferol ar sut i ddefnyddio'r offeryn hunan adolygu newydd - 360 Digi Cymru
- Cyfle i ymgyfarwyddo gyda'r system a'r cynnwys
- Cyfle i ysgolion y clwstwr gael cydweithio wrth adnabod blaenoriaethau a chynllunio gwelliannau
- Addas ar gyfer pob sector

## Cadernid Digidol / *Digital Resilience*

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Cyfres o ddigwyddiadau yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar lein a chadernid digidol
- Trafod arweinyddiaeth strategol y maes, yr addysgu a'r dysgu yn ogystal â chamau y gall athrawon a dysgwyr eu cymryd i ddiogelu eu hunain
- Addas ar gyfer pob sector

## Defnydd effeithiol o apiau

**Enw'r darparwr(wyr): Gwion Clarke a Hywel Roberts**

**Disgrifiad bras:**

- Cyrsiau ar lein yn cyflwyno enghreifftiau posib o ddefnyddio apiau yn effeithiol
- Pob cwrs oddeutu 45 munud o hyd ac yn cynnwys cyfres o fideos ac enghreifftiau
- Addas ar gyfer athrawon sydd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau ar eu liwt eu hunain neu i ysgolion allu eu defnyddio mewn sesiynau hyfforddiant staff - deunydd ar gael ar alw
- Addas ar gyfer ysgolion cynradd

## Sgiliau Digidol ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

**Enw'r darparwr(wyr): Ieuan Jones**

**Disgrifiad bras:**

- Sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar sgiliau digidol lefel uchel perthnasol i ragori yn swyddi newydd y dyfodol
- Defnyddio'r technolegau a'r sgiliau perthnasol i weddnewid cymhwysedd digidol ein dysgwyr
- Elwa ar gyfleoedd i wella safon ei addysgeg, wrth anelu at fod yn athrawon gwell
- Gwneud defnydd eang o Hwb (y llwyfan dysgu Cymru) i hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu ar draws y cwricwlwm

## Defnydd effeithiol o feddalwedd digidol i gefnogi'r dysgu boed yn yr ysgol neu drwy ddysgu cyfunol a dysgu o bell

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Cyfnod Sylfaen**

**Disgrifiad bras:**

- Sut i ddefnyddio adobe spark post/fideo i gyflwyno a chyflawni gweithgareddau
- Defnydd effeithiol o 'See-saw' yn yr ysgol a gartref
- Cyflwyniadau arfer dda

Sesiynau i'w trefnu ar gais clwstwr drwy'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant.

## Datblygu iaith a'r meddwl creadigol digidol trwy ddysgu ac addysgu cyfunol

**Enw'r darparwr(wyr): Tîm y Gymraeg GwE**

**Disgrifiad bras:**

- Plethu â'r cynllun 'Dysgu Carlam'
- Arfogi'n dysgwyr yn ieithyddol wrth ddatblygu sgiliau a meddwl creadigol digidol
- Meithrin hyder ac uwchsgilio athrawon i arbrofi ar lwyfannau digidol
- Hyfforddiant a gweithdai yn arwain at rannu arfer dda

GwE

0300 500 8087

www.gwegogledd.cymru

post@gwegogledd.cymru

This page is intentionally left blank

Annwyl Annwen Morgan,

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae cynnwys y llythyr wedi'i seilio ar gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion, aelod arweiniol y cabinet dros addysg a sampl o ysgolion ac UCDau. Rydym hefyd wedi ystyried y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, a'r adborth o arolygon o arweinwyr ysgol/UCD, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth, rhieni a disgyblion. Rydym wedi cyfeirio at y deilliannau o'r arolygon lle bo'n berthnasol, er y defnyddiwyd yr arolygon yn bennaf i lywio'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 15 Ionawr. Dyma ddolen i'r adroddiad hwnnw.

Hoffem ddiolch i'ch staff am roi o'u hamser i drafod eu gwaith gyda ni ac am ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan ofynnwyd amdani.

Yn gywir

**Meilyr Rowlands**

**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi**

## Gwaith yr awdurdod lleol wrth gefnogi ei ysgolion ac UCD - Mawrth i Awst 2020

### Arweinyddiaeth a chydweithio

Mae’r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wedi parhau i gyfathrebu’n rheolaidd a phwrpasol gyda’i swyddogion, staff ac aelodau etholedig yn ystod y pandemig. Cadarnhaodd y penaethiaid a gymerodd ran yn ein galwadau ymgysylltu yn ystod y cyfnod cau ysgolion fod yr awdurdod lleol hefyd wedi parhau i gyfathrebu’n glir gydag ysgolion a’r UCD yn ystod y cyfnod hwn, gan ddarparu arweiniad a sicrwydd buddiol, amserol a chyson.

Roedd Swyddogion Addysg yn ystyriol o bwysigrwydd cynnal lles staff a disgyblion. Nododd penaethiaid fod swyddogion yr awdurdod lleol wedi darparu cymorth pwrpasol hefyd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir ac wedi cydweithio’n effeithiol gyda’r Gwasanaethau Plant ac asiantaethau eraill i sicrhau bod cymorth gwerthfawr yn cael ei roi i ddysgwyr bregus yn eu hysgolion a’r UCD.

Bu cydweithio cryf o fewn y fforymau strategol penaethiaid cynradd ac uwchradd yn ystod y pandemig. Mae’r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wedi sefydlu a rhannu gweledigaeth gref ‘Tîm Môn’, sy’n cefnogi ymreolaeth a chydweithio er mwyn cyflawni’r gorau ar gyfer dysgwyr yr ynys. Yn unol â methodoleg ‘Tîm Môn’, roedd penaethiaid yn trafod ac yn dod i gydgytundeb ar yr holl benderfyniadau, cynlluniau a pholisïau. Yn ogystal, roedd nifer o enghreifftiau o arweinwyr ac athrawon yn cydweithio i gynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu yn ogystal â pholisïau a dogfennau gweithdrefnol ymarferol. Mae’r cydweithio rhwng y pum ysgol uwchradd wedi bod yn gadarn yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda chefnogaeth Arweinyddion Craidd rhanbarthol ar gyfer yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi hwyluso gwaith effeithiol rhwng ysgolion yn ystod y cyfnod clo.

Yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd yr awdurdod lleol i weithio gyda’r ychydig iawn o ysgolion a oedd yn peri pryder. Rhoddodd yr awdurdod lleol gefnogaeth werthfawr i’r pennaeth newydd mewn ysgol uwchradd a oedd yn peri pryder a gychwynnodd yn ei swydd fel yr oed ysgolion yn cau.

Parhaodd y gwaith ar ad-drefnu ysgolion yn ystod y cyfnod hwn. Aeth yr awdurdod lleol i’r afael â’r gwaith hwn yn sensitif, gan roi ystyriaeth briodol i les penaethiaid a staff ysgolion.

**Cameo: Rhoi gwybodaeth gyson i lywodraethwyr**

Rhoddwyd gwybodaeth i lywodraethwyr yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod clo ac wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Er y bu’n rhaid atal hyfforddiant wyneb yn wyneb, fe wnaeth yr awdurdod lleol alluogi’r holl lywodraethwyr i gael mynediad at y llwyfan e-ddysgu yn rhad ac am ddim, yn ogystal â’r safle Open Learn newydd.

Cryfhawyd y berthynas rhwng ysgolion Ynys Môn a'r awdurdod lleol yn ystod y cyfnod clo trwy gyfarfodydd rheolaidd a phwrpasol.  Ar y cychwyn ar ddechrau'r cyfnod clo, gwnaeth yr awdurdod lleol alwadau ffôn dyddiol ag ysgolion, a ddatblygodd yn alwadau wythnosol yn ddiweddarach.  Bu'r Fforwm Strategol Cynradd a'r Fforwm Strategol Uwchradd yn cynnal cyfarfodydd dyddiol ac yna wythnosol.  Yn ogystal, trefnodd yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol gyfarfodydd clwstwr rheolaidd yn ogystal â chyfarfodydd pwnc a chyfarfodydd â thema.  Mynychodd swyddogion yr awdurdod lleol yr holl gyfarfodydd hyn, gan gynorthwyo penaethiaid ac arweinwyr eraill trwy roi ymreolaeth iddynt redeg eu hysgolion ond gan sicrhau hefyd fod arweinwyr yn cadw at ganllawiau a pholisïau.  Roedd penaethiaid yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd hwn, ac roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith fod yr awdurdod lleol yn gadael iddynt wneud penderfyniadau a oedd yn addas ar gyfer eu cyd-destunau eu hunain.  Hefyd, fe wnaethant adrodd fod yr awdurdod lleol yn gallu sicrhau cysondeb ar faterion fel asesu, trefniadau pontio a materion diogelu drwy'r fforymau hyn.

Sicrhaodd yr awdurdod lleol bod cymorth parhaus addas i'r holl leoliadau nas cynhelir gyda ffocws ar gyflwyno adnoddau ar-lein ar gyfer rhieni trwy gydol y cyfnod clo.  Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyllid awdurdod lleol ar gyfer lleoliadau, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o leoliadau'n gallu ailagor ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd neu o fewn pythefnos i ddechrau'r tymor newydd.  Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi cynnal y berthynas weithio sefydledig gyda'r Mudiad  Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru er mwyn cefnogi lleoliadau a rhannu adnoddau ac arfer dda ar draws yr awdurdod.  Yn ystod y cyfnod clo, parhaodd yr awdurdod lleol â'i gynllun i gynyddu'r ddarpariaeth feithrin drwy agor dau leoliad newydd pwrpasol ym mis Medi.

Trwy gydol y cyfnod clo, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi parhau i gyfathrebu'n rheolaidd, yn glir ac yn ddefnyddiol â rhieni a gyda'r cyhoedd.  Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol, llythyrau a datganiadau rheolaidd i'r wasg ganddynt i sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhannu mor eang ag y bo modd.

Wynebodd yr awdurdod lleol heriau ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn yn sgil niferoedd sylweddol o achosion o COVID19 mewn ffatri leol fel yr oedd ysgolion i fod i ail agor.  Roedd ymateb yr awdurdod yn sensitif ac yn arddangos pendantrwydd.  Anfonwyd llythyr ar y cyd gan y Gwasanaeth Dysgu a phenaethiaid at rieni yn cadarnhau na fyddai disgyblion ysgol Ynys Môn yn dychwelyd ar 29 Mehefin, fel y bwriadwyd yn wreiddiol o dan gynlluniau Llywodraeth Cymru.  Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud ar lefel gorfforaethol, ar sail diogelu iechyd trigolion Ynys Môn, ac iechyd a diogelwch disgyblion a staff ysgolion.  Gwnaeth yr awdurdod pob ymdrech i leddfu pryderon a gorbryder ymhlith rhieni, a rhoi gwybodaeth gyson iddynt am ddiweddariadau ac am ddatblygiadau o ran glanhau adeiladau ysgol, trafnidiaeth ysgol a chaffael cyfarpar diogelu personol.  Dywedodd y negeseuon yn glir mai iechyd a diogelwch dysgwyr a staff yr awdurdod oedd yn cael blaenoriaeth a bod swyddogion yn deall y byddai rhieni a phlant yn bryderus.  Pwysleisiont y byddai'r ffocws yn ystod yr unig wythnos y byddai ysgolion yn ailagor ar ymateb i anghenion iechyd a lles emosiynol plant, yn ogystal â sicrhau parhad rhwng cymorth yn yr ysgol a dysgu gartref.

**Hyrwyddo Dysgu**

Sefydlodd cynllun 'parhad dysgu' yr awdurdod lleol ar unwaith mai'r flaenoriaeth gyntaf i unrhyw ysgol oedd iechyd a lles dysgwyr, rhieni a staff.  Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaeth yr awdurdod lleol ddatblygu a rhannu canllawiau defnyddiol i rieni a gofalwyr ar ddefnyddio cymwysiadau a llwyfannau digidol, a chynhyrchodd ddogfen gynghori dra ystyriol i rieni ar sut i gynorthwyo dysgu eu plant gartref.

Trefnodd swyddogion gyfarfodydd fideo ar-lein yn wythnosol ym mhob dalgylch ysgol uwchradd gydag uwch reolwyr o'r Adran Addysg yn bresennol ac yn gweithio'n agos gyda chadeiryddion a grwpiau'r dalgylch.  Mewn cydweithrediad â GwE, roedd y trefniant hwn yn cefnogi cynlluniau dysgu o bell lleol ac yn galluogi ysgolion i rannu adnoddau.  I ddechrau, ymgynghorodd swyddogion yr awdurdod lleol ag arweinwyr ysgolion ar effaith diffyg dyfeisiau digidol ar ddysgu.  Yn dilyn y dadansoddiad hwn, trefnont i gasglu dyfeisiau o ffynonellau amrywiol a gosodwyd meddalwedd newydd a rannwyd gyda theuluoedd ar draws yr awdurdod lleol i gefnogi dysgu ac ymgysylltiad disgyblion.

**Cameo: Cymorth ar gyfer dysgu digidol**

Fe wnaeth un rheolwr strategol â chyfrifoldeb am arwain datblygiadau digidol o fewn yr awdurdod lleol roi darpariaeth sylweddol ar waith, a chymorth i ysgolion mewn cyfnod amser byr.  Yn ystod ein galwadau ymgysylltu, bu penaethiaid yn rhannu'u gwerthfawrogiad o'r cymorth hwn.  Yn rhan o'r gwaith hwn, enwebwyd 'Pencampwyr Digidol' gan bob ysgol uwchradd a phob clwstwr i weithio gyda'r awdurdod lleol a bod yn gyfrifol am rannu datblygiadau gyda'u hysgolion.

Bu'r awdurdod lleol yn cydweithio â dysgwyr, rhieni, ysgolion, GwE a Llywodraeth Cymru i sicrhau strategaeth bwrpasol ar gyfer dysgu o bell.  Aeth swyddogion yr awdurdod lleol ati i gyd-ddatblygu safle micro lleol mewn cydweithrediad â'r Pencampwyr Digidol dalgylch er mwyn hwyluso cydweithio rhwng ysgolion.  Mae gwefan dysgu o bell Ynys Môn yn cynnwys canllawiau a chymorth gwerthfawr ar ddysgu cyfunol, yn ogystal ag adnoddau a gwybodaeth am arfer dda.

https://sites.google.com/hwbcymru.net/strategaethdysgudigidolmon/cartref?authuser=1

Roedd y 'Pencampwr Digidol' ysgolion uwchradd/clwstwr yn sicrhau bod yr holl staff yn gallu mynd at gynnwys y safle micro a'i ddefnyddio, a pharhaodd i gyfathrebu ag ysgolion i rannu gwybodaeth a deunydd newydd yn rheolaidd. Cadarnhaodd arweinwyr ysgolion fod yr adnodd hwn wedi arwain at gydweithio cryf a chynhyrchiol ar draws ysgolion Ynys Môn.

Trefnodd yr awdurdod lleol gymorth buddiol i ysgolion gan adrannau ar draws y Cyngor.  Er enghraifft, cynigiodd yr adran adnoddau dynol gymorth ymarferol ar faterion cyflogaeth, a bu'r adran cyfleusterau yn cynorthwyo ysgolion gyda materion TGCh.  Hefyd, hwylusodd yr awdurdod lleol gyfleoedd i arweinwyr ysgol a phencampwyr digidol gydweithio'n uniongyrchol gyda Google UK gan eu galluogi i ddatblygu adnoddau pellach i gefnogi'i gwaith.

Ymatebodd swyddogion yn gyflym ac yn briodol i bryderon ynglŷn â gwersi byw, a chynhyrchont bolisi dysgu o bell cynhwysfawr a chanllawiau cymorth i staff a rhieni, a oedd yn cynnwys polisi model a chanllawiau i ysgolion.  Dywedodd benaethiaid fod y canllawiau a'r cymorth hwn gan yr awdurdod lleol ynglŷn â dysgu o bell a'r polisi'n ymwneud â ffrydio byw yn synhwyrol ac yn fuddiol.

Parhaodd swyddogion i gyfathrebu'n effeithiol â GwE er mwyn cynorthwyo athrawon gyda'u gwaith.  Cafodd y deunyddiau addysgu a'r adnoddau dysgu a ddarparwyd gan staff GwE eu rhannu trwy lwyfan digidol yr awdurdod lleol a gyda chymorth gan 'Bencampwr Digidol' pob dalgylch.  Hefyd, adolygodd GwE arferion cydweithio o fewn y clystyrau a hwyluso drafodaethau clwstwr.  Roedd hyn yn cynnwys rhannu dulliau dysgu cyfunol hefyd yn unol â chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.

**Cefnogi dysgwyr bregus**

Creodd yr awdurdod lleol 'Ganolfannau Gofal' a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwahanol ledled yr ynys.  Roedd y canolfannau gofal hyn yn darparu gofal dydd estynedig a darpariaeth ddysgu i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus. Adleolodd yr awdurdod lleol ei staff hamdden i ganiatáu cynnal y pecyn gofal hwn yn ystod y penwythnosau.  Roedd y ddarpariaeth hon ar gael trwy gydol pob gwyliau ysgol hefyd gyda'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Tîm Plant.   Bu swyddogion yn monitro'r niferoedd a oedd yn mynychu, a gwnaethant newidiadau synhwyrol i'r ddarpariaeth wrth i amser fynd rhagddo.  Er enghraifft, ar ôl cyfnod adolygu cychwynnol, lleihawyd nifer y canolfannau gofal i bedair ar ddeg.  Wrth i ysgolion a'r UCD baratoi eu hadeiladau ar gyfer ailagor ar ddiwedd Mehefin, ac wrth i niferoedd dysgwyr yr oedd angen gofal arnynt gynyddu, defnyddiwyd ychydig mwy o safleoedd fel canolfannau gofal ychwanegol.

Erbyn dechrau'r cyfnod clo, roedd yr awdurdod lleol eisoes wedi nodi y dysgwyr bregus ac wedi gwneud cynlluniau i gynorthwyo teuluoedd ar incwm isel gyda pharhad dysgu eu plant.  Datblygwyd y broses ar gyfer adnabod dysgwyr bregus a'i rhoi ar waith ar y cyd gan ysgolion/UCD, gwasanaethau plant a chanolfannau gofal. Defnyddiwyd matrics o fregusrwydd ac asesiad o ofal a chymorth i nodi lefel bregusrwydd ac angen plant.  Rhannwyd y deilliannau gyda'r ysgolion a'r UCD, canolfannau gofal a theuluoedd.  Parhawyd gyda'r asesiad bregusrwydd ar gyfer atgyfeiriadau newydd lle gwelwyd fod ffactorau yn ymwneud â'r pandemig wedi cynyddu bregusrwydd plant a'u teuluoedd.

Fe wnaeth dull amlasiantaeth cydlynus alluogi gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg i adnabod y gweithwyr proffesiynol neu'r asiantaethau mwyaf addas i gefnogi dysgwyr penodol.  Roedd y cydgyfrifoldeb hwn i gefnogi dysgwyr bregus yn cynnwys staff addysgu, gweithwyr y gwasanaeth ieuenctid, gweithwyr TRAC/Ad TRAC[1], swyddogion lles addysg, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth eraill o'r Gwasanaethau Plant.

[1] Rhaglenni rhanbarthol a ariennir gan Ewrop yw *TRAC ac AdTRAC i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddadrithio a mynd yn NEET.

Derbyniodd pob teulu bregus becyn teulu gan wasanaeth plant a theuluoedd Ynys Môn.  Dosbarthwyd bron i 500 o becynnau i gyd.  Roedd y pecynnau hyn yn cynnwys teganau bach a gemau priodol i oedran, deunydd ysgrifennu yn ogystal ag adnoddau a gweithgareddau dysgu.  Aeth staff yr awdurdod lleol ati i brosesu ceisiadau am grant yn gyflym i brynu offer TG i blant sy'n bregus a'u rhieni neu ofalwyr.

Bu staff ysgolion ar draws yr awdurdod lleol yn cadw cysylltiad â dysgwyr bregus yn wythnosol dros y ffôn.  Yn ychwanegol at ddysgwyr a nodwyd drwy'r matrics a'r system asesu, cynhwyswyd grwpiau eraill o ddysgwyr hefyd.  Plant oedd y rhain yr oedd eu teuluoedd eisoes yn cael cymorth gan 'Teulu Môn' (hwb cymorth cynnar yr awdurdod), dysgwyr y nodwyd bod risg iddynt ddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r rhai ar y gofrestr amddiffyn plant neu'n destun cynhadledd amlasiantaeth asesu risg (MARAC).  Hefyd, darparodd staff gymorth ychwanegol trwy gyswllt ffôn wythnosol â dysgwyr a oedd eisoes yn cael gwasanaeth 'Teulu Môn', a dysgwyr yn derbyn cymorth ychwanegol mewn ysgolion, fel y rhai â phresenoldeb gwael a'r rhai a oedd yn agored i Gorwel (gwasanaeth i deuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin domestig a digartrefedd).  Cafodd y dull partneriaeth hwn o gefnogi disgyblion sy'n bregus a'u teuluoedd ei rannu a'i hyrwyddo fel arfer effeithiol ar draws y rhanbarth.

**Cameo: Cymorth i deuluoedd bregus mewn ardal o amddifadedd sylweddol**

Gweithiodd staff yr awdurdod lleol o'r gwasanaethau addysg, gwasanaethau plant ac adrannau ieuenctid yn gynhyrchiol i ddarparu cymorth sylweddol i deuluoedd bregus sy'n byw mewn ardal â lefel amddifadedd cymdeithasol ac economaidd sylweddol.  Trwy gefnogaeth Ysgol Uwchradd Caergybi, sefydlont fodel effeithiol i gefnogi dysgwyr sy'n fregus a'u teuluoedd trwy gynnig cymorth targedig ar gyfer iechyd meddwl a lles.  Creodd yr ysgol system apwyntiadau ar gyfer disgyblion a'u rhieni a gofalwyr er mwyn iddynt allu mynd at staff bugeiliol yr ysgol a phersonél o asiantaethau arbenigol megis cwnsela.  Roedd yr holl weithwyr allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn gallu mynd at lwyfan digidol a rennir er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ac yn rheolaidd â'i gilydd.  Roedd y ddarpariaeth hon yn effeithiol o ran helpu ymgysylltu dysgwyr bregus, gan sicrhau eu bod yn parhau â'u hymgysylltiad ag addysg ac asiantaethau eraill.  Er enghraifft, roedd dysgwyr a oedd yn agored i'r gwasanaeth TRAC yn llwyddiannus wrth gwblhau eu gwaith tuag at gyflawni achrediad Agored Cymru ac fe wnaeth dysgwyr a oedd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid gyflawni'u Gwobrau Dug Caeredin amrywiol.

Cyn y cyfnod y bu'n rhaid i ysgolion gau, sefydlodd yr awdurdod lleol gynllun clir ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i ddysgwyr gymwys.  I ddechrau, mabwysiadodd yr awdurdod lleol system dosbarthu i gartrefi, gan ddefnyddio staff cymorth yr ysgol, swyddogion ymgysylltu ag ieuenctid, a phersonél TRAC/AdTRAC.  Roedd dosbarthu pecynnau bwyd i gartrefi disgyblion a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn galluogi staff i barhau i gyfathrebu â theuluoedd a hefyd i wneud gwiriadau diogelu a lles anffurfiol o deuluoedd lle gallai plant fod dan risg niwed.  Wrth i amser fynd rhagddo, ac yn unol â'r rhan fwyaf o Gymru, newidiodd yr awdurdod lleol i system dalu electronig ar gyfer teuluoedd disgyblion a oedd yn

gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Yn ogystal, parhaodd y canolfannau gofal i ddarparu'n dda ar gyfer dysgwyr a oedd yn mynychu o ran darparu prydau maethlon a byrbrydau iach, ac roeddent yn gallu cynnal gwiriadau lles.

**Cameo: Rhoi blaenoriaeth i ddiogelu**

Trefnodd yr awdurdod lleol hyfforddiant diogelu defnyddiol ar gyfer ei staff addysg yn ystod cyfnodau pan oedd yr ysgolion ar gau.  Mynychodd dros 70 o staff ysgolion a'r UCD hyfforddiant diogelu manylach, a bu oddeutu 150 o staff yn astudio modiwl llawn mewn ymarfer a lywir gan drawma.  Helpodd yr hyfforddiant hwn i staff ysgolion fod yn wybodus ac yn barod ar gyfer ailagor ysgolion. Cymerodd 16 o ysgolion ran mewn hyfforddiant pwrpasol 'Ysgolion Mwy Diogel' a rhoddwyd hyfforddiant i'r holl ysgolion cynradd yn yr awdurdod lleol, a mynediad i system diogelu ac amddiffyn plant yr awdurdod 'My Concern'.

## Gwaith yr awdurdod lleol wrth gefnogi ei ysgolion ac UCD o Fedi 2020

### Arweinyddiaeth a chydweithio

Ers i ysgolion ailagor i'r holl ddisgyblion ym mis Medi, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi parhau i weithio'n ddyfal i gynnal gwasanaethau cymorth effeithiol ar gyfer ei ysgolion a'r UCD.  Mae arweinwyr corfforaethol wedi cadw cysylltiad cefnogol agos gyda'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a'i dîm, ac maent yn deall sut mae swyddogion gwahanol yn darparu cymorth i ysgolion a'r UCD.  Mae gweledigaeth y Cyfarwyddwr ar gyfer datblygu'r hunaniaeth 'Tîm Môn' wedi datblygu'n gyflym yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae penaethiaid ac uwch aelodau staff ysgolion yn gwerthfawrogi'r modd y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gyson am benderfyniadau. Maent yn teimlo bod eu barnau'n cael eu hystyried.  Mae hyn yn galluogi penaethiaid i ddeall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau ar y cyd i sicrhau cysondeb ar draws ysgolion Ynys Môn.

Mae penaethiaid hefyd yn gwerthfawrogi'r modd y mae swyddogion wedi cefnogi'u lles trwy gydol y cyfnod hwn.  Darparont gyngor a chanllawiau ymarferol, er enghraifft drwy fireinio'r broses asesu risg a chefnogi dysgwyr wrth baratoi eu hasesiadau risg eu hunain.

Mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu gwaith rhai gwasanaethau penodol, fel y Gwasanaeth Ieuenctid.  Mae'r Prif Weithredwr, uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall pwysigrwydd gwaith ieuenctid mewn cymunedau gwledig.  Mae dymuniad cryf i gefnogi disgyblion sy'n bregus ar Ynys Môn ac i gydnabod yr heriau y mae llawer o bobl ifanc yn eu hwynebu.  Mae pob aelod etholedig wedi derbyn hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel eu bod yn wybodus iawn am effaith trawma ar iechyd meddwl ac iechyd emosiynol plant.

Mae'r staff o fewn yr Gwasanaeth Dysgu wedi gweithio gyda'i gilydd yn hyblyg i ddarparu gwasanaeth cryf a chyson i ysgolion. Maent wedi addasu'u gwaith yn effeithiol i gefnogi ysgolion y tymor hwn wrth i achosion o COVID-19 gynyddu mewn ysgolion. Er nad oedd cyfran sylweddol o'r tîm yn eu swydd ar ddechrau'r pandemig, maent wedi dangos eu bod yn barod i addasu drwy arwain ar fentrau y tu allan i'w meysydd arbenigedd. Hefyd, mae swyddogion wedi darparu canllawiau gwerth chweil ar faterion fel dyrannu cyllid grant a chaffael cyfarpar diogelu personol ar lefel gorfforaethol. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth ymarferol hwn yn fawr.

**Hyrwyddo dysgu**

Teimlai'r ysgolion ar Ynys Môn yr ymgysylltodd Estyn â nhw yn ystod tymor yr hydref eu bod wedi cael cefnogaeth dda gan yr awdurdod lleol a GwE yn ystod y cyfnod hwn. Gweithiodd swyddogion ar draws adrannau'r cyngor a chynhyrchont ystod eang o ganllawiau defnyddiol, yn aml ar y cyd â GwE, i alluogi ysgolion i ailsefydlu dysgu. Er enghraifft, mae swyddogion wedi cynhyrchu a rhannu arweiniad lleol pwrpasol ym mhob cam o'r pandemig.

Mae staff yr awdurdod lleol wedi cydweithio â phartneriaid i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Cynhyrchont ystod eang o adnoddau ar gyfer ysgolion i'w cynorthwyo i gyflwyno dysgu yn Gymraeg. Hefyd, maent wedi gweithio'n agos gydag ymarferwyr y cyfnod sylfaen i gynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu a rennir ar wefan yr awdurdod lleol i rieni eu defnyddio gartref.

Yn ystod ein galwadau ffôn ymgysylltu, disgrifiodd nifer o benaethiaid y modd yr oedd medrau llefaredd disgyblion yn y Gymraeg wedi dirywio cryn dipyn ers y cyfnod clo, yn enwedig lleferydd ffurfiol. Erbyn hyn, mae ymgyrch bwrpasol i gefnogi athrawon i wella medrau llefaredd yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mewn ysgolion uwchradd, mae athrawon iaith yn canolbwyntio ar wella medrau disgyblion i siarad tuag ag ystod o gynulleidfaoedd gwahanol.

Mae'r Ganolfan Iaith wedi ail agor yn rhannol y tymor hwn. Mae hyn oherwydd bod mesurau COVID-19 yn cyfyngu ar ddefnyddio ystafelloedd ac adeiladau bach. Mae staff y Ganolfan Iaith wedi cynhyrchu adnoddau sylweddol ar gyfer ysgolion i gynorthwyo athrawon wrth gyflwyno gwersi Cymraeg yn ystod y cyfnod clo ac ers mis Medi. Hefyd, maent wedi gweithio ar y cyd ag athrawon y cyfnod sylfaen i gynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi caffael iaith yn gynnar. Mae'r adnoddau hyn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol hefyd i rieni fynd atynt.

Y tymor hwn, mae swyddogion wedi parhau i annog ysgolion i rannu arfer dda trwy waith y 'Pencampwyr Digidol' clwstwr. Mae rôl y Pencampwr Digidol wedi parhau i ddatblygu, ac mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'i arbenigedd i hyrwyddo cydweithio a darparu hyfforddiant pwrpasol i athrawon a staff cymorth mewn perthynas â'u defnydd o TGCh. Dywedodd penaethiaid wrthym fod hyn wedi arwain at hyder cynyddol yn eu defnydd o dechnoleg i hyrwyddo dysgu.

Mae uwch arweinwyr y cyngor yn rhannu gweledigaeth y Cyfarwyddwr ar gyfer datblygu hunaniaeth 'Tîm Môn' ac maent yn deall pwysigrwydd gwrando ar farnau penaethiaid ac ymateb iddynt. Mae uwch arweinwyr yn y cyngor a'r Gwasanaeth Dysgu yn awyddus i'r awdurdod lleol a swyddogion GwE gynyddu'u rôl o fonitro a sicrhau ansawdd yn yr wythnosau i ddod fel bod swyddogion yn caffael dealltwriaeth sicr o ansawdd darpariaeth ar draws eu hysgolion.

Mae swyddogion yr Awdurdod Lleol yn cydweithio'n agos ag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE i sicrhau bod ysgolion yn gwneud penderfyniadau priodol, gwybodus am wella ysgolion. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion wedi gwneud defnydd o asesiadau cyn y cyfnod clo i nodi sut mae medrau disgyblion wedi datblygu yn ystod y cyfnod dysgu gartref. Mae swyddogion wedi annog ysgolion i ystyried ystod eang o dystiolaeth o fis Medi er mwyn nodi bylchau yn dysgu disgyblion.

Mae swyddogion yn cydnabod y risg bod ysgolion yn rhoi gormod o bwysau ar blant yn rhy gynnar, ond maent hefyd yn awyddus i weld parhad mewn dysgu. Mae penaethiaid wedi cael trafodaethau buddiol gyda swyddogion ynglŷn â gwneud defnydd o'r gwersi a ddysgwyd am gynnydd disgyblion yn y misoedd diwethaf. Er enghraifft, nododd penaethiaid fod darparu ystod eang o weithgareddau penagored yn gyfle i ddisgyblion wneud eu dewisiadau eu hunain. Mewn rhai achosion, mae rhieni wedi cefnogi'u plant yn effeithiol, ac arweiniodd hyn at y plant hynny'n gwneud cynnydd da iawn. Mae uwch swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ffurfioli cyfleoedd i rieni a rhanddeiliaid eraill i rannu'n barnau ynglŷn â darpariaeth.

Mae swyddogion a phenaethiaid yn cydnabod effaith negyddol tlodi a diffyg ymgysylltiad rhieni ar gynnydd disgyblion. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn nodi bod rhai grwpiau plant wedi colli hyder mewn dysgu a bod eu cynnydd wedi bod yn arafach o lawer o ganlyniad i hynny. Mae swyddogion a phenaethiaid yn cytuno, er ei bod yn bwysig cynnal disgwyliadau uchel, ailsefydlu hyder disgyblion a chefnogi'u lles yw'r flaenoriaeth bennaf y tymor hwn o hyd.

Roedd penaethiaid yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a'r cyngor a ddarparwyd gan staff yr awdurdod lleol a GwE i'w helpu i gynllunio sut i ddefnyddio'r grant 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam'. Mae uwch swyddogion yn glir mai penaethiaid sydd yn y sefyllfa orau i flaenoriaethu sut dylid gwario'r cyllid grant ychwanegol hwn. Mae cymorth a chyngor ar gael i ysgolion ond mae uwch swyddogion yn awyddus i ddarparu ymreolaeth i ysgolion i ddatblygu'u syniadau eu hunain ynglŷn â sut yn union i dargedu'r grant. Mae swyddogion yn gweithio ochr yn ochr â'u cydweithwyr o GwE i gynllunio rhaglen fonitro er mwyn sicrhau fod y gwariant yn cael effaith.

Mae GwE wedi creu dangos fwrdd defnyddiol sy'n gysylltiedig â'r grant 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau' fel bod ysgolion yn gallu cael gwybodaeth yn gyflym er mwyn cael syniadau ar wario'r grant, megis cymorth ar gyfer cynnal grwpiau ymyrraeth bach. Dywedodd rhai ysgolion bach wrthym eu bod wedi cael anhawster recriwtio staff, gan y bydd y cyllid grant ond yn cynnal darpariaeth ar gyfer nifer gyfyngedig o oriau ychwanegol.

Mae un ysgol gynradd wedi canolbwyntio ar ddisgyblion y mae angen hwb arnynt mewn llythrennedd a rhifedd drwy eu haddysgu mewn grŵp bach ac addysgu manwl

unigol. Gwnaethant y penderfyniad gwybodus hwn ar sail llwyddiant yn y gorffennol gyda'r dull hwn o gymorth targedig penodol. Mae ysgol uwchradd yn defnyddio'r grant i gynorthwyo grwpiau penodol o ddysgwyr sy'n fwy bregus. Mae'r ysgol wedi cyflogi staff ychwanegol i greu cyfleoedd i feithrin hyder eto ac i gynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol. Mae arweinwyr bugeiliol yn yr ysgol hon wedi'u cynnwys yn llawn i gytuno ymagwedd yr ysgol ac maent wedi ymgynghori â rhieni er mwyn rhannu gwybodaeth am eu cynlluniau. Mae'r pennaeth yn adrodd bod swyddogion yr awdurdod lleol â chyfrifoldeb am les a chynhwysiant wedi cefnogi'r gwaith hwn yn effeithiol a hwyluso cydweithio gyda Gwasanaethau Ieuenctid ac asiantaethau.

**Cameo: Creu diwylliant o ysgolion ymreolaethol o fewn system addysg gefnogol a chydweithredol**

Mae uwch arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Bodedern wedi defnyddio gwybodaeth uniongyrchol gan staff bugeiliol i nodi meysydd i'w datblygu yn gysylltiedig â'r cyllid grant 'recriwtio, adfer, a chodi safonau'. Maent wedi cydweithio gydag ystod o bartneriaid fel TRAC a'r Gwasanaeth Ieuenctid, i ddarparu sesiynau hyfforddi un i un er mwyn datblygu hyder disgyblion a chynyddu gwydnwch. Teimlai'r Pennaeth ei fod wedi'i rymuso gan yr awdurdod lleol i ddefnyddio'r cyllid grant yn greadigol er mwyn cynorthwyo grwpiau penodol o ddysgwyr yn y modd gorau. Mae hyn yn gyson â gweledigaeth uwch swyddogion o ran gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ysgolion i ddatblygu arweinyddiaeth ymreolaethol o fewn system gefnogol a chydweithredol.

Mae penaethiaid wedi adnabod ei bod yn heriol i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddysgu proffesiynol parhaus wrth gefnogi lles staff yn ystod cyfnod mor anodd. Mae swyddogion wedi bod mewn cyswllt rheolaidd ag ysgolion ac wedi sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerth chweil a pherthnasol ar gael i staff. Mae'r awdurdod lleol a GwE yn rhannu'r farn mai lles staff a disgyblion sy'n parhau yn brif flaenoriaeth. Maent hefyd yn pwysleisio fod dysgu carlam hefyd yn flaenoriaeth bwysig y tymor hwn.

**Cameo: Cyfleoedd dysgu proffesiynol**

Mae swyddogion addysg wedi annog ysgolion i geisio a chreu eu cyfleoedd dysgu proffesiynol eu hunain sy'n berthnasol i'w cyd-destunau eu hunain. Yn ystod y cyfnod clo, mae athrawon a staff cymorth mewn nifer o ysgolion Ynys Môn wedi bod yn ymgymryd ag ymchwil a chyrsiau hyfforddi drwy'r Brifysgol Agored. Maent wedi caffael gwybodaeth mewn ystod o feysydd fel datblygu gwydnwch ymhlith disgyblion, a medrau trafod rhianta pobl ifanc glasoed. Darparodd staff adborth i'w huwch dîm arwain a manylion am sut bydd y dysgu yn dylanwadu ar eu harfer. Mae'r penaethiaid yn nodi bod yr ymchwil a wnaed wedi helpu staff hefyd i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mae swyddogion addysg ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi gweithio'n dda â'i gilydd i ddatblygu ystod o ddeunyddiau addysgu a dysgu sydd ar gael i athrawon a staff cymorth trwy leoliad canolog a chyfleus ar-lein.  Mae penaethiaid yn adrodd bod yr adnoddau hyn yn darparu cymorth gwerthfawr i'w staff.  Ar hyn o bryd, mae cynnig dysgu proffesiynol GwE yn canolbwyntio ar ddarparu arweiniad gweithredol yn ymwneud ag addysgu a dysgu.  Hefyd, ceir cymorth i ysgolion i fyfyrio ar ansawdd y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae GwE yn blaenoriaethu cymorth ar gyfer yr ysgolion gwannach gydag ymweliadau gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.  Gall pob ysgol fanteisio ar weminarau a chyflwyniadau ar-lein.  Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cynnal 'cymorthfeydd' rhithwir hefyd i gynorthwyo ysgolion gyda materion penodol. Mae'r awdurdod lleol wedi hwyluso gweithdai defnyddiol i benaethiaid rannu'u profiadau o ddelio â heriau penodol fel sut wnaethant ymateb i achosion o COVID-19 yn eu hysgol.  Mae'r rhwydwaith ysgolion uwchradd sefydledig, 'Grŵp Camu' – yn parhau i rannu arferion dysgu cyfunol a'r rhaglen dysgu carlam gyda chymorth Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant rhanbarthol.  Mae aelodau'n cynnwys uwch arweinwyr â chyfrifoldeb am addysgu a dysgu.  Maent wedi gweithio'n ddyfal i gyd-greu adnoddau dysgu cyfunol.

**Cefnogi dysgwyr bregus**

Bu cydweithio effeithiol rhwng adrannau mewnol yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol ers dechrau'r pandemig.  Mae staff o'r Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg wedi gweithio'n agos â staff addysg wrth gefnogi dysgwyr bregus i ddarparu gwasanaeth buddiol i wella dysgu a lles disgyblion.

Mae dyrannu aelod o dîm Anghenion Addysgol Arbennig a Chynhwysiant yr awdurdod lleol i gefnogi pob ysgol ers y cyfnod clo wedi galluogi'r swyddogion hyn i gael gwybodaeth uniongyrchol am les dysgwyr bregus.  Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng swyddogion, athrawon arbenigol ac uwch aelodau staff â chyfrifoldeb am anghenion addysgol arbennig (AAA) wedi cefnogi'r ddarpariaeth a gofal i blant sydd mewn perygl o ddadrithio neu oedi o ran cynnydd.  Mae'r Prif Seicolegydd Addysg a'r 'Swyddogion Ansawdd' AAA yn trafod gwybodaeth berthnasol am ddysgwyr bregus mewn cyfarfodydd rheoli AAA wythnosol.  Mae'r Prif Seicolegydd Addysg yn cyfleu unrhyw negeseuon perthnasol i'r cyfarwyddwr a'i uwch swyddogion addysg. Mae hyn yn golygu bod gan uwch swyddogion addysg ddealltwriaeth dda o les dysgwyr bregus a lefel eu hymgysylltiad â dysgu y tymor hwn.

Mae'r swyddog addysg â chyfrifoldeb am les a chynhwysiant yn bartner strategol yn hyb cymorth cynnar Cyngor Sir Ynys Môn – 'Teulu Môn.'  Mae 'Teulu Môn' yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolaeth o lawer o asiantaethau allanol i gynllunio ac adolygu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd bregus ledled yr ynys.  Mae'r asiantaethau hyn yn cynnwys y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), y Gwasanaethau Lleferydd ac Iaith, Gwasanaethau Arbenigol Plant, gwasanaethau plant a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg.  Mae ysgolion yn gwneud atgyfeiriadau at 'Teulu Môn' ar y cyd â'r swyddog lles addysg.  Mae'n gweithio gydag

ysgolion i sicrhau eu bod yn derbyn ymateb a chymorth o ansawdd uchel ar gyfer lles dysgwyr a materion yn ymwneud â llesiant.  Mae hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau a gynhyrchir gan 'Teulu Môn' yn cael eu cyfleu i ysgolion trwy gyfarfodydd rhwydwaith AAA a chynhwysiant dalgylch sydd wedi'u sefydlu'n dda.

Roedd yr holl ysgolion uwchradd a gymerodd ran yn ein galwadau ymgysylltu yn canmol gwaith Gwasanaeth Ieuenctid o ran cefnogi'u dysgwyr bregus trwy gydol y cyfnod clo a thymor yr hydref.  Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddadrithio yn ystod y tymor hwn.  Mae staff y gwasanaeth ieuenctid wedi parhau â rhai agweddau ar y gwaith a gychwynnwyd yn ystod y cyfnod clo ac mae wedi'i addasu'n addas yn unol â'r anghenion mewn ysgolion gwahanol.  Mae pob un o'r pum ysgol uwchradd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r 'Panel Cynhwysiant'.  Mae aelodau'r panel yn cynnwys personél y Gwasanaeth Ieuenctid a staff TRAC.

**Cyfraniad y Gwasanaeth Ieuenctid i gefnogi dysgwyr bregus**

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn yn cynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad i gyrsiau cyfnod allweddol 4 mewn colegau addysg bellach, i gael mynediad i ddarparwyr addysg amgen a chwblhau profiad gwaith estynedig.  Mae cyrsiau addysg amgen yn cynnwys cwrs paratoi milwrol a chwrs addysg awyr agored, 'Elfennau Gwyllt'.  Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu ei gyrsiau ei hun hefyd sy'n cysylltu ag Agored Cymru i ddarparu credydau ar gyfer lefelau 1 a 2 BTec. Mae'r rhain yn cynnwys credydau mewn 'gwydnwch ac iechyd meddwl a chrefftau.' Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu 29 o gyrsiau amrywiol sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion ysgolion uwchradd.  Hefyd, mae staff y gwasanaeth ieuenctid yn cyflwyno gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion ac yn cynnal cyrsiau gwobrau efydd ac arian Dug Caeredin.

Ar hyn o bryd, mae pennaeth y gwasanaeth ieuenctid yn cynllunio i gyflwyno gwasanaeth i ddisgyblion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o Ynys Môn mewn partneriaeth â mudiad Urdd Gobaith Cymru a Ffederasiwn y Ffermwyr Ifanc.  Mae hyn oherwydd bod yr awdurdod lleol o'r farn bod darparu cymorth i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig yn flaenoriaeth.  Mae cefnogaeth sylweddol i'r gwaith hwn gan yr aelodau etholedig.

Parhaodd y broses atgyfeirio ar gyfer asesiad statudol trwy gydol y cyfnod clo. Daw'r holl atgyfeiriadau ar gyfer asesiad drwy'r Fforwm AAA a Chynhwysiant. Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn cynllunio cymorth ac ymyriadau ar gyfer dysgwyr eraill sy'n fregus drwy fforymau eraill, fel y Panel Cymedroli, y Fforwm Plant Sâl a'r Panel Addysg Ddewisol yn y Cartref.  Cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir trwy gydol y cyfnod clo.  Ymatebodd staff arbenigol yn gyflym i unrhyw gais am drefniadau argyfwng.  Mae penaethiaid yn nodi fod y Gwasanaeth AAA a Chynhwysiant wedi ymateb yn gyflym i geisiadau am gymorth ac asesiad brys.  Mae'r tîm cynhwysiant yn adrodd fod cyfathrebu gydag ysgolion wedi cryfhau'n sylweddol oherwydd mynychder cysylltu a dyfnder y drafodaeth yn ymwneud â dysgwyr unigol yn ystod y

cyfnod clo. Mae hyn yn helpu i gyflymu'r broses asesu gan fod y tîm AAA a Chynhwysiant yn gwbl ymwybodol o'r dysgwyr a gyflwynwyd i baneli.

**Cameo: Cymorth i ysgolion i asesu'u disgyblion**

Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn dau offeryn diagnostig defnyddiol i asesu anawsterau lleferydd ac iaith ac anawsterau dysgu cyffredinol dysgwyr. Mae'r awdurdod wedi rhannu'r offer hyn gyda phob ysgol ac wedi darparu canllawiau addas ar gyfer eu defnyddio. Mae'r offer asesu hyn yn galluogi staff i gynnal asesiad cychwynnol o anawsterau disgyblion a'u hysbysu o'r angen am atgyfeiriad ar gyfer asesiad neu ymyrraeth arbenigol ffurfiol.

Mae'r system CDU Ar-lein sefydledig wedi bod yn arbennig o fuddiol i gefnogi dysgwyr bregus ers mis Mawrth. Mae'r system hon yn galluogi ysgolion, swyddogion ac arbenigwyr i gael mynediad i gynlluniau datblygu unigol dysgwyr, gwneud newidiadau i dargedau, uwchlwytho manylion asesu a diweddaru data. O fis Medi, mae'r tîm AAA a Chynhwysiant wedi ychwanegu modiwl 'Addasiadau Rhesymol' newydd defnyddiol o fewn y system CDU Ar-lein. Mae'r modiwl hwn yn galluogi ysgolion i addasu darpariaeth pan nad yw'n bosibl bodloni rhai elfennau o'r CDU, fel targedau personol neu ddarpariaeth cymorth. Mae'r tîm wedi darparu arweiniad a chymorth buddiol ar y modiwl hwn i'r holl rhanddeiliaid yn y system CDU Ar-lein, gan gynnwys rhieni.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn adrodd y bu cynnydd mewn atgyfeiriadau gan rieni i'w plant gael addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r awdurdod wedi sefydlu Fforwm Addysg Ddewisol yn y Cartref ac mae wedi tynhau ei weithdrefnau atgyfeirio i sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth a gwybodaeth dda am eu rhwymedigaethau. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg a 'Teulu Môn' yn rhan o'r broses asesu. Erbyn hyn, mae'r awdurdod lleol yn mynnu mwy o dystiolaeth a gwybodaeth gan rieni cyn prosesu'r ceisiadau. Mae swyddogion wedi cryfhau gweithgareddau monitro gyda Swyddogion Lles Addysg gan gynnal mwy o ymweliadau â chartrefi i sicrhau bod rhieni'n deall y goblygiadau yn llawn os dewisant addysgu eu plant eu hunain. Mewn llawer o achosion, mae natur gefnogol y gwaith gan y Swyddog Lles Addysg wedi arwain at rieni yn newid eu meddyliau ynglŷn ag addysg ddewisol yn y cartref, ac yn anfon eu plant yn ôl i'r ysgol.

Mae'r gwasanaeth AAA a Chynhwysiant wedi creu a hybu adnoddau gwahaniaethol ar gyfer ystod o anghenion dysgwyr er mwyn cyd-fynd gydag adnoddau eraill dysgu o bell. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys addasiadau a fersiynau gwahaniaethol o dasgau. Fe wnaeth y tîm AAA a Chynhwysiant baratoi ystod o adnoddau a'u rhoi ar wefan Gwynedd a Môn. Fe gafodd rhai enghreifftiau eu cynnwys ar y dashfwrdd adnoddau rhanbarthol. Mae'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn mynychu cyfarfodydd bob hanner tymor gyda swyddogion addysg a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau plant er mwyn casglu gwybodaeth bwysig am agweddau ar ddysgu y mae angen eu cefnogi ymhellach.

Mae seicolegwyr addysg sy'n gwasanaethu Ynys Môn wedi cynorthwyo GwE i greu asesiadau risg a chanllawiau ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n fwy bregus. Maent

hefyd wedi creu taflenni a thudalennau gwybodaeth i ysgolion ar sut i gynorthwyo disgyblion sydd ag anawsterau corfforol ac iechyd i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol.  Er enghraifft, mae'r canllaw ar wisgo masgiau clir wrth weithio gyda disgyblion â nam ar eu clyw yn cael ei ddefnyddio gan Gydlynwyr AAA wrth iddynt gwblhau'r modiwl 'Addasiadau Rhesymol' ar y system CDU Ar-lein.

Mae'r Gwasanaeth AAA a Chynhwysiant yr awdurdod lleol wedi parhau i ddarparu hyfforddiant defnyddiol a chyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i ysgolion.  Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant ar wahaniaethu ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion, ymwybyddiaeth ofalgar a sesiynau hyfforddiant blasu ar reoli ymddygiad ymosodol gwirioneddol neu bosibl (MAPA).  Mae ysgolion wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gynnwys trosleisio yn eu cyflwyniadau digidol i helpu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg wrthi'n cyflwyno pecyn hyfforddiant yn ymwneud ag 'osgoi'r ysgol ar sail emosiynol' i unigolion arweiniol mewn ysgolion.

**Cameo: Ymgyrch strategol i adeiladu cynhwysedd mewn ysgolion i gefnogi dysgwyr bregus**

Er mwyn ymateb i gynnydd yn y galw am gwnsela mewn ysgolion, gwnaeth uwch staff cynhwysiant benderfyniad strategol i sicrhau y gallai staff ysgolion gyflwyno darpariaeth math therapiwtig yn eu hysgolion eu hunain.  Roedd yr awdurdod lleol eisiau sicrhau bod staff yn holl ysgolion Ynys Môn yn cael hyfforddiant mewn meysydd cymorth allweddol ar gyfer dysgwyr bregus.  Felly, cynigiwyd cyfleoedd gwerthfawr i staff perthnasol fod yn rhan o ddigwyddiadau dysgu proffesiynol 'hyfforddi'r hyfforddwr' i ddatblygu medrau penodol ac i raeadru'u dysgu i gydweithwyr.  Mae'r meysydd allweddol hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth ofalgar, colled a phrofedigaeth, ELSA (iechyd cymdeithasol ac emosiynol) a thechnegau cyfathrebu cyfeillgar.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod lleol wedi darparu hyfforddiant buddiol i'w holl arweinwyr ieuenctid rhan-amser fel eu bod yn fwy gwybodus i gefnogi dysgwyr bregus o fis Medi ymlaen.  Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn Atal ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant a phobl ifanc.  Yn ogystal, mae arweinwyr ieuenctid wedi'u huwchsgilio hefyd o ran sut i gefnogi plant sydd wedi dioddef profedigaeth a'r rhai sy'n mynegi syniadaeth o hunanladdiad.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer diogelu ers mis Mawrth.  Mae arweinydd dynodedig yn gweithio fel 'Pencampwr Diogelu' ym mhob clwstwr cynradd ac ym mhob ysgol uwchradd.  Mae'r rhwydwaith o Bencampwyr Diogelu yn cyfarfod yn rheolaidd.  Mae cyllid grant drwy'r fenter Ysgolion Gwledig wedi galluogi'r holl staff ysgolion, athrawon arbenigol ac uwch arweinwyr ar draws yr awdurdod lleol i gael hyfforddiant diogelu ategol.  Mae cydweithwyr o'r Gwasanaethau Plant wedi darparu hyfforddiant i'r Pencampwyr Diogelu ar wneud atgyfeiriadau ysgrifenedig effeithiol yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru.  Erbyn hyn, mae holl ysgolion Ynys Môn yn defnyddio'r cymhwysiad digidol 'My Concern' i gofnodi unrhyw bryderon ynglŷn â lles ac atgyfeiriadau.  Mae Cyngor Sir Ynys Môn bellach yn cymryd rhan lawn yn Operation Encompass ac mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi gweithio'n gynhyrchiol gyda

swyddogion Heddlu Gogledd Cymru i greu a rhannu cyflwyniadau llawn gwybodaeth gyda’r holl ysgolion ar y bartneriaeth newydd, bwysig hon.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2021 |
| **Pwnc:** | Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (adroddiad ymgynghori) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | I godi ymwybyddiaeth am y Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (drafft ôl ymgynghoriad cyhoeddus) a rhoi cyfle i'r Pwyllgor gynnig adborth cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O. Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Richard Dew |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch,<br>Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Heledd Fflur Jones, Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)<br>01286 679883<br>HeleddFflurJones2@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:<br>1 Derbyn yr adroddiad ac ystyried y Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid a'r Adroddiad Ymgynghori cysylltiedig;<br>2 Penderfynu os oes unrhyw sylwadau i gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae un o brif amcanion Cynllun y Cyngor 2017-2022 (amcan 3), yn datgan bydd y Cyngor yn cyd-weithio a chymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol a newid a datblygu tra'n gwarchod yr amgylchedd naturiol. Cydnabyddir fod amgylchedd naturiol ac adeiledig yr Ynys yn hanfodol i'r sector twristiaeth a bod angen diogelu ac ehangu'r nodweddion unigryw hyn a gwneud y mwyaf o'u gwerth fel adnoddau cymdeithasol-economaidd. Yn y cyswllt hwn, bydd angen cydbwyso effeithiau datblygiadau mawr arfaethedig ar yr amgylchedd lleol a'u lleihau a'u lliniaru.<br><br>Er mwyn cyflawni'r amcan hyn nodir yr angen i hyrwyddo'r Ynys mewn modd sensitif tra'n diogelu'r asedau naturiol. Amlygir yr angen i geisio datblygu a hyrwyddo'r Ynys fel cyrchfan boblogaidd i ymwelwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ganddi i'w gynnig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br><br>Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol) yn cyflwyno strategaeth a pholisïau sydd gyda'i gilydd yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth yn ardal y Cynllun ac yn nodi'r angen i reoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer |

ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n cwrdd ag anghenion cyfoes modern trwy gydol y flwyddyn.

Rôl y Canllaw Cynllunio Atodol hwn ydi rhoi cyngor manwl ar bolisïau penodol yn gysylltiedig â thwristiaeth er mwyn sicrhau eu caiff eu gweithredu yn effeithiol ac yn gyson ar draws ardal y Cynllun.

## 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

I. I ba raddau y bu'r cyfnod ymgynghori diweddaraf ar y Canllaw yn un cynhwysol (16 Hydref- 27 Tachwedd, 2020)?

II. Sut mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn ymateb i'r pryderon a'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad?

III. Ym mha ffordd mae'r Canllaw yn ymateb yn ddigonol i'r orddarpariaeth o lety gwyliau sydd wedi'i amlygu gan hefyd sicrhau cydbwysedd rhwng annog ffyniant y sector twristiaeth yng Ngwynedd a Môn, a gwarchod amgylchedd a chymunedau'r ardal?

IV. Sut bwriedir monitro ac adrodd ar gynnydd o ran gweithredu'r Canllaw (a'r Polisïau sy'n sail iddo)?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

5.1 Pwrpas yr adroddiad hwn ydi codi ymwybyddiaeth Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini o ddatblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol: 'Cyfleusterau a llety i dwristiaid a sicrhau ei fod yn cael ei graffu gan y Pwyllgor hwn cyn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

benderfynu ynglŷn â'i addasrwydd i'w fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2021. Mae Pwyllgor Craffu Cymunedau (Cyngor Gwynedd) yn ei graffu ar 25 Chwefror 2021.

5.2 Mae'r Canllaw yn cynnig arweiniad yn gysylltiedig â'r polisïau twristiaeth a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan gynnwys arweiniad o ran polisïau yn gysylltiedig â llety gwyliau parhaol, safleoedd carafanau sefydlog a safleoedd carafanau teithiol.

5.3 Gall Canllawiau Cynllunio Atodol dim ond ymdrin â darparu rhagor o wybodaeth neu fanylion ynghylch polisïau neu gynigion a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

5.4 Ni all Canllawiau newid polisi neu gynigion a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ac ni ellir cyflwyno polisïau newydd trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

5.5 Gall Canllaw fod yn 'ystyriaeth cynllunio berthnasol' ddylid rhoi sylw iddo ochr yn ochr â'r polisïau mae'n cefnogi yn y Cynllun Datblygu Lleol pan fydd gweithredoedd penodol wedi digwydd. Mae Ffigwr 1 yn rhoi ciplun o'r gweithredoedd sy'n angenrheidiol i Ganllaw gael statws 'ystyriaeth cynllunio berthnasol'.




Ffigwr 1: Gweithredoedd i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol

5.6 Yn ystod y broses o baratoi'r Canllaw dan sylw, mae'r Panel Cynllun Datblygu ar y Cyd wedi bod yn rhan o graffu ei gynnwys. Yn dilyn derbyn ystyriaeth gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fe dderbyniwyd y Canllaw sêl bendith gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w ryddhau ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gwreiddiol (gwanwyn 2018) hyn ac yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd, ystyriwyd yn briodol cynnal diwygiadau pellach i'r Canllaw mewn perthynas a ddau fater penodol sef:-

1. Sut i ddiffinio gormodedd o lety hunanwasanaeth, a;
2. Sut i ddelio gyda cheisiadau am newid defnydd a cholli gwestai.

5.7 Gan fydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio berthnasol ar ôl ei fabwysiadu, ystyriwyd y Cynghorau ei fod yn bwysig i rhan-ddeiliaid gael dweud eu dweud ar y newidiadau arwyddocaol hyn. Felly gymeradwyodd rhyddhau'r ddogfen ymgynghori bellach ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Hydref 2018.

5.8 Yn ystod cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019 fe gyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn dilyn yr ymgynghoriad pellach hwn, gan nodi na fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiad pellach i'r Canllaw yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori pellach ac yn gofyn am yr hawl i gyflwyno'r Canllaw i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ei fabwysiadu.

5.9 Ers cynnal cyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd (Mawrth, 2019) fe gyflwynwyd y Canllaw i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 4 Ebrill, 2019. Yn sgil y drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod yma ystyriwyd yn briodol gwneud man ddiwygiad i eiriad y Canllaw. Ymhellach mae dyfarniadau apeliadau diweddar sydd yn ymwneud a'r ystyriaethau yn gysylltiedig â asesu 'gorddarpariaeth' o lety gwyliau wedi amlygu'r angen i wneud diwygiad pellach i'r Canllaw.

5.10 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 4 Medi, 2020. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion perthnasol o'r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24 Ionawr, 2020.

5.11 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16eg o Hydref hyd at 27ain o Dachwedd, 2020.

5.12 Nodir fod y prif ddiwygiad i'r Canllaw a arweiniodd at y trydydd cyfnod ymgynghori yn ymwneud a chynnal diwygiad pellach i'r diffiniad yn gysylltiedig â'r orddarpariaeth o lety gwyliau. Bellach mae'r diffiniad (gweler adran 4.6 o'r Canllaw yn Atodiad 2) yn cynnwys trothwy penodol o ran pryd ystyrir fo yno orddarpariaeth o lety gwyliau hunan arlwyo o fewn ardal benodol. Yn unol â'r arweiniad diwygiedig o fewn y Canllaw, ni ellir rhoi ystyriaeth ffafriol i geisiadau ac ar gyfer llety gwyliau hunan arlwyo pan fo'r gyfradd gyfunol bresennol o lety gwyliau hunan arlwyo ynghyd a ail-gartrefi eisoes wedi cyrraedd trothwy o 15% o'r holl stoc dai. Ystyrir fod gosod trothwy diffiniadol yn ei wneud yn haws i Swyddogion asesu 'gorddarpariaeth' yng nghyswllt y gofyn hynny sydd wedi ei nodi ym Mholisi TWR 2 o'r CDLl ar y Cyd.

5.13 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefannau'r ddau Gyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, cyrff amgylcheddol, awdurdodau cyfagos a'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb yn y CCA.

5.14 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol ar gael i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:

- Ffurflen ymateb ar-lein mewn *Word* a *pdf*. Roedd copïau papur o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael ar gais gan yr UPC ar y Cyd.
- E-byst; a
- Llythyr

5.15 Derbyniwyd cyfanswm o 15 o sylwadau dilys. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob sylw a dderbyniwyd. Ymhellach nodir fod 8 sylw annilys wedi ei dderbyn (gweler yr ail dabl yn atodiad 1). Gan fod y sylwadau hyn yn ymwneud a rhannau o'r ddogfen nad oedd yn destun y cyfnod ymgynghori cyhoeddus nid oes ystyriaeth bellach wedi ei roddi i'r sylwadau hyn.

5.16 Mae'r adran a ganlyn (Atodiad 1) yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, yn cynnwys ymateb y Cynghorau iddynt a phan fo'n briodol, yn argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA yn sgil y sylwad. Nodir unrhyw newid arfaethedig i eiriad y CCA mewn **ffont drom wedi'i thanlinellu**.

5.17 Gellir gweld y Canllaw cyfan ar ei ffurf drafft ôl ymgynghoriad cyhoeddus yn **Atodiad 2**.

5.18 Pan gaiff ei fabwysiadu bydd y Canllaw'n disodli'r canllawiau cyfredol am lety gwyliau a thwristiaeth a gafodd eu mabwysiadu gan y ddau Gyngor i gefnogi'r hen gynlluniau datblygu, sef Cynllun Lleol Ynys Môn a'r Cynllun Datblygu Unedol (yn achos ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn).

5.19 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y camau nesaf a'r amserlen:

| **Gweithred** | **Pryd?** |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd;<br><br>Codi ymwybyddiaeth am y Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (drafft ôl ymgynghoriad cyhoeddus) a rhoi cyfle i'r Pwyllgor gynnig adborth cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 25 Chwefror 2021 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd – ystyried:<br><br>i. sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio;<br>ii. adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus;<br>iii. copi drafft terfynol o'r Canllaw Cynllunio Atodol er mwyn penderfynu os ydi'r Canllaw yn addas i'w fabwysiadu (ac felly disodli'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n bodoli am y pwnc hwn). | 12 Mawrth 2021 |
| Defnyddio'r Canllaw mabwysiedig fel ystyriaeth cynllunio berthnasol | 13 Mawrth 2021 ymlaen |
| Gwneud trefniadau i godi ymwybyddiaeth am y Canllaw hwn i'r ddau Bwyllgor Cynllunio, swyddogion amrywiol yn y ddau Gyngor, a chwmnïau ac unigolion sy'n rhoi cyngor i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio | Gwanwyn 2021 |

| |
|---|
| |

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi cyngor manwl am Bolisïau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fuodd yn destun Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ailadroddol. Gellir gweld yr adroddiadau yn Llyfrgell Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun ar wefan y Cyngor. |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Dim oblygiadau ariannol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad am yr Ymgynghoriad Cyhoeddus<br><br>Atodiad 2 – Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (drafft ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus) |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid - drafft ymgynghorol (Hydref 2020) |

# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL
# CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID

# ADRODDIAD YMGYNGHORI AC ARGYMHELLION SWYDDOGION AR Y DDOGFEN YMGYNGHORI'N BELLACH

RHAGFYR 2020

# Cynnwys


1.0 CEFNDIR ..... 3

Pwrpas Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ..... 3

Y Cyd-destun Polisi ..... 3

Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol ..... 3

Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 3

2.0 CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID ..... 4

Ymgynghoriadau Cyhoeddus ..... 4

**ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION GAN SWYDDOGION (CYFNOD YMGYNGHORI HYDREF/TACHWEDD 2020) ..... 6**

## 1.0 CEFNDIR

**Pwrpas Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)**

1.1 Pwrpas y Canllawiau hyn yw:

- Cynorthwyo ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau sydd yn cyd-fynd gyda pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol.

**Y Cyd-destun Polisi**

<u>Y Cynllun Datblygu Lleol</u>

1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisïau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.

1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisïau amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapio dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn:

- galluogi i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

**Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol**

1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar-ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n darparu amrediad o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun fydd yn darparu canllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Polisi.

**Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol**

1.6 Mae’r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwysau sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd ac ni allant newid polisïau'r Cynllun.

1.7 Ar ôl ei fabwysiadu dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## 2.0 CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID

2.1 Mae'r CCA hwn yn ymdrin â phob ffurf a graddfa ar lety gwyliau ac atyniadau i dwristiaeth. Mae twristiaeth yn sector deinamig ac yn newid yn barhaus. Mae'n chwarae rhan sylweddol yn economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion yn ardal y cynllun. Gweler pwysigrwydd twristiaeth yn y tabl[1] isod:

| 2017 | Gwynedd* | Ynys Môn |
|---|---|---|
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth | £1.06 biliwn | £304.23 miliwn |
| Cyfanswm niferoedd ymwelwyr (miliynau) | 7.28 | 1.71 |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 3.53 | 1.03 |
| Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau) | 3.75 | 0.68 |
| Nifer yr FTE [2] swyddi a gefnogir gan wariant twristiaeth | 15,601 | 4,102 |

*yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

2.2 Mae Ynys Môn a Gwynedd yn elwa o asedau naturiol a diwylliannol eang sy'n gynnig potensial sylweddol i drigolion ac ymwelwyr eu mwynhau. Fodd bynnag, gall datblygiadau twristiaeth newydd effeithio'n negyddol ar amgylchedd a chymunedau lleol os cant eu datblygu mewn modd ansensitif neu eu gosod mewn llefydd amhriodol.

2.3 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd ac mae datblygiad cynaliadwyedd wrth graidd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cydnabod y dylai pob datblygiad yn ardal y cynllun ymgorffori'r egwyddorion hyn, gan gydbwyso'r angen i gefnogi'r economi wledig, wrth gynnal a chyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardal y cynllun.

**Ymgynghoriadau Cyhoeddus**

2.4 Roedd fersiwn drafft cyflawn o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17eg Mai a 28ain o Fehefin 2018. Ystyriwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gwreiddiol gan y Cynghorau.

2.5 Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau i'r Canllaw Cynllunio Atodol a wnaed yn dilyn y cyfnod ymgynghori gwreiddiol yn fân newidiadau, fodd bynnag, ystyriwyd bod sylwadau a'r diwygiadau a gynigwyd ar ddau fater yn gofyn am newidiadau arwyddocaol i'r CCA sef:

1. Sut i ddiffinio gormodedd o lety hunanwasanaeth, a;
2. Sut i ddelio gyda cheisiadau am newid defnydd a cholli gwestai.

2.6 Gan fydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio berthnasol ar ôl ei fabwysiadu, ystyriwyd y Cynghorau ei fod yn bwysig i rhan-ddeiliaid gael dweud eu dweud ar y newidiadau arwyddocaol hyn. Felly gymeradwyodd rhyddhau'r ddogfen ymgynghori bellach ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Hydref 2018.

1 Adroddiad STEAM 2017
2 FTE = Cyfwerth ag Amser Llawn

2.7 Derbyniwyd cyfanswm o 8 sylw: 2 yn cefnogi a 6 yn gwrthwynebu yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Yn ystod cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019 fe gyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn dilyn yr ymgynghoriad pellach hwn, gan nodi na fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiad pellach i'r Canllaw yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori pellach ac yn gofyn am yr hawl i gyflwyno'r Canllaw i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ei fabwysiadu (gweler Atodiad 2 sydd yn cyflwyno crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor iddynt)

2.8 Ers cynnal cyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd (Mawrth, 2019) fe gyflwynwyd y Canllaw i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 4 Ebrill, 2019. Yn sgil y drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod yma ystyriwyd yn briodol gwneud man ddiwygiad i eiriad y Canllaw. Ymhellach mae dyfarniadau apeliadau diweddar sydd yn ymwneud a'r ystyriaethau yn gysylltiedig â asesu 'gorddarpariaeth' o lety gwyliau wedi amlygu'r angen i wneud diwygiad pellach i'r Canllaw.

2.9 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 4 Medi, 2020. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion perthnasol o'r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24 Ionawr, 2020.

2.10 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16eg o Hydref hyd at 27ain o Dachwedd, 2020.

2.11 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefannau'r ddau Gyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, cyrff amgylcheddol, awdurdodau cyfagos a'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb yn y CCA.

2.12 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol ar gael i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:
- Ffurflen ymateb ar-lein mewn *Word* a *pdf*. Roedd copïau papur o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael ar gais gan yr UPC ar y Cyd.
- E-byst; a
- Llythyr

2.13 Derbyniwyd cyfanswm o 15 o sylwadau dilys. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob sylw a dderbyniwyd. Ymhellach nodir fod 8 sylw annilys wedi ei dderbyn (gweler yr ail dabl yn atodiad 1). Gan fod y sylwadau hyn yn ymwneud a rhannau o'r ddogfen nad oedd yn destun y cyfnod ymgynghori cyhoeddus nid oes ystyriaeth bellach wedi ei roddi i'r sylwadau hyn.

2.14 Mae'r adran a ganlyn (Atodiad 1) yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, yn cynnwys ymateb y Cynghorau iddynt a phan fo'n briodol, yn argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA yn sgil y sylwad. Nodir unrhyw newid arfaethedig i eiriad y CCA mewn **ffont drom wedi'i thanlinellu**.

**ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION GAN SWYDDOGION (CYFNOD YMGYNGHORI HYDREF/TACHWEDD 2020)**

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Cefnogi | Cyngor Cymuned Llanengan | Rhan 4.6 | Cefnogi'r newidiadau bwriedig yn unfrydol.<br><br>Mae cynnwys y frawddeg "Ymhellach, nodir y dylid rhoi ystyriaeth i'r gyfradd o ail gartrefi o fewn gymuned" yn gymwys iawn i gynuned Llanengan o ystyried bod dros 50% o dai Abersoch yn unig yn ail gartrefi. Cefnogir cynnwys AirBnB hefyd gan bod cymaint ohonynt.<br><br>Pryderir ym mhob cyfarfod o'r Cyngor wrth drafod ceisiadau cynllunio mai creu estyniadau er mwyn ehangu'r cyfleusterau hunan arlwyo a wnâi'r perchenogion er mwyn denu mwy o 'bennau'. O ganlyniad mae hyn yn lleihau argaeledd tai 'fforddiadwy' a chynyddu eu gwerth tu hwnt i afael trigolion lleol. | ARGYMHELLIAD – Derbyn y sylw cefnogol |
| 2. | Gwrthwynebu | Bourne Leisure | 4.6.1-4.6.6 | Mae paragraffau drafft 4.6.1- 4.6.6 yn ceisio cynnwys meini prawf ychwanegol yn adran 4.6 i gynorthwyo i ddiffinio gor-grynhoad o llety hunanarlwyo mewn cymunedau. Mae'r meini prawf a gynigir yn adran 4.6 yn canolbwyntio ar reoli unedau hunanarlwyo o fewn cymunedau/aneddiadau (e.e. Airbnb a unedau gwyliau ar osod). Nid oes gan Bourne Leisure unrhyw wrthwynebiad i hyn mewn egwyddor, ond mae'r Cwmni'n awyddus i sicrhau na fyddai'r meini prawf yn arwain at ganlyniadau anfwriadol drwy gael eu cymhwyso hefyd i gyrchfannau gwyliau pwrpasol fel y rhai a weithredir gan Bourne Leisure, os yw'n dymuno cyflwyno llety hunanarlwyo sylfaenol sefydlog yn ei barciau sefydledig yn y dyfodol. | Mae geiriad y Canllaw presennol yn gwbwl eglur o ran cymhwyso yr egwyddorion a gynhwysir yn rhan 4.6 mewn perthynas a cheisiadau a fyddai'n cael eu hasesu yn erbyn polisi TWR 2. Pe fyddai yna gais ar gyfer llety gwyliau parhaol, sydd yn golygu adeiladwaith a fyddai'n cael ei adeiladu ar y safle a na ellir ei symud oddi yno a'i ail adeiladu mewn lleoliad arall, yna fe fyddai'r bwriad serch ei leoliad o fewn parc gwyliau yn gorfod cydymffurfio hefo egwyddorion Polisi TWR 2 a'r CCA cysylltiedig.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Pwysleisiwn na fyddai gweithrediadau posibl Bourne Leisure yn y dyfodol yn ychwanegu at ormodedd neu glystyrau lety hunanarlwyo/fflatiau Airbnb mewn aneddiadau, sef yr hyn y mae'r adran hon yn ceisio'i gyflawni.<br><br>Gofynnwn felly bod y geiriad newydd yn gwneud yn glir nad yw'r meini prawf yn berthnasol i barciau gwyliau neu ganolfannau presennol lle mai unig ddiben y parc yw darparu llety gwyliau a chyfleusterau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, awgrymwn fod paragraff 4.6.2 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn (wedi'i danlinellu ac mewn print trwm)<br>" Mae'r enghreifftiau o'r math yma o lety yn cynnwys llety gwyliau hunanarlwyo (gan gynnwys Airbnb) ynghyd a llety gwyliau pwrpasol (hynny yw unedau parhaol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn bwrpasol ar gyfer defnydd gwyliau). Nid yw'r math hwn o lety yn cynnwys unedau hunanarlwyo sydd wedi'u lleoli o fewn parciau gwyliau neu ganolfannau...."<br><br>Er mwyn sicrhau eglurder, rydym hefyd yn argymell y ychwanegu'r canlynol at baragraff 4.6.6 drafft (wedi'i danlinellu ac mewn print trwm):<br><br>**• Cynnig sydd wedi'i leoli mewn parc gwyliau neu ganolfan bresennol".** | |
| 3. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.1 | Nid yw polisi TWR2 yn benodol yn darllen na ddylai datblygiad arwain at ormodedd o lety hunan wasanaeth. Mewn perthnasol i lety gwasanaethol a hunan wasanaeth. | Cytuno hefo'r sylw. Argymhellir dileu y cyfeiniad at 'hunanarlwyo', er mwyn sicrhau cysondeb hefo'r polisi a'r meini prawf perthnasol. |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ARGYMHELLIAD – Diwygio geiriad paragraff 4.6.1 fe a chanlyn:-<br><br>"Mae Polisi TWR 2 (maen prawf 5) yn nodi'n eglur na ddylai unrhyw ddarpariaeth o lety gwyliau arwain at 'ormodedd' o lety gwyliau ~~hunanarlwyo~~ mewn ardal benodol." |
| 4. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.2 | Nid yw diffyg cyflenwad tai yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu unedau gwyliau sy'n cael eu rheoli at y diben hwnnw. Mae'n ymwneud ag anheddau a ddefnyddir at ddibenion gwyliau ond nad ydynt yn cael eu rheoli at y diben hwnnw drwy amod.<br><br>Ail gartrefi yw'r ffactor sy'n bennaf yn arwain at brisiau tai uwch yn hytrach na darparu unedau gwyliau sy'n cael eu rheoli'n benodol at y diben hwnnw.<br><br>Dylid egluro hyn yn y CCA. | Mae'r rhestr o'r sgil effeithiau yn gysylltiedig â llety gwyliau a gynhwysir ym mharagraff 4.6.2 yn enghreifftiau yn unig. Cydnabyddir fod unedau gwyliau sydd yn derbyn caniatâd cynllunio pwrpasol ar gyfer y defnydd hynny ddim yn cael effaith uniongyrchol ar brisiau tai. Fodd bynnag fe all cynnydd yn y niferoedd o lety gwyliau a dyfodiad ardal fel cyrchfan gwyliau gael sgil effaith ar y farchnad dai gan gynyddu'r galw am dai yn yr ardal ac ar draul hynny cynyddu prisiau.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |
| 5. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.5 | Mae'r canllawiau yn y CCA yn llywio unedau o'r fath i dir o fewn y ffin ddatblygu/o fewn aneddiadau neu safleoedd sy'n agos at yr aneddiadau hynny. Felly, mae'n anochel y bydd y canllawiau'n gorfodi unedau o'r fath i ardaloedd preswyl o fewn aneddiadau. Mae gwrthdaro yma ac mae angen sicrhau gwell cydbwysedd.<br><br>Mae'r un ystyriaeth yn berthnasol i fusnesau lleol sy'n darparu ar gyfer anghenion ymwelwyr yn fwy nag anghenion trigolion. Dyma'r effaith a gaiff ei gwireddu os yw unedau gwyliau'n cael eu gwthio tuag at aneddiadau, | Mae'r arweiniad lleoliadol a gynhwysir o fewn y Canllaw yn cyd-fynd gyda'r arweiniad a gynwysir yn meini prawf y polisi. Ymhellach ni ystyrir fod yna wrth-daro gan fod Polisi TWR 2 yn hyrwyddo datblygiadau newydd o fewn y ffin neu safle addas sydd wedi ei ddatblygu o'r blaen (sydd yn cynnwys safleoedd sydd tu allan i'r ffin datblygu).<br><br>ARGYMHELLIAD - Dim newid |
| 6. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.5 | Er eglurder a thryloywder, dylai'r CCA ddarparu tystiolaeth i ddangos pam mae'r ffigur o 15% wedi'i ddewis. Nid oes esboniad o fewn y CCA | Mae maen prawf 'v' o fewn polisi TWR 2 yn nodi'n glir na ddylai'r bwriad o lety gwyliau arwain at ormodedd o lety o'r fath. Er mwyn diffinio'r hyn a |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | drafft i esbonio hyn. Gan y byddai hyn yn cyflwyno trothwy nad yw wedi'i bennu ar hyn o bryd gan bolisi cynllunio mabwysiedig o fewn y JLDP, dylid archwilio a chraffu'n gadarn ar y trothwy gyda chyfle ychwanegol i ymgynghori ac ymgysylltu ag asiantau cynllunio ac aelodau o'r cyhoedd. | olygir gan 'gormodedd' mae yna trothwy penodol yn cael ei nodi o fewn y Canllaw.<br><br>Lle ceir niferoedd uchel o gartrefi gwyliau, gall hyn olygu llai o deuluoedd yn yr anheddle drwy gydol y flwyddyn i ddefnyddio gwasanaethau megis ysgolion, bysiau, swyddfeydd post, ac efallai bod eu hyfywdra yn cael ei fygwth oherwydd defnydd isel.<br><br>Mae gwaith ymchwil sydd wedi ei gynnal yn Ardal y Llynnoedd fel rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer eu Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeiro at ddau ddogfen ymchwil sydd yn ymwneud a effaith llety gwyliau ar gymunedau. Y cyntaf yw *'Housing: An Effective Way to Sustain our Rural Communities*' lle mae'n datgan '*the percentage of holiday homes should not be more than 20 per cent as this appears to affect the sustainability of any village*.' Mae'r ail adroddiad, '*The Cumbria Housing Strategy 2006/2011*' yn mynd gam ymhellach drwy ei 'Ddangosyddion Cydbwysedd', gan awgrymu na ddylai'r ganran fod yn fwy na 10 y cant.[3] Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw wrth archwilio'r effeithiau y mae ail gartrefi yn eu cael ar gynaliadwyedd unrhyw gymuned.<br><br>Ymhellach wrth archwilio'r cymunedau yng Nghynedd a Môn ble fo'r ffigwr cyfunol o ail-gartrefi a llety gwyliau yn gyfunol yn fwy na 15% o'r stoc dai, mae'n ymddangos fod yna batrwm o ran, prisiau tai uwch, effaith ar yr iaith gymraeg |

3 Review of Second Home Data and Assessment of the Effects Second Homes are Having on Rural Communities (Saesneg yn unig)

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ynghyd a diffyg cyfleusterau ar gyfer y boblogaeth leol.<br><br>Gan hynny, ystyrir fod y ffigwr o 15% fel a gynhwysir yn y CCA draff wedi ei chyfiawnhau yn llawn ac yn rhesymol.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid. |
| 7. | Cefnogi | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.6. | Croesewir cynnwys yr amgylchiadau eithriadol. Fel arall bydd y Cynllun yn arwain at ormododd o adeiladau allanol na ellir eu hail-ddefnyddio ac yn mynd yn adfeiliedig. | ARGYMHELLIAD – Derbyn y sylw cefnogol |
| 8. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.6 | Os yw'r fenter yn dir addas a ddatblygwyd o'r blaen, beth yw'r niwed yn cynnwys hyn? | Mae'r eithriad er mwyn cefnogi menter gwledig yn cael ei wneud yn benodol er mwyn gwarchod allan-dai adfeiliedig a allai gael eu hai-ddefnyddio. Nodir mai eithriad yn unig dylai rhain fod a bod angen sicrhau fod gan yr ACLl rheolaeth lawn dros yr eithriad hyn.<br><br>Ymhellach nodir fod tir ble roedd adeiladwaith amaethyddol arno wedi ei eithrio o'r diffiniad (Polisi Cynllunio Cymru) o dir a ddatblygwyd o'r blaen.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid. |
| 9. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.6 | Ni ddylai cytundeb cyfreithiol fod yn gyfyngol heb fod angen. Yn unol â'r canllawiau a nodir yn TAN 6 'Canllawiau Ymarfer', dylid rhoi sylw i 'corddiad' arferol asedau tir drwy eu gwerthu a'u caffael ac effaith gwneud hynny ar weithrediad y fenter.<br><br>Er mwyn ymdrin â gofynion polisi tebyg, mae ACLl eraill yn defnyddio amod i'w gwneud yn ofynnol i'r uned gael ei rhedeg a'i rheoli ar y cyd | Nodir y sylw sy'n ymwneud â'r gofyniad i beidio â bod yn rhy gaeth. Fe ddefnyddir y mecanwaith priodol i sicrhau bod y llety gwyliau ynghlwm a'r fenter wledig. Er enghraifft, gall y llety gwyliau gael ei rwymo'n gyfreithiol drwy amod neu gytundeb cyfreithiol.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid. |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | â daliad y fferm ac i gynnwys Rhif Daliad Amaethyddol y fferm. Ystyrir bod hwn yn fecanwaith mwy priodol yn hytrach na chytundeb cyfreithiol. | |
| 10. | | Cyngor Cymuned Llaneilian | 4.6 | Yn gefnogol o'r newid i gymal 4.6 | ARGYMHELIAD – Derbyn y sylw cefnogol |
| 11. | | Cyngor Tref Porthmadog | 4.6.5. | Nodir na roddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau ar gyfer llety gwyliau hunanwasanaeth pan fo cyfuniad o'r nifer presennol o lety gwyliau ac ail gartrefi 'o fewn ardal y cyngor Cymuned/Tref/Dinas' yn uwch na 15%.<br><br>Mae Cyngor Tref Porthmadog yn cefnogi hyn yn frwd, ond yn gofyn ystyried ychwanegu 'o fewn ward cyngor sir' neu 'o fewn anheddle penodol' at y diffiniadau hyn (ni fyddai'n eu disodli). Y rheswm am hyn yw y gallai nifer yr ail gartrefi fod yn sylweddol uwch mewn un rhan o ardal cyngor cymuned/tref na rhan arall.<br><br>Er enghraifft, yn ardal Cyngor Tref Porthmadog sydd yn cynnwys Porthmadog, Tremadog, Borth-y-Gest a Morfa Bychan, mae'r broblem yn waeth o dipyn yn Borth-y-Gest a Morfa Bychan nag yw mewn rhannau eraill o ardal y cyngor tref. Pe bai'r ffigwr ar gyfer ardal y cyngor tref yn digwydd disgyn o dan 15% o ryw fymryn, gallai fod yn briodol o hyd weithredu'r polisi hwn yn y rhannau hynny o'r ardal a fyddai uwchben y trothwy. | Nodir y sylw a dderbyniwyd. Mae'r data a dderbynnir mewn perthynas a niferoedd o ail gartrefi/llety gwyliau yn seiliedig ar ddata gan yr Adran Dreth Cyngor sydd yn cael ei gasglu fesul Cyngor Cymuned/Tref/Dinas.<br><br>Mae'r pwynt sydd wedi ei godi yn un teg, yn enwedig mewn perthynas a'r enghraifft a gyfeirir ato yn yr achos yma gan y gall fod yna wahaniaethau rhwng anhedleoedd a leolir o fewn ardal Cyngor Cymuend/Tref/Dinas.<br><br>Ystyrir gan hynny fod angen diwygio'r Canllaw er mwyn rhoi fwy o hyblygrwydd a galluogi'r ACLl i roi ystyriaeth i ardal fwy leol wrth ystyried y ddarpariaeth presennol o lety gwyliau mewn achosion eithriadol/arbennig.<br><br>ARGYMHELLIAD – Diwygio'r CCA fel a chanlyn:-<br><br>"Ardal<br><br>4.6.3 Fe ddylid ystyried y ddarpariaeth o lety gwyliau o fewn yr ardal/anheddle mae'r bwriad wedi ei leoli ynghyd a'r ardal ehangach. Mae ffigyrau treth cyngor o ran ail-gartrefi a llety gwyliau annomestig (treth busnes) yn seiliedig ar ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn rhai achosion, yn enwedig ardaloedd gwledig sydd yn |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ymylu a neu yn amlwg yn cael ei ddylanwadu gan gyngor cymuned/tref/ dinas gyfagos bydd yn briodol rhoddi ystyriaeth i'r lefel o ddarpariaeth yn yr ardal hynny yn ogystal. **Ymhellach, gall enghreifftiau o achosion godi ble fo yna nifer uchel o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn eithriadau o'r fath gall yr ACLl ystyried y ddarpariaeth leol (hynny yw tu hwnt i lefel Cyngor Cymuned Tref/Dinas) os ystyrir yn briodol a theg i wneud hynny."**<br><br>**Pwynt bwled olaf paragraff 4.6.5:-**<br><br>• "Nifer o lety gwyliau - Ni roddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau ar gyfer llety gwyliau hunanwasanaeth pan fo cyfuniad o'r nifer presennol o lety gwyliau ac ail gartrefi o fewn ardal y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas yn uwch na 15%. Dylid defnyddio gwybodaeth Treth Cyngor fel y ffynhonnell wybodaeth er mwyn canfod y wybodaeth yma. **Gall eithriadau godi, ble ystyrir fod yna lefel uchel (mwy na 15%) o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Efallai, mewn achosion o'r fath y bydd angen rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth tu hwnt i lefel y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas."** |
| 12. | Obection | Rod Bulmer | 4.6.5 (bullet point 6) | Er fy mod yn deall ac yn cefnogi'r hyn sy'n gyrru'r polisi cyffredinol i gyfyngu ar ddarpariaeth, credaf fod y defnydd syml o 15% yn anghywir a bydd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol oni bai bod y ffigurau ei hun yn cael eu haddasu neu fel arall caiff adran 4.6.6 ei | Cydnabyddir y pwynt a nodir mewn perthynas a'r system drethu a'r cymhelliad presennol i drosglwyddo drosodd i dalu'r dreth busnes. Fe fyddai newid y gyfundrefn drethu yn golygu newid mewn deddfwriaeth cynradd. Nodir fodd bynnag fod cael rheolaeth ar yr unedau gwyliau sydd angen derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer y |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | diweddaru ymhellach i fanylu ar amgylchiadau eithriadol ychwanegol.<br><br>Mae'r trothwy o 15% eisoes wedi'i gyrraedd mewn llawer o gymunedau yng Ngwynedd. Y prif sbardun ar gyfer cyrraedd y trothwy hwn yw trosi eiddo preswyl presennol yn eiddo hunanarlwyo. Ysgogir hyn gan yr atyniad o osgoi premiwm y dreth gyngor ac mewn llawer o amgylchiadau symud yr eiddo ymlaen ibeidio talu trethi oherwydd yr rhyddhad ardrethi busnesau bach sydd ar gael.<br><br>I bobl sy'n ceisio troi adeiladau adfeiliedig presennol i lety gwyliau, bydd y trothwy o 15% yn atal hyn rhag digwydd. Bydd hyn yn cael effaith leol andwyol fel a ganlyn:<br><br>- bydd masnach sylweddol yn cael ei symud o'r ardal - adeiladu, cynnal a chadw, lletygarwch<br>- bydd adeiladau adfeiliedig presennol yn parhau i fod yn "hyll"<br>- dros amser bydd atyniad yr ardal ar gyfer mewnfuddsoddiad yn cael ei leihau.<br><br>Fel y cyfryw, mae gosod y trothwy o 15% fel y'i cynigiwyd i bob pwrpas yn atal datblygiadau newydd ac addasu eiddo adfeiliedig tra'n caniatáu parhau i drosglwyddo eiddo preswyl presennol i'w osod fel llety gwyliau.<br><br>Cynigir bod y canllawiau hyn (a chanllawiau eraill o bosibl) yn cael eu diweddaru mewn un | defnydd yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac y byddai gosod y trothwy fel sydd wedi ei nodi yn y CCA yn cynorthwyo gyda'r nod hynny.<br><br>Mae maen prawf 'v' o fewn polisi TWR 2 yn nodi'n glir na ddylai'r bwriad o lety gwyliau arwain at ormodedd o lety o'r fath. Er mwyn diffinio'r hyn a olygir gan 'gormodedd' mae yna trothwy penodol yn cael ei nodi o fewn y Canllaw.<br><br>Lle ceir niferoedd uchel o gartrefi gwyliau, gall hyn olygu llai o deuluoedd yn y pentref drwy gydol y flwyddyn i ddefnyddio gwasanaethau megis ysgolion, bysiau, swyddfeydd post, ac efallai bod eu hyfywdra yn cael ei fygwth oherwydd defnydd isel.<br><br>Mae gwaith ymchwil sydd wedi ei gynnal yn Ardal y Llynnoedd fel rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer eu Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeiro at ddau ddogfen ymchwil sydd yn ymwneud a effaith llety gwyliau ar gymunedau.<br>Y cyntaf yw *'Housing: An Effective Way to Sustain our Rural Communities*' lle mae'n datgan '*the percentage of holiday homes should not be more than 20 per cent as this appears to affect the sustainability of any village*.' Mae'r ail adroddiad, '*The Cumbria Housing Strategy 2006/2011*' yn mynd gam ymhellach drwy ei 'Ddangosyddion Cydbwysedd', gan awgrymu na ddylai'r ganran fod yn fwy na 10 y cant.[4] Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw wrth archwilio'r effeithiau y mae ail |

[4] Review of Second Home Data and Assessment of the Effects Second Homes are Having on Rural Communities (Saesneg yn unig)

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | neu fwy o'r ffyrdd a nodir isod i fynd i'r afael â'r broblem wirioneddol heb gosbi:-<br><br>1. Amgylchiadau Eithriadol Ychwanegol - dylid diweddaru'r rhestr amgylchiadau eithriadol i ganiatáu lefel uwch o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio lleol lle mae'r trothwy wedi ei gyrraedd. Lle gellir dangos "effaith gadarnhaol ar yr ardal leol" yna dylid cael hyblygrwydd. Er enghraifft, ble mae adeiladau adeiledig yn dod yn nol i ddefnydd ac yn creu masnach a swyddi.<br><br>2. Cynnwys goddefgarwch - 15-20% - Mewn ardaloedd lle mae'r trothwy o 15% yn cael ei dorri, dylid cael goddefgarwch (dyweder hyd at 20%). Byddai hyn yn decach a byddai'n caniatáu i reolaeth gael ei chynnal heb bolisi "gwrthod cyffredinol" na fydd o fudd i'r ardal leol mewn rhai amgylchiadau.<br><br>3. Newid Trosglwyddo Eiddo Preswyl i Eiddo Busnes fel bod angen Caniatâd Cynllunio cyn gwneud hynny. Mewn gwirionedd, dyma brif sbardun y mater yn yr ardaloedd lleol sy'n fwy na 15%. Pe bai'r canllawiau hyn yn cael eu diweddaru a bod angen caniatâd cynllunio arnynt, yna byddai llawer mwy effeithiol. | gartrefi yn eu cael ar gynaliadwyedd unrhyw gymuned.<br><br>Ymhellach wrth archwilio'r cymunedau yng Nghynedd a Môn ble fo'r ffigwr cyfunol o ail-gartrefi a llety gwyliau yn gyfunol yn fwy na 15% o'r stoc dai, mae'n ymddangos fod yna batrwm o ran, prisiau tai uwch, effaith ar yr iaith gymraeg ynghyd a diffyg cyfleusterau ar gyfer y boblogaeth leol.<br><br>Gan hynny, ystyrir fod y ffigwr o 15% fel a gynhwysir yn y CCA draff wedi ei chyfiawnhau yn llawn ac yn rhesymol.<br><br><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid. |
| 13. | Cefnogi | Cyfoeth Naturiol Cymru | 6.2.1 | Rydym yn croesawu diwygio paragraff 6.2.1 o'r CCA Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid i gynnwys ystyried effeithiau cronnol y dirwedd. | <u>ARGYMHELIAD</u> – Derbyn y sylw cefnogol |
| 14. | Cefnogi | Cyngor Cymuned Llanengan | 6.21 | Cefnogi'r newid. | <u>ARGYMHELLIAD</u> – Derbyn y sylw cefnogol. |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau’r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| 15. | | Cadnant Planning Ltd. | 6.2.1 | Mae angen eglurhad yma ar raddfa neu nifer yr unedau ychwanegol a allai sbarduno gofyniad am asesiad cronnol o'r effaith ar wasanaethau neu drafnidiaeth. Dylai'r gofyniad ymwneud â datblygu 10 uned neu fwy o lety yn unig. | Ystyrir fod bod yn rhagnodol o ran trothwyon ble fod angen rhoi ystyriaeth i effaith gronnol yn amhosib i’w wneud. Fe ddylai phob achos gael ei ystyried ar ei haeddiannau eu hunain.<br><br>Gall ystyriaeth megis ffurf, lleoliad a sensitifrwydd y dirwedd i gyd fod yn ffactorau wrth ystyried effaith gronnol datblygiadau.<br><br><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid |

Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y CCA yn benodol ymwneud a’r diwygiadau i rannau o adran 4.6 a pharagraff 6.2.1 o’r Canllaw. Roedd y rhannau a oedd yn destun y diwygiad wedi ei hamlygu mewn ysgrifen fras ac wedi eu tanlinellu. Derbyniwyd y sylwadau canlynol mewn perthynas â rhannau eraill o’r Canllaw nad oedd yn destun y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Gan hynny, nid oes ystyriaeth bellach wedi cael ei roddi i’r sylwadau a ni chynigir diwygio’r Canllaw mewn ymateb i’r sylwadau hyn:-

| Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau’r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|
| | Dafydd Roberts | Cyffredinol | Mae egwyddor gorddarpariaeth yn cael ei fynegi yn 4.6.1 mewn perthynas â llety gwyliau hunanarlwyo.<br><br>Mae cynnydd aruthrol wedi bod mewn nifer “cytiau bugail” yn ddiweddar. Doeth fyddai hefyd ystyried prawf gorddarpariaeth ar gyfer meysydd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro, er mwyn ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd ac er mwyn lleihau’r risg o dagfeydd a gorlenwi ym mhrif atyniadau ymwelwyr yr ynys, fel y gwelwyd yn haf 2020.<br><br>Mae wynebu “gridlock” wrth geisio mynychu ein traethau yn debygol o atal ymwelwyr rhag ail ymweld. | Ddim yn sylw dilys. Nid yw’r sylw yn benodol ymwneud a rhan o’r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid |

| Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae sawl cyfeiriad at "yr ardal leol" yn yr adroddiad. Ymhle mae'r diffiniad o "ardal leol", ac os oes gan ymwelwyr geir - onid yw'r holl ynys yn "ardal leol". | |
| Gwrthwynebu | Bourne Leisure | 1.1.7 | Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol<br><br>Mae paragraff 1.1. 7 yn datgan:-<br><br>"O ganlyniad felly, dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth cynllunio berthnasol."<br><br>Mae Pennod 9 Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (LlCD) yn datgan:-<br><br>"Dim ond y polisïau yn y cynllun datblygu mabwysiedig sydd â statws arbennig o dan adran 38(6) PCPA 2004 wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, gellir ystyried canllawiau cynllunio atodol fel ystyriaeth berthnasol cyn belled â'u bod yn deillio o'r cynllun datblygu mabwysiedig ac yn gyson ag ef a'u bod wedi bod yn destun ymgynghoriad eu hunain, a fydd yn eu gwneud yn fwy dylanwadol."<br><br>Er y cydnabyddir mai dim ond pwysau cyfyngieidg y gellir ei rhoi i CCA nad ydynt wedi dilyn y camau a nodir yn y (LlCD), nid yw'n dilyn pwysau sylweddol yn cael ei roi lle mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u dilyn.<br><br>Mae'r cyfeiriad at (LlCD) 2015 (argraffiad 2) yn Nodyn Gweithdrefnol y Cyngor ar gyfer paratoi CCA bellach wedi'i disodli gan y llawlyfr diweddaraf, nad yw'n rhoi pwysau arwyddocaol na sylweddol. Er mwyn sicrhau "cysondeb" â phennod 9, awgrymwn fod y gair "sylweddol" yn cael ei dynnu o baragraff drafft 1.1.7. Bydd hyn yn sicrhau mai mater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau yw penderfynu wrth gwneud penderfyniadau ar ganiatáu ceisiadau cynllunio y pwysau y dyid eirhoi i CCA ac nid yn sylweddol yn awtomatig, gan adlewyrchu polisi a chanllawiau cenedlaethol. | Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |

| Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Bourne Leisure yn awgrymu bod paragraff drafft 1.1.7. yn cael ei aileirio fel a ganlyn (wedi'i danlinellu ac mewn print trwm):<br><br>"O ganlyniad felly, dylid rhoi pwys ~~sylweddol~~ i'r ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. " | |
| Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 3.1.3. | Nid yw pob busnes gwledig yn amaethyddol. Dylid diwygio hyn i gynnwys arallgyfeirio gwledig yn hytrach nag amaethyddiaeth yn unig. | Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |
| Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 3.3.2 | Mae Tabl 1 o'r CCA mewn perthynas â 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' yn ystyried manwerthu a datblygu masnachol fel y rhai sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau ac sy'n ymwneud â pholisïau MAN 1-MAN 6 o'r CDLl ary Cyd. Nid yw datblygiadau twristiaeth yn perthyn i'r categorïau hynny.<br><br>Felly, nid yw Polisi PS1 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau twristiaeth fod yn ddarostyngedig i DIG neu AEIG, dim ond er mwyn cydymffurfio â meini prawf 4 a 5 y polisi | Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |
| Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.4.2 | Dylai hyn ddarllen "Lleoliad - gan fod y cynllun yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, ni ystyrir bod cynigion sy'n cynnwys datblygu ar ddatblygiad sydd wedi'i leoli'n wael yn alinio â dull y Polisi. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, disgwylir y bydd datblygiadau<br>newydd wedi'u lleoli o fewn neu yn agos at aneddiadau presennol, sydd â seilwaith<br>i wasanaethu'r datblygiad yn barod ac sy'n hygyrch drwy ddulliau cludiant<br>cynaliadwy." | Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |

| Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|
| Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.8 (Business Plan) | Yn ôl eu natur, mae gan berchnogion busnes yr arbenigedd i baratoi cynlluniau busnes ac mae angen i hyn gael ei adlewyrchu yn y CCA. Ni ddylid ystyried cynllun busnes yn annigonol ar sail pwy sydd wedi paratoi'r ddogfen honno'n unig. Nid yw penseiri'n adnabyddus am baratoi cynlluniau busnes er enghraifft.<br><br>Os yw cynlluniau busnes a baratoir gan berson busnes yn dderbyniol gan fanciau a benthycwyr, ni ddylai'r ACLl fod mor gyfarwyddol.<br><br>Ystyrir ei bod yn fwy priodol awgrymu i geisio am gymorth gan. Os yw'r ACLl o'r farn bod y cynllun busnes yn annigonol, yna byddai'n rhesymol gofyn am gyflwyno cynllun busnes digonol. | Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |
| | Cadnant Planning Ltd. | 5.5.1 (Difiniad o siale) | Dylai hwn adlewyrchu y diffiniad yn y CDLl ar Cyd. | Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |
| | Cadnant Planning Ltd. | 6.6.1 | "Ble bo modd, dylid cymryd mesurau i adfer y safle hwn i'w gyflwr gwreiddiol pan nad ydyw'n cael ei ddefnyddio / yn ystod y tymor pan fo safleoedd ar gau."<br><br>Ystyrir bod hyn yn ofyniad gormodol a dylid ei ddileu. Mae'n anghynaladwy cael gwared ar loriau caled neu arwynebau mandyllog yn ystod y tymor caeedig. Byddai mwy o ddifrod yn cael ei wneud i safleoedd a'r dirwedd yn gyffredinol, drwy ddefnyddio peiriannau trwm i amnewid llecynnau teithiol a thraciau cerrig.<br><br>Mae gan rhai safleoedd dim ond 'tymor caeedig' o 4-6 wythnos – byddai'n gwbl anymarferol adfer safleoedd i'w cyflwr gwreiddiol am y cyfnodau cyfyngedig hyn. | Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid |

CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL

DRAFFT YMGYNGHORI

# CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID

DRAFFT TERFYNOL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Mawrth 2021**

**CYNLLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD**

# Cynnwys


1.0 Cyflwyniad a Phwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol .... 4

1.1 Pwrpas .... 4

1.2 Cyflwyniad .... 5

2.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio .... 6

2.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol .... 6

2.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd .... 6

3.0 Twristiaeth - Ystyriaethau Cynllunio Trosfwaol .... 8

3.1 Datblygiad Ansawdd Uchel .... 8

3.2 Ystyriaethau Tirwedd/Amgylcheddol .... 9

3.3 Ystyriaethau Iaith Gymraeg .... 11

4.0 Llety Gwyliau Gwasanaeth a Hunan-wasanaeth Parhaol .... 12

4.1 Math o unedau .... 12

4.2 Graddfa'r datblygiad .... 12

4.3 Trosi adeiladau presennol .... 13

4.4 Tir addas a ddatblygwyd o'r blaen .... 14

4.5 Estyniadau i ddatblygiadau busnes llety gwyliau parhaol presennol .... 15

4.6 Cyflenwad presennol / Gorddarpariaeth o ddatblygiadau gwyliau hunan-arlwyo parhaol **Error! Bookmark not defined.**

4.7 Ceisiadau i ddileu Amodau Deiliadaeth .... 17

4.8 Newid Defnydd Gwestai Presennol .... 18

5.0 Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol .... 20

5.1 Math o Unedau .... 20

5.2 Datblygiadau ar wahân .... 20

5.3 Dwysâd arwyddocaol .... 20

5.4 Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol .... 21

5.5 Defnyddio carafanau sefydlog a siales er dibenion preswyl .... 22

6.0 Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro .... 24

6.1 Math o Unedau .... 24

6.2 Ystyriaethau tirwedd .... 24

6.3 Ystyriaethau priffyrdd .... 25

6.4 Cyfnodau Gweithredu .... 25

6.5 Cyfleusterau ategol .... 25

6.6 Gor-ddefnydd o leiniau caled a nodweddion gwneud .... 26

7.0 Amodau Deiliadaeth .... 27

8.0 Atyniadau a Chyfleusterau i Ymwelwyr .... 28

8.1 Lleoliad y Datblygiad .... 28

9.0 Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau .... 29

Atodiad 1 – Polisïau CDLl ar y Cyd Perthnasol12 .... 30

POLISI STRATEGOL PS 1: YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT .... 30

POLISI STRATEGOL PS 5: DATBLYGU CYNALIADWY .... 30


DRAFFT TERFYNOL

POLISI PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU ... 31
POLISI PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE ... 32
POLISI PCYFF 4: DYLUNIO A THIRWEDDU ... 33
POLISI ARNA 1: ARDAL RHEOLI NEWID ARFORDIROL ... 33
POLISI TWR 1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR ... 35
POLISI TWR 2: LLETY GWYLIAU ... 36
POLISI TWR 3: SAFLEOEDD CARAFANAU SEFYDLOG A SIALÉ A LLETY GWERSYLLA AMGEN PARHAOL ... 36
POLISI TWR 4: DEILIADAETH GWYLIAU ... 37
POLISI TAI 14: DEFNYDD PRESWYL O GARAFANAU ... 38
POLISI TWR 5: SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA A LLETY GWERSYLLA AMGEN DROS DRO ... 39
Atodiad 2 - Enghraifft Ffeil Casglwyr LANDMAP (paragraff 3.6.2) ... 41
Atodiad 3 - Mapiau Sensitifrwydd a Chapasiti (paragraff 5.3.3) ... 43
Atodiad 4 Templed Cynllun Busnes (paragraff 4.6.8) ... 52
Atodiad 5 - Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol (rhan 5.4) ... 55

DRAFFT TERFYNOL

## 1.0 Cyflwyniad a Phwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol

### 1.1 Pwrpas

1.1.1 Pwrpas y Canllawiau hyn yw:

- cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

1.1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

**Y Cyd-destun Polisi**

Y Cynllun Datblygu Lleol

1.1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisïau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.

1.1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisïau amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapio dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn ceisio:

- arwain yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

1.1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar-ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n darparu amrediad o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun fydd yn darparu canllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Polisi.

**Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol**

1.1.6 Efallai yr ystyrir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd.

1.1.7 Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, mae'r CCA wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a phenderfyniad i fabwysiadu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ran y Cynghorau. Cymeradwywyd fersiwn drafft o'r CCA hwn am ymgynghoriad cyhoeddus

DRAFFT TERFYNOL

ar *dyddiad* gan *enw Pwyllgor*. Bu'r canllaw cynllunio atodol hwn yn destun ymarferiad ymgynghoriad cyhoeddus rhwng *dyddiad* . Ystyriwyd y sylwadau a gyflwynwyd i'r Cynghorau a, ble bo'n briodol, mae newidiadau priodol wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol a gymeradwywyd gan y *Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd* ar *ddyddiad* i'w ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a gwneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio ac apeliadau. Gweler crynodeb o'r sylwadau ac ymateb y Cynghorau yn *Atodiad neu leoliad yr adroddiad Pwyllgor.*

**O ganlyniad felly, dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.**

## 1.2 Cyflwyniad

1.2.1 Mae'r CCA hwn yn ymdrin â phob ffurf a graddfa llety gwyliau ac atyniadau dwristiaeth. Mae twristiaeth yn sector deinamig ac yn newid yn barhaus. Mae'n chwarae rhan sylweddol yn economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion yn ardal y cynllun. Gweler pwysigrwydd twristiaeth yn y tabl[1] isod:

| 2017 | Gwynedd* | Ynys Môn |
|---|---|---|
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth | £1.06 biliwn | £304.23 miliwn |
| Cyfanswm niferoedd ymwelwyr (miliynau) | 7.28 | 1.71 |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 3.53 | 1.03 |
| Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau) | 3.75 | 0.68 |
| Nifer yr FTE [2] swyddi a gefnogir gan wariant twristiaeth | 15,601 | 4,102 |

*yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

1.2.2 Mae Ynys Môn a Gwynedd yn elwa o asedau naturiol a diwylliannol eang sy'n gynnig potensial sylweddol i drigolion ac ymwelwyr eu mwynhau. Fodd bynnag, gall datblygiadau twristiaeth newydd gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a chymunedau lleol os ydynt wedi'u datblygu'n ansensitif neu wedi'u lleoli'n amhriodol.

1.2.2 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd ac mae datblygiad cynaliadwyedd wrth graidd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cydnabod y dylai pob datblygiad yn ardal y cynllun ymgorffori'r egwyddorion hyn, gan gydbwyso'r angen i gefnogi'r economi wledig, tra'n cynnal a chyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardal y cynllun. Gweler polisi PS 5 Datblygiad Cynaliadwy yn Atodiad 1.

1 Adroddiad STEAM 2017
2 FTE = Cyfwerth ag Amser Llawn



DRAFFT TERFYNOL

## 2.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio

### 2.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

2.1.1 Mae canllaw polisi cynllunio cenedlaethol ar dwristiaeth wedi'u nodi ym Pholisi Cynllunio Cymru (PCC, Rhifyn 10, Rhagfyr 2018) ac yn adnabod ei fod yn cynnwys pob math o weithgareddau, cyfleusterau a mathau o ddatblygiad, ac mae'n hollbwysig i ffyniant economaidd ac i greu swyddi mewn sawl rhan o Gymru ac hefyd yn adnabod bod twristiaeth yn gallu bod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd (5.5.1).

2.1.2 Mae'n cydnabod mewn ardaloedd gwledig bod datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn elfen hanfodol er mwyn darparu economi iach ac amrywiol. Dylai datblygiadau twristiaeth newydd fod yn sympathetig o ran ei natur a'i raddfa i'r amgylchedd lleol (5.5.3). Mae hefyd yn cydnabod efallai bod angen cyfyngu ar ddatblygiadau newydd i osgoi difrod i'r amgylchedd neu i amwynder pobl leol ac ymwelwyr (5.5.2).

2.1.3 Mae canllawiau pellach wedi'u cynnwys yn Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) NCT13: Twristiaeth (1997) sy'n darparu cyngor ar ddatblygiadau gwesty, carafanau sefydlog a theithiol ac amodau meddiannaeth dymhorol. Mae NCT6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) yn cynnwys cyngor megis lleoliad y datblygiad a throsi adeiladau er defnydd gwyliau.

### 2.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

2.2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) Ynys Môn a Gwynedd ar 31 Gorffennaf 2017 ac mae'n darparu fframwaith polisi cynllunio ar gyfer y CCA hwn. Mae rôl bwysig twristiaeth yn ardal y cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLl ar y Cyd sy'n ceisio cefnogi a galluogi datblygiad twristiaeth wrth sicrhau ar yr un pryd fod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn cael eu cynnal a'u cyfoethogi.

2.2.2 Y polisi strategol trosfwaol ar gyfer twristiaeth yn y CDLl ar y Cyd yw polisi PS14: Yr Economi Ymwelwyr fel y'i nodir isod:

**POLISI STRATEGOL PS14: YR ECONOMI YMWELWYR**

Wrth sicrhau cysondeb â'r economi leol a chymunedau lleol a sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol yn cael ei gwarchod, bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth leol fydd yn fwrlwm trwy gydol y flwyddyn drwy:

1. Ganolbwyntio datblygiadau twristiaeth, diwylliannol, celfyddydol a hamdden sy'n gynaliadwy, yn actif ac ar raddfa fwy yn y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol ac, os yn briodol, y canolfannau gwasanaeth lleol;
2. Gwarchod a chyfoethogi llety wedi'i wasanaethu presennol a chefnogi'r ddarpariaeth o lety wedi'i wasanaethu o ansawdd uchel yn y canolfannau is-ranbarthol, trefol a lleol a phentrefi;

3. Rheoli a chyfoethogi'r ddarpariaeth o lety twristiaid heb ei wasanaethu o ansawdd uchel ar ffurf bythynnod a fflatiau hunanarlwyo, gwersylla, gwersylla moethus amgen, parciau carafanau sefydlog neu deithiol neu siales;
4. Cefnogi darpariaethau a mentrau twristiaeth newydd ar raddfa briodol mewn lleoliadau cynaliadwy yng nghefn gwlad drwy ailddefnyddio adeiladau presennol, os yw hynny'n briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn

DRAFFT TERFYNOL

enwedig os yw'r rhain hefyd o fudd i'r cymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol, ac os ydynt yn unol â'r amcanion datblygu cynaliadwy;
5. Atal datblygiadau'n fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar y cyfleusterau twristiaeth, gan gynnwys nodweddion llety a llefydd o ddiddordeb i ymwelwyr neu eu gosodiad, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i adfer difrod a wnaed eisoes i'r dirwedd.

2.2.3 Mae'r CCA hwn yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Adran 3 - Ystyriaethau Cynllunio Trosfwaol
- Adran 4 - Llety Gwyliau Gwasanaeth a Hunan-wasanaeth Parhaol
- Adran 5 - Safleoedd Carafanau Sefydlog a Sialé a Gwersylla Amgen Parhaol
- Adran 6 - Safleoedd Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro
- Adran 7 - Deiliadaeth Gwyliau
- Adran 8 - Atyniadau a Chyfleusterau i Ymwelwyr

DRAFFT TERFYNOL

## 3.0 Twristiaeth - Ystyriaethau Cynllunio Trosfwaol

Mae nifer o ystyriaethau sy'n berthnasol i fwyafrif y cynigion am gyfleusterau twristiaeth a llety gwyliau newydd neu estyniadau a nodir isod. Fodd bynnag, fe allai ystyriaethau eraill fod yn berthnasol i'r gwahanol fathau o gynigion sy'n cael eu cyflwyno. Ystyrir y materion hyn mewn adrannau diweddarach o'r CCA hwn.

### 3.1 Datblygiad Ansawdd Uchel

(Polisi TWR 1 maen prawf ii; Polisi TWR 2; Polisi TWR 3 maen prawf 1; Polisi TWR 5 maen prawf 1)

3.1.1 Mae hyn yn cyfeirio at ansawdd y datblygiad o ran ystyriaethau defnydd tir ac nid at unrhyw gynllun graddio cydnabyddedig a weithredir gan y diwydiant twristiaeth. Yn ogystal â gofynion polisi lleol, noda canllaw polisi cenedlaethol y dylai datblygiadau mewn ardaloedd gwledig ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan gydbwyso'r angen i gefnogi'r economi wledig, tra'n cynnal ac yn cyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig (NCT13: Trafnidiaeth, para 3.11).

3.1.2 Dylai'r holl ddatblygiadau twristiaeth arfaethedig fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad. Bydd ansawdd cyffredinol y 'cynllun' yn brif ystyriaeth, a bydd yn cael ei fesur yn erbyn gofynion polisïau rheoli datblygu'r cynllun (gweler Atodiad 1):

- Polisi PCYFF2: Meini Prawf Datblygu, sy'n nodi na ddylai cynigion datblygu gael effaith andwyol ar iechyd, diogelwch na mwynderau'r gymuned leol yn sgil cynnydd mewn gweithgareddau, aflonyddu, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, ysbwriel, draeniad, llygredd golau neu ffurfiau eraill o lygredd neu niwsans.
- Polisi PCYFF3: Dylunio a Siapio Lle, sy'n nodi y bydd disgwyl i'r holl gynigion arddangos ansawdd dylunio uchel sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gyd-destun yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig a chyfrannu at greu llefydd atyniadol, cynaliadwy, a,
- Polisi PCYFF4: Dylunio a Thirweddu, sy'n nodi y dylai'r holl gynigion integreiddio gyda'r hyn sydd o'u cwmpas. Gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos (trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig) sut roddwyd ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio.

3.1.3 Mae'r meini prawf sy'n cynorthwyo i ddiffinio datblygiad ansawdd uchel yn ganolog i wneud penderfyniadau ar effeithiau defnydd tir. Ni all unrhyw ddogfen bolisi fod yn rhagnodol, neu'n gynhwysfawr, o ran disgrifio'r cyfleoedd a allai godi. O ran cynllunio datblygiadau o ansawdd uchel, bydd y materion fel arfer yn ymwneud â math y ffactorau a nodir isod. (Noder nad ydyw'r rhestr hon yn rhestr gynhwysfawr a bydd pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei haeddiant).

**Mae'r meini prawf sy'n cynorthwyo i ddiffinio datblygiad o ansawdd uchel o ran ystyriaethau defnydd tir yn cynnwys:**

- Safleoedd wedi'u lleoli mewn lleoliad cynaliadwy, h.y. agos at aneddiadau cyfredol ble y gellir cynnwys datblygiadau newydd orau o ran seilwaith, mynediad a gwarchod cynefinoedd a thirwedd a safleoedd nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli mewn cefn gwlad agored oni bai bod cyfiawnhad cadarn am hyn;
- Safleoedd sy'n agos i'r prif rwydwaith priffyrdd ag sydd â chysylltiadau da i ddulliau cludiant amrywiol;

DRAFFT TERFYNOL

- Safleoedd nad ydynt yn amharu'n weledol ar y dirwedd, sydd wedi'u sgrinio'n dda ac nad ydynt yn achosi niwed andwyol i dirweddau gwarchodedig (e.e. yr AHNE a'r ATA) na asedau treftadaeth (e.e. Safle Treftadaeth y Byd neu Henebion Cofrestredig).
- Safleodd sydd ddim o fewn parth C fel a ddiffinir gan mapiau cyngor datblygu (TAN15);
- Safleoedd sydd o faint addas i gyd-fynd â eu hamgylchoedd
- Safleoedd sydd â gorchudd tirwedd gyfredol a dim effaith weledol fawr;
- Amddiffyn yr arfordir sydd heb ei ddatblygu;
- Amddiffyn a hyrwyddo buddion bioamrywiaeth;
- Parch tuag at yr amgylchedd hanesyddol a naturiol;
- Cynorthwyo i atgyfnerthu a chryfhau canolfan dwristiaeth gyfredol a gwneud gwell defnydd o dir drwy atgyfnerthu ardaloedd o weithgarwch twristiaeth gyfredol (atyniadau i dwristiaid, marina ac ati);
- Cyfoethogi tir addas a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd);
- Rhan o gynllun ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol a chefnogi'r economi wledig.

## 3.2 Ystyriaethau Tirwedd/Amgylcheddol

(Polisi TWR 3 maen prawf 1; Polisi TWR 5 maen prawf 1)

3.2.1 Mae lleoliad a chymeriad y dirwedd, nodweddion naturiol ac yr amgylchedd adeiladol, argaeledd olygfeydd, gosodiad y safle a sgrinio yn ystyriaethau pwysig wrth asesu cynigion twristiaeth. Noda polisïau'r CDLl ar y Cyd y dylid lleoli datblygiadau newydd mewn lleoliad anymwthiol. Mae lleoliad anymwthiol wedi'i ddiffinio yn y cynllun fel un sydd wedi'i sgrinio'n dda gan nodweddion tirwedd gyfredol ac/neu ble y gellir cydweddu unedau yn rhwydd yn y dirwedd heb yr angen am nodweddion gwneud gormodol.

3.2.2 Datgan Polisi PCYFF4: Dylunio a Thirweddu, y dylai'r holl gynigion integreiddio gyda'r hyn sydd o'u cwmpas. Gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos (trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig) sut roddwyd ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio. Mae'r polisi yn rhoi arweiniad ar gynnwys cynllun tirlunio, a dylai, ble bo'n berthnasol:

1. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Asesiad Ardal Cymeriad y Dirwedd neu Asesiad Ardal Cymeriad y Morlun;
2. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu cyfuchlinau naturiol y dirwedd;
3. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu ac yn amddiffyn safbwyntiau lleol a strategol;
4. Parchu, cadw ac ychwanegu at unrhyw nodweddion naturiol cadarnhaol sy'n bodoli, neu dirweddau neu unrhyw nodweddion eraill ar y safle;
5. Adnabod coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi i gael eu cadw;
6. Rhoi cyfiawnhad dros amgylchiadau lle nad oes modd osgoi tynnu / colli coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi gan gyflwyno manylion o'r hyn a roir yn eu lle;
7. Darparu manylion unrhyw dirweddu newydd arfaethedig yn ogystal â rhaglen o waith plannu graddol;
8. Dangos bod unrhyw blannu newydd arfaethedig yn cynnwys rhywogaethau planhigion a choed cynhenid lleol yn bennaf ac nad yw'n cynnwys unrhyw rywogaethau ymwthiol estron;

DRAFFT TERFYNOL

9. Sicrhau bod y detholiad o rywogaethau a lleoliad y plannu yn caniatáu i goed dyfu i'w huchder aeddfed heb beri niwed i adeiladau, gwasanaethau nac unrhyw blannu arall gerllaw; a
10. Darparu tirlunio ar wynebau hydraidd caled.

3.2.3 Ble bo'n briodol, dylid darparu deunydd gweledol, asesiad ardrawiad gweledaeth a tirwedd, lle'n briodol, a *photomontages* sydd wedi eu cymryd o safbwyntiau a gytunir gan yr ACLI er mwyn ddangos unrhyw effeithiau gweledol posib datblygiad ynghyd â mesurau lliniaru i gyfarch unrhyw effeithiau a adnabyddir.

3.2.4 Dylid cyflwyno Cynllun Tirweddu gan berson gymwys ynghyd a'r cais. Fe fydd amodau yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau fod y cynlluniau tirweddu a gytunir arnynt yn cael ei gweithredu cyn i'r datblygiad fod yn weithredol a'u bod yn cael eu cynnal am byth.

3.2.5 Fe fydd yna leoliadau mewn cefn gwlad agored h.y. ble nad oes yna sgrinio naturiol sefydledig neu pan fo'r datblygiad wedi ei leoli mewn man amlwg ble na all unrhyw tirweddu o sylwedd liniaru'r effaith.

3.2.6 Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut maent wedi ystyried y wybodaeth a ddarperir gan Strategaeth Tirlun Gwynedd[3], Strategaeth Tirlun Ynys Môn [4], Sensitifrwydd a Strategaeth Tirwedd Cyffredinol[5] a'r adnodd LANDMAP [6]. Mae LANDMAP yn adnodd tirlun Cymru gyfan ble mae nodweddion y dirwedd, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd oll yn cael eu cofnodi a'u harfarnu. Mae'n cynnwys arolygon manwl ar gyfer ardaloedd unigol a elwir yn Ffeiliau Casglwyr. Gweler enghraifft o ffeil casglwr yn Atodiad 2.

3.2.7 O fewn yr AHNE ac ATA fe ddylai unrhyw ddatblygiad roddi ystyriaeth i rhinweddau arbennig yr AHNE a'r ATA. Bydd ceisiadau sy'n cael effaith sylweddol ar u rhinweddau arbennig yn cael eu gwrthod.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhinweddau arbennig ar gael

- Cynllun Rheoli AHNE Llyn: https://www.ahne-llyn-aonb.org/7/cy-GB/Rheoli-r-AHNE
- Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn (2105-2020): https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cefn-Gwlad/Adolygiad-Cynllun-Rheoli-2015-2020-AHNE-Ynys-Môn.pdf
- Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Adolygiad-o-ATA-yng-Ngwynedd-a-Môn-(DC.008).pdf

---

3 https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-(DC.020).pdf

4 https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Angesey-Landscape-Strategy---Update-2011-(DC.011).pdf

5 https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Gwynedd-Landscape-Strategy-Update-2012-(DC.010).pdf

6 https://landmap-maps.naturalresources.wales/

## 3.3 Ystyriaethau Iaith Gymraeg

(Polisi PS 1; Polisi PS 5 maen prawf 4)

3.3.1 Mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trigolion ac ymwelwyr yn ardal y Cynllun. Pan fo datblygiad yn cael ei gynnig, rhaid ystyried cyfoethogi a gwarchod yr iaith a'r diwylliant. Mae Polisi Strategol PS1 yn nodi'r cyd-destun ar gyfer yr asesiad o effaith bosib y cynigion ar yr iaith a diwylliant (gweler Atodiad 1).

3.3.2 O ran datblygiadau twristiaeth, bydd angen Datganiad Iaith Gymraeg fydd yn gwarchod, hyrwyddo a chyfoethogi'r iaith Gymraeg o ran y cynigion mwy sy'n ymwneud â chyflogi mwy na 50 o bobl ac/neu gydag ardal o 1,000 metr sgwâr. Bydd disgwyl i'r holl gynigion, waeth beth fo'u math, eu maint na'u lleoliad, gydymffurfio â maen prawf 4 a 5 o PS1 sef y gofyn am gynllun arwyddion dwyieithog i ymdrin â'r holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnig mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chan gwmnïau masnachol a busnesau. Disgwylir i enwau Cymraeg presennol gael eu cadw ac i enwau Cymraeg priodol gael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd.

3.3.3 Noda Maen Prawf 3 PS1 y bydd Cynghorau yn gwrthod cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned na ellir ei osgoi na'i liniaru'n addas gan fecanweithiau cynllunio priodol.

3.3.4 Gweler gwybodaeth bellach ar yr uchod yn y CCA "Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy".

DRAFFT TERFYNOL

## 4.0 Llety Gwyliau Gwasanaeth a Hunan-wasanaeth Parhaol

Mae Polisi TWR 2: Llety Gwyliau (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu cyfleusterau llety gwyliau gwasanaeth a hunanwasanaeth parhaol newydd neu ymestyn rhai presennol. Mae'r prif ystyriaethau polisi fel a ganlyn:

- Math o Unedau
- Graddfa'r datblygiad
- Trosi adeiladau presennol
- Tir addas a dd atblygwyd eisoes
- Estyniadau i ddatblygiadau llety gwyliau parhaol presennol
- Gorddarpariaeth o ddatblygiadau gwyliau hunan-arlwyo parhaol
- Amodau Cynllunio

### 4.1 Math o unedau

4.1.1 Mae'r mathau o unedau sydd yn cael eu hystyried o dan y polisi yma yn cynnwys adeiladau parhaol sy'n cael eu hadeiladu ar y safle dros gyfnod o amser yn hytrach na chael eu cario yno fel uned rhagsaerniol (prefabricated), ble fo yna gysylltiad ffisegol ynghlwm a'r ddaear a ble fo'r adeiladwaith yn awgrymu elfen o sefydlogrwydd sy'n golygu y byddai rhaid dymchwel (yn hytrach nag ddatgymalu) a ni ellir eu hailadeiladu mewn mannau eraill.

### 4.2 Graddfa'r datblygiad

4.2.1 Noda Maen Prawf ii TWR 2 y dylai graddfa pob datblygiad arfaethedig fod yn briodol gan ystyried y safle, y lleoliad a/neu'r anheddiad dan sylw. Er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth lawn i gymeriad y safle a'r ardal o'i amgylch a pherthynas bresennol neu bosib y safle gydag unrhyw bwyntiau gweledol, golygfeydd neu adeiladau hanesyddol pwysig ac ati. Dylai'r asesiad hwn fod yn gymesur â graddfa a chyd-destun y cynigion. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, disgwylir y bydd datblygiadau newydd ar raddfa fawr wedi'u lleoli o fewn aneddiadau presennol neu ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen, sydd â seilwaith i wasanaethu'r datblygiad yn barod, a gwarchod cefn gwlad agored rhag datblygiad amhriodol. Mae'r ffactorau i'w hystyried wrth asesu graddfa cynnig yn cynnwys:

1. Bod y safle o faint digonol ar gyfer y cynnig heb gyfaddawdu unrhyw ddarpariaeth briodol o gyfleusterau atodol megis tirlunio meddal ac ardaloedd parcio a gwasanaethu. (Gweler polisi PCYFF4, Atodiad 1).
2. Bod graddfa'r datblygiad yn cydweddu ac yn ffitio'n gyfforddus i'w amgylchfyd (Gweler polisi PCYFF 3, Atodiad 1).
3. Yn unol ag egwyddorion hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, mae'n bwysig lleoli datblygiadau graddfa fawr (gan gynnwys rhai ar safleoedd a ddatblygwyd eisoes), a allai gynyddu nifer y siwrneiau a wneir gan gerbydau preifat, mor agos â phosib i'r canolfannau gwasanaeth sydd wedi'u hadnabod yn hierarchaeth aneddiadau'r cynllun, neu o fewn pellter cerdded diogel rhesymol iddynt, a/neu o fewn pellter cerdded rhesymol i gyfnewidfeydd neu lwybrau cludiant cyhoeddus, pan fo hynny'n bosib. Wrth asesu agweddau cludiant cynigion bydd yr ACLl yn cydbwyso'r angen swyddogaethol am leoliad y cynnig a'i fudd i'r economi leol yn erbyn yr angen i hyrwyddo'r dulliau cludiant mwyaf cynaliadwy.
4. Nad yw graddfa'r datblygiad yn effeithio'n andwyol ar gymeriad diwylliannol y gymuned leol ond yn gymesur i faint a chymeriad unrhyw adeiladau/busnes neu anheddiad sydd wedi'i leoli'n gyfagos.



DRAFFT TERFYNOL

### 4.3 Trosi adeiladau presennol

4.3.1 Wrth asesu ceisiadau cynllunio ar ailddefnyddio neu addasu adeilad i lety gwyliau gwasanaeth neu hunanwasanaeth, y brif ystyriaeth fydd p'un a yw natur a graddfa'r defnydd newydd a gynigir ar gyfer yr adeilad yn dderbyniol mewn termau cynllunio. Fe ellir gweld gwybodaeth bellach yn yr CCA "Addasu Adeiladau Gwledig yng Nghefn Gwlad".

4.3.2 Mae'r hyn a ganlyn yn rhestr o faterion a ystyrir er mwyn asesu addasrwydd yr adeilad i'w ddefnyddio yn benodol fel llety gwyliau:

i. Mae'r adeilad yn strwythurol gadarn ac mae modd ei drosi heb waith ailadeiladu mawr neu ailadeiladu'n llwyr, estyniadau mawr neu addasiadau mawr;
ii. Mae'r adeilad yn addas ar gyfer y defnydd penodol;
iii. Bod unrhyw nodweddion teilwng sydd yn yr adeilad yn cael eu cadw a bod unrhyw nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol yn cael eu diogelu;
iv. Gwarchod buddion bioamrywiaeth fel ystlumod;
v. Nad yw'r trosiad yn arwain at effeithiau annerbyniol ar strwythur, ffurf, cymeriad neu osodiad pan fo'r adeilad o ddiddordeb hanesyddol ac/neu bensaernïol;
vi. Mae'r trosiad yn parchu cymeriad, graddfa a gosodiad yr adeilad presennol;
vii. Mae eu ffurf, swmp a'r dyluniad cyffredinol yn cydweddu â'r ardal o'u cwmpas;
viii. Nid yw'r trosiad yn arwain at wasgaru gweithgarwch ar y fath raddfa fel ei fod yn cyfaddawdu bywiogrwydd trefi a phentrefi;
ix. Yr angen am wasanaethau newydd yn yr eiddo;
x. Er na fyddai angen ystyried fel arfer p'un a oes angen yn parhau am yr adeilad ar gyfer ei ddibenion cyfredol, byddai'n briodol ymchwilio (a) hanes yr adeilad i sefydlu p'un a gafodd erioed ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion yr honnwyd iddo gael ei adeiladu, ac/neu (b) effaith ei golli ar eiddo cyffiniol / cyfagos (e.e. colli unrhyw adeiladau cwrtil);
xi. Cydweddiad y defnydd arfaethedig â defnyddiau eiddo presennol cyffiniol / gerllaw o ran sŵn, aflonyddwch traffig, diffyg preifatrwydd ar gyfer unrhyw eiddo cyffiniol / gerllaw;
xii. Effaith yr adeilad presennol ar y dirwedd o ran mwynderau gweledol a p'un a fyddai'r cynnig yn sicrhau gwelliant yn ymddangosiad allanol yr adeilad.
xiii. Ni fyddai'r bwriad yn niweidio mwynderau'r gymdogaeth,

4.3.3 Rhaid i unrhyw gais i drosi adeilad presennol gynnwys arolwg strwythurol llawn gan berson cymysgedig sydd yn nodi bod yr adeilad yn strwythurol addas i gael ei drosi heb waith ailadeiladu, addasu ac estyniadau sylweddol. Fe fydd rhaid i'r arolwg strwythurol gyfeirio at y cynlluniau arfaethedig h.y. fod yr adeilad yn gallu ymdopi a'r gwaith a fwriedir, ac fe ddylid cynnwys pyllau arbrawf (trial pit) er mwyn sicrhau fod y materion sylfaenol yn wybyddus, e.e. pa fath o sylfaen sy'n bodoli, oes angen ategion (underpinning) ayyb.

4.3.4 Gweler canllawiau pellach mewn canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Noda baragraff 3.2.1 NCT 23: Datblygiad Economaidd[7] bod gan ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig sy'n bodoli eisoes rôl bwysig i'w chwarae mewn diwallu anghenion ardaloedd gwledig ar gyfer datblygiadau masnachol a diwydiannol, a thwristiaeth, chwaraeon a hamdden. Wrth gydnabod hyn, mae disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu dull cadarnhaol o weithredu wrth drawsnewid adeiladau gwledig at

[7] http://gov.wales/docs/desh/policy/140207tan-23-economic-development-cy.pdf



DRAFFT TERFYNOL

ailddefnydd busnes, yn enwedig yr adeiladau hynny sydd wedi'u lleoli ar gampysau adeiladau fferm neu wrth eu hymyl.

## 4.4 Tir addas a ddatblygwyd o'r blaen

4.4.1 O ran cynigion am atyniadau newydd i ymwelwyr a llety gwyliau gwasanaeth a hunanwasanaeth, bydd rhaid i bob cynnig datblygu fod wedi'i leoli naill ai o fewn ffin ddatblygu neu ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen. Mae'r CDLl ar y Cyd yn defnyddio'r diffiniad o dir a ddatblygwyd o'r blaen a welir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016: Ffigur 4.4) sy'n nodi:

> Tir a ddatblygwyd o'r blaen yw tir y mae arno neu yr oedd arno adeiladwaith parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog yn gysylltiedig ag ef. Cynhwysir cwrtil (gweler nodyn 1 isod) y datblygiad, ac adeiladau diogelwch hefyd, a thir a ddefnyddiwyd i gloddio mwynau a gwaredu gwastraff (gweler nodyn 2 isod) lle na wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer ei adfer drwy weithdrefnau rheoli datblygu.
>
> Ni chynhwysir y rhain yn y diffiniad:
>
> - tir ac adeiladau a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth;
> - tir mewn ardaloedd adeiledig nas datblygwyd o'r blaen – e.e. parciau, meysydd chwaraeon a rhandiroedd – hyd yn oed pe bai'r ardaloedd hyn yn cynnwys rhai nodweddion trefol fel llwybrau, pafiliynau ac adeiladau eraill;
> - tir lle mae olion unrhyw adeiladwaith neu weithgaredd wedi ymdoddi i'r dirwedd gydag amser fel gellir ystyried yn rhesymol eu bod yn rhan o'r amgylchedd naturiol;
> - tir a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cyfrannu at gadwraeth natur a hynny i raddau a allai fod yr drech na'r angen am ailddefnyddio'r safle;
> - tir a ddatblygwyd o'r blaen a ddefnyddiwyd wedyn fel amwynder.
>
> **Nodiadau**:
>
> 1. Y diffiniad o gwrtil yw'r darn o dir sydd ynghlwm wrth adeilad. Diffinnir yr holl dir oddi mewn cwrtil y safle hefyd fel tir a ddatblygwyd o'r blaen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai holl arwynebedd y cwrtil gael ei ailddatblygu. Er enghraifft, pan nad yw troed adeilad ond yn cymryd cyfran o safle, ac y mae'r gweddill ohono'n dir agored (ysbyty er enghraifft), fel rheol ni ddylid datblygu'r safle cyfan hyd at derfyn y cwrtil. Dylai'r awdurdod cynllunio lleol ddyfarnu ynghylch patrwm y safle yn y cyd-destun hwn, gan gadw mewn cof ystyriaeth cynllunio eraill megis polisïau i ddiogelu mannau agored a chaeau chwarae neu ddatblygu yng nghefn gwlad. Dylid ystyried ffactorau megis perthynas y safle â'r ardal o'i gwmpas a'r angen am fannau agored, lleiniau clustogi a mannau wedi eu tirweddu ar y safle.
> 2. Mae hyn yn ymwneud â safleoedd mwynau a gwastraff a fyddai heb eu hadfer fel arall ar ôl eu defnyddio, am nad oedd y caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn cynnwys amod i'w hadfer. Adferir pob safle arall o'r fath i statws maes glas, yn rhinwedd yr amod gynllunio.

4.4.2 Unwaith y sefydlir bod y datblygiad wedi'i leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (yn unol â'r diffiniad yn y blwch uchod), rhaid cynnal asesiad o'i addasrwydd. Mae'r ffactorau sy'n diffinio addasrwydd y tir a ddatblygwyd o'r blaen yn cynnwys:

- Lleoliad - gan fod y cynllun yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, ni ystyrir bod cynigion sy'n cynnwys datblygu ar ddatblygiad sydd wedi'i leoli'n wael yn alinio â dull y Polisi. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, disgwylir y bydd datblygiadau newydd wedi'u lleoli o fewn neu yn agos at aneddiadau presennol, sydd â seilwaith i wasanaethu'r datblygiad yn barod ac sy'n hygyrch drwy ddulliau cludiant cynaliadwy.

- Natur y tir a ddatblygwyd o'r blaen - yn aml, gellir ystyried datblygiad trefol (ei natur a'i ymddangosiad) yn y chefn gwlad agored yn rhywbeth estron yn ei amgylchfyd naturiol ac felly dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith gweledol/tirwedd datblygiad o'r fath, h.y. bydd adeiladau newydd sydd wedi'u lleoli uwchben llinell y crib neu sydd ar ben clogwyn/ lleoliad y crib neu sydd a fyddai fel arall yn nodwedd amlwg annerbyniol yn y dirwedd. Dylid sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol fwy ar gymeriad ac ar ba mor agored yw'r ardal o gwmpas o gymharu â'r tir a ddatblygwyd o'r blaen.

4.4.3 Rhaid i bob cais i ddymchwel ac ailadeiladu adeilad presennol gynnwys arolwg strwythurol er mwyn asesu cyflwr strwythurol yr adeilad presennol i ganfod p'un a oes modd ei drosi ai peidio. Nid bwriad y polisi yw caniatáu i adeilad strwythurol cadarn gael ei ddymchwel er mwyn creu tir llwyd newydd.

## 4.5 Estyniadau i ddatblygiadau busnes llety gwyliau parhaol presennol

4.5.1 Rhaid i unrhyw gais am estyniadau i ddatblygiadau llety gwyliau parhaol presennol brofi bod cysylltiad sefydlog rhwng y datblygiad arfaethedig a phresennol, h.y. ei fod yn ffurfio rhan o’r un uned cynllunio, rhaid bod yn rhan o'r un busnes a bod y cais i ymestyn y busnes llety gwyliau yn rhan o gynllun ehangach i wella'r cynnig busnes a thwristiaid yn ardal y Cynllun.

4.5.2 Rhaid i raddfa a dyluniad y datblygiad arfaethedig fod yn gymesur a’r busnes presennol.

## 4.6 Diffinio gorddarpariaeth

4.6.1 Mae nifer uchel o lety gwyliau neu grynodiad o lety gwyliau mewn ardal benodol yn gallu cael effaith andwyol ar wead cymdeithasol y cymunedau hynny. Mae Polisi TWR 2 (maen prawf 5) yn nodi’n eglur na ddylai unrhyw ddarpariaeth o lety gwyliau arwain at ‘ormodedd’ o lety gwyliau mewn ardal benodol.

***Diffinio’r mathau o unedau sydd angen eu hystyried***

4.6.2 Wrth ystyried gorddarpariaeth o lety gwyliau hunanarlwyo fe ddylid rhoi ystyriaeth i’r ddarpariaeth a’r amrediad o lety gwyliau parhaol hunan arlwyo sydd ar gael. Mae’r enghreifftiau o’r math yma o lety yn cynnwys llety gwyliau hunanarlwyo (gan gynnwys Airbnb) ynghyd a llety gwyliau pwrpasol (hynny yw unedau parhaol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn bwrpasol ar gyfer defnydd gwyliau). Ymhellach, nodir y dylid hefyd rhoi ystyriaeth i’r gyfradd o ail-gartrefi o fewn cymuned. Mae’r ‘materion’ sydd yn gysylltiedig ag effaith ail-gartrefi ar gymunedau yn aml yn cyd-fynd a’r materion yn gysylltiedig â ‘llety gwyliau hunanarlwyo’ er enghraifft gall lefelau uchel o ail gartrefi ynghyd a llety gwyliau olygu:-

- Diffyg cyflenwad o dai er mwyn cwrdd â’r angen lleol;
- Effaith ar wasanaethau lleol, mwynderau trigolion lleol a’r gymuned;

DRAFFT TERFYNOL

- Diffyg poblogaeth segur er mwyn cynnal a chefnogi cyfleusterau cymunedol lleol;
- Cyfleoedd gwaith tymhorol yn unig;
- Effaith ar y prisiau tai lleol.

***Ardal***

4.6.3 Fe ddylid ystyried y ddarpariaeth o lety gwyliau o fewn yr ardal/anheddle mae'r bwriad wedi ei leoli ynghyd a'r ardal ehangach. Mae ffigyrau treth cyngor o ran ail-gartrefi a llety gwyliau annomestig (treth busnes) yn seiliedig ar ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn rhai achosion, yn enwedig ardaloedd gwledig sydd yn ymylu a neu yn amlwg yn cael ei ddylanwadu gan gyngor cymuned/tref/dinas gyfagos bydd yn briodol rhoddi ystyriaeth i'r lefel o ddarpariaeth yn yr ardal hynny yn ogystal. Ymhellach, gall enghreifftiau o achosion godi ble fo yna nifer uchel o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn eithriadau o'r fath gall yr ACLl ystyried y ddarpariaeth leol (hynny yw tu hwnt i lefel Cyngor Cymuned Tref/Dinas) os ystyrir yn briodol a theg i wneud hynny.

***Ffynonellau gwybodaeth***

4.6.4 Dylid defnyddio gwybodaeth Treth Cyngor ynghyd ac unrhyw wybodaeth sydd yn deillio o'r Arolwg Llety Gwlâu perthnasol wrth geisio casglu gwybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth bresennol o lety gwyliau ac ail-gartrefi. Er mwyn sicrhau fod y wybodaeth gywir a chyfredol yn cael ei ddefnyddio, anogir ymgeiswyr i gysylltu hefo'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn derbyn arweiniad.

4.6.5 Wrth asesu os oes yna orddarpariaeth o lety gwyliau, fe ddylid ystyried y canlynol:-

- Oes yna wasgariad cyson o lety gwyliau ar draws ardal - Mae darpariaeth o lety gwyliau sydd wedi ei ddosbarthu'n gyson ar draws ardal yn fodd o sicrhau nad yw'n arwain at bocedi o eiddo gwag yn ystod y gaeaf ac yn sicrhau nad oes yna ormod o bwysau ar wasanaethau ac isadeiledd lleol yn ystod y tymor brig;

- Effaith cymdeithasol-diwylliannol - Gall treiddiad o lety gwyliau i ardal sydd yn draddodiadol yn ardal breswyl arwain at newid yn werthoedd ac ymddygiad pobl ac yn sgil hynny colli eu hunaniaeth ddiwylliannol.

- Effaith ar fwynderau trigolion lleol, e.e. cwynion yn ymwneud a sŵn, aflonyddwch, cynnydd mewn traffig ayyb.

- Diffyg cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol - Busnesau lleol yn darparu ar gyfer anghenion ymwelwyr yn fwy nag anghenion y trigolion lleol ac yn agor yn dymhorol yn unig.

- Pwysau ar isadeiledd lleol – Gallu a capasiti yr isadeiledd lleol i ymdopi yn ystod y tymor brig.

- Nifer o lety gwyliau - Ni roddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau ar gyfer llety gwyliau hunanwasanaeth pan fo cyfuniad o'r nifer presennol o lety gwyliau ac ail gartrefi o fewn ardal y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas yn uwch na 15%. Dylid defnyddio gwybodaeth Treth Cyngor fel y ffynhonnell wybodaeth er mwyn canfod y wybodaeth yma. Gall eithriadau godi, ble ystyrir fod yna lefel uchel (mwy na 15%) o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Efallai,

DRAFFT TERFYNOL

mewn achosion o’r fath y bydd angen rhoi ystyriaeth i’r ddarpariaeth tu hwnt i lefel y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas.”

4.6.6 Cydnabyddir fod yno rai amgylchiadau eithriadol yn gallu codi ble fo yno fanteision amlwg i ganiatáu llety gwyliau mewn ardal sydd eisoes hefo nifer uchel o lety gwyliau ac ail-gartrefi (tu hwnt i’r trothwy o 15%). Mae’r achosion eithriadol hyn yn cynnwys:

- Menter sydd yn gysylltiedig â arallgyfeirio gwledig. Byddai angen profi fod y bwriad yn gysylltiedig â menter wledig (yn unol â diffiniad Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy) sydd yn bodoli eisoes a bod y bwriad yn cyfrannu at gynnal y fenter hynny. Dylai unrhyw fenter o’r fath (yr eithriad) olygu trosi adeilad(au) traddodiadol segur sydd yn strwythurol gadarn yn hytrach na datblygiadau newydd. Ymhellach fe ddylai’r bwriad gael ei glymu’n gyfreithiol i’r fenter wledig sydd yn bodoli.
- Bwriad a fyddai’n golygu cadw a gwneud defnydd amgen o adeilad rhestredig sydd o werth hanesyddol.

***Y cynllun busnes***

4.6.7 Ni ddisgwylir i'r Cynllun Busnes fod yn ddogfen faith a chymhleth, fodd bynnag, bydd angen gwybodaeth fanwl wedi'i chefnogi gan wybodaeth feintiol ac ansoddol (fel sy'n berthnasol). Yn ogystal, mae angen i lefel y manylion/gwybodaeth a ddisgwylir i fod wedi'i chynnwys yn y Cynllun Busnes fod yn gymesur â'r cynnig. Dylid cynnwys ac atodi tystiolaeth sy'n cefnogi unrhyw ragdybiaethau yn y Cynllun Busnes fel sy'n briodol yn y Cynllun.

4.6.8 Dylai'r Cynllun Busnes gael ei baratoi gan unigolyn/cwmni cymwys. Er enghraifft, gallai'r rhai sy'n ymgymryd â'r Cynllun Busnes fod yn Bensaer, Cynlluniwr Proffesiynol, Syrfëwr Siartredig, Ymgynghorydd Ariannol neu'n arbenigwr yn y maes twristiaeth (neu gyfuniad o'r unigolion hyn) gyda mewnbwn yr ymgeisydd o ran gweledigaeth y busnes ar gyfer y dyfodol. Dylai’r 'Cynllun Busnes' nodi'n glir pwy sydd wedi ymgymryd â'r Cynllun ynghyd â chymhwyster yr unigolyn o ran ymgymryd â'r gwaith.

4.6.9 Bydd yr holl Gynlluniau Busnes yn cael eu hasesu gan y Swyddog Cynllunio mewn ymgynghoriad â swyddogion cymwys yn y Cyngor. Efallai y bydd angen cymorth pellach gan arbenigwyr allanol a hynny ar gost yr ymgeisydd.

4.6.10 Er mwyn rhoi cyngor i ymgeiswyr o ran pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y Cynllun Busnes, mae templed wedi'i gynnwys yn atodiad 4. Noder nad yw'r templed yn gynhwysfawr ond mae'n rhoi arweiniad ar y math o wybodaeth sydd ei hangen. Mae'r templed hwn yn addasiad o ganllawiau a roddir gan Fusnes Cymru https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/cynllun-busnes

## 4.7 Ceisiadau i ddileu Amodau Deiliadaeth

4.7.1 Gosodir amod cynllunio ar bob cais yn nodi mae ar gyfer defnydd llety gwyliau yn unig y bydd yr eiddo’n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Mae nifer o'r adeiladau hyn wedi'u lleoli yng nghefn gwlad agored, ymhell oddi wrth aneddiadau a nodwyd yn y CDLl ar y Cyd, mewn ardaloedd ble na fyddai datblygiadau anheddol fel arfer yn cael ei ganiatáu. Os dderbynnir tystiolaeth rymus yn profi fod yr eiddo bellach ddim yn hyfyw fel llety gwyliau yn unol â chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, bydd angen ymgymryd â phrawf dilyniannol er myn rheoli meddiannaeth yr eiddo. Yn y lle cyntaf, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos rhesymau cynllunio cadarn na ellir addasu’r eiddo ar gyfer defnydd cyflogaeth amgen. Yna, os gellir profi nad oes yna



DRAFFT TERFYNOL

ddefnyddiau cyflogaeth amgen ar gyfer yr adeilad yna fe allai o bosib fod yn addas ar gyfer gweithwyr sydd yn gweithio mewn menter wledig yn lleol ac nad oes yna unrhyw anheddau sy'n bodoli eisoes ar gael ar gyfer y mentrau hyn (yn amodol ar ganiatâd cynllunio).

4.7.2 Yn olaf, os yw'r ACLl yn fodlon nad oes dim gweithwyr menter wledig gymwys sy'n chwilio am lety, bydd y cymhwysedd yn cael ei ymestyn i bobl leol a fyddai'n gymwys i'w hystyried ar gyfer tai fforddiadwy. Yn y cyswllt hwn, dylid derbyn barn ar y Gwasanaeth Tai mewn perthynas a'r angen lleol am dai fforddiadwy.

4.7.3 Oherwydd y rhesymau yma fe gyfyngir meddiannaeth yr eiddo fel a chanlyn:
Bydd yr uned(au) gwyliau yn cael ei meddiannu ar gyfer defnyddiau gwyliau yn unig a ni fydd yn cael ei feddiannu fel unig neu brif fan preswyl yr unigolyn. Dylai perchnogion / gweithredwyr yr uned(au) gwyliau gadw cofrestr gyfredol yn cofnodi enwau'r holl berchnogion/meddianwyr yr uned(au) gwyliau ar y safle ac o'r prif gyfeiriad cartref ac fe ddylem sicrhau fod yr wybodaeth ar gael ar bob amser rhesymol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Os gellir dangos nad yw'r defnydd gwyliau bellach yn hyfyw mwyach, ystyrir y defnydd a ganlyn:

a) defnydd cyflogaeth amgen addas, neu gael ei feddiannu gan berson yn unigol neu yn bennaf ar fenter wledig yn yr ardal leol; lle mae/lle'r oedd angen swyddogaethol wedi'i ddiffinio; neu os gellir dangos nad oes unrhyw ddefnydd cyflogaeth amgen cymwys iddo:
b) I'r rhai fyddai'n gymwys i'w hystyried ar gyfer tai fforddiadwy o dan bolisïau tai'r awdurdod lleol; neu os gellir dangos nad oes unigolion yn gymwys ar gyfer meddiannaeth o dan (a);
c) gweddwon, gwŷr gweddw neu bartneriaid sifil o'r uchod ac unrhyw ddibynyddion y preswylwyr.

4.7.4 Ni ddylai maint yr unedau gwyliau newydd neu sy'n cael ei drosi fod yn ormodol o ran ei faint neu efallai na fyddai'n fforddiadwy, os ar gyfer pwy bynnag reswm fod y llety gwyliau ddim bellach yn hyfyw. Sylwer fod hyn yn berthnasol i eiddo sy'n cael eu adnabod fel defnydd C3 yn y gorchymyn dosbarth defnydd.

## 4.8 Newid Defnydd Gwestai Presennol

4.8.1 Mae maen prawf 2 o Bolisi Strategol PS 14: Yr Economi Ymwelwyr yn nodi y bydd y Cynghorau yn cefnogi cynigion datblygu ar gyfer sector dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn drwy warchod a gwella'r ddarpariaeth o lety gwasanaethol. Bydd ceisiadau ar gyfer newid defnydd gwestai yn cael eu gwrthod oni bai fod yna dystiolaeth gadarn yn cael ei gyflwyno sydd yn datgan fod y gwesty ddim bellach yn hyfyw.

4.8.2 Os yw'r gwesty yn wag a ddim bellach yn gweithredu fel busnes fe ddylai'r ymgeisydd brofi fod yna ymdrech gwirioneddol wedi bod i farchnata'r uned am gyfnod o leiaf 12 mis ar gyfer defnydd gwesty.

4.8.3 Dylai'r dystiolaeth gynnwys copïau o'r hysbysiad marchnata/gwerthu o'r gwesty ynghyd a chadarnhad ysgrifenedig gan yr arwerthwr gwerthu mewn perthynas â'r diddordeb/cynigion sydd wedi bod. Dylid sicrhau fod y strategaeth marchnata i werthu'r busnes wedi targedu'r farchnad fwyaf addas h.y. y defnydd o asiantau arbenigol sydd hefo profiad o farchnata a gwerthu gwestai.

DRAFFT TERFYNOL

4.8.4 Wrth ystyried cynigion a fyddai'n arwain at newid defnydd gwestai, fe fydd yn angenrheidiol derbyn tystiolaeth ariannol fod y busnes presennol ddim yn hyfyw. Dylid cyflwyno Adroddiad Ariannol sydd yn profi fod y busnes ddim yn ariannol hyfyw mwyach a ni ddisgwylir y gallai fod yn economaidd hyfyw yn y dyfodol.

DRAFFT TERFYNOL

## 5.0 Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol

Mae Polisi TWR 3: Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu safleoedd newydd neu ymestyn rhai presennol. Mae'r prif ystyriaethau polisi fel a ganlyn:

- Math o unedau
- Datblygiadau ar wahân
- Ceisiadau am unedau sengl ar wahân
- Dwysâd arwyddocaol
- Ardaloedd rheoli newid arfordirol
- Defnyddio carafanau sefydlog a siales er dibenion preswyl

### 5.1 Math o Unedau

5.1.1 Y math o unedau sy'n dderbyniol dan y polisi hwn yw unedau y mae modd eu datgymalu a'u hail-adeiladu rywle arall os oes angen, gan gynnwys unedau parod nad oes gofyn am lawer o waith adeiladu arnynt ar y safle.

- Carafán - strwythur a ddyluniwyd fel trigfan i fodau dynol y gellir ei symud o un lle i'r llall fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960 (a addaswyd gan Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968).

- Sialé - uned barod lled-barhaol un-llawr y gellir ei datgymalu a'i hailadeiladu rywle arall.

- Llety Gwersylla Amgen Parhaol - Mae'r rhain yn unedau, yn sgil pa mor barhaol ydyn nhw, eu hymlyniad ffisegol i'r ddaear ac yn sgil natur eu dyluniad, na ellir eu tynnu'n gyfan oddi ar y safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

### 5.2 Datblygiadau ar wahân

5.2.1 Ni ystyrir bod ceisiadau am garafanau neu siale sengl ar wahân a leolir mewn cae neu o fewn cwrtil annedd breswyl heb unrhyw gyfleusterau cysylltiedig yn ddatblygiad o ansawdd uchel ac felly nid ydynt yn alinio â Pholisi TWR 3. Nid yw'r mathau hyn o ddatblygiadau yn cyfoethogi math ac ansawdd y cynnig twristiaeth yn ardal y cynllun ac fe all effeithiau cronnus y fath ddatblygiadau gael effaith negyddol ar y dirwedd.

### 5.3 Dwysâd arwyddocaol

5.3.1 Mae Polisi TWR 3 yn nodi mai'r unig adeg y caniateir cynigion am ddatblygiadau carafanau sefydlog neu sialé y tu allan i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yw pan fo'r cynnig yn cydymffurfio â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn y polisi. Noda'r maen prawf cyntaf fel a ganlyn:-

*"i) gellir profi nad yw'n arwain at ormodedd o safleoedd carafanau sefydlog neu safleoedd sialé neu safleoedd llety gwersylla amgen parhaol yn yr ardal leol."*

5.3.2 Er mwyn diffinio 'gormodedd' o fewn cylch gwaith Polisi TWR 3, mae'r eglurhad i'r Polisi yn cyfeirio at 'Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd

DRAFFT TERFYNOL

a Pharc Cenedlaethol Eryri' (Gillespies, 2014) [8]. O fewn yr astudiaeth mae pob 'Ardal Cymeriad y Dirwedd' (fel y'i diffinnir gan Strategaeth Tirwedd Ynys Môn[9] a Strategaeth Tirwedd Gwynedd[10]) yn cael ei hasesu i bennu capasiti cyffredinol y dirwedd ar gyfer datblygiadau parciau carafán a sialé pellach. Wrth ystyried ceisiadau am ddatblygiadau newydd, dylid felly gyfeirio at gapasiti'r dirwedd leol fel y'i nodir yn yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd.

5.3.3 Mae'r tablau yn Atodiad 3 yn nodi'r teipoleg amrywiol ar gyfer datblygiadau parciau carafán a sialé ynghyd â chapasiti a sensitifrwydd cyffredinol ar gyfer pob Ardal Cymeriad y Dirwedd. Mae'r mapiau yn Atodiad 3 yn dangos pob Ardal Cymeriad y Dirwedd a'u capasiti ar gyfer datblygiadau carafanau sefydlog a sialé.

## 5.4 Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol

5.4.1 Mae Cynlluniau Rheoli'r Draethlin (CRhT) yn cael eu datblygu gan Grwpiau Arfordirol gydag aelodau o gynghorau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd (bellach yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru). Maent yn adnabod y dull mwyaf cynaliadwy o reoli'r risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol i'r morlin yn y:

- tymor byr (hyd at 2025)
- tymor canolig (2026 hyd 2055)
- hirdymor (2056 hyd 2105)

Mae CRhT2 Gorllewin Cymru[11] yn ymdrin ag ardal y cynllun ac yn darparu asesiad graddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosesau arfordirol yn ystod y cyfnodau uchod a dyma'r brif ffynhonnell o dystiolaeth i ddiffinio ardaloedd rheoli newid arfordirol. Mae'n gosod amrediad o bolisïau ar gyfer y morlin sy'n

- Dal y llinell
- Dim Ymyrryd Gweithredol
- Ad-drefnu wedi ei Reoli

5.4.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol gynorthwyo i leihau'r risg o lifogydd ac effaith erydu arfordirol trwy osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd bregus. Diffinnir Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARNA) pan fo'r polisi cynllun rheoli traethlin a dderbynnir yn un ar gyfer 'dim ymyrryd gweithredol' neu 'ad-drefnu wedi'i reoli' yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae Atodiad 5 yn darparu atodlen o ardaloedd arfordirol a ddiffinnir fel yr ARNA. Yr ardaloedd arfordirol sydd wedi'u cynnwys yn yr ARNA yw'r rhai pan fo CRhT 2 yn nodi dull polisi 'dim ymyrryd gweithredol' neu 'ad-drefnu wedi ei reoli' naill ai hyd at 2015 neu rhwng cyfnodau polisi 2026 a 2055 neu'r ddau gyfnod polisi.

5.4.3 Nid yw Polisi TWR 3 yn caniatáu ar gyfer unedau newydd yn yr AHNEau a'r ATAau. Fodd bynnag, noda maen prawf 2 y polisi, mewn amgylchiadau eithriadol, bod cynigion

DRAFFT TERFYNOL

8 https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-(DC.020).pdf

9 https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Angesey-Landscape-Strategy---Update-2011-(DC.011).pdf a Strategaeth Tirwedd Gwynedd

10 https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Gwynedd-Landscape-Strategy-Update-2012-(DC.010).pdf )

11 http://www.westofwalessmp.org/content.asp?nav=23&parent_directory_id=10

sy'n ymwneud ag ail-leoli safleoedd presennol sydd wedi'u lleoli yn barod yn yr AHNE neu'r ATA a'r ARhNA i safle arall y tu allan i'r ARhNA ar yr amod bod y safle newydd:

i. o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a'i fod wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu'r unedau yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; ac
ii. wedi'i leoli'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roddi i safleoedd tir llwyd.

### 5.5 Defnyddio carafanau sefydlog a siales er dibenion preswyl

5.5.1 Yn gyffredinol ystyrir bod carafanau a mathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol yn annerbyniol fel cartrefi parhaol. Fodd bynnag, mae'n bosib fod ganddynt rôl i'w chwarae wrth ddarparu llety tymor byr pan fo angen wedi'i brofi. Mae Polisi TAI 14: Defnydd Preswyl o Garafanau, Cartrefi Symudol a mathau eraill o Lety Nad Ydynt yn Barhaol yn darparu'r fframwaith polisi lleol i ymdrin â senarios o'r fath (gweler Atodiad 1).

5.5.2 Mae un o'r senarios posib yn cynnwys gwneud defnydd o garafanau a ffurfiau eraill o lety nad ydynt yn barhaol fel llety dros dro sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiect adeiladu sydd wedi'i gymeradwyo.

5.5.3 Mae angen ystyried y materion a ganlyn wrth asesu cynnig i ddefnyddio carafanau, cartrefi symudol neu ffurfiau eraill o lety nad ydynt yn barhaol fel llety preswyl dros dro:

1. Angen
   i. Mae angen y gellir ei ddangos am lety preswyl dros dro am gyfnod cyfyngedig o amser ac mae'r defnydd arfaethedig o garafanau, cartrefi symudol a ffurfiau eraill o lety nad ydynt yn barhaol yn ffurfio rhan o strategaeth letya gweithiwr adeiladu gadarn;
2. Lleoliad a hygyrchedd
   i. Nid yw'r safle arfaethedig wedi'i leoli o fewn AHNE neu Ardal Tirwedd Arbennig
   ii. Y tu allan i AHNE neu Ardal Tirwedd Arbennig, nid yw'r cynnig yn arwain at ormodedd sylweddol yn y ddarpariaeth o safleoedd carafanau sefydlog, sialé neu wersylla amgen parhaol yn yr ardal leol.
   iii. Mae'r safle arfaethedig wedi'i leoli o fewn pellter teithio a gytunwyd arno o'r prosiect adeiladu a gymeradwywyd ac a nodir yn y strategaeth lletya gweithiwr adeiladu.
   iv. Mae perthynas dda rhwng y safleoedd arfaethedig a'r aneddiadau presennol er mwyn hwyluso mynediad at wasanaethau a chyfleusterau megis iechyd a manwerthu.
   v. Mae'r safle arfaethedig wedi'i leoli'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac yn agos at ymgyfnewidfeydd cludiant cyhoeddus, llwybrau bysiau ac unrhyw barciau parcio a theithio / mannau codi er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat.
   vi. Gellir darparu mynediad digonol heb wneud niwed sylweddol i nodweddion y dirwedd
3. Math ac addasrwydd y llety a'r safle
   i. Rhaid i'r uned fod yn addas i'w meddiannu drwy gydol y flwyddyn o ran, er enghraifft, digon o wres, awyriad ac aerdymheru.
   ii. Rhaid pennu bod y safle yn addas i'w feddiannu drwy gydol y flwyddyn yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan allai tywydd garw achosi problemau.

DRAFFT TERFYNOL

iii. Mae'r datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac ymddangosiad ac mae wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol, sydd wedi'i sgrinio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd

5.5.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r defnydd o safleoedd carafanau teithiol, gwersylla neu wersylla amgen dros dro er defnydd preswyl dros dro yn cael ei hyrwyddo gan Bolisi TWR 5 gan nad ydyw safleoedd llety carafanau teithiol, pebyll a llety gwersylla amgen dros dro sy'n darparu lleiniau ar gyfer carafanau, ac ati, sy'n 'teithio', ar agor drwy gydol y flwyddyn ac ni phennir eu bod yn addas i'w meddiannu yn ystod misoedd y gaeaf.

DRAFFT TERFYNOL

## 6.0 Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro

Mae Polisi TWR 5: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu safleoedd newydd neu estyniadau i rai presennol. Mae’r prif ystyriaethau polisi fel a ganlyn:

- Math o Unedau
- Ystyriaethau Tirwedd
- Ystyriaethau Priffyrdd
- Cyfnodau Gweithredu
- Cyfleusterau Ategol
- Gor-ddefnydd o leiniau caled a nodweddion gwneud

### 6.1 Math o Unedau

6.1.1 Mae math o unedau sydd wedi'u cynnwys dan y polisi hwn yn cynnwys carafanau, cartrefi symudol, faniau gwersylla, pebyll a llety gwersylla amgen dros dro megis pebyll cloch a thipis. Fel arfer, mae gan yr unedau llety gwyliau sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn ofynion seilwaith ar ffurf blociau mwynderol gan nad yw sawl ffurf o'r unedau hyn yn cynnwys cyfleusterau megis toiledau, cawodydd a cheginau.

6.1.2 Mae unedau gwersylla amgen dros dro yn cael llai o effaith ar y dirwedd na'r llety gwersylla amgen parhaol (gweler paragraffau 5.1.1) ac fe ellir eu tynnu i lawr pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos sut fydd yr uned yn cael ei dynnu pam ddim mewn defnydd.

### 6.2 Ystyriaethau tirwedd

6.2.1 Er nad ydynt, yn aml, yn cael eu defnyddio am fwy na rhan o'r flwyddyn, mae'r safleoedd carafanau teithiol a gwersylla yn aml wedi'u lleoli mewn lleoliadau amlwg ac agored ac fe allant fod yn ymwthiol iawn mewn cefn gwlad agored, yn enwedig ar yr arfordir. Ceir ardaloedd sydd dan bwysau aruthrol mewn nifer o gymunedau sydd wedi’u lleoli ger yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o’r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. **Bydd angen rhoddi ystyriaeth briodol i effaith gronnol y bwriad. Fel rhan o’r ystyriaeth yn gysylltiedig a’r effaith gronnol** ~~B~~**b**ydd y Cyngor angen tystiolaeth i ddangos na fydd cynigion am fwy o unedau llety mewn ardaloedd o’r fath yn ychwanegu at broblemau gwasanaethu, ardrawiad traffig annerbyniol na niwed annerbyniol i gymeriad neu adnoddau naturiol yr ardaloedd hyn, ar ôl mesurau lliniaru.

6.2.2 Dywed canllaw polisi Cynllunio cenedlaethol na’r prif amcan wrth ddynodi ANHE yw gwarchod a gwella ei harddwch naturiol. Dylai polisïau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu sy’n effeithio ar ANHE ffafrio diogelu harddwch naturiol, er mai priodol hefyd fydd ystyried lles economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd. Mae gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill ac awdurdodau perthnasol eraill ddyletswydd statudol i barchu dibenion AHNE (PCC 5.3.5).

6.2.3 Mae gan y ddau AHNE cynlluniau rheoli sy’n nodi nodweddion a rhinweddau arbennig y dirwedd y dynodiad a sut bydd yn cael ei warchod a’i gwella. Bydd rhaid i bob datblygiad i mewn i’r AHNE (a’r ardaloedd sy’n cyfrannu at eu lleoliad) roddi ystyriaeth i’r rhinweddau arbennig yma (Polisi PS 19 a Pholisi AMG 1). Bydd ceisiadau sy’n cael effaith sylweddol ar y rhinweddau arbennig yn cael eu gwrthod (Polisi PS 19).

DRAFFT TERFYNOL

6.2.4 Mae graddfa'r datblygiad, lleoliad gwaith tirlunio, gosodiad y safle a sgrinio felly'n ystyriaethau pwysig wrth asesu cynigion am fathau amgen o lety gwersylla. Ym mhob achos, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cynllun tirlunio (Polisi PCYFF 4 – gweler adran 3.2). Gall ystyriaethau dylunio safle cynnwys:

- Osgoi defnyddio gosodiadau dwys â rhesi sydd wedi'u trefnu'n llym
- Dilyn patrwm y tirffurf, patrymau caeau, lleoliadau coed a nodweddion naturiol/diwydiannol eraill y safle ar gyfer integreiddio'r datblygiad yn gynaliadwy
- Defnyddio lliwiau naturiol er mwyn sicrhau integreiddio gweledol gwell o fewn y dirwedd
- Lleihewch effaith goleuadau nos. Defnyddiwch lampau gorchuddiedig er mwyn osgoi goleuo amlwg

## 6.3 Ystyriaethau priffyrdd

6.3.1 Mae'n bwysig bod safleoedd newydd wedi'u lleoli mor agos â phosib at y prif rwydwaith ffyrdd (h.y. ffyrdd dosbarth 'A' a 'B'). Yn gyffredinol, mae ffyrdd gwledig di-ddosbarth yn lonydd trac sengl ac maent yn cael eu hystyried yn anaddas ar gyfer llif traffig trwm. Ni chefnogir unrhyw gynnig pan fo'r Awdurdod o'r farn nad ydyw wedi'i leoli yn agos at y prif rwydwaith ffyrdd. Yn ogystal, mae'r ffyrdd hyn yn gyffredinol wedi'u ffinio â nodweddion naturiol/gwneud (e.e. waliau cerrig, cloddiau, gwrychoedd), sy'n bwysig i gymeriad gweledol ardaloedd gwledig. Er mwyn darparu mynediad addas o safleoedd newydd i'r ffyrdd hyn, efallai y bydd angen gwaredu nodweddion tirwedd bwysig. Mae pwysigrwydd nodweddion o'r fath yn cael eu nodi yn yr astudiaeth LANDMAP a bydd yr Awdurdod yn cael ei arwain gan ganfyddiadau'r astudiaeth hon. Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut maent wedi ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan yr astudiaeth LANDMAP (gweler paragraff 6.2.1).

## 6.4 Cyfnodau Gweithredu

6.4.1 Gellir caniatáu safleoedd teithiol, gwersylla a dros dro mewn ardaloedd ble na ellir cael safleoedd carafanau sefydlog, sialé a gwersylla amgen parhaol, h.y. AHNE ac ATA, oherwydd fe ellir eu hystyried yn dderbyniol mewn termau cynllunio defnydd tir fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y dirwedd na safleoedd sefydlog oherwydd, yn sgil eu natur, mae iddynt nodweddion diflanedig nad ydynt yn arwain at effeithiau parhaol, drwy gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Nid yw Polisi TWR 5 yn hyrwyddo datblygiad o 'safleoedd teithiol sefydlog' ble mae'r uned yn cael ei gadael yn barhaol ar y safle drwy gydol y tymor gwyliau ac yn cael ei defnyddio yn achlysurol gan ei berchennog ac ymwelwyr eraill. Drwy ganiatáu i'r unedau aros ar y safle bob blwyddyn fe fydd yn cael yr un effaith, o ran cynllunio defnydd tir a'r effaith weledol, â safle carafanau sefydlog neu siale newydd. Mae maen prawf 7 o bolisi TWR 4 yn nodi'n glir bod y safle yn cael ei ddefnyddio er dibenion teithio yn unig a bod unrhyw unedau'n cael eu tynnu o'r safle yn ystod cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd teithio newydd, gosodir amod cynllunio ar y caniatâd yn cyfyngu defnydd y safle i ddefnydd teithio yn unig.

6.4.2 Noda paragraff 6.3.87 gan fod cefn gwlad yn edrych mor wahanol yn ystod misoedd y gaeaf, y gosodir amod ar unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer yr holl safleoedd newydd a ganiateir, yn cyfyngu cyfnod gweithredu'r safle i rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref yn yr un flwyddyn.

## 6.5 Cyfleusterau ategol

DRAFFT TERFYNOL

6.5.1 Yn aml, mae angen blociau mwynderol (cawodydd, toiledau, golchdy ac ardaloedd cegin) i ategu safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a gwersylla amgen dros dro gan nad yw'r cyfleusterau hyn fel arfer wedi'u hymgorffori yn y llety ei hun. Mewn amgylchiadau o'r fath, yr hyn a ffafrir gyntaf ar gyfer y cyfleusterau hyn fyddai trosi adeiladau presennol addas (fel y nodwyd ym maen prawf polisi TWR 5). Os nad oes adeiladau addas ar gael, rhaid dangos yn glir yr angen am gyfleusterau ychwanegol, a rhaid iddynt fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad, wedi'i leoli mor agos â phosib at adeiladau cyfredol, sydd wedi'u sgrinio'n dda ac yn amodol ar ystyriaethau polisi perthnasol eraill, gan gynnwys yr effaith ar y dirwedd. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i raddfa a dyluniad cyfleusterau mwynderol fel eu bod yn gymesur a graddfa'r safle a ganiateir ac i sicrhau bod unrhyw effeithiau niweidiol ar y dirwedd ac ar yr amgylchedd yn cael eu lleihau.

6.5.2 Dylai cyfleusterau ategol fod yn gyfleusterau a rennir a ddim yn gyfleusterau unigol ar gyfer pob safle er mwyn lleihau'r effaith ar y dirwedd.

## 6.6 Gor-ddefnydd o leiniau caled a nodweddion gwneud

6.6.1 Er mwyn sicrhau y ceir yr effaith weledol leiaf ar y dirwedd, yn enwedig yn ystod y tymor pan maent ar gau pan nad oes unrhyw unedau ar y safle, dylai'r datblygiad arfaethedig osgoi gor-ddefnyddio lleiniau caled a nodweddion gwneud. Ble bo modd, dylid cymryd mesurau i adfer y safle hwn i'w gyflwr gwreiddiol pan nad ydyw'n cael ei ddefnyddio / yn ystod y tymor pan fo safleoedd ar gau.

6.6.2 Ni ystyrir y defnydd o leiniau caled ar gyfer pob uned deithiol yn briodol wrth iddynt ddod yn nodwedd barhaol ar y dirwedd. Mae safleoedd sydd angen gormodedd o leiniau caled oherwydd amgylchiadau lleol yn cael eu hystyried yn anaddas.

6.6.2 Mae'r CDLl ar y Cyd a'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol yn hyrwyddo'r defnydd o Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) (polisi PS5 CYFF 6: Cadwraeth Dŵr). Noda polisi PCYFF 4 y dylid defnyddio arwynebau athraidd.

DRAFFT TERFYNOL

## 7.0 Amodau Deiliadaeth

7.1 Mae ystadegau'n dangos bod natur gwyliau yn ardal y Cynllun wedi dod yn fwy amrywiol o ran eu lleoliad, eu tymor a'u hyd mewn blynyddoedd diweddar. Mae mwy o bobl yn dewis seibiannau byr y tu allan i fisoedd traddodiadol yr haf. Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol a lleol yn cydnabod pwysigrwydd cael economi twristiaeth gynaliadwy drwy gydol y flwyddyn.

7.2 Mae ymestyn y tymor yn arwain at sawl mantais o ran hyrwyddo'r economi twristiaeth a lleihau anfanteision staff tymhorol, gall y galw am lety gwyliau ddigwydd mewn ardaloedd ble byddai'r ddarpariaeth o dai parhaol yn groes i ganllawiau cynllunio cenedlaethol. Ym mhob achos, ni fydd defnyddio llety gwyliau o'r fath ar gyfer deiliadaeth barhaol, yn dderbyniol. Rhaid i lety gwyliau o bob math barhau ar gyfer y diben twristiaeth a fwriadwyd fel bo'r manteision economaidd ehangach yn cael eu diogelu. Defnyddir amodau cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth.

7.3 Mae Polisi TWR 4 yn caniatáu cynigion i ymestyn y tymor gwyliau ar yr amod:

- Y gellir dangos bod y llety yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau yn unig ac nad yw'n dod yn brif neu'n unig gartref y deilydd;
- Bod y llety **a'r** safle yn addas i'w meddiannu yn ystod misoedd y gaeaf;
- Na fyddai'r tymor estynedig yn cynyddu canlyniadau llifogydd eithriadol;
- Na fyddai'r tymor estynedig yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol.

7.4 Er mwyn sicrhau bod y llety gwyliau yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl i'r diben a fwriadwyd, rhaid i'r perchnogion gadw cofrestr gyfredol o enwau'r holl berchnogion/meddianwyr o'r unedau a'u prif gyfeiriad cartref a bod ar gael ar bob adeg resymol i'r awdurdod cynllunio lleol.

7.5 Gosodir amod deiliadaeth dymhorol ar yr holl gynigion nad ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi TWR4. Gosodir amodau deiliadaeth dymhorol ar gyfer yr holl safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a glampio dros dro.

DRAFFT TERFYNOL

## 8.0 Atyniadau a Chyfleusterau i Ymwelwyr

Mae Polisi TWR 1: Atyniadau a Chyfleusterau Twristiaeth (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr newydd neu estyniadau iddynt.

### 8.1 Lleoliad y Datblygiad

8.1.1 Mae’r polisi hwn yn anelu at annog datblygu atyniadau a chyfleusterau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel yn y llefydd iawn. Dylid lleoli atyniadau a chyfleusterau newydd, ble bo modd, oddi mewn i ffiniau datblygu lle gall ymwelwyr gael mynediad at ystod o wasanaethau trwy amrywiaeth o ddulliau teithio.

8.1.2 Mae'r polisi'n nodi ble nad oes cyfleoedd ar gael ar gyfer datblygu o fewn y ffin ddatblygu y byddai'r Awdurdod yn ystyried lleoliadau eraill fel a ganlyn:

i. Ailddefnyddio adeilad addas presennol - y tu allan i ffiniau datblygu, dylai cynigion yn gyntaf edrych ar ailddefnyddio adeiladau presennol. Gweler mwy o wybodaeth ynghylch trosi adeiladau presennol yn adran 5.2.
ii. Tir addas a ddatblygwyd o'r blaen - gweler adran 5.3
iii. Safle sydd â pherthynas agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaid presennol - gellir caniatáu datblygiadau i adeiladu o'r newydd mewn rhannau penodol o gefn gwlad agored os gellir dangos nad oes safleoedd dilyniannol a ffafrir o fewn ffiniau datblygu neu nad oes adeilad presennol addas i'w ailddefnyddio. Ar safleoedd y tu allan i aneddiadau presennol, ni fydd y Cynghorau ond yn cymeradwyo datblygiadau twristiaeth mewn amgylchiadau eithriadol pan fo'r ymgeisydd wedi medru dangos anghenion lleoliadol penodol a manteision economaidd fyddai'n cyfiawnhau cymeradwyo'r cynnig.
iv. Gweithgaredd sydd wedi'i chyfyngu i leoliad penodol yn sgil ei defnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol presennol neu ei agosrwydd at yr atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef - mae'r Cynllun yn cydnabod y bydd gan rai atyniadau a chyfleusterau i dwristiaid anghenion lleoliadol penodol megis llyn neu goetir. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i asesu ei agosrwydd at yr atyniad mae'n ymwneud ag ef yn cynnwys graddfa'r gwahaniad a'r pellter ffisegol o'r atyniad. Bydd effaith weledol a dirweddol y datblygiad arfaethedig a'r gallu i integreiddio'r datblygiad yn y dirwedd a'r drefwedd hefyd yn ystyriaethau pwysig wrth asesu addasrwydd y datblygiad arfaethedig.

DRAFFT TERFYNOL

## 9.0 Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
✉ Llawr Cyntaf,
Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor,
Ffordd Gwynedd,
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT
☎ 01286 685003
💻 polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd.aspx

Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd,
✉ Swyddfeydd y Cyngor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA
☎ 01766 771000
💻 cynllunio@gwynedd.llyw.cymru

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Cynllunio/Cynllunio.aspx

Gwasanaeth Cynllunio Ynys Môn
✉ Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
☎ 01286 752428
💻 planning@anglesey.gov.uk

http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/rheoli-cynllunio?redirect=false

DRAFFT TERFYNOL

## Atodiad 1 – Polisïau CDLl ar y Cyd Perthnasol12[12]

### POLISI STRATEGOL PS 1: YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Caiff hyn ei gyflawni trwy:

1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:
    a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu
    b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1 - TAI 6; neu
    c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap du mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill.
2. Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu;
3. Wrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol;
4. Gofyn am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes;
5. Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.

### POLISI STRATEGOL PS 5: DATBLYGU CYNALIADWY

Cefnogir datblygiadau ble gellid dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.
Dylai bob cynnig:

1. Lliniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny sy'n anochel yn unol â Pholisi Strategol PS 6;
2. Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen, lle bynnag bo hynny'n bosib, oddi mewn i ffiniau datblygu'r Ganolfan Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y mannau mwyaf priodol y tu allan iddynt yn unol â Pholisi Strategol PS 17, PS 13 a PS 14;
3. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau

12 www.gwynedd.gov.uk/ldp

DRAFT TERFYNOL

diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol a dewis o ddulliau teithio;

4. Gwarchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1;
5. Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r ddealltwriaeth ohonynt, y gwerthfawrogiad ohonynt am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt yn unol â Pholisi Strategol PS 20;
6. Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS 19;
7. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd;
8. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy a dilyn amcanion Cynllun Rheoli Bas Afonydd Gorllewin Cymru.

Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd:

9. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai yn unol â Pholisi Strategol PS 16;
10. Hyrwyddo economi leol amrywiol ac ymatebol, sy'n annog buddsoddiad ac sy'n gallu cynnal Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig yn unol â Pholisi Strategol PS 13;
11. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS 13;
12. Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4;
13. Hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol, mannau hygyrch sy'n medru ymateb i ofynion y dyfodol ac sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofni trosedd yn unol â Pholisi Manwl PCYFF 3.

**POLISI PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU**

Rhaid i gynnig ddangos ei fod yn cydymffurfio gyda:

1. Holl bolisïau perthnasol yn y Cynllun;
2. Pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol;

Dylai cynigion:

3. Wneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is);
4. Ymgorffori gofod mwynderol ar gyfer ei feddianwyr presennol ac yn y dyfodol;

DRAFFT TERFYNOL

5. Gynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod adeiladu a chyfnod meddiannaeth;
6. Gynnwys, lle mae hynny’n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer trin a chael gwared â rhywogaethau ymwthiol yn effeithiol;

   Yn ychwanegol, gwrthodir cynigion os fyddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar:

7. Iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch;
8. Dir sydd wedi cael ei ddynodi ar gyfer datblygiadau eraill.

**POLISI PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE**

Bydd disgwyl i bob cynnig arddangos dyluniad o ansawdd uchel sy’n rhoi ystyriaeth lawn i gyd-destun
yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac sy’n cyfrannu at greu llefydd deniadol a chynaliadwy. Rhoddir cefnogaeth arbennig i ddyluniad arloesol sydd yn arddangos effeithlonrwydd ynni.

Caniateir cynigion, gan gynnwys estyniadau a newidiadau i adeiladau a strwythurau presennol dim ond os ellir cydymffurfio gyda’r meini prawf canlynol os ydynt yn berthnasol:

1. Eu bod yn ychwanegu at ac yn gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle, yr adeilad neu’r ardal o ran y gosodiad, yr ymddangosiad, y raddfa, yr uchder, y màs a’r driniaeth i’r drychiadau;
2. Eu bod yn parchu cyd-destun y safle a’i le yn y dirwedd leol, gan gynnwys ei effaith ar brif fynedfeydd Gwynedd neu Ynys Môn, ei effaith ar y strydwedd a'r dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol leol a'i fod yn ystyried topograffi'r safle yn ogystal â phrif nenlenni neu gefnau;
3. Eu bod yn defnyddio deunyddiau sy’n briodol i’r hyn sydd o’u hamgylch ac yn ymgorffori tirlunio meddal a chaled a sgrinio pan fo hynny'n briodol, yn unol â Pholisi PCYFF 4;
4. Eu bod yn cyflawni ac yn creu lleoedd diogel a lleoedd cyhoeddus sy'n ddeniadol ac yn ystyried egwyddorion 'Diogelu trwy Ddylunio' (gan gynnwys, pan fo hynny'n briodol, goruchwyliaeth naturiol, gweleddedd, amgylcheddau wedi'u goleuo’n dda ac ardaloedd o symudiadau cyhoeddus);
5. Eu bod yn chwarae rôl lawn wrth gyflawni a gwella rhwydwaith cludiant a chyfathrebu diogel ac integredig gan hyrwyddo buddion cerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus a sicrhau cysylltiadau gyda’r gymuned sy’n bodoli o’i amgylch;
6. Bod eu systemau draenio wedi’u dylunio i gyfyngu rhediad dŵr wyneb a pherygl risg llifogydd ac atal llygredd;
7. Bod gosodiad a dyluniad y datblygiad yn cyflawni dyluniad cynhwysol drwy sicrhau amgylcheddau lle nad oes rhwystrau; sy'n galluogi mynediad i bawb ac sy’n cynnig darpariaeth lawn i bobl ag anableddau;
8. Eu bod yn cynnwys isadeiledd ar gyfer telegyfathrebu a gwybodaeth gyfoes, os yw hynny’n ymarferol;

DRAFFT TERFYNOL

9. Eu bod yn annog i wyneb datblygiadau ar lefel daear fod yn rhai bywiog os nad ydynt yn
ddatblygiad preswyl;
10. Mae'n helpu creu amgylcheddau iach a bywiog, ac yn ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol.

**POLISI PCYFF 4: DYLUNIO A THIRWEDDU**

Dylai pob cynnig integreiddio gyda'r hyn sydd o'i gwmpas. Gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos (trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig) sut roddwyd ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio. Dylai'r cynllun tirlunio, lle'n berthnasol:

1. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig wedi rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Ardal Cymeriad Tirwedd neu'r Asesiad Ardal Cymeriad Morlin;
2. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu cyfuchlinau naturiol y dirwedd;
3. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu ac yn amddiffyn golygfeydd lleol a strategol;
4. Parchu, cadw ac ychwanegu at unrhyw nodweddion naturiol cadarnhaol sy'n bodoli, neu dirweddau neu unrhyw nodweddion eraill ar y safle;
5. Adnabod coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi i gael eu cadw;
6. Rhoi cyfiawnhad dros amgylchiadau lle nad oes modd osgoi tynnu / colli coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi gan gyflwyno manylion o'r hyn a roir yn eu lle;
7. Darparu manylion unrhyw dirweddu newydd arfaethedig yn ogystal â rhaglen o waith plannu graddol;
8. Dangos bod unrhyw blannu newydd arfaethedig yn cynnwys rhywogaethau planhigion a choed cynhenid lleol yn bennaf ac nad yw'n cynnwys unrhyw rywogaethau ymwthiol estron;
9. Sicrhau bod y detholiad o rywogaethau a lleoliad y plannu yn caniatáu i goed dyfu i'w huchder aeddfed heb beri niwed i adeiladau, gwasanaethau nac unrhyw blannu arall gerllaw; a
10. Darparu tirlunio ar wynebau hydraidd caled.

DRAFFT TERFYNOL

**POLISI ARNA 1: ARDAL RHEOLI NEWID ARFORDIROL**

Caiff Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA) ei hadnabod yn Atodiad 6.

<u>Datblygiad Preswyl newydd</u>

Gwrthodir cynigion am dai newydd, i ail-adeiladu tai, isrannu adeiladau presennol i ddefnydd preswyl neu drosi adeiladau presennol i ddefnydd preswyl yn yr ARhNA.

<u>Adleoli tai parhaol presennol yng nghefn gwlad</u>

Caniateir cynigion i adleoli tai parhaol sy'n bodoli yng nghefn gwlad ac sydd wedi'u lleoli yn yr ARhNA a ragwelir y byddant yn cael eu heffeithio gan erydu arfordirol a/ neu risg llifogydd os ellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:

1. Mae'r datblygiad yn golygu ail-adeiladu tŷ parhaol sy'n cael ei effeithio gan erydiad neu sydd dan fygythiad o erydiad a/ neu risg llifogydd o fewn 20 mlynedd o ddyddiad y cynnig; a
2. Mae'r tŷ sy'n cael ei adleoli wedi ei leoli pellter priodol i mewn i'r tir o ran yr ARhNA a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin, a lle byddo'n bosib mae mewn lleoliad sydd:
   i. yn achos tŷ amaethyddol, oddi mewn i ddaliad y fferm neu oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol; neu
   ii. oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol yn agos at y lleoliad lle'r oedd yr adeilad gwreiddiol;
3. Caiff y safle presennol ei glirio a'i wneud yn ddiogel; a
4. Ni ddylai'r cynnig beri unrhyw effaith andwyol ar y dirwedd, y strydwedd neu'r fioamrywiaeth yn yr ardal.

<u>Adeiladau Dibreswyl Newydd neu Bresennol</u>

5. Ni fydd adeiladau parhaol dibreswyl nad ydynt yn gysylltiedig â defnydd neu adeilad presennol yn cael eu caniatáu mewn ardaloedd yn yr ARhNA sydd wedi cael eu hadnabod fel ardaloedd mewn perygl o newid arfordirol yn ystod y cyfnod polisi dangosol cyntaf hyd at 2025.
6. Bydd cynigion am y mathau canlynol o ddatblygiad dibreswyl newydd yn cael eu caniatáu ar safleoedd o fewn yr ARhNA a ragwelir a fydd mewn perygl o newid arfordirol o fewn yr ail gyfnod polisi dangosol (2026 – 2055), yn ddarostyngedig i Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN15 neu Asesiad Sefydlogrwydd:
   i. datblygiad sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ardal arfordirol (e.e. cytiau traeth, caffis, ystafelloedd te, siopau, llety gwyliau ar osod am gyfnodau byr, safleoedd gwersylla, safleoedd carafanau teithiol, gweithgareddau hamdden), ac
   ii. yn darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r gymuned; a
   iii. lle ellir dangos na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo; ac
   iv. yn destun caniatâd cynllunio sydd naill ai'n cynnwys cyfyngiad amser, a / neu'n cyfyngu'r tymor, fel sy'n briodol.
7. Caniateir ailddatblygu neu estyniadau i eiddo dibreswyl presennol neu ddwysáu defnyddiau tir dibreswyl presennol yn yr ARhNA cyn belled ag y ceir Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN 15 neu Asesiad Sefydlogrwydd sy'n dangos na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo ac yn amodol ar ganiatâd cynllunio sydd â chyfyngiad amser (pan fo hynny'n briodol) a bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda TAN 15 yn ystod cyfnod ei ganiatâd.

<u>Estyniadau i Dai Presennol, Cyfleusterau neu Wasanaethau neu Isadeiledd Cymunedol</u>

Caniateir y mathau canlynol o ddatblygiad yn yr ARhNA, cyn belled ag y ceir Asesiad Canlyniadau
Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN 15 neu Asesiad Sefydlogrwydd:

8. Estyniadau preswyl cyfyngedig sy'n agos iawn at raddfa'r eiddo presennol ac felly nad ydynt yn peri cynnydd posib yn nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo;

DRAFFT TERFYNOL

9. Datblygiad atodol tu mewn i gwrtil tai presennol y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer;
10. Isadeiledd allweddol i'r gymuned, y mae'n rhaid ei leoli yn yr ARhNA i ddarparu'r budd a fwriedir i'r gymuned ehangach ac mae yna gynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol arno a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu;
11. Isadeiledd hanfodol e.e. ffyrdd, cyn belled â bod yna gynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol arno, ac na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfraddau newid arfordirol mewn llefydd eraill.

<u>Cynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu i amnewid rhai blaenorol</u>

Caniateir cynigion am gynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu gynlluniau sy'n amnewid hen
ddarpariaeth, dim ond os ellir dangos bod y gwaith yn gyson â'r dull rheoli ar gyfer y wyneb blaen a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, ac na fydd yna effaith andwyol faterol ar yr amgylchedd.

<u>Rheoli Datblygiad</u>

Bydd amodau cynllunio'n cael eu gosod neu caiff rhwymedigaeth gynllunio ei sicrhau pan fydd angen i: gyfyngu oes datblygiad neu ei gyfyngu i ddefnydd tymhorol; tynnu datblygiad sydd â chyfyngiad amser neu dai presennol pan ddaw eu defnydd i ben; adolygu caniatâd cynllunio perthnasol; rheoli meddiannaeth tŷ sy'n cael ei adleoli.

**POLISI TWR 1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR**

Cefnogir cynigion i ddatblygu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu i wella ac ehangu safon y cyfleusterau presennol cyn belled â'u bod tu mewn i'r ffin ddatblygu.

Pan nad oes cyfleoedd addas ar gael tu mewn i'r ffin ddatblygu, dim ond cynigion sy'n cynnwys yr hyn a ganlyn fydd yn cael eu caniatáu:

1. Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle addas a ddefnyddiwyd o'r blaen, neu
2. Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle sydd â chyswllt agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaeth bresennol, neu
3. Datblygu gweithgaredd sy'n gyfyngedig i leoliad penodol oherwydd ei ddefnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol neu ei agosatrwydd i'r atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef.

Bydd gofyn i'r holl gynigion gydymffurfio gyda'r holl feini prawf canlynol:

i. Mae graddfa, math a chymeriad y datblygiad arfaethedig yn addas i'w osodiad trefol/gwledig;
ii. Mae'r datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad;
iii. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cefnogi ac yn ehangu'r ystod o gyfleusterau yn ardal y Cynllun;
iv. Mae'r bwriad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth i ddangos y byddai yna gyfleoedd cyflogaeth leol.

DRAFFT TERFYNOL

Lle y bo'n briodol, gellir cael mynediad at y datblygiad trwy amryw o ddulliau teithio, yn enwedig dulliau teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.

**POLISI TWR 2: LLETY GWYLIAU**

Bydd cynigion ar gyfer:

1. Datblygu llety gwyliau parhaol newydd â gwasanaeth, neu rai hunanwasanaeth, neu
2. Trosi adeiladau presennol i lety o'r fath, neu
3. Ymestyn sefydliadau llety gwyliau sy'n bodoli,

yn cael eu caniatáu cyn belled â'u bod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, ac os gellir cwrdd gyda'r meini prawf canlynol i gyd:

i. Yn achos llety sy'n adeilad newydd, bod y datblygiad wedi ei leoli tu mewn i ffin ddatblygu, neu'n gwneud defnydd o safle addas a ddatblygwyd o'r blaen;
ii. Bod graddfa'r datblygiad arfaethedig yn briodol gan ystyried y safle, y lleoliad a/neu'r anheddiad dan sylw;
iii. Na fydd y bwriad yn arwain at golled yn y stoc tai parhaol;
iv. Nad yw'r datblygiad yn cael ei leoli mewn ardal sy'n ardal breswyl yn bennaf, neu'n peri niwed sylweddol i gymeriad preswyl ardal;
v. Nad yw'r datblygiad yn arwain at ormodedd o lety o'r fath yn yr ardal.

**POLISI TWR 3: SAFLEOEDD CARAFANAU SEFYDLOG A SIALÉ A LLETY GWERSYLLA AMGEN PARHAOL**

2. Gwrthodir cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau sefydlog newydd3[13] (h.y. carafán sengl neu ddwbl), safleoedd sialé4[14] gwyliau newydd neu lety gwersylla amgen parhaol yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn ac yn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mewn lleoliadau eraill caniateir safleoedd carafanau sefydlog, sialé neu lety gwersylla amgen parhaol, dim ond:

i. Ble gellir profi nad yw'n arwain at ormodedd o safleoedd carafanau sefydlog neu safleoedd sialé neu safleoedd llety gwersylla amgen parhaol yn yr ardal leol; a
ii. Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a'i fod wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu'r unedau yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; a
iii. Bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd.

DRAFFT TERFYNOL

*13 Fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960 (a addaswyd gan Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968).*

*14 Er diben y Cynllun hwn, caiff chalet gwyliau ei ddiffinio fel unrhyw strwythur neu adeilad addas y bwriedir ei ddefnyddio fel llety gwyliau, nad yw'n cael ei ddiffinio gan y diffiniad statudol o garafán, hynny yw: pan nad yw'n bosib cludo'r strwythur i'r safle mewn un darn, a/neu*

- *bod y strwythur/adeilad cyn ei roi at ei gilydd yn cynnwys mwy na dau ran; a/neu*
- *bod y strwythur yn cael ei osod ar sylfaen sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol, a/neu*
- *nad oes modd symud y strwythur oddi ar y safle mewn un darn, unwaith y mae wedi'i roi at ei gilydd*

2. Mewn amgylchiadau eithriadol caniateir cynigion a fyddai'n arwain at adleoli safle carafán statig neu siales presennol sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn neu Ardaloedd Tirwedd Arbennig sydd yn ffurfio rhan o'r Ardal Rheoli Newid yr Arfordir i safle arall ble fo bosib bodloni meini prawf 1. i - iii a phan fo'r safle newydd wedi cael ei leoli tu allan i'r Ardal Rheoli Newid yr Arfordir.

3. Oddi mewn i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd sefydlog a chalet sy'n bodoli eisoes trwy:
   i. estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/neu
   ii. ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg,

   yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio â'r meini prawf canlynol i gyd:

   **iii.** Nid yw'r gwelliannau yn cynyddu nifer y carafanau sefydlog neu'r unedau chalet ar y safle, oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y cynigion yn golygu ail-leoli parciau presennol sydd wedi eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol;
   **iv.** Bod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun i wella amrediad ac ansawdd llety a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ar y safle;
   **v.** O ran safleoedd sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal Rheoli Newid yr Arfordir, fod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun ehangach i wella diogelwch preswylwyr y carafanau neu breswylwyr y siales;
   **vi.** Bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig gwelliannau sylweddol a pharhaol i ddyluniad, gosodiad ac edrychiad y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch;
   **vii.** Ei fod yn addas yng nghyd-destun polisïau eraill yn y Cynllun.

4. Tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd carafanau sefydlog a chalet sy'n bodoli eisoes trwy:
   **i.** estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/neu
   **ii.** ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg, a/neu,
   **iii.** cynnydd bychan yn nifer yr unedau ar y safle,

   yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio â'r meini prawf canlynol i gyd:

   **iv.** Bod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun i wella amrediad ac ansawdd llety a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ar y safle;
   **v.** Bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig gwelliannau sylweddol a pharhaol i ddyluniad, gosodiad ac edrychiad y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch;
   **vi.** O ran safleoedd sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal Rheoli Newid yr Arfordir, fod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun ehangach i wella diogelwch preswylwyr y carafanau neu breswylwyr y siales;
   **vii.** Bod unrhyw gynnydd yn nifer yr unedau carfanau gwyliau sefydlog neu chalets gwyliau yn fach ac yn gydnaws â graddfa unrhyw welliannau i'r safle;
   **viii.** Ei fod yn addas yng nghyd-destun polisïau eraill yn y Cynllun.

**POLISI TWR 4: DEILIADAETH GWYLIAU**

DRAFFT TERFYNOL

Caniateir cynigion am carafanau sefydlog a siales neu gynigion i ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer safleoedd carafanau sefydlog a chalet presennol os gellir dangos bod y llety yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau yn unig ac nad yw'n dod yn brif neu unig gartref y deilydd.

Mewn achosion sy'n ymwneud ag ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer safleoedd carafanau sefydlog a chalet presennol, bydd angen sicrhau:

1. Bod y llety a'r safle yn addas i fyw ynddynt yn ystod y gaeaf;
2. Na fyddai'r tymor estynedig yn cynyddu canlyniadau llifogydd eithriadol;
3. Ni fydd ymestyn y tymor estynedig yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol.

**POLISI TAI 14: DEFNYDD PRESWYL O GARAFANAU**

**<u>Safleoedd carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol ar gyfer defnydd preswyl dros dro newydd</u>**

Fel eithriad i Bolisi Strategol PS 17 a Pholisi TAI 16, caniateir cynigion am safle newydd sy'n ymwneud â lleoli carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol er mwyn eu defnyddio i
ddibenion preswyl dros dro, os gellir cydymffurfio gyda'r holl feini prawf canlynol:

1. Mae'n cael ei leoli am gyfnod cyfyngedig o amser, ac mae ei angen i roi llety i weithwyr dros dro yn ystod adeiladu prosiect adeiladu penodol sydd wedi'i gymeradwyo; neu
2. Profwyd bod angen am garafán sengl neu ffurf arall o lety sydd ddim yn barhaol yn gysylltiedig gyda sefydlu mentr gwledig newydd, yn unol â pholisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol.

Yn achos senario 1 uchod:

i. bydd lleoli carafanau preswyl dros dro neu fathau eraill o lety nad ydynt yn rhai parhaol yn
destun yr un ystyriaethau lleoliadol fel a welir ym Mholisi TWR 3; a
ii. caiff y safle ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio i'r isafswm a hybu'r defnydd o ddulliau cludiant cynaliadwy i'r safle prosiect adeiladu sydd wedi'i gymeradwyo neu i'r cyfleuster parcio a theithio gaiff ei ddarparu gan hyrwyddwr y prosiect adeiladu; a
iii. gellir dangos bod y llety yn hwyluso cyflawni strategaeth llety gweithwyr adeiladu y prosiect adeiladu.

**<u>Safleoedd carafanau presennol neu fathau eraill o lety gwyliau nad ydynt yn barhaol</u>**

Caniateir cynigion sy'n ymuned â defnyddio carafanau gwyliau presennol neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol tu allan i'r cyfnod meddiannaeth arferol, neu ymestyn safleoedd presennol
i'w defnyddio er dibenion preswyl dros dro, os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:

3. Profwyd bod angen am lety preswyl dros dro mewn cysylltiad â phrosiect adeiladu sydd wedi'i gymeradwyo; a



DRAFFT TERFYNOL

4. Caiff y safle ei leoli er mwyn lleihau’r angen i deithio i'r isafswm a hybu'r defnydd o ddulliau cludiant cynaliadwy i'r safle prosiect adeiladu sydd wedi ei gymeradwyo neu i’r cyfleuster parcio a theithio gaiff ei ddarparu gan hyrwyddwr y prosiect adeiladu; a
5. Gellir dangos bod llety’r gweithwyr adeiladu yn hwyluso gallu cyflawni strategaeth llety gweithwyr adeiladu y prosiect adeiladu.
6. Gellir dangos na fuasai’r bwriad yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar y diwydiant twristiaeth;
7. Mae cynnig yn briodol wrth ei ystyried yn erbyn Polisi TWR 3.

**Mecanweithiau i reoli’r datblygiad**

Pan roddir caniatâd cynllunio, caiff amod cynllunio ei osod arno, neu sicrheir rhwymedigaeth, i
sicrhau bod:

8. Meddiannaeth y carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol wedi’i gyfyngu i bobl sy’n gallu arddangos yr angen hanfodol am y llety; a
9. Fod y caniatâd am gyfnod penodol yn unig, ac ar ôl i’r cyfnod pan fydd yr angen am y llety wedi dod i ben, bod y carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol yn cael eu tynnu oddi ar y safle a bod y tir yn cael ei adfer i’w gyflwr blaenorol o fewn cyfnod penodedig, neu bod lleiniau wedi’u gwasanaethu yn cael eu cadw er defnydd yn y dyfodol sy’n cydymffurfio â pholisi.

Yn achos carafanau preswyl dros dro sy’n cael eu cymeradwyo yn unol â’r Polisi hwn, bydd ceisiadau i adnewyddu caniatâd dros dro yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf uchod

**POLISI TWR 5: SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA A LLETY GWERSYLLA AMGEN DROS DRO**

Caniateir cynigion am safleoedd carafanau teithiol, gwersylla neu lety wersylla amgen dros dro,
estyniadau i safleoedd presennol neu leiniau ychwanegol os gellir cydymffurfio gyda’r meini prawf canlynol:

1. Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a’i fod wedi’i leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi’i guddio’n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu’r unedau teithiol yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw’n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd;
2. Yn osgoi gormodedd o ardaloedd o leiniau caled;
3. Mae ei gysylltiad ffisegol â’r ddaear yn gyfyngedig ac yn gallu cael ei symud oddi ar y safle
   yn y tymor caeedig;
4. Dylai unrhyw gyfleusterau atodol, os yw hynny’n bosib, gael eu lleoli mewn adeilad presennol neu fel estyniad i gyfleusterau presennol. Os nad oes adeiladau addas ar gael,
   rhaid dangos yn glir yr angen am gyfleusterau ychwanegol, a rhaid iddynt fod yn gymesur
   â graddfa’r datblygiad.
5. Bod y safle’n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu’n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd.

DRAFFT TERFYNOL


6. Mae meddiannaeth y datblygiad wedi'i gyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig.
7. Bod y safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion teithio'n unig a bod unrhyw unedau'n cael eu symud o'r safle yn y cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

DRAFFT TERFYNOL

# **Atodiad 2 - Enghraifft Ffeil Casglwyr LANDMAP** (paragraff 3.6.2)

## Visual and Sensory

| | |
|---|---|
| **Aspect Area Name** | **Holyhead Mountain** |
| **Aspect Area Classification** | **Upland/Hills, Lower Plateau & Scarp Slopes/Hillside & Scarp Slopes Moorland (Level 3)** |
| **Aspect Area Code** | **YNSMNVS001** |
| **Date Of Survey : 25/01/2007** | |




Crown Copyright. All rights reserved CCW 100018813 2005

## Description

| | |
|---|---|
| **Physical Form And Elements: Topographic Form?** | High Hills/Mountains |
| **Physical Form And Elements: Landcover Pattern?** | Open Land |
| **Aesthetic Qualities: Scale?** | Vast |
| **Aesthetic Qualities: Sense of Enclosure?** | Exposed |
| **Aesthetic Qualities: Diversity?** | Simple |
| **Aesthetic Qualities: Texture?** | Rock Exposure |
| **Aesthetic Qualities: Lines?** | Angular |
| **Aesthetic Qualities: Colour?** | Moderate Contrasts |
| **Aesthetic Qualities: Balance?** | Harmonious |
| **Aesthetic Qualities: Unity?** | Unity |
| **Aesthetic Qualities: Pattern?** | Random |
| **Aesthetic Qualities: Seasonal Interest?** | Summer (Heather & gorse) |
| **Other Factors: Level of Human Access?** | Occasional |
| **Other Factors: Night Time Light Pollution?** | Negligible (Few buildings) |
| **Other Factors: Use of Construction Materials?** | Appropriate |
| **What materials? Give Details:** | Local stone |
| **There are attractive views...** | ...both in and out (In from coastal path, Holyhead, much of Holy Island & n-w Anglesey. Out across sea to Lleyn, Anglesey coast, Isle of Man, Ireland, Lake District, etc.) |
| **There are detractive views...** | ...neither in or out (No major detractors in view) |
| **Perceptual and Other Sensory Qualities** | Attractive<br>Tranquil<br>Exposed<br>Threatening<br>Remote<br>Wild<br>Spiritual<br>Smell |
| **What is the sense of place/local distinctiveness** | Strong (Unique location overlooking Anglesey & sea. Wildest part of Anglesey, but close to Holyhead.) |

## Evaluation

| | |
|---|---|
| **Value:** | Outstanding (Isolated wild mountain rising from sea, unspoilt, distinct landmark, fine views) |
| **Condition:** | Good (Mainly managed for wildlife) |
| **Trend:** | Constant (No change anticipated) |

## Recommendations

| | |
|---|---|
| **Define the key qualities that should be conserved:** | wildness, remoteness |
| **Define the key qualities that should be enhanced:** | |
| **Define the key qualities that should be changed:** | |
| **Define the key elements that should be conserved:** | Upland moor habitats. Prehistoric & recent historic remains. Footpaths. |
| **Define the key elements that should be enhanced:** | Footpaths |
| **Define the key elements that should be changed:** | |
| **Principal management recommendation:** | Continue management with limited public access and interpretation, plus natural & historic conservation. |

## Tolerance To Change

| | |
|---|---|
| **Are there any significant threats to the current integrity and condition of the visual & sensory features of the area?** | Not known |

## Aspect Area Boundary

| | |
|---|---|
| **To what level was this information site-surveyed?** | Level 3 |
| **At 1:10,000, how much of the Aspect Area boundary is precise?** | Most (Mainly follows walls) |
| **What baseline information source was used for Aspect Area boundary mapping?** | OS Raster |
| **If OS Data was used, what was the scale?** | 1:25,000 |
| **What is the justification for the Aspect Area boundaries?** | Boundary with fields to south. Break in slope with cliffs to seaward sides. |

## Bibliography

| | |
|---|---|
| **List the key sources used for this assessment** | "Mon Mam Cymru - The Guide to Anglesey" by P. Steele & R. Williams 2006 |

## Assessment

| | |
|---|---|
| **Additional Assessments** | |
| **Additional Comments** | |
| Evaluation Matrix | |
| **Evaluation Criteria: Overall Evaluation** | Outstanding (Isolated wild mountain rising from sea, unspoilt, distinct landmark, fine views) |
| **Justification of overall evaluation** | mainly outstanding |
| **Evaluation Criteria: Scenic quality** | Outstanding (Isolated wild craggy mountain adjacent to coast. Fine panoramic views.) |
| **Evaluation Criteria: Integrity** | High (No major intrusive development, but masts, former quarries, etc.) |
| **Evaluation Criteria: Character** | Outstanding (Very distinctive landmark.) |
| **Evaluation Criteria: Rarity** | Outstanding (Only high hill on Anglesey. Isolated, unlike most mountains in Wales.) |
| Description | |
| **Summary Description** | On the north-west end of Holy Island, this is the highest hill on Anglesey, at 220m, rising steeply from the sea. It has a distinctive rounded profile seen from many parts of western Anglesey and as a landmark on approaching Holyhead from Ireland. Most of the mountain is open rocky moorland, with wildlife and historic interest. At the base of the eastern slopes is the Breakwater Quarry, now a country park, and Gorlan, its associated quarry village with scattered houses and smallholdings. Considering its close proximity to Holyhead there is surprisingly little access, making it feel remote. There are fine panoramic views across Anglesey and the sea to Lleyn peninsula and Snowdonia in the distance. On a clear day the Lake District, Isle of Mann and Ireland can also be seen. |
| **Physical form and elements: Settlement pattern** | Linear |
| **Physical form and elements: Boundary type** | Stone Walls |
| Recommendations | |
| **Existing management** | Generally Appropriate |
| **Existing management remarks:** | Open access & country park. |
| Monitoring | |
| **Has the information ever been verified in the field?** | Yes (1:25000) |
| **Does this area have a special or functional link with an adjacent area?** | Yes (South Stack/North Stack cliffs (055). Backdrop to Holyhead (058)) |
| **During which season(s) was fieldwork carried out?** | Late Summer |
| **Date of monitoring?** | 2015-02-06 |
| **Monitoring undertaken by** | Stages 1, 2 and 3 change detection, field verification and amendment completed by Bronwen Thomas, in conjunction with the planning authority.Quality Assurance completed by White Consultants. |
| **Has this record been updated following monitoring work?** | This record remains unchanged following monitoring work |
| **Change indicated by** | |

## **Atodiad 3 - Mapiau Sensitifrwydd a Chapasiti** (paragraff 5.3.3)

### Teipoleg Datblygiadau

| Teipoleg Safle | Meini Prawf Dangosol |
|---|---|
| Bychan Iawn | Hyd at 10 o unedau (llai na 1 hectar fel arfer) |
| Bychan | 11-25 o unedau (llai na 2 hectar fel arfer) |
| Canolig | 26 - 75 (llai na 10 hectar fel arfer) |
| Mawr | 76 - 200 (llai na 15 hectar fel arfer) |
| Mawr Iawn | Dros 200 o unedau (dros 15 hectar fel arfer) |

### Lefelau Sensitifrwydd

| Sensitifrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Uchel iawn | Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn hynod sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu. |
| Uchel | Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn hynod sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu. |
| Canolig-Uchel | Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu. |
| Canolig | Mae rhai o nodweddion allweddol y dirwedd yn sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu. |
| Isel-Canolig | Ychydig o nodweddion allweddol y dirwedd sy'n sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu. |
| Isel | Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn gadarn ac yn llai tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan fath a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu. |

DRAFFT TERFYNOL

### Capasiti o fewn pob ACD

| ACD | Capasiti Cyffredinol Dangosol | Sensitifrwydd |
|---|---|---|
| **Gwynedd** | | |
| G01 | **Fel arfer, nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé** ym mhob ardal sy'n cyfrannu at osodiad y Parc Cenedlaethol . Fodd bynnag, y tu allan i'r ardaloedd hyn, **efallai bod yna beth capasiti am ddatblygiadau bychan iawn i fychan,** sydd wedi'u dylunio a'u lleoli'n dda ar gyfer parciau carafanau sefydlog / sialé. | |
| G02 | Fel arfer o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod **peth capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol. | |
| G03 | **Fel arfer** o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod peth **capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac** | |

| ACD | Capasiti Cyffredinol Dangosol | Sensitifrwydd |
|---|---|---|
| | **wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol. | |
| G04 | **Fel arfer** o fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol a STB), **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod **peth capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol. | |
| G05 | Fel arfer o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod **peth capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol. | |
| G06 | Fel arfer, **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé** (ac eithrio datblygiadau anaml, ar raddfa fechan iawn a ddylai berthnasu'n dda â'r anheddiad/adeiladau presennol). | |
| G07 | Yn sgil nifer sylweddol y parciau carafanau sefydlog / sialé, mae **capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé.** | |
| G08 | O fewn yr ardaloedd sy'n cyfrannu at osodiad yr ATA a'r Parc Cenedlaethol, fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau statig / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/gorchudd tir trefol cyfredol.<br><br>Ym mhob achos, **dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu, a'r lle o'i amgylch** ac fe ddylai gael ei wahanu'n glir fel bod eu heffeithiau yn parhau'n lleol ac nad oes dylanwad cyfunol / cronnus diffiniedig ar y dirwedd. | |
| G09 | Yn sgil nifer sylweddol y parciau carafanau sefydlog / sialé, ar y cyd â'r sensitifrwydd uwch cyffredinol, **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.** | |
| G10 | Fel arfer o fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), **nid oes capasiti fel arfer ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/gorchudd tir trefol cyfredol. | |

DRAFFT TERFYNOL


| ACD | Capasiti Cyffredinol Dangosol | Sensitifrwydd |
|---|---|---|
| | Ym mhob achos, **dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu a'r lle o'i amgylch** a dylai gael ei wahanu'n glir fel bod eu heffaith yn parhau'n lleol ac nad oes dylanwad cyfunol/cronnus diffiniedig ar y dirwedd. | |
| G11 | O fewn ardaloedd sy'n cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol (CDLlE), fel arfer **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/gorchudd tir trefol cyfredol. | |
| G12 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé** drwy lawer o'r ACD hwn, er bod capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé bychan iawn i fychan, sydd wedi'u dylunio a'u gosod yn dda i'r de / de-ddwyrain o'r ACD. | |
| G13 | Yn sgil y nifer sylweddol o barciau carafanau sefydlog / sialé, fel arfer mae **capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé**. | |
| G14 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé** (ac eithrio datblygiadau bychan iawn anaml sydd wedi'u gosod yn sensitif a'u dylunio'n dda, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/trefol presennol). | |
| G15 | Yn sgil y niferoedd sylweddol o barciau carafanau sefydlog / sialé, fel arfer mae **capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé**. | |
| G16 | Fel arfer o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol, STB a'r AHNE), **nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fechan sydd wedi gosod yn sensitif a'i ddylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol. | |
| **Ynys Môn** | | |
| A01 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé** o fewn yr ACD hon. | |
| A02 | O fewn yr AHNE, ac ardaloedd sy'n cyfrannu at ei osodiad, fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r AHNE gall fod **capasiti cyfyngedig iawn am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog/sialé,** os yw'r rheini'n digwydd yn anaml iawn, ar raddfa fychan iawn, ac yn cael eu lleoli'n dda.<br><br>Ym mhob achos, **dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu, a'r lle o'i amgylch** a dylid eu gwahanu'n glir fel bod eu heffeithiau'n parhau'n lleol ac nid oes dylanwad cyfunol/cronnus diffiniedig ar y dirwedd. | |


| ACD | Capasiti Cyffredinol Dangosol | Sensitifrwydd |
|---|---|---|
| A03 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau neu estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé** o fewn yr ACD hon. | |
| A04 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau neu estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé** o fewn yr ACD hon. | |
| A05 | O fewn yr AHNE a'r AGD (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé**.<br><br>Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol. | |
| A06 | O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u dylunio'n dda**. | |
| A07 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé .** | |
| A08 | O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan**, yn enwedig pan allai'r rhain berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol. | |
| A09 | O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r AHNE, efallai y bydd **capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau ac estyniadau pellach ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n dda i barciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Ym mhob achos, **dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu, a'r lle o'i amgylch.** | |
| A10 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé** o fewn yr ACD hon. | |
| A11 | O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod **capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n dda.** | |
| A12 | O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.** | |


DRAFFT TERFYN


| ACD | Capasiti Cyffredinol Dangosol | Sensitifrwydd |
|---|---|---|
| | Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif** ac a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol. | |
| A13 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau neu estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé** o fewn yr ACD hon. | |
| A14 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.** | |
| A15 | **Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé** o fewn yr ACD hon. | |
| A16 | O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod **capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan**, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol. | |
| A17 | O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer **nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.**<br><br>Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod **peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan, ac/neu gapasiti cyfyngedig** am **ddatblygiadau ar raddfa fwy** sydd wedi'u dylunio'n dda a'u gosod yn sensitif, a ddylai ym mhob achos berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol. | |
| A18 | Er y gallai llai o sensitifrwydd i ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé awgrymu capasiti uwch yn yr AGD hon, gall fod **capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.** Mae hyn yn sgil maint cymharol fychan yr AGD ynghyd â swm y datblygiadau modern sydd yn dylanwadu'n barod ar y dirwedd (gan gynnwys Maes Awyr RAF y Fali a nifer o barciau carafanau sefydlog / sialé eraill ar raddfa fawr) **.** | |

DRAFFT TERFYNOL


Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd / Overall Sensitivity
Uchel Iawn / Very High
Uchel / High
Canolig Uchel / Medium High
Canolig / Medium
Isel Ganolig / Low Medium
1:185,000
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387
A01
A02
A03
A04
A05
A06
A07
A08
A09
A10
A11
A12
A13
A14
A15
A16
A17
A18
G01
G04
G16


Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd / Overall Sensitivity
Uchel Iawn / Very High
Uchel / High
Canolig Uchel / Medium High
Canolig / Medium
Isel Ganolig / Low Medium
A05
A09
A11
A12
A13
A14
G01
G02
G03
G04
G05
G06
G09
G10
G11
G16
CAERNARFON BAY/
BAE CAERNARFON
1:185,000
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387


Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd /
Overall Sensitivity
Uchel Iawn / Very High
Uchel / High
Canolig Uchel / Medium High
Canolig / Medium
Isel Ganolig / Low Medium
G07
G06
G08
G10
G16
G04
G05
G09
CAERNARFON BAY / BAE CAERNARFON
TREMADOC BAY / BAE TREMADOG
1:185,000
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387


G02
Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd /
Overall Sensitivity
Uchel Iawn / Very High
Uchel / High
Canolig Uchel / Medium High
Canolig / Medium
Isel Ganolig / Low Medium
G11
G09
G12
G13
G14
G15
1:250,000
© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

**Atodiad 4 Templed Cynllun Busnes** (paragraff 4.6.8)

| Enw'r Awdur (gan gynnwys ei gymhwyster perthnasol)<br>Enw'r Busnes |
|---|
| 1. Enw'r Busnes<br>Manylion Cyswllt y Busnes |
| 2. Crynodeb Gweithredol |
| (Awgrymir y dylech gwblhau'r adran hon ar ôl i chi gwblhau adrannau eraill y Cynllun Busnes). |
| 3. Cyflwyniad a Throsolwg o'r Busnes |
| (Darparwch ddisgrifiad cryno o'r busnes, pwy sy'n gysylltiedig ag ef, yr hyn yr ydych am ei gyflawni a sut y mesurir llwyddiant. Cofiwch gynnwys disgrifiad o'r math o lety y byddwch yn ei gynnig ac eglurwch p'un a oes gennych Bwynt Gwerthu Unigryw (USP)). |

DRAFFT TERFYNOL

| |
|---|
| 4. Y farchnad a chystadleuwyr - beth yw'r ddarpariaeth gyfredol? Beth yw'r galw? |
| (Rhowch drosolwg o'r farchnad y byddwch yn gweithio ynddi, gan gynnwys dadansoddiad o'ch cystadleuwyr, ac eglurwch sut byddwch yn cystadlu â hwy. Sut mae'r busnes yn berthnasol i strategaethau twristiaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol? Rhowch fanylion ynghylch eich marchnad darged, anghenion cwsmeriaid a'ch dull o fodloni'r anghenion hynny). |
| 5. Strategaeth Gwerthu a Marchnata |
| (Eglurwch eich strategaeth farchnata a beth sy'n eich gwneud chi'n arbennig. Pwy yw eich cwsmeriaid? A yw'r busnes yn debygol o greu cyfleoedd gwaith lleol a chyfrannu at yr economi leol? Cofiwch gynnwys eich strategaeth brisio a'ch rhagamcanion meddiannaeth am yr unedau gwyliau ynghyd ag unrhyw dystiolaeth gefnogi sy'n ymwneud â'r strategaeth farchnata). |
| 6. Gwybodaeth Ariannol |

DRAFFT TERFYNOL

| |
|---|
| (Dylid cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â swm yr ecwiti sydd ei angen er mwyn i'r busnes ddod yn weithredol h.y. beth yw cost yr adeiladu/trosi. Yn yr adran hon, dylid darparu gwybodaeth hefyd sy'n ymwneud â'r rhagolygon elw wythnosol/misol (gan gynnwys y gost am redeg gwasanaethau, yswiriant, cyflogau, ac ati, y busnes o ddydd i ddydd). Bydd yn arfer dda cynnwys nifer o ragamcanion, h.y. yn seiliedig ar gyfradd meddiannaeth o 25%, 50%, 75% a 100% a thros gyfnod o amser (awgrymir rhagolygon am gyfnod o 5 mlynedd neu hyd nes y daw'r busnes yn hyfyw yn fasnachol). |
| 7. Atodiadau |
| (Dylid darparu'r holl ddogfennau sy'n cefnogi'r Cynllun Busnes. Gallai hyn gynnwys, ymchwil i'r farchnad, llythyrau bwriad neu orchmynion penodol sy'n ymwneud â'r busnes, geirda, portffolio o fusnesau blaenorol, dogfennau cyfreithiol ac enghreifftiau o wybodaeth farchnata. Dylech sicrhau bod yr atodiadau wedi'u cyfeirnodi yn y cynllun busnes). |

DRAFFT TERFYNOL

## **Atodiad 5 - Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol** (rhan 5.4)

| | Ffiniau Polisi CRhT2 | | | Polisïau a Ffafrir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PDZ | MAN | PU | Enw'r Polisi | Sylwadau'r Polisi | 2025 | 2055 |
| 11 | 22 | PU11. 4 | Arfordir Ro Wen | Byddai hyn yn golygu adleoli perchnogion eiddo a busnesau o'r Friog | HTL | MR |
| | | PU11. 5 | Tafod Ro Wen | | MR | MR |
| | | PU11. 6 | Arglawdd y Friog | | HTL | MR |
| | 24 | PU11.15 | Gogledd y Bermo | Gallai hyn gynnwys adleoli eiddo | HTL | MR |
| 12 | 27 | PU12.10 | Pont Briwet a Cheunant Dwyryd | Cynnal y dollffordd a'r rheilffordd | NAI | NAI |
| | | PU12.11 | Aber Dwyryd Uchod | Rheoli amddiffynfeydd lleol i gynnal y priffyrdd | MR | NAI |
| | | PU12.12 | Pentir Penrhyndeudraeth | Efallai na fydd hyn yn rhwystro rheoli amddiffynfeydd lleol yn breifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol | NAI | NAI |
| | 28 | PU12.15 | Bae Samson | | NAI | NAI |
| | | PU12.16 | Morfa Bychan | Cynnal amddiffynfa dwyni naturiol gyda rheoli mynediad. Datblygu cynllun rheoli hirdymor ar gyfer addasu yn ardal y Parc Gwyliau ac efallai gofyniad i reoli perygl llifogydd i'r pentref yn y dyfodol. | MR | MR |
| | 29 | PU12.17 | Traethellau Cricieth | Ystyried y posibilrwydd o symud y rheilffordd | HTL | MR |
| | | PU12.19 | Pentir y Castell | | NAI | NAI |
| | 30 | PU12.21 | Y Dryll | | NAI | NAI |
| | | PU12.22 | Dwyfor | Ystyried yr effaith ar y rheilffordd | MR | NAI |
| | | PU12.23 | Clogwyni Glanllynnau | Cynnal amlygiad daearegol | NAI | NAI |
| | | PU12.24 | Afon Wen | Pryderon ynglŷn â chynaliadwyedd hirdymor.<br>Ystyried symud y rheilffordd tua'r tir. | HTL | MR |
| | | PU12.25 | Dwyrain Penychain | Efallai na fydd hyn yn rhwystro rheoli amddiffynfeydd lleol yn breifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol | NAI | NAI |
| 13 | 31 | PU13.1 | Penychain a rhan orllewinol y bae | | NAI | NAI |
| | | PU13.2 | Abererch | Yn amodol ar ystyriaeth genedlaethol o'r rheilffordd | HTL | MR |
| | | PU13.7 | Y Cwrs Golff | Astudiaeth fanwl i ganiatáu trawsnewidiad rhwng Traeth Crugan a Thraeth y De | HTL | MR |
| | | PU13.8 | Traeth Crugan | Bwriad i greu ceg aber newydd i Afon Penrhos a rheoli amddiffynfa newydd i graidd Pwllheli | HTL | MR |
| | | PU13.9 | Llanbedrog | Ni fyddai hyn yn rhwystro rheoli ardal y llithrfa'n lleol. | NAI | NAI |
| | 32 | PU13.10 | Mynydd Tir Cwmwd | | NAI | NAI |
| | | PU13.11 | Y Warren | Rheoli dilyniadol o'r draethlin yn cilio er mwyn cynnal y traeth | HTL | MR |

| | Ffiniau Polisi CRhT2 | | | Polisïau a Ffafrir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PDZ | MAN | PU | Enw'r Polisi | Sylwadau'r Polisi | 2025 | 2055 |
| | | PU13.12 | Abersoch | Ystyried agor Afon Soch i lifogydd llanwol a chynllunio defnydd o'r geg yn y dyfodol | HTL | MR |
| | | PU13.14 | Canol Borth Fawr | Cyfle i addasu | HTL | MR |
| | | PU13.15 | Machroes | Ni fydd hyn yn rhwystro rheoli'r ffordd yn lleol. | HTL | MR |
| | 33 | PU13.16 | Pentir Machroes | | NAI | NAI |
| | | PU13.17 | Ynysoedd Tudwal | | NAI | NAI |
| | | PU13.18 | Porth Ceiriad | | NAI | NAI |
| | | PU13.19 | Pentir Cilan | | NAI | NAI |
| 14 | 34 | PU14.1 | Gorllewin Mynydd Cilan | | NAI | NAI |
| | | PU14.2 | Dwyrain Porth Neigwl | Ailaddasu lleoli a rheoli'r twyni | NAI | NAI |
| | | PU14.3 | Canol Porth Neigwl | | NAI | NAI |
| | | PU14.4 | Gorllewin Porth Neigwl | Adlinio neu golli'r ffordd yn y dyfodol | NAI | NAI |
| | | PU14.5 | Rhiw | | NAI | NAI |
| | 35 | PU14.6 | Ysgo | | NAI | NAI |
| | 36 | PU14.7 | Dwyrain Aberdaron | Ystyried sut mae'r trawsnewid rhwng glan môr Pentref Aberdaron a'r uned hon i ganiatáu addasu. | NAI | NAI |
| | | PU14.8 | Pentref Aberdaron a'r llethr arfordirol. | Datblygu Adlunio Rheoledig mewn fframwaith ar gyfer datblygu'r pentref yn gynaliadwy. Rhoi sylw i faterion cludiant. | HTL | MR |
| | | PU14.9 | Uwchmynydd | | NAI | NAI |
| | 37 | PU14.10 | Ynys Enlli | Ystyried addasu'r lanfa | NAI | NAI |
| | 38 | PU14.11 | Gogledd-orllewin Llŷn | Ni fyddai rheoli lleol yn cael ei rwystro i ganiatáu addasu defnydd o fewn egwyddor o ganiatáu datblygiad naturiol yr arfordir. | NAI | NAI |
| 15 | 39 | PU15.1 | Carreg Ddu i Drwyn y Tal | Polisi trosfwaol i osod y gwaelodlin ar gyfer y parth. | NAI | NAI |
| | | PU15.2 | Porth Dinllaen, gan gynnwys Morfa Nefyn | Bydd hyn angen cynllunio manwl ar gyfer addasu ym Mhorth Dinllaen ac yn y fynedfa i Forfa Nefyn. | HTL | MR |
| | 40 | PU15.4 | Trwyn y Tal i Drwyn Maen Dylan | Polisi trosfwaol i osod y gwaelodlin ar gyfer y parth. | NAI | NAI |
| | | PU15.5 | Trefor | Byddai angen cynllun lleol manwl i gynnal gwerth mwynderol yr ardal. | MR | MR |
| | | PU15.6 | Aberdesach | Rheolaeth leol o'r estyllen ac allyriadau afon er mwyn cynnal amddiffynfa naturiol yr ardal. | MR | MR |
| 16 | 41 | PU16.1 | Pontllyfni | Ni fyddai hyn yn gwahardd cynnal amddiffynfa preifat yn ystod y cyfnod polisi cyntaf. Adolygu'r bygythiad llifogydd i'r briffordd a'r gwaith trin dŵr budr | NAI | NAI |
| | | PU16.2 | Pontllyfni i Ddinas Dinlle | Cynnal y cyflenwad gwaddod i'r gogledd | NAI | NAI |

| | Ffiniau Polisi CRhT2 | | | Polisïau a Ffafrir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PDZ | MAN | PU | Enw'r Polisi | Sylwadau'r Polisi | 2025 | 2055 |
| | | PU16.3 | Dinas Dinlle | Rheoli'r trobwynt rhwng Penrhyn Dinas Dinlle a'r arfordir agored gyda'r bwriad o reoli perygl llifogydd yn y pentref ar dir uwch. | HTL | MR |
| | | PU16.4 | Morfa Dinlle | Datblygu rheolaeth o i lan hunangynhaliol y twyni. Ni fyddai hyn yn benodol yn atal rhag rheoli'r cylch lleol yng Nghaer Belan yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. | MR | MR |
| | | PU16.5 | Y Foryd | Rheoli amddiffynfeydd rhag llifogydd i ddechrau gyda'r bwriad o ddychwelyd y bae i gyfundrefn sy'n gweithredu'n lleol. | HTL | MR |
| | | PU16.6 | Traeth Abermenai | Byddai hyn yn cynnwys archwilio mwy ar berygl llifogydd a allai fod yn Nwyran gyda'r bwriad o ddarparu amddiffynfa. | NAI | NAI |
| | | PU16.7 | Traethell Abermenai a Thraeth Llanddwyn | Dileu'r coedwigaeth er mwyn cael lled i'r arfordir addasu. | NAI | NAI |
| | 42 | PU16.8 | Coedwig Niwbwrch | Gwaredu coedwigaeth er mwyn cael digon o led ar gyfer addasu arfordirol. | NAI | NAI |
| | | PU16.10 | Clogwyni Bodowen | | NAI | NAI |
| | 43 | PU16.13 | Waterloo Port i Lan y Môr, Y Felinheli | Ni fyddai hyn yn rhwystro rheoli lleol trwy gyllid preifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. | NAI | NAI |
| | | PU16.15 | Glan-y-mor Lodge i'r Bont | | NAI | NAI |
| | | PU16.16 | O'r Bont i Barras | | NAI | NAI |
| | | PU16.17 | Barras i Dafarn y Forwyn | Bwriad i gynnal mynediad ond gydag angen i addasu i fwy o berygl llifogydd yn y dyfodol. | HTL | MR |
| | 44 | PU16.18 | Bae Llanfair | | NAI | NAI |
| | | PU16.20 | Pont Cadnant i Benrhyn Safnas | Ni fyddai hyn yn rhwystro gwaith preifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. | NAI | NAI |
| | | PU16.23 | Drumlin | | NAI | NAI |
| | | PU16.25 | Llanfaes i Benmon | Efallai y bydd angen symud y lôn | NAI | NAI |
| | 45 | PU16.26 | O'r Bont i'r Garth | | NAI | NAI |
| | | PU16.30 | Trwyn Penrhyn | | NAI | NAI |
| | 46 | PU16.31 | Afon Ogwen i Fadryn | | NAI | NAI |
| | | PU16.32 | Afon Aber | Addasu'r amddiffynfeydd i gynnal drifft gwaddod naturiol gyda bwriad hirdymor o warchod llwybr cludiant rhag llifogydd. | MR | MR |
| 17 | 47 | PU17.1 | Pentir Trwyn y Parc | | NAI | NAI |
| | | PU17.2 | Traeth mawr | Cynnal gweithrediad naturiol y gyfundrefn twyni a'r aber | NAI | NAI |
| | | PU17.3 | Aberffraw | Addasu'r ffordd a'r cei i gynnal gweithrediad naturiol yr aber | HTL | MR |

| | Ffiniau Polisi CRhT2 | | | Polisïau a Ffafrir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PDZ | MAN | PU | Enw'r Polisi | Sylwadau'r Polisi | 2025 | 2055 |
| | | PU17.4 | Clogwyni Aberffraw | Efallai na fydd hyn yn rhwystro rheolaeth briodol o'r ffordd ym Mhorth Trecastell | NAI | NAI |
| | 48 | PU17.5 | Porth Nobla i Rosneigr | Ni fyddai hyn yn rhwystro rheoli amddiffynfeydd yng Ngherrig Defaid yn y ddau gyfnod cyntaf. | MR | MR |
| | | PU17.8 | Traeth Crigyll a Thraeth Cymyran | Adleoli Cyfleusterau i RAF Valley | NAI | NAI |
| | 49 | PU17.9 | Polisi cyffredinol i'r De-orllewin | Caiff rheolaeth baeau lleol eu diffinio isod. | MR | MR |
| | | PU17.10 | Borthwen | Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat leol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. | MR | MR |
| | | PU17.14 | Arfordir Gogledd-orllewin | | NAI | NAI |
| | 50 | PU17.16 | Bae Penrhos | Archwilio tebygolrwydd perygl llifogydd | MR | MR |
| | | PU17.17 | Pentir Penrhos | Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat leol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. | NAI | NAI |
| | 51 | PU17.19 | Polisi cyffredinol i'r Môr Mewndirol | Amddiffynfa leol i gynnal Pontrhydybont ac amddiffynfa leol rhag llifogydd yn y gefnwlad | MR | MR |
| | 52 | PU17.21 | Newlands | Agwedd gydgysylltiedig at arafu erydiad | MR | MR |
| | | PU17.22 | Afon Alaw | Cynllunio hirdymor i leihau perygl llifogydd gweddilliol | MR | MR |
| | | PU17.23 | Traeth Gribin i Drwyn Cliperau | Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat leol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. | MR | MR |
| 18 | 53 | PU18.1 | Twyn Cliperau i Bentir Wylfa | Polisi trosfwaol ar gyfer ardal gyfan, gyda pholisi lleol isod | NAI | NAI |
| | | PU18.2 | Porth Tywynmawr | Addasiad lleol | NAI | NAI |
| | | PU18.3 | Porth Trefadog | Addasiad lleol | MR | NAI |
| | | PU18.4 | Porth Trwyn | | NAI | NAI |
| | | PU18.5 | Porth Swtan | | NAI | NAI |
| | | PU18.6 | Bae a Phentir Cemlyn | Angen datblygu cynllun rheoli manwl | MR | NAI |
| | 54 | PU18. 8 | Gorllewin Cemaes | | NAI | NAI |
| | | PU18.12 | Clogwyni Pig y Barcud | | NAI | NAI |
| | 55 | PU18.13 | Trwyn y Parc i Drwyn Cwmryd | Polisi trosfwaol ar gyfer ardal gyfan, gyda pholisi lleol isod | NAI | NAI |
| | | PU18.14 | Gwaith Brics Borth Wen | Archwilio'n gritigol yr angen i gynnal amddiffynfa i gefnogi nodwedd hanesyddol allweddol | MR | MR |
| | | PU18.16 | Trwyn Costog | Datblygu fframwaith cynllunio i leihau'r angen ar gyfer amddiffynfa | MR | MR |
| | | PU18.18 | Porth Elian | Symud y ffordd fel bo angen. | HTL | MR |
| | 56 | PU19.1 | Cyffredinol | Polisi trosfwaol ar gyfer ardal gyfan, gyda pholisi lleol isod | NAI | NAI |

| | Ffiniau Polisi CRhT2 | | | Polisïau a Ffafrir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PDZ | MAN | PU | Enw'r Polisi | Sylwadau'r Polisi | 2025 | 2055 |
| | | PU19.2 | Portobello | Rheoli preifat lleol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol. | MR | MR |
| | | PU19.3 | Traeth Dulas | Caniatáu datblygiad naturiol yr aber | NAI | NAI |
| | 57 | PU19.4 | Porth Lydan | Yn hollol benodol ni fyddai hyn yn rhwystro gwaith lleol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol | MR | MR |
| | | PU19.6 | Moelfre i Draeth Bychan | | NAI | NAI |
| | | PU19.7 | Canol Traeth Bychan | Rheoli lleol tuag at ganiatáu datblygiad naturiol y traeth | MR | NAI |
| | | PU19.8 | De Traeth Bychan | | NAI | NAI |
| | 58 | PU19.9 | Clogwyni Borth Wen | | NAI | NAI |
| | | PU19.11 | Trwyn Dwlban | | NAI | NAI |
| | | PU19.13 | Croesfryn | | NAI | NAI |
| | | PU19.14 | Afon Nodwydd | Datblygu cynllun rheoli lleol | MR | MR |
| | | PU19.15 | Traeth Llanddona | | NAI | NAI |
| | | PU19.16 | Clogwyni Traeth Penmon | | NAI | NAI |
| | | PU19.17 | Ynys Seiriol | | NAI | NAI |

Allwedd:

PDZ = Parthau Datblygu Polisi
MAN = Ardaloedd Rheoli
PU = Uned Polisi
HTL = Dal y Llinell
NAI = Dim Ymyriad Gweithredol
MR = Adlunio Rheoledig

DRAFFT TERF

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **9 Chwefror, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2020/21<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |

| |
|---|
| |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| **1. Cefndir**<br>1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:<br>i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith<br>ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.<br>**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**<br>• Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"<br>• Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol<br>• Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio<br>• Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith<br>• Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol<br>• Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith<br>• Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)<br>**2. Cyd-destun Lleol**<br>2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:<br>• Agweddau strategol<br>• Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny<br>• Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid<br>• Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio<br>• Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.<br>**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol. |

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**
Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2020/21 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| |
|---|
| lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2020/21 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → MEDI 2020 – EBRILL, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 28/01/21]**

### Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Medi, 2020 (14/09/20)** | **Medi, 2020 (21/09/20)** |
| Craffu Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 (yn cynnwys yr effaith ariannol) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Craffu Agweddau Partneriaethol: Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| **Medi, 2020 (22/09/20)** | |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 | |
| | |
| **Hydref, 2020 (20/10/20)** | **Hydref, 2020 (22/10/20)** |
| Strategaeth Ataliol Corfforaethol | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: Adroddiad Blynyddol 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Ffioedd Casglu Gwastraff Gwyrdd |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Tachwedd, 2020 (02/11/20) (Cyfarfod wedi'i ganslo)** | **Tachwedd, 2020 (10/11/20)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu ar y trefniadau llywodraethu |
| | Cytundeb Llywodraethu 2 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| | Cyllidebau Cyfun (Anableddau Dysgu) |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Tachwedd, 2020 (17/11/20) [Ch2]** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2020/21 | |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol: 2020/21 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | |
| | |
| **Rhagfyr, 2020 (10/12/2020)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | |
| **Rhagfyr, 2020 (17/12/2020)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir a Bodffordd) | |
| | |
| **Ionawr, 2021 – Diddymu** | **Ionawr, 2021 (19/01/21)- Diddymu** |
| | |
| **Chwefror, 2021 (16/02/21) [cyllideb 2021/22]** | **Chwefror, 2021 (09/02/21)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2021/22 | Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: cefnogi ysgolion yn ystod pandemig Covid 19 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Estyn: Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Canllaw Cynllunio Atodol- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Mawrth, 2021 (08/03/21)** | **Mawrth, 2021 (11/03/21)** |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai (i'w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2020/21 |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2020/21 | Newid Hinsawdd (eitem i'w chadarnhau) |
| Cwrs Golff Llangefni | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Ebrill, 2021 (12/04/21)** | **Ebrill, 2021 (14/04/21)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad: diweddariad |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu**

Drafft Diweddaraf

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - ardaloedd Llangefni/Amlwch**

**Ymateb y Cyngor i Covid-19 – materion dilyn i fyny ar gais y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (14/09/2020):**

- **Llesiant staff y Cyngor a chymunedau**
- **Monitro effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP)**

Draft Diweddaraf

This page is intentionally left blank